Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i lunio gan Paul Davies AC ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Datganiad ynghylch Cymhwysedd Deddfwriaethol

Yn fy marn i, byddai darpariaethau'r Bil Awtistiaeth (Cymru), a gyflwynwyd gennyf fi ar 13 Gorffennaf 2018, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Paul Davies AC

Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil.

Gorffennaf 2018

Cynnwys

Datganiad ynghylch Cymhwysedd Deddfwriaethol 1

Rhan 1: Cefndir a Diben y Bil 9

1. Rhagarweiniad 9

2. Pwerau deddfwriaethol 10

2. 1. Rhagarweiniad 10

2. 2. Cymalau cadw 10

2. 3. Awdurdodau Cyhoeddus Cymru 14

2. 4. Awdurdodaeth a Chydnawsedd 14

3. Y cyd-destun a'r angen cyffredinol am y Bil 15

4. Cefnogaeth i'r Bil a'r ymgynghoriad cyhoeddus 19

4. 1. Yr ymgynghoriad cyntaf: egwyddorion y Bil 19

Safbwyntiau ynghylch a oes angen Bil 20

Pa un a oes angen canllawiau 20

Safbwyntiau ynghylch ymgynghori ac adolygu'r strategaeth awtistiaeth 21

Safbwyntiau am ddiagnosis a'r profiad o gael diagnosis 21

Y farn am ddigonolrwydd y gwasanaethau presennol 22

Y farn am gasglu data 22

Y farn am hyfforddi staff 23

Cyflogaeth i bobl ag ASA 23

A oes angen diffiniad o awtistiaeth yn y Bil 24

Y farn ar gostau posibl y Bil 24

Canlyniadau negyddol / anfwriadol 26

Y modd y gwnaeth yr ymgynghoriad ddylanwadu ar ffurf y Bil 27

4. 2. Y Bil drafft (yr ail ymgynghoriad) 27

Y diffiniad o Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth a phŵer yn y Bil i ganiatáu i Weinidogion Cymru gynnwys anhwylderau niwroddatblygiadol eraill. 28

Yr amserlenni yn y Bil drafft ar gyfer y strategaeth, canllawiau a chychwyn 28
Yr amserlen ar gyfer y cyfnod rhwng atgyfeiriad a diagnosis 28
Yr amserlen ar gyfer cwblhau'r asesiad o anghenion 29
Rhestr enghreifftiol o weithwyr proffesiynol i wneud diagnosis 29
Casglu data 29
Ymgyrch i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o awtistiaeth 30
Rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau 30
Sylwadau eraill 30
Y modd y mae'r fersiwn derfynol o'r Bil yn wahanol i'r Bil drafft 31

5. Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud a pham 33

5. 1. Rhagarweiniad 33
5. 2. Diffinio Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth a phŵer i ragnodi cyflyrau niwroddatblygiadol eraill 33
5. 3. Cyrff perthnasol 35
5. 4. Y strategaeth awtistiaeth 35
Dyletswydd i gyhoeddi strategaeth awtistiaeth 35
Cynnwys y strategaeth awtistiaeth 38
Modelau arfer gorau 39
Llwybr clir a map o'r gwasanaethau 39
5. 5. Diagnosis o anhwylder sbectrwm awtistiaeth 40
Amserlenni ar gyfer asesiadau diagnostig 40
Asesiadau diagnostig amlddisgyblaethol 43
5. 6. Amserlenni ar gyfer asesu anghenion 44
5. 7. Hygyrchedd y gwasanaethau 44
5. 8. Y ddarpariaeth Gymraeg. 45
5. 9. Meini prawf mynediad amhriodol 46
5. 10. Pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion 47
5. 11. Hyfforddi staff 48

5. 12. Gwella ymwybyddiaeth 50
5. 13. Cymorth i deuluoedd a gofalwyr. 52
5. 14. Ymchwil, arloesedd a gwella gwasanaethau 52
5. 15. Seilwaith lleol 53
5. 16. Data ar anhwylder sbectrwm awtistiaeth 54
5. 17. Canllawiau ar weithredu a chyflenwi'r strategaeth awtistiaeth 56
6. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth 58
Rhan 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol 60
7. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol 61
7. 1. Yr opsiynau a ystyriwyd 63
8. Opsiwn 1: Parhau â chynlluniau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol 65
8. 1. Sylw cyffredinol ar amcangyfrif costau 69
8. 2. Diweddaru ac asesu'r strategaeth awtistiaeth bresennol 69
8. 3. Llunio Cod Ymarfer 71
8. 4. Costau presennol yr hyfforddiant 73
8. 5. Costau'r gwaith presennol o gasglu data ar Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth 77
8. 6. Costau cyffredinol mewn perthynas ag awtistiaeth 79
9. Opsiwn 2: Cyflwyno Bil 98
9. 1. Llunio strategaeth awtistiaeth 105
9. 2. Llunio canllawiau diwygiedig ar weithredu a chyflenwi'r strategaeth awtistiaeth 107
9. 3. Adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd y strategaeth awtistiaeth 109
9. 4. Dylunio pecynnau hyfforddi ac ymgyrch gwella ymwybyddiaeth am Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth 110
9. 5. Hyfforddiant ar Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth i weithwyr proffesiynol 111
9. 6. Y costau o gasglu a chyhoeddi data ar anhwylder sbectrwm awtistiaeth 122
Casglu data 122
Costau staff sy'n gysylltiedig â chasglu data 122

Costau parhaus i'r Bwrdd Iechyd Lleol sy'n cynnal y cronfeydd data 123
Y costau trosiannol ar gyfer y Byrddau Iechyd Lleol eraill 124
Costau parhaus i Fyrddau Iechyd Lleol ar gyfer staff meddygol sy'n mewnbynnu data 125
Cyhoeddi data 127
Amseroedd aros 128
Y cynnydd yn y galw am wasanaethau 139
9. 7. Manteision 146
9. 8. Canlyniadau anfwriadol 148
10. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb 151
10. 1. Rhagarweiniad 151
Enw'r ddeddfwriaeth 151
Dyddiad yr Asesiad o'r Effaith 151
Diben y Ddeddfwriaeth 151
Pwy sydd wedi cymryd rhan / â phwy yr ymgynghorwyd fel rhan o'r broses o ddatblygu'r asesiad hwn o'r effaith? 151
10. 2. Yr effeithiau ar gydraddoldeb a hawliau dynol 151
Oedran 152
Anabledd 153
Ailbennu rhywedd / hunaniaeth o ran rhywedd 155
Priodasau a phartneriaethau sifil 156
Beichiogrwydd, absenoldeb mamolaeth ac absenoldeb rhiant 156
Hil 156
Crefydd a chred neu ddi-gred 157
Rhyw 158
Cyfeiriadedd rhywiol 159
Monitro 159
Pobl sydd â chyfrifoldebau gofalu a phobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol. 160
Hawliau dynol 161

Crynodeb – Asesiad Hawliau Dynol ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ..174

10. 3. A yw'r ddeddfwriaeth hon yn gyfle i hybu cyfle cyfartal a meithrin cydberthnasau da rhwng grwpiau gwahanol o bobl? 175

10. 4. Casgliad 175

11. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant 176

11. 1. Rhagarweiniad 176

11. 2. Pwrpas y Bil a'i effaith ar blant 176

11. 3. Dadansoddi effaith y Bil ar blant a'u hawliau o dan y CCUHP 176

11. 4. Crynodeb o effaith y Bil ar hawliau plant 181

12. Yr Effaith ar y Gymraeg 183

13. Datblygu cynaliadwy 183

14. Iechyd a llesiant 184

14. 1. Effeithiau uniongyrchol ar iechyd, iechyd meddwl a llesiant 184

14. 2. Effeithiau ar amodau byw cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a allai effeithio'n anuniongyrchol ar iechyd 184

14. 3. Yr effaith ar allu unigolyn i wella ei iechyd a'i lesiant ei hun 185

14. 4. Y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol neu fynediad atynt185

14. 5. Yr effaith ar iechyd byd-eang 186

15. Yr effaith ar gymunedau gwledig 186

16. Yr effaith ar fusnesau bach a'r trydydd sector 186

17. Yr effaith ar breifatrwydd 187

18. Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol na ellir eu mesur yn ariannol 188

19. Asesiad o'r Effaith ar y System Gyfiawnder: Bil Awtistiaeth (Cymru) 189

19. 1. Diben y Bil 189

19. 2. Sut rydych chi'n disgwyl i ddarpariaethau perthnasol y ddeddfwriaeth (newydd) hon gael eu deddfu? 189

Rhan 3: NODIADAU ESBONIADOL 196

RHAGARWEINIAD 196
TROSOLWG O'R DDEDDF 196
CEFNDIR Y POLISI 196
CYMHWYSIAD A RHYCHWANT TIRIOGAETHOL 198
SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU 199
Adran 1 – Strategaeth awtistiaeth 199
Adran 2 – Cynnwys y strategaeth awtistiaeth 199
Adran 3 – Cyfuno asesiadau 200
Adran 4 – Canllawiau gan Weinidogion Cymru 200
Adran 5 – Cyrff perthnasol: cydymffurfio â'r strategaeth a'r canllawiau awtistiaeth 201
Adran 6 –Data ar anhwylder sbectrwm awtistiaeth 201
Adran 7 – Ymgyrch ymwybyddiaeth 202
Adran 8 – Dyletswydd i roi sylw i Egwyddorion a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig 202
Adran 9 – Dehongli 202
Adran 10 – Rheoliadau 203
Adran 11 – Dod i rym 203
Adran 12 – Enw byr 203
Atodiad: Mynegai o Ofynion y Rheolau Sefydlog 204

Rhan 1: Cefndir a Diben y Bil

1. Rhagarweiniad

1. Ar 28 Mawrth 2017 bu Paul Davies AC yn llwyddiannus yn y balot a gynhaliwyd o dan Reol Sefydlog 26.87 ar yr hawl i ofyn caniatâd i gyflwyno Bil Aelod. Ei gynnig oedd Bil a fyddai'n gwneud darpariaeth ar gyfer diwallu anghenion plant ac oedolion ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth (ASA) yng Nghymru gyda'r nod o ddiogelu a hyrwyddo eu hawliau, ac at ddibenion cysylltiedig.

2. Ar 14 Mehefin 2017 cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) y câi Paul Davies gyflwyno Bil cyn pen 13 mis i roi effaith i'r wybodaeth yr oedd wedi'i darparu cyn y balot.

3. Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i lunio ac wedi'i osod yn unol â Rheol Sefydlog 26.6. Mae'n nodi cefndir y darpariaethau a rhychwant y Bil.

4. Diben cyffredinol y Bil Awtistiaeth (Cymru) yw sicrhau y caiff anghenion plant ac oedolion ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth (ASA) yng Nghymru eu diwallu, a diogelu a hyrwyddo eu hawliau. Mae'r Bil yn cyflawni'r diben hwn fel a ganlyn:

1. Cyflwyno strategaeth ar gyfer diwallu anghenion plant ac oedolion yng Nghymru sydd â chyflyrau ASA, a fydd yn:
    - hyrwyddo'r arferion gorau wrth wneud diagnosis o ASA, ac asesu a chynllunio ar gyfer diwallu anghenion gofal;
    - sicrhau llwybr clir a chyson i wneud diagnosis o ASA mewn ardaloedd lleol;
    - sicrhau bod awdurdodau lleol a byrddau'r GIG yn cymryd y camau angenrheidiol fel bod plant ac oedolion ag ASA yn cael y diagnosis a'r cymorth amserol y mae arnynt eu hangen ar draws amryw wasanaethau;
    - cryfhau'r cymorth i deuluoedd a gofalwyr ac yn sicrhau bod eu dymuniadau, a dymuniadau pobl ag ASA, yn cael eu hystyried;

- hyrwyddo ymchwil, arloesedd a gwelliant mewn gwasanaethau ar gyfer ASA;
- sefydlu arferion i hwyluso'r gwaith o gasglu gwybodaeth ddibynadwy a pherthnasol am nifer y plant ac oedolion sydd â chyflyrau ASA, a'u hanghenion, fel y gall Gweinidogion Cymru, cyrff lleol a chyrff y GIG gynllunio yn unol â hynny;
- sicrhau bod staff allweddol sy'n gweithio gyda phobl ag ASA yn cael hyfforddiant priodol mewn ASA;
- adolygu'r strategaeth a'r canllawiau yn rheolaidd er mwyn sicrhau cynnydd.

2. Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r cyrff perthnasol ar weithredu'r strategaeth.

3. Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gasglu data addas i hwyluso gweithrediad y Bil.

4. Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgymryd ag ymgyrch i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anhwylder sbectrwm awtistiaeth.

2. Pwerau deddfwriaethol

2. 1. Rhagarweiniad

5. Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn darparu y caiff Aelodau Cynulliad unigol, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, pwyllgorau a Chomisiwn y Cynulliad, gyflwyno Biliau mewn meysydd lle mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol. Dim ond Llywodraeth Cymru gaiff gyflwyno Biliau ynghylch trethiant.

2. 2. Cymalau cadw

6. Mae adran 107 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i'r Cynulliad wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru, a elwir yn Ddeddfau'r Cynulliad. Mae adran 108A yn darparu nad yw Deddf Cynulliad yn gyfraith i'r graddau y mae unrhyw ddarpariaeth o'r Ddeddf y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

7. Erbyn hyn, y ffrâm ar gyfer cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yw'r model cadw pwerau. Ni ddylai unrhyw ddarpariaeth yn y Bil ymwneud â mater a gadwyd yn ôl a restrir yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru. Nid oes unrhyw faterion wedi'u cadw'n ôl sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol sy'n berthnasol i gynnwys y Bil hwn ac nid yw'r Bil yn addasu'r gyfraith sy'n ymwneud â mater a gadwyd yn ôl. Nid yw'r Bil yn gwneud darpariaethau gwaharddedig mewn perthynas â chyfraith breifat na chyfraith trosedd.

8. Wrth ddod i'r casgliad hwn, rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r cymalau cadw a ganlyn a bennir yn Atodlen 7A:

- Cymal cadw 140 – rheoleiddio'r proffesiynau iechyd;
- Cymal cadw 170 – diogelu data personol;
- Cymal cadw 187 – cyfle cyfartal.

9. **Cymal cadw 140 – rheoleiddio'r proffesiynau iechyd:** Caiff hyn ei ddiffinio yn Neddf Llywodraeth Cymru i gynnwys amryw broffesiynau gofal iechyd, ond mae gofal cymdeithasol a'r proffesiynau gwaith cymdeithasol wedi'u heithrio o'r cymal cadw. Diben cyffredinol y Bil yw gwneud darpariaeth ar gyfer diwallu anghenion plant ac oedolion ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth (ASA) yng Nghymru, a diogelu a hyrwyddo eu hawliau. I helpu i gyflawni'r diben cyffredinol hwn, diben y cyfeiriad at hyfforddiant yn adran 2(1)(q) yw gwella sgiliau perthnasol drwy sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael i weithwyr proffesiynol a staff eraill sy'n darparu gwasanaethau i bersonau ag ASA. Gallai'r cyfeiriad yn adran 2(1)(q) at hyfforddiant, o'i ddarllen â'r darpariaethau cydymffurfio yn adran 5, fod wedi arwain at rwymedigaethau hyfforddi a allai fod wedi dod o fewn cwmpas y cymal cadw hwn. Rhag mynd yn groes i'r cymal cadw, mae'r geiriau 'ond nid gorfodol' wedi'u cynnwys yn adran 2(1)(q).

10. Am y rhesymau hyn, nid yw diben y darpariaethau dan sylw yn ymwneud â chymal cadw 140, ac mae'n ganlyniad i ddiben cyffredinol y Bil, ac felly nid yw'n ymwneud â mater a gadwyd yn ôl at ddibenion adran 108A(2)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru. At hynny, nid yw'r darpariaethau dan sylw yn addasu'r gyfraith ar reoleiddio gweithwyr iechyd proffesiynol yn groes i baragraffau 1 a 2 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru.

11. **Cymal cadw 170 – diogelu data personol:** Nid oes unrhyw ddarpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â diwygio'r gyfraith ar ddiogelu data personol nac yn ceisio diwygio'r gyfraith honno, na rhoi hawliau ychwanegol mewn perthynas â diogelu

data personol. Diben cyffredinol y Bil yw gwneud darpariaeth ar gyfer diwallu anghenion plant ac oedolion ag ASA yng Nghymru, a diogelu a hyrwyddo eu hawliau. Er mwyn cyfrannu at gyflawni'r diben cyffredinol hwn, pwrpas y darpariaethau dan sylw yw sicrhau bod gan Weinidogion Cymru fynediad at ddata dienw i gefnogi eu swyddogaethau o dan y Bil, gan gynnwys cyflenwi'r strategaeth, ac i'r GIG allu casglu a chael mynediad at ddata perthnasol ar ASA. Effaith y darpariaethau hyn fydd gwella gallu Gweinidogion Cymru i ddarparu gwasanaethau ASA yng Nghymru drwy'r strategaeth a'r darpariaethau eraill o dan y Bil, gan arwain at welliant gwirioneddol ym mywydau pobl ag ASA trwy wella'r diagnosis o awtistiaeth, a'r driniaeth a'r gwasanaethau a gynigir ar ei gyfer. Nodwyd mewn amryw ffyrdd yn y Memorandwm Esboniadol hwn pam y mae'n ofynnol i'r GIG, fan lleiaf, gasglu'r setiau data a nodir ar wyneb y Bil. Yr effaith a fwriadwyd wrth gasglu data perthnasol a dibynadwy yw cynorthwyo'r GIG i ddarparu gwasanaethau ASA gwell yn uniongyrchol, a darparu data dienw i Weinidogion Cymru i'w cynorthwyo i gyflawni eu swyddogaethau o dan y Bil.

12. Pwrpas y ddarpariaeth yn adran 6 (a noder bod adran 2(1)(o) yn ddibynnol ar hyn) yw casglu data penodedig, a fydd yn cynnwys prosesu data personol, er mwyn cyflawni diben cyffredinol y Bil yn unig, sef cyflenwi strategaeth awtistiaeth ragnodedig a sicrhau'r gwelliant dilynol mewn gofal awtistiaeth o fewn y GIG ac yn gyffredinol yng Nghymru. Nid yw'r ddarpariaeth a'i heffaith yn mynd ymhellach na'r hyn sydd ei angen i gyflawni'i diben. Cafwyd cyngor arbenigol ar y categorïau angenrheidiol o ddata y mae, fan lleiaf, yn ofynnol eu cynnwys er mwyn sicrhau bod cyfyngiad ar y setiau data dibynadwy ac ar rannu data. Gwneir hyn drwy ei gwneud yn ofynnol i'r data fod yn ddienw.

13. Nod y ddarpariaeth yn adran 6 o'r Bil yw rhyngweithio â Deddf Diogelu Data 2018 mewn modd a ragwelwyd eisoes gan y Ddeddf honno, felly mae'r effaith ar 'ddiogelu data personol' yn ganlyniadol yn unig yn hyn o beth. At hynny, ac yn fwy ymarferol, *raison d'etre* Deddf Diogelu Data 2018 yw sefydlu cyfundrefn ar gyfer prosesu data personol. Byddai'n sefyllfa anghynaliadwy pe na allai deddfwriaeth ddefnyddio'r gyfundrefn hon i gyflawni diben penodol. Pe bai hynny'n wir, ni ellid fyth cynnwys unrhyw weithgareddau prosesu data mewn deddfwriaeth arall. Felly, mae'r ddarpariaeth casglu data yn y Bil yn ymwneud mewn ffordd ganlyniadol â sylwedd y Bil ac mae'r ddarpariaeth honno yn cyfyngu ei hun i weithredu o fewn y gyfundrefn a ragnodir gan Ddeddf Diogelu Data 2018.

14. Am y rhesymau hyn, nid yw diben y darpariaethau dan sylw yn ymwneud â chymal cadw 170, ac mae'n ganlyniad i ddiben cyffredinol y Bil, ac felly nid yw'n

ymwneud â mater a gadwyd yn ôl at ddibenion adran 108A(2)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru.

15. Yn olaf, nid yw'r darpariaethau dan sylw yn addasu'r gyfraith ar faterion a gadwyd yn ôl yn groes i baragraffau 1 a 2 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru. Nid ydynt yn ceisio gosod cyfundrefn newydd sy'n wahanol i'r hyn a nodir yn Neddf Diogelu Data 2018 neu'r GDPR – er enghraifft, nid oes angen iddynt rannu data personol mewn modd y tu allan i'r seiliau a ganiateir ac a bennir yn y deddfiadau hyn.

16. Cymal cadw 187 – cyfle cyfartal: Mae cyfle cyfartal wedi ei gadw yn gyffredinol, ond mae iddo nifer o eithriadau. Diben cyffredinol y Bil yw gwneud darpariaeth ar gyfer diwallu anghenion plant ac oedolion ag ASA yng Nghymru, a diogelu a hyrwyddo eu hawliau. Mae gan ddwy ddarpariaeth yn y Bil, adrannau 2(1)(f) ac 8, gysylltiad clir â chyfle cyfartal. Er mwyn helpu i gyflawni diben cyffredinol y Bil, diben y darpariaethau dan sylw yw ceisio annog cyfle cyfartal mewn ystyr eang. Gosod dyletswyddau yn unig y maent, a hynny er mwyn sicrhau bod y swyddogaethau perthnasol o dan y Bil yn cael eu cyflawni gan roi ystyriaeth briodol i'r angen i fodloni'r gofynion cyfle cyfartal. I'r graddau y mae'r diben hwn yn ymwneud â chyfle cyfartal, mae'r ddwy ddarpariaeth yn dod o fewn yr eithriadau i gymal cadw 187, ac maent yn ganlyniadol ar ddiben cyffredinol y Bil.

17. Effaith y darpariaethau fydd sicrhau nad yw personau yn cael eu hatal rhag cael mynediad at wasanaethau ASA oherwydd nodweddion gwarchodedig, megis anabledd, hil, ac ati, a nodweddion eraill ar wyneb y Bil. Er enghraifft, byddent yn mynd i'r afael â materion penodol, a amlygwyd yn yr ymgynghoriad, yn ymwneud â phroblemau diagnostig pobl â chyniferydd deallusrwydd (IQ) uchel/isel, neu lle maent yn cael gwasanaethau meddygol eraill. Hefyd, bydd y darpariaethau yn hyrwyddo cydraddoldeb o ran darparu gwasanaethau, megis tai.

18. Wrth gyflawni'r diben hwn, nid yw'r darpariaethau dan sylw yn addasu'r gyfraith bresennol ar gyfle cyfartal mewn unrhyw ffordd. Y cyfan a wnânt yw ei gwneud yn ofynnol bod trefniadau yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod y swyddogaethau'n cael eu cyflawni yn unol â'r gyfraith bresennol ar gydraddoldeb, fel Deddf Cydraddoldeb 2010.

19. Am y rhesymau hyn, mae diben y darpariaethau dan sylw yn dod o dan yr eithriadau i gymal cadw 187, ac mae'r darpariaethau yn ganlyniadol ar ddiben cyffredinol y Bil, ac felly nid ydynt yn ymwneud â mater a gadwyd yn ôl at ddibenion adran 108A(2)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru.

2. 3. Awdurdodau Cyhoeddus Cymru

20. Mae paragraffau 8 a 10 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru yn cyfyngu ar y pŵer i ddeddfu mewn perthynas ag awdurdodau cyhoeddus heblaw awdurdodau datganoledig Cymru. Mae Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG (a sefydlwyd o dan adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006) a byrddau iechyd lleol (a sefydlwyd o dan adran 11 o'r un Ddeddf) yng Nghymru wedi'u rhestru fel awdurdodau datganoledig yng Nghymru yn Atodlen 9A i Ddeddf Llywodraeth Cymru.

21. Nid yw awdurdodau iechyd arbennig a sefydlwyd o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 wedi'u rhestru yn Atodlen 9A, ac felly mae angen eu hystyried yn unigol ar sail y prawf mwy cyffredinol yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Mae Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG a Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn awdurdodau o'r math hwnnw, ond mae paragraffau 9 a 10 o Atodlen 7B yn eu heithrio'n benodol o'r cyfyngiadau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

22. Sefydlwyd Addysg a Gwella Iechyd Cymru gan Orchymyn Addysg a Gwella Iechyd (Sefydlu a Chyfansoddiad) 2017 a wnaed o dan adran 22 ar 11 Medi 2017 (hynny yw ar ôl i Ddeddf Cymru 2017 gael y Cydsyniad Brenhinol). Am y rheswm hwnnw nid yw wedi'i gynnwys yn Atodlen 9A, ond o ystyried ei gylch gorchwyl mae'n amlwg y byddai'r corff yn bodloni'r prawf ar gyfer awdurdodau datganoledig Cymru yn adran 157A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru.

23. Sefydlwyd Awdurdod Ymgyfreitha'r GIG gan Orchymyn Ymgyfreitha'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Sefydlu a Chyfansoddiad) 1995. Gwnaed y Gorchymyn o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977.

24. Ar ôl cydgrynhoi'r pwerau galluogi, mae'r Gorchymyn hwn yn effeithiol yn awr fel petai wedi'i wneud o dan adran 28 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 ac adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, yn rhinwedd Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006. Felly, byddai'n disgyn o fewn y disgrifiad o awdurdodau iechyd arbennig pe na byddai wedi cael ei eithrio'n benodol. Byddai angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i'w gynnwys.

2. 4. Awdurdodaeth a Chydnawsedd

25. Mae'r Bil yn ymwneud â phersonau yng Nghymru sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth. Nid yw ei statws cyfreithiol felly'n ymestyn y tu hwnt i

awdurdodaeth Cymru a Lloegr, ac nid yw'n gymwys heblaw mewn perthynas â Chymru [neu bobl yng Nghymru]. Nid yw Bil yn anghydnaws â Hawliau Confensiwn a warchodir gan y Ddeddf Hawliau Dynol, nac â chyfraith yr UE.

3. Y cyd-destun a'r angen cyffredinol am y Bil

26. Mae llawer o waith wedi ei wneud yn y blynyddoedd diwethaf i wella gwasanaethau i bobl sydd ag ASA, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Roedd Cynllun Gweithredu Strategol arloesol Llywodraeth Cymru ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, a gyhoeddwyd yn 2008, yn sicrhau bod seilwaith ar gyfer awtistiaeth ym mhob ardal awdurdod lleol, gyda chydlynwyr a strategaethau lleol, a chydlynydd cenedlaethol ar gyfer Cymru. Roedd yn gwella'r capasiti ar gyfer gwaith ymchwil, gan godi proffil ASA a sicrhau bod amrywiaeth o wybodaeth ac adnoddau o safon uchel ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol.

27. Serch hynny, mae pobl mewn rhai ardaloedd yn dal i gael anhawster i gael mynediad at asesiadau diagnostig. Gall cael diagnosis fod yn garreg filltir bwysig i bobl ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth a'u teuluoedd o ran eu helpu i ddeall y cyflwr ac o ran sicrhau mynediad at wasanaethau. Dywedodd saith deg y cant o ymatebwyr i arolwg a gynhaliwyd gan Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru yn 2015[1] eu bod yn teimlo rhyddhad o gael diagnosis.

28. Roedd Cynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn cydnabod bod angen gwasanaethau diagnostig gwell i blant ac oedolion sydd ag ASA. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu bod llwyddiant y Cynllun Gweithredu o ran gwella ymwybyddiaeth am ASA wedi arwain at gynnydd yn y galw am ddiagnosis a hefyd at gynnydd yn yr amseroedd aros i gael asesiad.[2]

29. Roedd y Cynllun Gweithredu Strategol yn cydnabod hefyd fod angen mynd ati i hyrwyddo'r arfer o gyflogi pobl sydd ag ASA a darparu cymorth cyflogaeth i unigolion. Hyd at fis Ebrill 2016, roedd Llysgennad Cyflogaeth Awtistiaeth ar gael i wella ymwybyddiaeth ac i ddarparu hyfforddiant ar awtistiaeth i gyflogwyr a darparwyr cymorth cyflogaeth. Serch hynny, mae'r cyfraddau cyflogaeth ymhlith

[1] Y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol *Act Now – An Autism Act for Wales Report*, 2016, t.5

[2] Llywodraeth Cymru, *Gwerthuso canlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig: Crynodeb Gweithredol*, 2016, t.2

pobl ifanc ag ASA yn parhau i fod yn llawer is na chyfraddau'r boblogaeth ehangach[3] ac mae angen gwneud rhagor o waith i fynd i'r afael â hyn.

30. Mae'n amlwg, felly, er bod y Cynllun Gweithredu Strategol wedi helpu i wella gwasanaethau mewn llawer o ardaloedd lleol a gwella ymwybyddiaeth o ASA, bod problemau'n parhau. Mae gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu Strategol, a gwaith grwpiau gorchwyl a gorffen awtistiaeth, wedi canfod bylchau parhaus yn y gwasanaethau, yn enwedig o ran diagnosis, y cyfnod pontio rhwng plentyndod a dod yn oedolyn, cymorth cyflogaeth, a mynediad at wybodaeth am wasanaethau.

31. Mae llawer o bobl sydd ag ASA, a'u teuluoedd, yn dal heb gael y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, a fyddai'n eu galluogi i ymdopi â'r heriau a ddaw yn sgil ASA ac i gyflawni eu potensial. Er bod arfer da a gwasanaethau ymatebol i'w cael mewn rhai ardaloedd, mae'r ddarpariaeth yn parhau'n anghyson ledled Cymru gan fod y strategaeth yn canolbwyntio ar y sefyllfa leol. At hynny, mae natur wirfoddol y seilwaith awtistiaeth lleol yn golygu bod y strategaeth yn fwy effeithiol mewn rhai ardaloedd nag eraill. Mae angen sicrhau bod anghenion pobl ag ASA yn cael eu diwallu gyda chymorth o safon uchel ble bynnag y maent yn byw.

32. Mae'r diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer 2016-20 yn nodi rhagor o ddiwygiadau, gan gynnwys gwelliannau i wasanaethau diagnostig ac amseroedd aros, datblygu gwasanaeth awtistiaeth integredig cenedlaethol, a mesurau i wella addysg a chyflogaeth i bobl sydd ag awtistiaeth. Mae'r datblygiadau ym maes cymorth addysg yn cynnwys Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Deddf ADY) a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2018.

33. Mae'r Ddeddf ADY yn darparu fframwaith statudol sengl ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysg ychwanegol (ADY), gan gynnwys ASA, tra byddant yn blant a hyd at 25 oed, pan fyddant mewn addysg bellach. Mae'r Ddeddf ADY yn cyflwyno Cynlluniau Datblygu Unigol statudol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY, gan ddisodli'r system bresennol sy'n seiliedig ar y term "anghenion addysgol arbennig" a Datganiadau. Nod y Ddeddf ADY yw gwella'r cydweithio rhwng byrddau iechyd/awdurdodau lleol a datblygu system decach, mwy tryloyw a llai gwrthwynebus o gymorth i blant a phobl ifanc sydd ag ADY.

---

[3] Llywodraeth Cymru, *Gwerthuso canlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig: Crynodeb Gweithredol*, 2016, t.3

34. Croesewir y gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn y blynyddoedd diwethaf, a nod y Bil Awtistiaeth (Cymru) yw ychwanegu at y mesurau hyn yn hytrach na'u disodli. Er nad yw'n ymwneud yn benodol â chymorth ASA mewn lleoliadau addysgol, byddai'r Bil Awtistiaeth (Cymru) yn ategu darpariaethau'r Ddeddf ADY. Byddai'r Bil Awtistiaeth (Cymru) yn cefnogi'r broses o weithredu'r Ddeddf ADY, er enghraifft, drwy sicrhau bod staff allweddol sy'n gweithio gyda phobl ag ASA, gan gynnwys athrawon, yn cael mynediad at hyfforddiant ASA priodol. Mae nifer sylweddol o staff sy'n gweithio gyda phobl ag ASA eisoes wedi cael hyfforddiant drwy fentrau a arweiniwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, byddai deddfwriaeth:

- o gymorth i hyrwyddo cysondeb o ran safon yr hyfforddiant ledled pob rhanbarth;
- yn darparu dull ar gyfer monitro'r gwaith o weithredu a chynnal safonau; ac
- yn sicrhau bod hyfforddiant o'r fath yn cael ei gynnig ar sail barhaus ac yn barhaol.

35. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn hyrwyddo asesiadau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar unigolion, ac mae'n cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi codau (a allai gynnwys cod mewn perthynas ag anghenion pobl ag ASA), sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Hyd yn hyn, nid oes cod o'r fath wedi'i gyhoeddi. At hynny, mae anghenion pobl ag ASA yn ymestyn y tu hwnt i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o'r fath. I'r gwrthwyneb, byddai'r Bil Awtistiaeth (Cymru) yn sicrhau bod byrddau ac awdurdodau lleol yn deall anghenion penodol plant ac oedolion sydd ag awtistiaeth ac yn darparu ystod holistaidd o wasanaethau i'w diwallu.

36. Un o swyddogaethau allweddol y Bil, felly, yw sicrhau darpariaeth gyson a pharhaus o'r holl wasanaethau ASA ledled Cymru er mwyn cyflawni'r diben craidd o sicrhau bod anghenion pobl ag ASA yn cael eu diwallu, a bod eu hawliau'n cael eu diogelu a'u hyrwyddo. Y tu hwnt i gyfnod y diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig 2016-20, nid oes sicrwydd y bydd gwasanaethau awtistiaeth yn parhau i gael eu blaenoriaethu. Mae deddfwriaeth ar waith yn Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r llywodraethau yno gyhoeddi strategaeth awtistiaeth ar gyfer oedolion a phlant.

Mae'r profiadau yno'n dangos bod angen deddfwriaeth i sicrhau na chollir y momentwm i wella.

37. Drwy greu gofyniad cyfreithiol i gyhoeddi strategaeth awtistiaeth, byddai'r Bil Awtistiaeth (Cymru) yn helpu i sicrhau rhywfaint o sefydlogrwydd a chynaliadwyedd mewn gwasanaethau gofal a chymorth i bobl ag ASA. Byddai'n sicrhau ffocws parhaus a phwrpasol ar anghenion pobl ag ASA, ni waeth beth fo'r hinsawdd ariannol neu wleidyddol. Yn y modd hwn byddai diben craidd y Bil yn cael ei wireddu, sef sicrhau y caiff anghenion plant ac oedolion ag ASA yng Nghymru eu diwallu, a diogelu a hyrwyddo eu hawliau.

4. Cefnogaeth i'r Bil a'r ymgynghoriad cyhoeddus

38. Cynhaliwyd dau ymgynghoriad fel rhan o ddatblygiad y Bil: ymgynghoriad ar egwyddorion y Bil ac yna ail ymgynghoriad ar destun Bil drafft.

39. Mae Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru wedi rhoi cyngor ac arbenigedd i gefnogi'r ymgyngoriadau a thrwy gyfnod datblygu'r Bil.

40. Yn ogystal, mae arbenigedd y Dr Dawn Wimpory, yr Athro Martin Knapp, yr Athro Tommy Mackay, a Valentina Lemmi wedi helpu i lywio cynnwys y Bil.

4. 1. Yr ymgynghoriad cyntaf: egwyddorion y Bil

41. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar egwyddorion y Bil arfaethedig rhwng 30 Awst a 20 Tachwedd 2017. Daeth wyth deg pump ymateb i law. Mae hyn yn cynrychioli mwy nag wyth deg pump o safbwyntiau unigol, gan fod rhai o'r wyth deg pump yn mynegi ymatebion grŵp neu ganlyniadau arolwg.

42. Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn am faterion allweddol a oedd yn ymwneud â'r gwasanaethau presennol, ac a allai deddfwriaeth fynd i'r afael â hwy.

43. Cafwyd ymatebion gan:

- unigolion ag ASA;
- teuluoedd a gofalwyr pobl ag ASA;
- sefydliadau, gan gynnwys byrddau iechyd, awdurdodau lleol a'u cyrff ambarél;
- cyrff proffesiynol;
- sefydliadau gwirfoddol (gan gynnwys nifer o grwpiau lleol);
- Comisiynydd Plant Cymru; a
- Chomisiynydd y Gymraeg.

44. Mae barn yr ymatebwyr ar faterion penodol ynghylch ASA a gwasanaethau i bobl ag ASA wedi'u hymgorffori yn adrannau perthnasol y Memorandwm

Esboniadol hwn yn adran 5 *Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud a pham*. Ceir crynodeb o'r pwyntiau allweddol a ddeilliodd o'r ymgynghoriad isod.

Safbwyntiau ynghylch a oes angen Bil

45. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr i'r ymgynghoriad a fynegodd farn yn cytuno bod angen Bil Awtistiaeth. Roedd cefnogaeth i gyflwyno Bil yn arbennig o gryf ymhlith y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau ASA, a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Roedd barn glir fod angen gwella gwasanaethau i bobl ag ASA, bod y gwasanaethau hynny'n amrywio ledled Cymru, ac y byddai deddfwriaeth yn help i wella pethau.

46. Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr (cyrff statudol a phroffesiynol yn bennaf) yn erbyn cyflwyno deddfwriaeth ac yn gwrthwynebu'r egwyddor o ganolbwyntio ar un cyflwr (gan y gallai hynny, yn eu barn hwy, fod ar draul pobl â chyflyrau eraill).

47. Yn gyffredinol, cytunodd yr ymatebwyr fod y blaenoriaethau ar gyfer gwella gwasanaethau ASA y cyfeiriwyd atynt yn yr ymgynghoriad yn adlewyrchu eu blaenoriaethau hwy eu hunain, yn enwedig materion a oedd yn ymwneud â diagnosis, IQ a throsglwyddo i wasanaethau oedolion.

48. Soniodd y Comisiynydd Plant am y dull gweithredu yn y Bil sy'n ymwneud â "phobl" (hynny yw, byddai'n gymwys i oedolion a phlant fel ei gilydd). Roedd hi'n awyddus i sicrhau bod y dull hwn o weithredu yn parhau ac na fyddai'r anghenion penodol a oedd gan blant yn mynd ar goll.

49. Pwysleisiodd Comisiynydd y Gymraeg y pwysigrwydd o gyfeirio at y Gymraeg ar wyneb y Bil fel y gallai'r canllawiau a'r is-ddeddfwriaeth ymhelaethu ar hynny. Dywedodd fod angen i wasanaethau ASA wneud "cynnig rhagweithiol" o wasanaethau Cymraeg.

Pa un a oes angen canllawiau

50. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a fynegodd farn ynghylch a ddylid llunio canllawiau statudol i ategu strategaeth awtistiaeth, yn cytuno fod hynny'n angenrheidiol. Roedd cytundeb cyffredinol hefyd fod y rhestr arfaethedig o ddyletswyddau i'w cynnwys yn y gofyniad ar ganllawiau statudol yn briodol.

51. Rhestrir y meysydd ar gyfer dyletswyddau sydd i'w cyflawni gan gyrff mewn perthynas â gwasanaethau ASA yn y Bil yn adran 2 *Cynnwys y strategaeth awtistiaeth*. Mae'r canllawiau sydd i'w dyroddi gan Weinidogion Cymru o dan

adran 4 yn cefnogi gweithrediad y strategaeth, ac mae adran 4 yn pennu rhai meysydd allweddol yn benodol, gan gynnwys mewn perthynas â darparu gwasanaethau diagnostig ac arweinyddiaeth yn achos gwasanaethau lleol. Barnwyd fod angen canllawiau gan Weinidogion Cymru ar y dyletswyddau hyn i sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol.

Safbwyntiau ynghylch ymgynghori ac adolygu'r strategaeth awtistiaeth

52. Cafwyd cefnogaeth gref i Lywodraeth Cymru gynnal ymgynghoriad ar ddatblygu, adolygu a diweddaru strategaeth awtistiaeth. Roedd yr ymatebion yn adlewyrchu safbwynt y dylid ymgynghori â phobl ag ASA a'u teuluoedd a'u gofalwyr ar y strategaeth ac y dylent ymwneud yn agos â'r gwaith o'i monitro.

53. Mynegodd yr ymatebwyr ystod o safbwyntiau ynghylch pa mor aml i adolygu'r strategaeth, ac roedd y mwyafrif yn awgrymu ei hadolygu bob tair neu bum mlynedd. Adlewyrchir hyn yn y Bil, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer adolygu'r strategaeth bob tair blynedd.

Safbwyntiau am ddiagnosis a'r profiad o gael diagnosis

54. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i gwestiynau ynghylch rhwyddineb mynediad yn ymwneud â'r anhawster o gael diagnosis. Cyfeiriwyd yn benodol at y pryder am amseroedd aros hir a disgrifiodd rhai ymatebwyr sut yr oeddent wedi aros blynyddoedd i gael diagnosis. Roedd rhai teuluoedd wedi talu i ymgynghorwyr preifat am gymorth i gael diagnosis.

55. Fodd bynnag, soniodd rhai am brofiadau cadarnhaol yn eu hardaloedd bwrdd iechyd hwy, ac roedd eraill o'r farn bod mynediad at ddiagnosis yn gwella wrth i ddiwygiadau ddechrau cael effaith. At ei gilydd, darlun o anghysondeb ledled Cymru sydd i'w weld yn yr ymatebion.

56. Soniwyd ei bod yn arbennig o anodd cael diagnosis i oedolion, yn enwedig ar gyfer unigolion heb fod ganddynt hefyd anabledd dysgu neu broblem iechyd meddwl.

57. Pan ofynnwyd iddynt beth yr hoffent weld y ddeddfwriaeth yn mynd i'r afael ag ef, yr hyn y cyfeiriodd yr ymatebwyr ato amlaf oedd yr angen am fynediad cyflymach at ddiagnosis, ac yna'r angen am lwybrau cliriach, tryloyw a chyson at ddiagnosis. Yn ogystal, soniwyd fod angen mwy o arbenigedd mewn diagnosis, a hynny gan arbenigwyr (yn hytrach na chan gynghorwyr iechyd meddwl, er enghraifft).

58. Roedd y materion eraill a godwyd mewn perthynas â diagnosis yn cynnwys yr angen am well cydweithrediad a chyfathrebu rhwng rhannau o'r GIG a chydag awdurdodau lleol. Barnwyd hefyd y dylid rhoi mwy o bwysau ar farn defnyddwyr / rhieni ac adborth ar y rhesymau dros y penderfyniadau a wnaed am y diagnosis.

59. Dywedodd rhai ymatebwyr fod angen mynd i'r afael â phrinder gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, yn enwedig mewn perthynas â seicoleg addysg. Cyfeiriodd Comisiynydd y Gymraeg at enghreifftiau o rwystrau at ddiagnosis yn Gymraeg.

60. Roedd cefnogaeth gref i'r gofyniad ar awdurdodau lleol a chyrff y GIG i gyhoeddi gwybodaeth am lwybrau diagnostig.

Y farn am ddigonolrwydd y gwasanaethau presennol

61. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn credu bod y gwasanaethau i bobl ag ASA yn annigonol. Cyfeiriodd rhai at y frwydr i gael mynediad at wasanaethau - iddynt hwy fel oedolion, neu i'w plant.

62. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod gwasanaethau i oedolion yn arbennig o wael, yn enwedig ar gyfer y rheini nad oes ganddynt anabledd dysgu na phroblem iechyd meddwl. Roedd canfyddiad bod y gwahaniaethau mewn gwasanaethau i blant ac oedolion yn golygu y gall y trosglwyddo i wasanaethau oedolion arwain at golli gwasanaethau.

63. Soniodd un ymateb i'r ymgynghoriad am arolwg gan Gronfa'r Teulu yn 2016 am bobl â phlant ag ASA. O'r 165 o bobl a soniodd am eu profiadau o gael mynediad at wasanaethau yn yr arolwg, roedd bron chwarter (23 y cant) yn cael anhawster rheolaidd gyda'r *holl* wasanaethau. Roedd y problemau'n cynnwys amseroedd aros hir, prinder gwasanaethau lleol a bod y gweithwyr proffesiynol yn newid yn aml. Roedd 16 y cant wedi cael problemau gyda *llawer* o'r gwasanaethau a gawsant.

Y farn am gasglu data

64. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad a fynegodd farn o blaid casglu gwell data am bobl ag ASA. Roedd gan nifer fechan bryderon ynghylch creu dyletswydd statudol, tra bod eraill yn pryderu na ddylai unrhyw ddyletswyddau newydd ddyblygu gwaith sydd eisoes ar y gweill i gasglu data.

65. Roedd rhai o'r rheini a oedd o blaid dyletswydd statudol wedi ychwanegu amodau ynglŷn â chael cydsyniad a bod yn ddienw. Roedd eraill yn pryderu y byddai casglu data am bobl â diagnosis yn eithrio'r rhai nad ydynt yn cwrdd â'r meini prawf, a'r rhai nad ydynt am gael diagnosis.

66. Gwnaed amrywiaeth eang o awgrymiadau ar gyfer dulliau addas o gasglu data, er na chafwyd consensws. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys: casglu gan y GIG (er enghraifft wrth i berson gael diagnosis neu wrth gael gwasanaethau); gan ysgolion; drwy gyfrwng cyfrifiadau; cofrestrau rhanbarthol; drwy arolygu cleifion meddygon teulu sy'n gofyn am ddiagnosis; a thrwy arolygon cyffredinol o bobl â diagnosis.

Y farn am hyfforddi staff

67. Denodd y mater o hyfforddi staff nifer fawr o sylwadau. Gofynnodd yr ymgynghoriad am safbwyntiau am gwmpas ac effeithiolrwydd hyfforddiant yng Nghymru ar hyn o bryd ar gyfer staff allweddol sy'n gweithio gyda phobl ag ASA. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod angen i'r hyfforddiant fod yn well, er bod rhai'n dweud ei fod wedi gwella, neu yn gwella.

68. Gofynnodd yr ymgynghoriad hefyd am farn ynghylch a ddylai deddfwriaeth nodi pa staff allweddol sy'n gweithio gyda phobl ag ASA ddylai gael hyfforddiant ASA, neu a ddylai'r ddeddfwriaeth bennu'r canlyniadau y dylid eu cyflawni drwy hyfforddiant.

69. O'r rhai a fynegodd farn, roedd mwy o gefnogaeth ar gyfer pennu mewn deddfwriaeth y canlyniadau y dylid eu cyflawni drwy hyfforddiant nag ar gyfer nodi pa staff allweddol sydd i gael hyfforddiant. Mae'r Bil yn darparu bod yn rhaid i'r strategaeth awtistiaeth wneud darpariaeth ar gyfer nodi gweithwyr proffesiynol allweddol a darparu hyfforddiant priodol iddynt er mwyn iddynt allu cefnogi pobl ag ASA yn effeithiol.

70. Dywedodd rhai ymatebwyr fod hyfforddiant da ar gael ond mai'r her yw dod o hyd i adnoddau i hyfforddi, rhyddhau staff, a gweithredu’r hyfforddiant. Roedd rhai o'r farn bod y deunyddiau hyfforddi ar www.ASDinfowales.co.uk yn ddefnyddiol.

Cyflogaeth i bobl ag ASA

71. Gofynnodd yr ymgynghoriad am awgrymiadau am gamau ychwanegol y gellid eu cymryd drwy ddeddfwriaeth i wella cyfraddau cyflogaeth pobl ag ASA.

Roedd yn cynnwys cyfeiriad at gyfyngiadau ar allu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu mewn perthynas â materion cyflogaeth.

72. Cafwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau ar sut i wella'r cyfraddau cyflogaeth ar gyfer pobl ag ASA, ond roedd rhai yn ymwneud â materion sydd heb eu datganoli. Fodd bynnag, gellid datblygu llawer o'r awgrymiadau hyn trwy wella'r ymwybyddiaeth o ASA ymysg cyflogwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n darparu hyfforddiant a chymorth sy'n ymwneud â chyflogaeth.

A oes angen diffiniad o awtistiaeth yn y Bil

73. Gofynnodd yr ymgynghoriad a ddylai diffiniad o ASA gael ei gynnwys ar wyneb y Bil, yn y strategaeth, yn y canllawiau, neu beidio â chael ei ddatgan o gwbl.

74. Nid oedd unrhyw gonsensws clir ynglŷn â lle y dylid rhoi diffiniad o ASA. Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig defnyddio diffiniad cydnabyddedig, a hefyd yr angen am hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer addasiadau yn y dyfodol.

75. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y dylid cynnwys diffiniad yn y ddeddfwriaeth ac roedd y lleiafrif nad oedd yn cefnogi hynny yn rhai nad oeddynt yn gyffredinol o blaid deddfwriaeth yn seiliedig ar ddiagnosis, gan gredu yn hytrach y dylai gael ei yrru gan anghenion yn hytrach na diagnosis.

76. Yn yr ail ymgynghoriad, ar Fil drafft, gofynnwyd am ragor o safbwyntiau am y diffiniad o ASA.

Y farn ar gostau posibl y Bil

77. Gofynnodd yr ymgynghoriad cyntaf hefyd am sylwadau ynghylch a allai'r elfennau a ganlyn yn y Bil arwain at gostau ychwanegol:

- llunio strategaeth awtistiaeth genedlaethol;
- gosod dyletswyddau ychwanegol ar awdurdodau lleol a chyrff y GIG i weithredu'n unol â chanllawiau;
- creu a chynnal arferion i hwyluso'r gwaith o gasglu data ar nifer ac anghenion yr oedolion a phlant sydd â chyflyrau ar y sbectrwm awtistiaeth; a
- hyfforddi staff allweddol.

78. Ychydig iawn o ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau hyn. Yn gyffredinol, credir bod y costau ychwanegol mwyaf yn debygol o godi yn sgil y brosesau casglu data a hyfforddi staff. Er bod rhai ymatebwyr o'r farn y byddai'r Bil yn cynhyrchu costau yn ychwanegol at y rhai y cyfeiriwyd atynt yn yr ymgynghoriad, nid oedd y rhan fwyaf wedi dweud ymhle y byddai'r fath gostau yn codi.

79. Roedd rhai ymatebwyr yn credu y byddai arbedion hirdymor a manteision cymdeithasol yn deillio o'r Bil, er enghraifft pe bai pobl ag ASA yn cael y gwasanaethau mwyaf priodol, amserol ac effeithiol. Roeddynt o'r farn y byddai hyn yn hybu llesiant ac yn lleihau'r angen am gymorth mwy dwys (ee ar gyfer problemau iechyd meddwl) yn ddiweddarach. Awgrymwyd hefyd y gallai'r Bil leihau'r angen am leoliadau arbenigol drud y tu allan i siroedd, helpu pobl i gael gwaith, a lleihau troseddu ac aildroseddu lle mae hyn yn broblem.

80. Roedd eraill yn amheus y byddai unrhyw arbedion yn deillio o ddeddfwriaeth newydd ac yn awgrymu yn lle hynny mai'r ffordd orau o arbed arian yw rhoi rhagor o gefnogaeth i'r diwygiadau presennol.

81. Gofynnodd yr ymgynghoriad hefyd pa ffactorau y dylid eu mesur wrth lunio'r dadansoddiad cost a budd ar gyfer y ddeddfwriaeth os daw'n gyfraith.

82. Awgrymwyd amrywiaeth eang o ffactorau y gellid eu mesur mewn dadansoddiad cost a budd. Roeddynt yn cynnwys:

- yr amserau aros ar gyfer diagnosis a gwasanaethau cymorth;
- ansawdd bywyd, llesiant a grymuso pobl ag ASA a'u rhieni a'u gofalwyr;
- y costau cymorth presennol ac effaith gymdeithasol cymorth gwael;
- cynnydd yn nifer y bobl ag ASA mewn cyflogaeth.

83. Awgrymodd yr ymatebwyr hefyd y dylid mesur unrhyw ostyngiad yn y canlynol:

- nifer y bobl ag ASA yn y system cyfiawnder troseddol;
- nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal ag ASA, lleoliadau y tu allan i siroedd; a
- chostau meddyginiaethau.

Canlyniadau negyddol / anfwriadol

84. Gwahoddodd yr ymgynghoriad yr ymatebwyr i nodi:

- unrhyw ganlyniadau negyddol neu anfwriadol i Fil Awtistiaeth (Cymru); ac
- unrhyw atebion i ganlyniadau o'r fath.

85. Dim ond un ar bymtheg o atebion a gafwyd ar y cwestiwn hwn, ac roedd y rhan fwyaf yn mynegi pryderon am y goblygiadau o wneud deddfwriaeth ar gyfer pobl ag ASA. Ni wnaed unrhyw awgrymiadau penodol ynghylch sut y gellid addasu'r Bil i liniaru'r pryderon hyn, er bod rhai wedi awgrymu y byddai dull o weithredu sy'n seiliedig ar anghenion, yn hytrach nag ar ddiagnosis, yn well. Cyrff cyhoeddus neu broffesiynol oedd y rhan fwyaf (ond nid pob un) o'r ymatebwyr hyn.

86. Mae'r materion y credir y byddent yn codi yn cynnwys:

- creu galw ychwanegol am ddiagnosis o ASA fel porth i wasanaethau, hyd yn oed lle nad yw'n ddiagnosis priodol;
- goblygiadau'r uchod ar gyfer adnoddau, gan gynnwys dargyfeirio adnoddau i ddiagnosis ac i ffwrdd o ddarparu gwasanaethau;
- cynnydd mewn apeliadau gan bobl nad ydynt wedi cael diagnosis;
- creu diwylliant o “hawl” gyda heriau cyfreithiol;
- tanseilio'r dull o ddarparu gofal a chymorth ar sail anghenion, yn hytrach na diagnosis, a hyrwyddir mewn deddfwriaeth ddiweddar arall (ee y Ddeddf ADY a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant);
- y risg o greu anghydraddoldeb a drwgdeimlad gan grwpiau eraill ac y bydd yn sbarduno darnau eraill o ddeddfwriaeth ar gyfer cyflyrau penodol;
- y bydd y dyletswyddau yn canolbwyntio ar wasanaethau statudol a allai atal arloesi ac ymyleiddio gwasanaethau'r trydydd sector;
- cynnydd mewn costau, o ran gweithredu ac ar gyfer gwasanaethau ychwanegol y bydd eu hangen.

Y modd y gwnaeth yr ymgynghoriad ddylanwadu ar ffurf y Bil

87. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn adlewyrchu pryderon a blaenoriaethau pobl ag ASA, eu teuluoedd a'u gofalwyr a rhanddeiliaid eraill. Roedd hyn yn ei dro yn helpu i lunio'r blaenoriaethau ar gyfer deddfwriaeth ar ASA a'r drafft cyntaf o'r Bil. Cafodd y darpariaethau penodol a ganlyn eu cynnwys mewn Bil Awtistiaeth (Cymru) drafft a gyhoeddwyd yn sgil yr ymgynghoriad cyntaf:

- Cyfeiriad penodol at y Gymraeg ar wyneb y Bil drafft (gan adlewyrchu cyngor Comisiynydd y Gmraeg);
- Cyfeiriad penodol at blant a phobl ifanc ar wyneb y Bil drafft (gan adlewyrchu cyngor y Comisiynydd Plant ar y pwysigrwydd o sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc yn cael cydnabyddiaeth briodol yn y Bil);
- Ei gwneud yn ofynnol bod adroddiad annibynnol ar y strategaeth awtistiaeth yn cael ei gomisiynu o leiaf bob tair blynedd;
- Cyfeiriad penodol at wella ymwybyddiaeth ymysg cyflogwyr ar wyneb y Bil (i adlewyrchu'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar bwysigrwydd cyflogaeth i oedolion ag ASA);

88. Yn ogystal, roedd cwestiynau penodol ar gasglu data wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad ar y Bil drafft, o ganlyniad i'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyntaf, ac yn dilyn trafodaethau gydag arbenigwyr yng Nghymru.

4. 2. Y Bil drafft (yr ail ymgynghoriad)

89. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar Fil Awtistiaeth (Cymru) drafft rhwng 20 Chwefror ac 17 Ebrill 2018. Cafwyd cyfanswm o 215 o ymatebion; 49 dros yr e-bost ac 166 ar-lein.

90. Mae barn yr ymatebwyr ar faterion penodol ynghylch ASA a gwasanaethau i bobl ag ASA wedi'i hymgorffori yn y Memorandwm Esboniadol hwn yn yr adran *Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud a pham*. Ceir crynodeb o'r pwyntiau allweddol a ddeilliodd o'r ymgynghoriad isod.

Y diffiniad o Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth a phŵer yn y Bil i ganiatáu i Weinidogion Cymru gynnwys anhwylderau niwroddatblygiadol eraill.

91. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ail ymgynghoriad o'r farn y dylai diffiniad o ASA ymddangos ar wyneb y Bil. Cytunodd y mwyafrif hefyd y dylai'r diffiniad o ASA fod yn ddiffiniad y Dosbarthiad Rhyngwladol o glefydau Sefydliadau Iechyd y Byd. Drwy gysylltu'r Bil â diffiniad a gydnabyddir yn rhyngwladol gellir sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r feddylfryd bresennol a'i fod yn ymatebol i newidiadau yn y dyfodol.

92. Mynegodd lleiafrif o ymatebwyr bryderon nad oedd modd i'r amryfal nodweddion sydd gan bobl ag ASA gael eu cwmpasu'n briodol gan un diffiniad. O ystyried bod y gwaith ymchwil a'r ddealltwriaeth o ASA yn datblygu'n gyson, mae'n amlwg bod pryderon o'r fath yn rhai dilys. Fodd bynnag, mae Sefydliad Iechyd y Byd yn cydnabod nodweddion amrywiol pobl ag ASA gan nad diben ei ddiffiniad yw diffinio un anhwylder, ond yn hytrach sbectrwm eang. O'r herwydd, ystyrir yn briodol cyfeirio at y diffiniad o ASA fel y'i pennwyd yn y Dosbarthiad Rhyngwladol o glefydau Sefydliadau Iechyd y Byd.

Yr amserlenni yn y Bil drafft ar gyfer y strategaeth, canllawiau a chychwyn

93. Cafwyd cefnogaeth gan y rhan fwyaf o ymatebwyr i'r amserlenni yn y Bil drafft ynglŷn â gweithredu ei ddarpariaethau. Yr amserlenni yw:

- rhaid cyhoeddi'r strategaeth awtistiaeth o fewn chwe mis i'r Ddeddf ddod i rym;
- rhaid cyhoeddi canllawiau cyn pen tri mis ar ôl cyhoeddi'r strategaeth;
- daw'r Ddeddf i rym dri mis ar ôl iddi gael y Cydsyniad Brenhinol.

94. Dywedodd rhai ymatebwyr, llawer ohonynt yn gyrff statudol neu broffesiynol, na fyddai tri mis yn ddigon i ddatblygu canllawiau. Fodd bynnag, rhagwelir y byddai'r canllawiau'n cael eu datblygu ochr yn ochr â'r strategaeth. Felly, gallai gwaith ddechrau ar y canllawiau cyn gynted ag y caiff y Ddeddf ei phasio; byddai hynny'n rhoi hyd at naw mis ar gyfer y broses.

Yr amserlen ar gyfer y cyfnod rhwng atgyfeiriad a diagnosis

95. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno y dylid cysylltu'r amserlenni ar gyfer y cyfnod rhwng atgyfeiriad a diagnosis â'r rhai a nodir yng nghanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (hynny yw tri mis ar hyn o

bryd), fel y nodir yn y Safon Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth. Fodd bynnag, mynegodd nifer o ymgyngoreion bryderon y gallai fod yn dipyn o her i orffen y broses ddiagnostig o fewn tri mis oherwydd cymhlethdodau posibl y broses. O'r herwydd, mae'r amserlen yn y Bil erbyn hyn yn rhychwantu'r cyfnod rhwng atgyfeiriad a dechrau'r broses ddiagnostig yn hytrach na'i diwedd. [4]

Yr amserlen ar gyfer cwblhau'r asesiad o anghenion

96. Cafwyd cefnogaeth gref i'r gofyniad yn y Bil drafft y dylid cwblhau asesiad o anghenion gofal a chymorth cyn pen deufis ar ôl diagnosis neu unrhyw gyfarfod ôl-ddiagnosis.

97. Fodd bynnag, dywedodd nifer o'r ymgyngoreion y gallai pennu deufis - mewn rhai amgylchiadau - fod yn anghymharus â safonau eraill. O ganlyniad, y gofyniad yn y Bil fel y'i cyflwynir yw 42 diwrnod gwaith (i gyd-fynd â'r mesur perfformiad ar gyfer asesiadau gwasanaethau cymdeithasol plant).

98. Dywedodd rhai o'r bobl yr ymgynghorwyd â hwy hefyd na fyddai gan ambell un ag ASA anghenion gofal a chymorth penodol, ac na ddylid rhagdybio y byddai gan bob person ag ASA anghenion gofal a chymorth. Er eglurder, nid yw'r Bil yn gwneud y rhagdybiaeth hon: gall asesiad o anghenion gofal a chymorth person ddod i'r casgliad nad oes gan rywun anghenion o'r fath.

Rhestr enghreifftiol o weithwyr proffesiynol i wneud diagnosis

99. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth gref ar gyfer cynnwys yn y Bil restr enghreifftiol o weithwyr proffesiynol a ddylai fod yn rhan o dîm diagnostig amlddisgyblaethol.

Casglu data

100. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r Bil bennu'r mathau o ddata sydd i'w casglu er mwyn gweithredu'r strategaeth awtistiaeth, er nad oedd consensws ynghylch a ddylai'r rhestr ymddangos ar wyneb y Bil ynteu mewn canllawiau. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn ei bod yn bwysig bod y categorïau o ddata sydd i'w casglu yn ymddangos ar wyneb y Bil i gyfyngu ar y disgresiwn o ran pa ddata sydd i gael eu casglu neu ddim i gael eu casglu. Roedd cefnogaeth

[4] Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal Quality Standard [QS 51] Autism, Quality statement 1: Diagnostic assessment by an autism team (2014)

hefyd i'r rhestr enghreifftiol o gategorïau o ddata i'w casglu (a ddisgrifiwyd yn y ddogfen ymgynghori gysylltiedig). Cytunodd yr ymatebwyr hefyd â'r ddarpariaeth yn y Bil sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ofyn am ddata dienw gan gyrff perthnasol.

Ymgyrch i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o awtistiaeth

101. O ran y gofyniad yn y Bil ar Weinidogion Cymru i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ASA, gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ynghylch a ddylai'r ymgyrch fod yn barhaus neu a ddylai weithredu ar gylch rheolaidd (tair blynedd). Roedd ymatebwyr yn gryf o blaid ymgyrch barhaus.

Rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau

102. Gofynnodd yr ymgynghoriad am ffactorau a allai, yn amhriodol, atal mynediad at wasanaethau ac y gellid mynd i'r afael â hwy yn y Bil.

103. Y ffactorau y cyfeiriwyd atynt amlaf gan ymatebwyr oedd y rhai sy'n ymwneud ag anallu'r gwasanaethau i ymateb i anghenion unigol, a’r posibilrwydd o eithrio pobl o wasanaethau, er enghraifft oherwydd bod ganddynt IQ uchel neu broblemau iechyd meddwl.

104. Dywedodd rhai ymatebwyr hefyd fod diffyg hyfforddiant staff mewn ASA, a diffyg ymwybyddiaeth ohono, yn arwain at rwystrau i gael mynediad at wasanaethau addas. Mae'r materion hyn yn cael eu trafod hefyd yn adran berthnasol y Memorandwm Esboniadol hwn *Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud a pham*.

105. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn bod diffyg gwybodaeth a chyngor ac adnoddau annigonol yn ffactorau sy'n atal mynediad at wasanaethau.

Sylwadau eraill

106. Gofynnodd yr ymgynghoriad am safbwyntiau am effaith y Bil ar:

- y Gymraeg a'r Saesneg;
- cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant;
- y system gyfiawnder; a
- chostau a manteision.

107. Ychydig o sylwadau a oedd yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn uniongyrchol; roedd y rhan fwyaf yn mynegi cefnogaeth i'r Bil. Teimlai mwyafrif y rhai a atebodd y cwestiwn hwn y byddai'r Bil yn cael effaith gadarnhaol.

108. Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod risg y gallai'r Bil achosi anfantais i bobl nad yw eu cyflwr yn dod o fewn ei gwmpas, a chyfeiriodd rhai at y prinder cyfeiriadau yn y Bil at bobl o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig, ac at ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg.

109. I'r gwrthwyneb, dywedodd eraill y byddai'r Bil yn cael effaith gadarnhaol o ran tegwch ac y byddai'n helpu i wella ymwybyddiaeth o ASA, ac yn helpu i newid agweddau tuag ato.

110. Cyfeiriodd rhai at y pwysigrwydd o gael gwasanaethau Cymraeg, ac roedd rhai ymatebwyr yn pryderu nad oedd digon o gyfeiriadau at wasanaethau Cymraeg yn y Bil drafft. Roedd eraill o'r farn bod materion o ran y Gymraeg eisoes yn cael sylw mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth. Roedd eraill o'r farn y byddai'r Bil yn cyfrannu at well gwasanaethau Cymraeg.

111. Dywedodd rhai ymatebwyr, trwy wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, y gallai'r Bil helpu i hybu cyfiawnder i bobl ag ASA ac anhwylderau niwroddatblygiadol eraill sydd yn y system cyfiawnder troseddol.

112. Mae'r materion hyn yn cael eu trafod hefyd yn adran berthnasol y Memorandwm Esboniadol hwn *Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud a pham*.

Y modd y mae'r fersiwn derfynol o'r Bil yn wahanol i'r Bil drafft

- Cryfhawyd y ddyletswydd ar gyrff perthnasol i weithredu'r strategaeth a'r canllawiau cysylltiedig, gan adlewyrchu'r adborth yn yr ymgynghoriad ar y Bil drafft. O dan adran 5 o'r Bil, mae'n rhaid i gyrff perthnasol bellach "gydymffurfio â'r" strategaeth a'r canllawiau yn hytrach na "rhoi sylw" iddynt.

- Yn dilyn adborth yn yr ymgynghoriad, mae'r gofyniad yn adran 2(1)(e) bod yn rhaid i'r strategaeth ddarparu bod asesiad o anghenion gofal a chymorth yn cael ei gwblhau o fewn deufis wedi newid i 42 diwrnod gwaith. Mae hyn yn sicrhau bod yr amserlen yn asio â'r mesur perfformiad ar gyfer asesiadau gwasanaethau cymdeithasol plant.

- Yn ogystal, amlygodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft y posibilrwydd y gellid tybio fod y cyfeiriadau yn y Bil at asesiadau gofal a chymorth ddim ond yn cyfeirio at asesiadau gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn egluro nad dyma'r achos ac mae gan y Bil adran ychwanegol erbyn hyn (adran 3) sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cyfuno asesiadau; y rhai ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol er enghraifft.

- Bellach mae'r Bil yn cynnwys gofyniad ar gyrff y GIG i gasglu categorïau penodol o ddata, gyda chategorïau ychwanegol i'w rhagnodi mewn rheoliadau. Mae hyn yn adlewyrchu cyngor arbenigol gan arbenigwyr data ASA yng Nghymru, y gofynwyd amdano yn sgil yr ymatebion i'r ddau ymgynghoriad.

- Yn dilyn adborth yn yr ymgynghoriad, mae'r tri mis ar gyfer atgyfeirio at asesiad diagnostig yn adran 2(1)(c) bellach yn cyfeirio at ddechrau'r asesiad, yn hytrach na'i ddiwedd. Diben hyn yw caniatáu ar gyfer cymhlethdod a natur anrhagweladwy rhai asesiadau, ac mae'n adlewyrchu'r dull gweithredu yng nghanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal.

- Mae'r Bil hefyd yn cyfeirio'n benodol at rwymedigaethau hawliau dynol cyrff perthnasol i adlewyrchu'r safbwyntiau a fynegwyd yn y ddau ymgynghoriad. O ran oedran: mae adran 8(3) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol roi sylw dyledus i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac mae adran 8(1) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol roi sylw i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn. O ran anabledd: mae adran 8(2) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

5. Yr hyn y mae’r Bil yn ei wneud a pham

5. 1. Rhagarweiniad

113. Diben y Bil yw sicrhau y caiff anghenion plant ac oedolion ag ASA yng Nghymru eu diwallu, a diogelu a hyrwyddo eu hawliau. Mae'r Bil yn gwneud hyn drwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth awtistiaeth ac i ddyroddi canllawiau i gyrff sy'n gyfrifol am ei gweithredu; awdurdodau lleol a chyrff y GIG yw'r rhain yn y Bil fel y'i drafftiwyd.

114. Mae'r Bil yn cynnwys deuddeg adran, ac mae tair ohonynt yn darparu ar gyfer:

- cyhoeddi strategaeth awtistiaeth a'i hadolygu yn gyson;
- cynnwys y strategaeth awtistiaeth; a
- chanllawiau ar weithredu'r strategaeth.

115. Mae adrannau eraill yn ymwneud â dyletswydd ar “gyrff perthnasol” i gydymffurfio â'r strategaeth, trefniadau ar gyfer cyfuno asesiadau, casglu data i gefnogi gwasanaethau awtistiaeth, dyletswydd i ymgymryd ag ymgyrch ymwybyddiaeth awtistiaeth, a dyletswyddau ar Weinidogion Cymru a chyrff perthnasol i roi sylw i Egwyddorion a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig.

5. 2. Diffinio Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth a phŵer i ragnodi cyflyrau niwroddatblygiadol eraill

116. Mae adran 9(1) o'r Bil yn diffinio'r hyn a olygir wrth “anhwylder sbectrwm awtistiaeth” yng nghyd-destun y Bil. Mae'r Bil yn cyfeirio at y diffiniad o ASA yn llawlyfr diagnostig y Dosbarthiad Rhyngwladol o Glefydau gan Sefydliad Iechyd y Byd, sef y llawlyfr diagnostig a ddefnyddir gan amlaf yn y DU. Mae Dosbarthiad Rhyngwladol o Glefydau gan Sefydliad Iechyd y Byd, ICD-11, wedi disodli fersiwn gynharach, ICD-10, ym mis Mehefin 2018. Mae'r diffiniad o ASA yn cael ei fireinio'n gyson gan adlewyrchu datblygiadau gwyddonol ac arfer sy'n amlygu. Felly, mae cyfeirio at Ddosbarthiad Rhyngwladol o Glefydau gan Sefydliad Iechyd y Byd ar wyneb y Bil yn rhoi hyblygrwydd i'r Bil ac yn sicrhau nad yw'r diffiniad yn darfod, gan osgoi'r angen i ddiwygio'r Ddeddf yn y dyfodol.

117. Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd, ICD-10, yn ei Gynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, yn ogystal â'r fersiwn ddiweddaraf o'r cynllun hwnnw. Felly, mae cyfeirio at ddiffiniad diweddaraf Sefydliad Iechyd y Byd yn y Bil, yn sicrhau cysondeb â'r strategaethau awtistiaeth presennol yng Nghymru, a manteision cydnabyddiaeth y DU (a rhyngwladol) o system ddosbarthu Sefydliad Iechyd y Byd. Darperir diffiniad amgen ym mhumed rhifyn y Diagnostic and Statistical Manual, (DSM-V) a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Seiciatryddol America. Fodd bynnag, mae'r diffiniad a ddiweddarwyd yn ddiweddar gan Sefydliad Iechyd y Byd, ICD-11, yn debyg iawn i DSM-V.

118. Yn ychwanegol at ddiffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o ASA, mae adran 9(1) o'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi cyflyrau niwroddatblygiadol eraill fel rhai sy'n dod o fewn cwmpas y Bil, pe bai hyn yn cael ei ystyried yn briodol yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys cyflyrau fel Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD). Mae rhai pobl yn cael diagnosis o hwn yn ogystal ag ASA.

119. Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft y dylai diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd ymddangos ar wyneb y Bil, ynghyd â phŵer i Weinidogion Cymru gynnwys anhwylderau niwroddatblygiadol eraill.

120. Fodd bynnag, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon y gallai cynnwys anhwylderau niwroddatblygiadol eraill wanhau eglurder a ffocws y Bil ac y byddai'n ychwanegu at ei gymhlethdod. Barnwyd y byddai angen meddwl yn ofalus cyn y gellid gwneud penderfyniadau am ychwanegu anhwylderau niwroddatblygiadol penodol.

121. I'r gwrthwyneb, mynegodd ymatebion eraill i'r ddau ymgynghoriad ar y Bil bryderon bod risg y gallai deddfwriaeth ar gyfer un categori o anhwylderau (hynny yw ASA), beri anfantais i unigolion â chyflyrau eraill.

122. Gan ystyried y safbwyntiau gwahanol hyn, ystyrir ei bod yn briodol cynnwys pŵer yn y Bil i'w ddarpariaethau gael eu cymhwyso i anhwylderau niwroddatblygiadol eraill. Mae pŵer o'r fath yn rhagweld y gallai datblygiadau o ran deall ASA ac anhwylderau niwroddatblygiadol eraill wneud hyn yn briodol yn y dyfodol, ac mae hefyd yn cadw'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ddewis peidio â gwneud hynny.

5. 3. Cyrff perthnasol

123. Mae'r Bil yn gosod dyletswyddau ar "gyrff perthnasol" i gydymffurfio â'r strategaeth awtistiaeth a'r canllawiau a gyhoeddir o dan y Bil. Ystyr "corff perthnasol" yn y Bil yw awdurdod lleol, corff GIG ac unrhyw gyrff eraill a gaiff eu diffinio gan Weinidogion Cymru. Mae awdurdodau lleol (ar draws yr holl swyddogaethau) a chyrff y GIG yn brif ddarparwyr neu'n gomisiynwyr gwasanaethau i bobl ag ASA. Fodd bynnag, mae'r Bil yn caniatáu ar gyfer cynnwys cyrff eraill fel cyrff perthnasol, os tybir bod hynny'n briodol.

124. Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft mai dyma'r cyrff priodol i weithredu'r strategaeth awtistiaeth. Cafwyd rhai awgrymiadau ar gyfer "cyrff perthnasol" ychwanegol yn yr ymgynghoriad. Cyrff addysg, yn aml iawn, oedd y rhai yr awgrymwyd eu cynnwys. Fel y'i cyflwynwyd, byddai'r Bil yn gymwys i bob ysgol a rhai elfennau o addysg ôl-orfodol, i'r graddau eu bod yn dod o fewn cyfrifoldebau awdurdodau lleol.

125. Roedd awgrymiadau eraill ar gyfer cyrff perthnasol a oedd yn cynnwys yr heddlu a darparwyr cyfiawnder troseddol. Er bod rhan arwyddocaol i gyrff o'r fath ym mywydau llawer o bobl ag ASA, maent yn gyrff nad ydynt wedi'u datganoli, ac felly ni fyddai gan y Cynulliad gymhwysedd i wneud deddfwriaeth yn gosod dyletswyddau ychwanegol arnynt, heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Rhagwelir, fodd bynnag, y bydd darparwyr cyfiawnder troseddol yng Nghymru yn cael budd o'r darpariaethau i wella ymwybyddiaeth yn y Bil.

126. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cynnwys darparwyr gwasanaethau trydydd sector annibynnol fel "cyrff perthnasol". Rhagwelir y bydd cyrff y GIG ac awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan y Bil trwy ddarparwyr gwasanaethau trydydd sector ac annibynnol lle mae hyn yn briodol (ee lle mae gwasanaethau'n cael eu comisiynu ganddynt).

5. 4. Y strategaeth awtistiaeth

Dyletswydd i gyhoeddi strategaeth awtistiaeth

127. Prif nod y Bil yw creu gofyniad cyfreithiol ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth awtistiaeth a fydd yn sicrhau bod anghenion pobl ag ASA yn cael eu diwallu, a bod eu hawliau'n cael eu diogelu. Byddai'r strategaeth yn nodi'r gofynion ar gyrff perthnasol - cyrff y GIG ac awdurdodau lleol - o ran diwallu anghenion plant ac oedolion ag ASA. Byddai'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod

canllawiau statudol yn cael eu dyroddi gan Weinidogion Cymru i gyrff perthnasol ar arfer eu swyddogaethau wrth weithredu'r strategaeth awtistiaeth.

128. Yn 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, a chyhoeddodd hefyd fersiwn ddiweddaraf o'r cynllun hwnnw ym mis Rhagfyr 2016, ar gyfer y cyfnod rhwng 2016 a 2020. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi arwain at welliannau mewn gwasanaethau i bobl ag ASA ac at gynyddu ymwybyddiaeth o ASA.

129. Fodd bynnag, cyfyngedig fu'r gwelliannau a wnaed gan y strategaeth wirfoddol am nad oedd yn orfodol, a phan ddaw oes y Cynllun Gweithredu i ben mae risg gynyddol na fydd y flaenoriaeth a roddir i ASA yn parhau. Er mwyn sicrhau gwasanaethau cynhwysfawr, cyson ac o ansawdd uchel yn y tymor hir, mae angen ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth awtistiaeth.

130. Mae'r Cynllun Gweithredu Strategol wedi dangos ei bod yn bwysig darparu gwasanaethau ASA yn strategol ac yn gydlynus ledled Cymru, yn hytrach na dibynnu ar amrywiaeth o ddulliau a mentrau ar lefel leol. Nod y Bil yw cryfhau'r dull hwn o weithredu, ac atgyfnerthu ac adeiladu ar yr enillion a wnaed gan y Cynllun Gweithredu Strategol, drwy gyflwyno cyfraith i ddatblygu ac ymgorffori gwasanaethau ASA cynhwysfawr ac effeithiol ym mhob rhan o Gymru a gwneud y trefniadau hynny'n rhai parhaol. Mae canlyniadau'r ddau ymgynghoriad ar y Bil yn dangos bod cefnogaeth eang i'r dull hwn o weithredu.

131. Er mwyn sicrhau bod gan bobl ag ASA a'u teuluoedd lais, ac i adlewyrchu'r profiadau a gawsant, mae'r Bil yn darparu ar gyfer ymgynghori ar ddatblygu'r strategaeth awtistiaeth, ac ar unrhyw newidiadau sylweddol a wneir iddi. Rhaid i ymgyngoriadau o'r fath gynnwys pobl ag ASA a sefydliadau sy'n cynrychioli eu buddiannau neu sy'n darparu gwasanaethau iddynt. Mae'r gofynion hyn hefyd yn gymwys i ganllawiau a gyhoeddwyd mewn perthynas â'r strategaeth, gan gynnwys unrhyw ganllawiau a ddiwygiwyd yn sylweddol.

132. Mae profiad pobl ag ASA a'u teuluoedd a'u gofalwyr yn dangos, er gwaethaf y gwelliannau a ddaeth yn sgil y strategaeth, bod gwasanaethau i bobl ag ASA yn parhau'n anghyson ledled Cymru. Mae'r adroddiadau sy'n gwerthuso'r Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, er enghraifft, yn sôn bod y gwasanaethau ar gyfer pobl ag ASA ledled Cymru yn anghyfartal ac yn amrywiol. Adlewyrchwyd y farn hon yn yr

ymatebion i'r ymgynghoriad cyntaf ar y Bil, a chafwyd sylwadau sy'n dangos bod amrywiaeth fawr o hyd yn y gwasanaethau ledled Cymru.

133. Mae rhagor o dystiolaeth bod y gwasanaethau'n amrywio yn yr adroddiad interim o'r gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig a gyfeiriodd at yr heriau o sefydlu'r Gwasanaeth Awtistig Integredig newydd yn y clytwaith o wasanaethau presennol, sy'n amrywio o ranbarth i ranbarth.[5]

134. Yn unol â hynny, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol (adran 2(1)(h)) bod strategaeth awtistiaeth yn gwneud darpariaeth fel bod ystod briodol o wasanaethau ar gael yn gyson ac yn hygyrch ledled Cymru, gan adlewyrchu'r nod craidd o sicrhau bod anghenion pobl ag ASA yn cael eu diwallu.

135. Mae tystiolaeth yn dangos, er bod gwasanaethau i blant ag ASA yn amrywio ac yn aml yn anodd gael gafael arnynt, mae gwasanaethau i oedolion ag ASA yn waeth mewn llawer o achosion, yn enwedig i oedolion nad ydynt wedi cael diagnosis pan oeddynt yn blant. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar egwyddorion y Bil yn adlewyrchu'r anawsterau hyn, gydag ymatebwyr yn disgrifio amser aros hir ar gyfer diagnosis, a phrinder gwasanaethau priodol ar ôl diagnosis.

136. Gyda hyn mewn golwg, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod strategaeth awtistiaeth yn cael ei darparu i ddiwallu anghenion gydol oes pobl yng Nghymru ag ASA drwy wella'r ddarpariaeth o wasanaethau ar eu cyfer. Mae'n Fil i hybu hawliau oedolion a phlant fel ei gilydd. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol (yn adran 2(1)(j)) bod y strategaeth yn sicrhau gwasanaeth di-dor ac yn hwyluso'r cyfnod pontio rhwng plentyndod a dod yn oedolyn.

137. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyhoeddi'r strategaeth awtistiaeth cyn pen chwe mis ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym. Cafodd yr amserlen hon ei chymeradwyo gan y rhan fwyaf o ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft. Mae'r strategaeth, ac unrhyw fersiynau dilynol gyda diwygiadau sylweddol, yn destun ymgynghori ac mae'n rhaid ei gosod gerbron y Cynulliad.

138. Mae'r Bil yn datgan bod yn rhaid i Weinidogion Cymru barhau i adolygu'r Strategaeth, a gallant ei diwygio os bernir bod hynny'n angenrheidiol.

[5] Gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, Adroddiad Interim, y Dr Duncan Holtom a'r Dr Sarah Lloyd Jones, 1 Mawrth 2018, t.5.

139. Rhaid i'r cynnydd ar weithredu ac effaith y strategaeth fod yn destun adroddiad annibynnol, o leiaf bob tair blynedd. Mae amlder yr adolygiad yn adlewyrchu barn yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar egwyddorion y Bil. Rhaid i'r adroddiad annibynnol gael ei osod gerbron y Cynulliad, a'i gyhoeddi. Rhagwelir y byddai Aelodau'r Cynulliad yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am unrhyw faterion a godir mewn adroddiadau o'r fath. Rhagwelir hefyd y byddai Aelodau'r Cynulliad yn ystyried adroddiadau o'r fath yng nghyd-destun unrhyw waith craffu ar ôl deddfu a gynhelir i'r modd y rhoddir y ddeddfwriaeth hon ar waith. Byddai croeso i broses graffu o'r fath.

Cynnwys y strategaeth awtistiaeth

140. Mae adran 2 o'r Bil yn nodi'r materion allweddol y dylid mynd i'r afael â hwy mewn strategaeth awtistiaeth. Nid yw'r Bil yn diffinio manylion y strategaeth awtistiaeth; yn hytrach mae'n nodi'r materion y mae'n rhaid i strategaeth awtistiaeth fynd i'r afael â hwy i sicrhau y caiff anghenion pobl ag ASA eu diwallu. Maent yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodwyd mewn dogfennau ymchwil/gwerthuso cyhoeddedig[6], a chan Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru.[7]

141. Cafodd y blaenoriaethau hyn eu cymeradwyo i raddau helaeth gan yr ymgynghoriad a gynhaliwyd fel rhan o ddatblygiad y Bil. Mynegodd yr ymgyngoreion bryderon penodol ynghylch diagnosis, IQ fel rhwystr i wasanaethau, a throsglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Roeddent hefyd yn gryf o blaid casglu data gwell am bobl ag ASA ac o blaid gwneud gwelliannau i hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o ASA. Mae llawer o'r rhain yn adlewyrchu'r materion a'r blaenoriaethau yng Nghynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig Llywodraeth Cymru. Byddai'r Bil yn rhoi'r grym statudol i sicrhau gwelliannau cyflymach, cynhwysfawr a pharhaol i'r gwasanaethau hyn.

142. Nid yw'r rhestr o faterion sydd i'w trafod yn y strategaeth awtistiaeth yn gynhwysfawr, ac mae'n rhoi cyfle i Weinidogion Cymru gynnwys yn y strategaeth unrhyw faterion eraill sy'n cael eu hystyried yn briodol (ac sydd o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru). Mae'r Bil hefyd yn darparu y caiff canllawiau

[6] Llywodraeth Cymru, *Gwerthuso canlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig: Crynodeb Gweithredol*, 2016, tt.7-9

[7] Y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol *Act Now – An Autism Act for Wales Report*, 2016, t.4

statudol eu cyhoeddi i ategu'r modd y caiff y strategaeth awtistiaeth ei gweithredu.

Modelau arfer gorau

143. Rhoddodd y ddau ymgynghoriad ar y Bil dystiolaeth glir mai'r prif feysydd sy'n peri pryder i bobl ag ASA (a'u gofalwyr a'u teuluoedd) yw diagnosis, asesu anghenion, a mynediad at wasanaethau i ddiwallu anghenion. Ynghlwm â'r materion hyn mae'r heriau o lywio llwybr drwy'r gwasanaethau a diffyg gwybodaeth, yn enwedig ar lefel leol.

144. Mae modelau arfer gorau yn helpu i hyrwyddo safonau uchel a chyson ar draws yr holl awdurdodau lleol a byrddau iechyd, ac maent hefyd yn helpu defnyddwyr gwasanaethau i fod yn fwy gwybodus ac i deimlo'n hyderus y byddant yn cael gwasanaethau o safon uchel.

145. Felly, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod y strategaeth awtistiaeth yn diffinio'r modelau arfer gorau ar gyfer y tair elfen allweddol o wasanaethau ar gyfer pobl ag ASA: nodi ASA a chynnal asesiad diagnostig ohono; cynnal asesiad o anghenion gofal a chymorth personau ag ASA; a chynllunio ar gyfer anghenion gofal a chymorth personau ag ASA a diwallu'r anghenion hynny. Nid yw'r Bil ei hun yn rhagnodi'r modelau; gellir eu datblygu a'u diweddaru yn y strategaeth yn ôl yr amgylchiadau ar y pryd.

Llwybr clir a map o'r gwasanaethau

146. Mewn sawl rhan o Gymru, nid oes gwybodaeth glir ar gael i'r cyhoedd ynglŷn â llwybrau i ddiagnosis a'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl ag ASA. Mae derbyn diagnosis o ASA yn garreg filltir bwysig i lawer o unigolion a'u teuluoedd ac mae'n allweddol i gael mynediad at rai gwasanaethau. Dywedodd ambell un o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy bod cael diagnosis ynddo'i hun yn gam mawr ymlaen, o ran dealltwriaeth unigolyn ohono'i hun yn ogystal â'r byd o'i amgylch.

147. Fodd bynnag, y profiad a gafodd llawer o bobl ag ASA (a'u gofalwyr a'u teuluoedd) yw cael diagnosis o ASA ac yna cael eu gadael i lywio llwybr trwy wasanaethau gofal a chymorth heb fawr ddim gwybodaeth nac arweiniad. Canfu arolwg a gynhaliwyd yn 2015[8] gan Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru mai dim ond un o bob pump o ymatebwyr oedd yn fodlon bod y wybodaeth a

[8] Y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol *Act Now – An Autism Act for Wales Report*, 2016, t.5

gawsant ar ôl diagnosis yn eu helpu i gael gafael ar y cymorth angenrheidiol. Mae angen eglurhad ar gyfer pobl ag ASA - a'u gofalwyr a'u teuluoedd - am yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan wasanaethau gofal a chymorth a sut i gael mynediad atynt.

148. Yn ôl y gwerthusiad o ganlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, er gwaethaf cyfraniad y strategaeth i wella gwybodaeth leol am wasanaethau:

> "parents and carers consistently report that it remains difficult to identify support and services and that they experience high levels of stress and anxiety as a consequence". [9]

149. Canfu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diagnostig Oedolion ag ASA mai tameidiog oedd y wybodaeth o ansawdd da a ddarperir i oedolion ag ASA.

150. Roedd cefnogaeth gref ymhlith yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar egwyddorion y Bil i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a'r GIG gyhoeddi gwybodaeth am lwybrau diagnostig. Dywedodd yr ymatebwyr fod gwybodaeth yn anodd ei chael, yn enwedig yn achos llwybrau diagnostig i oedolion.

151. Byddai darparu, drwy ddeddfwriaeth, ar gyfer llwybr clir i ddiagnosis a gwasanaethau ym mhob ardal bwrdd iechyd yn rhoi'r eglurder a'r sicrwydd angenrheidiol i bobl ag ASA, a'u teuluoedd a'u gofalwyr, o ran y broses o gael diagnosis.

152. Felly mae adran 2(1)(b) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r strategaeth awtistiaeth wneud darpariaeth ar gyfer:

> "datblygu llwybr, sy'n cynnwys mynediad trwy fathau penodol o atgyfeirio, i ddangos y gwasanaethau sydd ar gael ac sy'n ofynnol..."

5. 5. Diagnosis o anhwylder sbectrwm awtistiaeth

Amserlenni ar gyfer asesiadau diagnostig

153. Mae'r amser a gymerir i gael diagnosis yn parhau i fod yn broblem fawr i bobl ag ASA, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Dywedodd chwe deg y cant o ymatebwyr i arolwg 2015 a gynhaliwyd gan Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru eu

[9] Gwerthusiad o Ganlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, Adroddiad Terfynol, y Dr Duncan Holtom a'r Dr Sarah Lloyd Jones, 18 Chwefror 2016, t.9.

bod wedi aros dros flwyddyn am ddiagnosis a dywedodd tri deg dau y cant eu bod wedi aros dros ddwy flynedd. Canfu'r rhan fwyaf o ymatebwyr i'r arolwg fod y broses yn rhy hir ac yn llawn straen.[10]

154. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y cynnydd yn yr ymwybyddiaeth o ASA a ddaeth yn sgil Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig Llywodraeth Cymru wedi arwain at gyfraddau uwch o ddiagnosis, yn enwedig ymhlith plant oed ysgol, o 0.2 y cant yn 2003/04 i 1 y cant yn 2012/13 ond roedd y pwysau ar wasanaethau diagnostig wedi cynyddu'r amserau aros mewn sawl rhan o Gymru[11].

155. Gall aros yn hir am ddiagnosis olygu diffyg mynediad at wasanaethau a chymorth, ac yn ystod y cyfnod hwn gall bywyd beunyddiol fod yn anodd ac yn llawn straen, gan arwain yn aml at broblemau ychwanegol.

156. Canfu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diagnostig Oedolion ag ASA fod yr amseroedd aros ledled Cymru i oedolion gael gwasanaethau diagnostig yn amrywio rhwng 2 a 18 mis, er bod y data am amseroedd aros yn anghyflawn.

157. Canfu arolwg a wnaeth Arweinydd Datblygu Cenedlaethol ASA yn 2015 broblemau ar gyfer plant a'u teuluoedd mewn perthynas ag:

- amseroedd aros hir;
- diffyg gwybodaeth cyn cwblhau'r asesiad diagnostig, yn ystod yr asesiad ac ar ôl ei orffen;
- braidd ddim cyngor na chefnogaeth, neu ddim o gwbl, wrth gael diagnosis ac yn union ar ôl cael diagnosis; a
- daeth yr adroddiad i'r casgliad bod yr un problemau yn debygol o wynebu oedolion sydd angen gwasanaethau cymorth.

158. Roedd yr anawsterau o ran mynediad at ddiagnosis, a'r amseroedd aros i gael diagnosis, yn cael eu hadlewyrchu yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar egwyddorion y Bil, ac yn dangos mor amrywiol yw'r ddarpariaeth ledled Cymru. Soniwyd yn aml gan yr ymatebwyr bod cael mynediad cyflymach at ddiagnosis yn fater yr hoffent i ddeddfwriaeth fynd i'r afael ag ef.

---

[10] Y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol *Act Now – An Autism Act for Wales*, 2016, t.5

[11] Llywodraeth Cymru, *Gwerthuso canlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig: Crynodeb Gweithredol*, 2016, t.2

159. Nod y Bil yw mynd i'r afael ag amseroedd aros ar gyfer diagnosis trwy ei gwneud yn ofynnol i strategaeth awtistiaeth ddarparu ar gyfer asesiadau diagnostig cychwynnol ac unrhyw gyfarfodydd ôl-ddiagnostig yn fwy amserol. Rhaid ymgymryd â'r rhain o leiaf o fewn yr amserlenni a bennir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal.

160. Ar hyn o bryd mae canllaw Clinigol 128 y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal yn argymell uchafswm o dri mis ar gyfer plant a phobl ifanc o'r adeg y byddant yn cael eu hatgyfeirio hyd at ddechrau'r asesiad diagnostig. Nid oes amserlen ar gyfer oedolion mewn canllawiau clinigol ond mae Safon Ansawdd 51 y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal ar awtistiaeth yn argymell tri mis ar gyfer plant ac oedolion. Y Safon Ansawdd hon, felly, yw'r un y mae'r Bil yn cyfeirio ati.

161. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno safon o 26 wythnos ar gyfer amser aros (llwyddiant o 80 y cant) rhwng atgyfeiriad a'r apwyntiad asesu cyntaf i blant a fyddai, os caiff ei bodloni, yn welliant sylweddol i rai unigolion. Mae dull tebyg o weithredu ar y gweill ar gyfer oedolion. Fodd bynnag, mae'n dal i fod ddwywaith gymaint â'r safon dri mis a osodwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. Hon yw'r safon y dylai gwasanaethau anelu ati os nad yw pobl ag ASA i orfod aros yn rhy hir am ddiagnosis, a dyma'r safon sydd wedi'i nodi yn y Bil.

162. Mae'r Bil yn cyfeirio at Safon Ansawdd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal [QS51] ar amseroedd aros o'r atgyfeiriad i ddechrau'r asesiad. I ddechrau, bwriadwyd pennu uchafswm amser aros rhwng atgyfeiriad a chwblhau'r asesiad. Cafodd hyn ei gymeradwyo gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon hefyd nad oedd amserlen o'r fath yn rhoi sylw priodol i amrywiaeth pobl ag ASA a'u hanghenion, a chymhlethdod y broses asesu ar gyfer ambell un. Felly, mae'r amserlen yn y Bil bellach yn gymwys i'r cyfnod rhwng atgyfeiriad a dechrau'r asesiad, yn unol â safon ansawdd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal.

163. Mae asio'r amserlen rhwng atgyfeiriad a dechrau'r diagnosis â safon ansawdd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal hefyd yn rhoi hyblygrwydd. Bydd y ddeddfwriaeth yn ymatebol i newidiadau yn safonau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, sy'n parhau i fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n cael eu datblygu gyda mewnbwn arbenigol a chyfraniad defnyddwyr gwasanaeth.

Asesiadau diagnostig amlddisgyblaethol

164. Mae timau asesu diagnostig amlddisgyblaethol yn helpu i sicrhau dull o asesu diagnostig sy'n gytbwys a chyfannol, gan greu darlun cynhwysfawr, gwybodus a chrwn o'r person sy'n cael ei asesu.

165. Mae Arweiniad Clinigol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal ar gyfer oedolion[12] yn argymell y dylid cynnal asesiadau diagnostig gan weithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi ac wedi cymhwyso, sy'n seiliedig ar dîm ac sy'n defnyddio amrywiaeth o broffesiynau a sgiliau. Ar gyfer plant, mae'r Arweiniad Clinigol[13] yn argymell y dylai aelodau craidd tîm o'r fath gynnwys pediatregydd a/neu seiciatrydd plant a phobl ifanc; therapydd lleferydd ac iaith; a seicolegydd clinigol a/neu addysgol. Dylai'r tîm hefyd gynnwys, neu gael mynediad rheolaidd at, amrywiaeth o weithwyr proffesiynol eraill.

166. Nododd adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diagnostig Oedolion ag ASA amrywiadau ar draws y byrddau iechyd yn yr amrywiaeth o sgiliau a oedd gan weithwyr proffesiynol wrth lunio diagnosis (paragraff 15). Amlygodd ddiffyg arweiniad (ac felly cysondeb) o ran pwy ddylai gynnal asesiad diagnostig.

167. Mae adran 4 o'r Bil, ar ganllawiau ar gyfer gweithredu'r strategaeth awtistiaeth, yn cynnwys rhestr enghreifftiol o weithwyr proffesiynol allweddol i'w cynnwys mewn timau asesu diagnostig amlddisgyblaethol. Mae'r rhestr yn cynnwys: seicolegydd clinigol, seiciatrydd, therapydd lleferydd ac iaith, therapydd galwedigaethol, therapydd ymddygiadol a gweithiwr cymdeithasol.

168. Mae'n bwysig cofio mai rhestr gynghori yw hon; nid oes bwriad i gynnwys rhestr ragnodol o weithwyr proffesiynol yn y Bil, fel y'i cyflwynwyd. Mae nodweddion ac anghenion unigolion yn wahanol; er enghraifft, gall y tîm diagnostig ar gyfer plentyn gynnwys pediatregydd a gweithwyr proffesiynol addysg, ond efallai na fydd y rhain yn briodol ar gyfer gwneud diagnosis o oedolyn. Dylai cyfansoddiad timau amlddisgyblaethol adlewyrchu'r gwahaniaethau.

---

[12] Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal Clinical Guideline [CG 142] Autism spectrum disorder in adults: diagnosis and management paragraff 1.2.5, (2012)

[13] Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal Clinical Guideline [CG 128] 'Autism spectrum disorder in under 19s: recognition, referral and diagnosis', paragraffau 1.1.3-1.1.4

5. 6. Amserlenni ar gyfer asesu anghenion

169. Mae llawer o bobl sydd â diagnosis o ASA heb fod angen gofal a chymorth ar ôl diagnosis, ac i'r gwrthwyneb, nid yw cael diagnosis yn ofynnol i gael gofal a chymorth. Lle mae angen asesiad, fodd bynnag, dylid ei wneud o fewn cyfnod rhesymol o amser ar ôl cael diagnosis. Mae'r Bil yn darparu y dylid cynnal asesiad o anghenion o fewn 42 diwrnod gwaith i gael diagnosis o ASA neu unrhyw gyfarfod ôl-ddiagnostig.

170. Er nad yw'r Bil yn cyfeirio'n benodol at asesiadau gwasanaethau cymdeithasol, gan y gellir cynnal asesiadau gofal iechyd hefyd, tynnodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Bil sylw at bwysigrwydd alinio unrhyw amserlen yn y Bil gyda'r rhai sy'n berthnasol i asesiadau gwasanaethau cymdeithasol. Yn achos asesiadau gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer plant, rhaid cwblhau'r rhain o fewn 42 diwrnod gwaith.

171. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth yn adran 3 ar gyfer cyfuno asesiadau (er enghraifft, ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol) er mwyn osgoi'r angen am asesiadau lluosog a dyblygu ymdrechion.

5. 7. Hygyrchedd y gwasanaethau

172. Yn gyffredinol, mae adran 2 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod strategaeth yn gwneud darpariaeth i sicrhau bod ystod o wasanaethau ar gael a'u bod yn hygyrch i bob defnyddiwr, er mwyn cyflawni'r strategaeth ledled Cymru. Yn benodol, mae adran 2(1)(i) yn ei gwneud yn ofynnol i'r strategaeth sicrhau bod gwasanaethau "yn hygyrch i bob person". Mae hyn yn golygu ymateb i anghenion unigol, er enghraifft o ran rhywedd, tueddfryd rhywiol, ethnigrwydd ac iaith (pa un a yw'n Saesneg, yn Gymraeg, neu'n iaith arall).

173. Rhaid i'r strategaeth amlinellu sut y dylai cyrff perthnasol ddiwallu anghenion pobl ag ASA trwy gael mynediad at yr ystod o wasanaethau cyhoeddus. Dylai hyn gynnwys anghenion o ran gofal iechyd, addysg, cyflogaeth, tai, gwasanaethau Cymraeg, cynhwysiant cymdeithasol ac eiriolaeth (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt).

174. Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus sy'n golygu bod yn rhaid iddynt sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan o ddyluniad polisïau a darparu gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r

dyletswyddau hyn yn gymwys i bobl â nodweddion gwarchodedig, fel y'u nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

175. Codwyd materion yn yr ymgynghoriad ar y Bil drafft o ran yr heriau penodol sy'n wynebu pobl ag ASA a'u teuluoedd o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, ac ar gyfer merched ifanc a menywod. Mae hyn yn amlygu'r pwysigrwydd o sicrhau bod yr holl wasanaethau, gan gynnwys gwybodaeth a chyngor, diagnosis, gofal a chymorth, a gwella ymwybyddiaeth, yn ymateb i anghenion pob person ag ASA.

176. Bydd y darpariaethau yn y Bil ar gyfer gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o ASA yn helpu i wella profiad unigolion o wasanaethau, gan gynnwys pobl o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig, a merched ifanc a menywod. Mae rhagor o wybodaeth yn yr *Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb*, yn y Memorandwm Esboniadol hwn.

177. Yn ychwanegol at y ddarpariaeth yn y Bil ar gyfer gwasanaethau ASA hygyrch, bydd y gofynion ar gyfer casglu data gwell yn helpu i ddatblygu gwasanaethau a fydd yn gallu ymateb yn well i'r ystod o briodweddau ac anghenion, ac i bobl ag ASA yng Nghymru.

5. 8. Y ddarpariaeth Gymraeg.

178. O dan fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, mae gan sefydliadau gyfrifoldeb i gydnabod ac i ymateb i anghenion iaith fel elfen hanfodol o ofal. Rhaid iddynt wneud 'Cynnig Rhagweithiol' o wasanaethau Cymraeg, yn hytrach na disgwyl i gleifion a'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau gofal ofyn amdanynt.

179. Amlygodd yr ymgynghoriad ar egwyddorion y Bil rai materion a oedd yn ymwneud â darpariaeth Gymraeg. Cyfeiriodd Comisiynydd y Gymraeg at enghreifftiau o rwystrau i wneud diagnosis o ASA yn y Gymraeg, er enghraifft oherwydd prinder profion wedi'u dilysu a chynllunio gweithlu yn wael. Pwysleisiodd yr angen i fanteisio ar bob cyfle i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r Gymraeg mewn deddfwriaeth.

180. Roedd nifer o'r rhai a ymatebodd i'r ddau ymgynghoriad ar y Bil yn cyfeirio at yr angen am ddatblygu'r gweithlu Cymraeg ei iaith ac i wella'r ddarpariaeth Gymraeg wrth asesu a darparu gwasanaethau, gan gynnwys seicoleg addysg.

181. Mae angen i wasanaethau ar gyfer pobl ag ASA a'u teuluoedd a'u gofalwyr fod ar gael yn Gymraeg. Felly, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i strategaeth awtistiaeth amlinellu sut y dylai cyrff perthnasol ddiwallu anghenion pobl ag ASA o ran gwasanaethau Cymraeg. Gellid defnyddio canllawiau ynghylch gweithredu'r strategaeth a gyhoeddir o dan y Bil i ategu'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

5. 9. Meini prawf mynediad amhriodol

182. Mae tystiolaeth fod gwasanaethau ASA mewn rhai ardaloedd yn gosod meini prawf ychwanegol ac amhriodol ar fynediad at gymorth, sy'n atal rhai unigolion rhag cael y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen. Gall hyn ddigwydd, er enghraifft, lle mae'r cyfrifoldeb am ddarparu cymorth i bobl ag ASA yn rhan o wasanaethau nad ydynt wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer pobl ag ASA.

183. Yn aml iawn, darperir gwasanaethau ASA drwy wasanaethau anabledd dysgu neu iechyd meddwl, er y gallai fod gan bobl ag awtistiaeth anghenion nad ydynt yn cyfateb i'r categorïau hyn. Gwnaeth y grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer oedolion ag ASA gydnabod y broblem hon a galw am ddulliau asesu gwell a gwell hyfforddiant i'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau hyn. Serch hynny, pan fo gwasanaethau lleol wedi'u llunio fel hyn, mae perygl y bydd pobl ag ASA yn disgyn i'r bylchau rhwng gwasanaethau nad ydynt yn ymatebol i'w hanghenion neu sy'n gosod meini prawf amhriodol (fel lefel IQ) ar gyfer mynediad.

184. Ni ddylai'r ffordd y mae gwasanaethau wedi'u llunio yn y gorffennol atal rhai unigolion rhag cael mynediad at wasanaethau. Er gwaethaf darpariaethau Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig 2008 i fynd i'r afael â hyn, yn ôl y gwerthusiad o'r canlyniadau:

> "there has been little change in a situation where most adults with ASD and a learning disability can access a statutory service, while those without a learning disability cannot."[14]

185. Yn ogystal, canfu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diagnostig Oedolion ag ASA fod y mynediad at wasanaethau diagnostig yn anghyfartal mewn rhai ardaloedd lle nad oedd gan unigolion broblemau anabledd dysgu neu iechyd meddwl, er enghraifft.

[14] Gwerthusiad o Ganlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, Adroddiad Terfynol, y Dr Duncan Holtom a'r Dr Sarah Lloyd Jones, Chwefror 2016, paragraff 11.

186. Adlewyrchwyd y canfyddiadau hyn yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar egwyddorion y Bil. Pan ofynnwyd iddynt enwi ffactorau a allai atal mynediad at wasanaethau yn amhriodol ac y dylai'r Bil fynd i'r afael â hwy, roedd y categori mwyaf o ymatebion yn tynnu sylw at ffactorau fel IQ uchel neu broblemau iechyd meddwl sy'n eithrio pobl o'r gwasanaethau neu'n eu gorfodi i gael darpariaeth amhriodol.

187. Felly mae adran 2(1)(f) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r strategaeth awtistiaeth a'r canllawiau cysylltiedig sicrhau nad yw mynediad at wasanaethau i bobl ag ASA yn dibynnu ar eu lefel IQ.

188. Mae adran 2(1)(f) hefyd yn ceisio sicrhau nad yw cymorth yn cael ei wrthod i bobl ag ASA ar y sail eu bod yn cael cymorth ar gyfer cyflwr iechyd arall, er enghraifft problem iechyd meddwl.

5. 10. Pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion

189. Gall y newid o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion achosi anawsterau sylweddol i bobl ifanc ag ASA. Canfu'r Gwerthusiad o Ganlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig: Adroddiad Terfynol fod y trothwyon uchel o gymhwystra ar gyfer gwasanaethau oedolion a phrinder y gwasanaethau arbenigol ar gyfer y rheini nad oes ganddynt anabledd dysgu hefyd yn gallu arwain at dynnu cymorth yn ôl neu leihau'r cymorth yn sylweddol, gan wneud y cyfnod pontio i gyflogaeth a byw'n annibynnol yn anodd. Amlygodd y Gwerthusiad o Ganlyniadau hefyd fethiant y Cynllun Gweithredu Strategol i weithredu safonau cenedlaethol a chanllawiau o ran y cyfnod pontio.

190. Adlewyrchwyd y problemau a gafodd pobl ifanc sy'n symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar egwyddorion y Bil. Cyfeiriodd unigolion at y meini prawf uchel i atgyfeirio i'r gwasanaethau oedolion, ac at y ffaith fod cymorth yn darfod yn sydyn yn 18 oed, a bod y pecynnau pontio yn aneffeithiol. Tynnodd y Comisiynydd Plant sylw at y cysylltiadau rheolaidd y mae'n eu cael ynghylch y gwasanaethau ASA, sy'n cynnwys materion sy'n ymwneud â phontio yn y gwasanaethau cymdeithasol.

191. Nod y Bil yw sicrhau bod y mater allweddol hwn yn cael sylw. Mae adran 2(1)(j) yn ei gwneud yn ofynnol i strategaeth awtistiaeth wneud darpariaeth i sicrhau gwasanaeth di-dor i bobl ifanc ag ASA "sy'n adlewyrchu ac yn hwyluso'r cyfnod pontio rhwng plentyndod a dod yn oedolyn".

5. 11. Hyfforddi staff

192. Mae angen i weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â phobl ag ASA fod â dealltwriaeth gadarn o ASA os yw'r gwasanaethau i wella. Gall diffyg gwybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i nodi nodweddion ac ymddygiad fel dangosyddion posibl ASA arwain at ymatebion amhriodol ar lefel unigol a methiant i ddarparu'r cymorth angenrheidiol i alluogi unigolion i ddatblygu a chyflawni eu potensial. Heb hyfforddiant digonol, mae arwyddion allweddol yn cael eu colli, mae ymddygiad yn cael ei gamddehongli ac nid yw gwasanaethau anaddas yn cael eu haddasu.

193. Cydnabuwyd ers tro fod angen hyfforddi staff yn well o ran ymwybyddiaeth o ASA, a gwell sgiliau i gynorthwyo pobl ag ASA. Mae'r gwelliannau i'r lefelau o wybodaeth ac ymwybyddiaeth wedi bod, ac yn parhau i fod, yn flaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Gweithredu Strategol ASA a'r Cynllun Gweithredu Strategol wedi'i ddiweddaru, gan gynnwys yr adnoddau sydd ar gael ar www.ASDinfoWales.co.uk.

194. Serch hynny, mae pobl ag ASA, a'u teuluoedd a'u gofalwyr, o'r farn gyffredinol mai prin yw dealltwriaeth llawer o weithwyr proffesiynol o ASA. Yn arolwg Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru,[15] er enghraifft, soniwyd bod tua hanner yr oedolion a ymatebodd yn credu bod diffyg dealltwriaeth o ASA ymysg gweithwyr proffesiynol. Mae angen sicrhau bod plant ac oedolion ag ASA yn cael eu cefnogi gan weithwyr proffesiynol sy'n eu deall.

195. Er y gwnaed camau mawr ymlaen o ran hyfforddi staff yn sgil y Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, amrywiol fu'r cynnydd hwnnw. Canfyddiad allweddol y Gwerthusiad o Ganlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig: Adroddiad Terfynol 2016 mewn perthynas â hyfforddiant ac ymwybyddiaeth oedd:

> "A wide range and large number of services and people have been reached and the improved training and awareness is reported to have had positive outcomes. Nevertheless, coverage has been uneven across services and groups and more work is needed."[16]

[15] Y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol *Act Now – An Autism Act for Wales Report*, 2016, t.7

[16] Gwerthusiad o Ganlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, Adroddiad Terfynol, y Dr Duncan Holtom a'r Dr Sarah Lloyd Jones, Chwefror 2016, paragraff 6.

196. Soniwyd yn yr adroddiad mai'r her allweddol ar gyfer Cynllun Gweithredu Strategol wedi'i adnewyddu fyddai integreiddio ymwybyddiaeth a chymorth ASA ym mholisi ac arfer prif ffrwd mewn meysydd megis addysg, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyflogaeth.

197. Mae'r Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ac Adroddiad Interim Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (2018) yn tynnu sylw at y canlynol:

> "The understanding of autism and the lack of skills and confidence of many staff within existing services has been identified as a key barrier to services adapting to meet the needs of adults with autism...[and]... the needs of children with autism and their families."[17]

198. Denodd y mater hyfforddi staff nifer fawr o sylwadau yn yr ymgynghoriad ar egwyddorion y Bil. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod angen i'r hyfforddiant fod yn well, er bod rhai'n dweud ei fod wedi gwella, neu yn gwella. Cafwyd cefnogaeth gref i wella hyfforddiant staff ac i wella ymwybyddiaeth ar draws addysg, iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yn benodol, er mwyn galluogi staff i nodi symptomau ac anghenion pobl ag ASA a gwybod pryd i atgyfeirio pobl ar gyfer eu hasesu. Dywedodd yr ymatebwyr fod ymwybyddiaeth o ASA hefyd yn bwysig i staff eraill yn y sector cyhoeddus megis gweithwyr tai, staff y Ganolfan Byd Gwaith, a gweithwyr yr heddlu/argyfwng.

199. Byddai adran 2(1)(q) o'r Bil yn sicrhau bod staff allweddol sy'n gweithio gyda phobl ag ASA yn gallu cael mynediad at hyfforddiant awtistiaeth priodol. Byddai angen i strategaeth awtistiaeth bennu gweithwyr proffesiynol allweddol a'r hyfforddiant priodol angenrheidiol i'w galluogi i gefnogi pobl ag ASA. Rhaid nodi rhagor o fanylion yn y canllawiau.

200. Mae nifer sylweddol o staff sy'n gweithio gyda phobl ag ASA eisoes wedi cael hyfforddiant drwy fentrau a arweiniwyd gan Lywodraeth Cymru, ond byddai'r Bil:

- yn hyrwyddo cysondeb o ran yr hyfforddiant sydd ar gael ym mhob proffesiwn ledled pob rhanbarth;
- yn darparu dull clir ar gyfer monitro'r gwaith o weithredu a chynnal hyfforddiant priodol; ac

[17] Gwerthusiad o Ganlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, Adroddiad Interim, y Dr Duncan Holtom a'r Dr Sarah Lloyd Jones, Mawrth 2018, tt.44 a 47.

- yn sicrhau bod hyfforddiant o'r fath yn cael ei gynnig ar sail barhaus ac yn barhaol.

201. Yn ogystal, byddai gwelliannau a diwygiadau eraill i wasanaethau, er enghraifft y rhai a gyflwynwyd yn Neddf ADY, yn cael eu hategu gan weithlu addysg sydd wedi'i hyfforddi'n well.

202. Mae'r Bil yn rhagweld dull wedi'i deilwra, yn dibynnu ar rolau proffesiynol penodol unigolion. Byddai'r grwpiau proffesiynol perthnasol a'r hyfforddiant y maent ei angen yn cael eu nodi yn y broses o lunio'r strategaeth ac yn cael eu datblygu ymhellach yn y canllawiau cysylltiedig.

5. 12. Gwella ymwybyddiaeth

203. Un o brif gyfraniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ASA oedd gwella ymwybyddiaeth o ASA, yn bennaf trwy'r adnoddau a ddarperir ar y wefan www.ASDinfoWales.co.uk. Cydnabuwyd hyn gan y rhanddeiliaid fel y nodir yn y Gwerthusiad o Ganlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig: Adroddiad Terfynol.[18] Mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y Cynllun Gweithredu Strategol ASA wedi'i ddiweddaru. Fodd bynnag, yn ôl y Gwerthusiad o Ganlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig: Adroddiad Terfynol 2016, mae'r ymgyrch gwella ymwybyddiaeth yn anghyfartal, ac mae angen gwneud rhagor o waith ar hyn.

204. Roedd yr ymatebion i'r ymgyngoriadau ar y Bil yn adlewyrchu'r pwysigrwydd i bobl ag ASA - a'u teuluoedd a'u gofalwyr - o well ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd. Roedd cred y gallai rhai o'r heriau y maent yn eu hwynebu gael eu lliniaru drwy fod gan y cyhoedd a darparwyr gwasanaethau well dealltwriaeth; gallai camddealltwriaeth a gwrthdaro posibl gael eu lleihau'n sylweddol. Mynegodd rhai ymatebwyr rwystredigaeth ynghylch diffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o ASA a sut mae'n effeithio ar ymddygiad, a all adael unigolion a'r rhai sy'n agos atynt yn teimlo'n unig ac yn teimlo eu bod wedi cael eu camddeall.

205. Roedd gwella ymwybyddiaeth ymysg cyflogwyr yn un o'r prif feysydd y cyfeiriodd ymatebwyr atynt yn yr ymgyngoriadau ar y Bil.

[18] Gwerthusiad o Ganlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, Adroddiad Terfynol, y Dr Duncan Holtom a'r Dr Sarah Lloyd Jones, Chwefror 2016, t.9.

206. Mae cyflogaeth i bobl ag ASA wedi bod, ac yn parhau i fod, yn faes sy'n peri pryder mawr. Gwnaeth dros draean yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyntaf ar y Bil awgrymiadau ynghylch sut i wella cyfraddau cyflogaeth ar gyfer pobl ag ASA. Gellid datblygu llawer o'r awgrymiadau hyn trwy gynyddu'r ymwybyddiaeth o ASA ymysg cyflogwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n darparu hyfforddiant a chymorth sy'n ymwneud â chyflogaeth. Roedd teimlad y gellid cyflawni llawer drwy addysgu cyflogwyr am awtistiaeth, gan gynnwys yr agweddau cadarnhaol a'r cyfraniad y gall pobl ag ASA ei wneud. Gellid cynnig cefnogaeth ar sut i baru unigolion â swyddi addas a gwneud "addasiadau rhesymol" i berson ag ASA.

207. Yn ystod y broses o weithredu'r Cynllun Gweithredu Strategol ASA cyntaf yn 2008, cefnogodd Llywodraeth Cymru rôl Llysgennad Cyflogaeth Awtistiaeth a helpodd i wella ymwybyddiaeth o awtistiaeth ymhlith cyflogwyr a darparwyr cymorth cyflogaeth. Datblygwyd cysylltiadau hefyd â'r Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru, a oedd yn galluogi staff lleol i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau i gynorthwyo pobl ag awtistiaeth i gael gwaith.

208. Fodd bynnag, yn ôl y Gwerthusiad o Ganlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig: Adroddiad Terfynol, er bod gwell cymorth ar gyfer cael gwaith a'i gadw:

> "adults with ASD still struggle to access effective support to find employment, and employment rates remain low."[19] (t.9)

209. Wrth gydnabod arwyddocâd materion cyflogaeth i bobl ag ASA, a amlygwyd yn yr ymgynghoriad cyntaf, mae'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â gwella ymwybyddiaeth yn cyfeirio'n benodol at gyflogwyr. Mae adran 7 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gychwyn a chynnal ymgyrch i wella ymwybyddiaeth o ASA. Rhaid i'r ymgyrch gynnwys elfennau sy'n gwella dealltwriaeth "aelodau'r cyhoedd, cyflogwyr a'r rheini sy'n darparu gwasanaethau" o anghenion pobl ag ASA.

210. Mae adran 7 o'r Bil yn gwneud darpariaeth i'r ymgyrch gwella ymwybyddiaeth gael ei chyflwyno'n barhaus. Cymeradwywyd y dull hwn o weithredu gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft.

[19] Gwerthusiad o Ganlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, Adroddiad Terfynol, y Dr Duncan Holtom a'r Dr Sarah Lloyd Jones, Chwefror 2016, t.9

5. 13. Cymorth i deuluoedd a gofalwyr.

211. Yn aml, nid yw teuluoedd a gofalwyr yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth ar ôl diagnosis o ASA; mae problemau ynghylch gwybodaeth a chyngor ôl-ddiagnostig, gyda llawer o unigolion a'u teuluoedd yn cael eu gadael i reoli heriau ASA eu hunain.

212. Soniodd y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar egwyddorion y Bil eu bod yn cael eu gadael heb wybodaeth a chymorth digonol ar ôl diagnosis perthynas ag ASA. Dywedodd rhai mai sefydliadau gwirfoddol yw'r ffynhonnell orau o gymorth. Roedd rhai o'r farn nad oedd gweithwyr proffesiynol yn gwrando arnynt, er bod ganddynt arbenigedd a phrofiad o ofalu am berson ag ASA.

213. Mae adran 2(1)(k) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod strategaeth awtistiaeth yn rhoi pwyslais ar sut y gellir cefnogi teuluoedd a gofalwyr wrth ddiwallu anghenion person ag ASA. Yn ychwanegol, dylai strategaeth sicrhau bod dymuniadau pobl ag ASA a'u teuluoedd a'u gofalwyr yn cael eu hystyried.

5. 14. Ymchwil, arloesedd a gwella gwasanaethau

214. Mae angen mwy na diwygiadau i'r drefniadaeth a'r ddarpariaeth i ddatblygu gwasanaethau gwell ar gyfer pobl ag ASA. Mae datblygiadau mewn niwrowyddoniaeth, arloesedd ym maes addysg, gofal a chymorth a dulliau newydd o rymuso pobl ag ASA - a'u gofalwyr a'u teuluoedd - i gyd yn cyfrannu at well dealltwriaeth a gwell profiadau bywyd i bobl ag ASA. Mae'n hanfodol cymryd golwg hirdymor a datblygu'r capasiti ymchwil, ac ymgorffori arloesedd o ran polisi ac arfer yn y gwasanaethau prif ffrwd.

215. Mae'r Bil yn cynnig hyblygrwydd wrth ddatblygu ac adolygu'r strategaeth awtistiaeth a darparu canllawiau. Bydd hyn yn caniatáu i'r strategaeth gael ei diweddaru yng ngoleuni datblygiadau yn y ddealltwriaeth o ASA a gwelliannau i'r gwasanaeth, ac i ymateb i anghenion a safbwyntiau pobl ag ASA a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

216. Mae'r Bil yn cydnabod pwysigrwydd datblygiadau mewn gwyddoniaeth a gwasanaethau trwy ei gwneud yn ofynnol (yn adran 2(1)(m)) fod strategaeth awtistiaeth yn rhoi pwyslais ar arloesi a gwelliant wrth gomisiynu a chyflenwi gwasanaethau ASA, ac i wneud darpariaeth ar gyfer comisiynu ymchwil i ASA.

5. 15. Seilwaith lleol

217. Roedd Cynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, a gyhoeddwyd yn 2008, yn sicrhau bod seilwaith ar gyfer awtistiaeth ym mhob ardal awdurdod lleol, gyda chydlynwyr a strategaethau lleol, a chydlynydd cenedlaethol ar gyfer Cymru. Roedd yn gwella'r capasiti ar gyfer gwaith ymchwil, gan godi proffil ASA a sicrhau bod amrywiaeth o wybodaeth ac adnoddau o safon uchel ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol.

218. Fodd bynnag, mae natur wirfoddol y seilwaith awtistiaeth lleol yn golygu bod y strategaeth yn fwy effeithiol mewn rhai ardaloedd nag eraill. Darparwyd arian ychwanegol i awdurdodau lleol, ond dim ond hyd at fis Ebrill 2015 y cafodd yr arian hwn ei neilltuo. Mae angen dull cadarnach o weithredu.

219. Roedd cynllun gweithredu strategol ASA yn sefydlu seilwaith ASA lleol a oedd yn cynnwys arweinwyr ASA a grwpiau cydlynu ym mhob awdurdod lleol. Fodd bynnag, soniodd y Gwerthusiad o Ganlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig fod y strwythurau llywodraethu ac atebolrwydd yn wan a bod hynny wedi cyfrannu at effaith anghyfartal ar draws Cymru. Roedd y strategaeth wedi helpu i greu 'ynysoedd' o arferion da ledled Cymru, ond cafodd anhawster i greu newid systemig.[20]

220. Bydd darparu ar gyfer seilwaith awtistiaeth lleol mewn deddfwriaeth yn helpu i hybu gwelliannau mewn gwasanaethau a chymorth a sicrhau bod darpariaeth o safon uchel ar gael ledled Cymru ar gyfer pobl ag ASA. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod strategaeth awtistiaeth yn cael ei llunio i sefydlu'r seilwaith a'r arweinyddiaeth angenrheidiol i fonitro a hyrwyddo'r modd y caiff y strategaeth awtistiaeth ei gweithredu. Trwy osod cyfrifoldebau clir ar gyfer hyrwyddo'r strategaeth, gellir sicrhau gwelliannau gwirioneddol o ran gwasanaethau.

[20] Gwerthusiad o Ganlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, Adroddiad Terfynol, y Dr Duncan Holtom a'r Dr Sarah Lloyd Jones, Chwefror 2016, t.10.

5. 16. Data ar anhwylder sbectrwm awtistiaeth

221. Mae tystiolaeth yn dangos fod angen gwell gwybodaeth am nifer y bobl yng Nghymru sydd â diagnosis o ASA a'u hanghenion.[21] Er bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn casglu data ar blant sydd wedi cael diagnosis o ASA, gan ddefnyddio cronfa ddata Iechyd Plant Cymunedol 2000/CypRIS, nid yw gwybodaeth yn cael ei chasglu'n systematig ar draws Cymru ar hyn o bryd am bobl ag ASA a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae prinder data yn gwneud y dasg o gynllunio gwasanaethau digonol ac effeithiol yn anodd.

222. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaethau rhanbarthol gynnal asesiadau poblogaeth ar gyfer eu hardaloedd, er mwyn pennu'r gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu eu hanghenion. Rhaid iddynt wedyn gynllunio gwasanaethau yn unol â hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu grwpiau blaenoriaeth ar gyfer yr asesiadau cychwynnol, sy'n cynnwys pobl ag anabledd dysgu ac ASA.

223. Fodd bynnag, mae angen i ddata ar gyfer ASA gael ei bennu'n eglur ac ar wahân, er mwyn cael gwybodaeth ystyrlon am nifer y bobl a'u hanghenion. Mae'n bwysig bod unrhyw asesiad o'r boblogaeth yn nodi ac yn cydnabod anghenion penodol pobl ag ASA, heb fod risg i'r cyflwr gael ei gynnwys fel anabledd dysgu. Bydd hyn yn galluogi byrddau'r GIG ac awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir yn lleol.

224. Mae'r asesiadau poblogaeth cyntaf a gyhoeddwyd gan bartneriaethau rhanbarthol yn 2017 o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dangos cyn lleied o wybodaeth sydd ar gael am bobl ag ASA a'u hanghenion ledled Cymru.

225. Disgwylir i awdurdodau lleol lunio cofrestrau o bobl anabl yn eu hardaloedd ond mae'r cofrestriad yn wirfoddol: caiff unigolion benderfynu a ydynt am gael eu cynnwys ai peidio. Felly, mae'n annhebygol y bydd cofrestrau o'r fath yn darparu darlun cynhwysfawr o nifer ac anghenion pobl ag ASA mewn ardaloedd awdurdodau lleol.

226. Roedd y prinder data ar bobl ag ASA yn fater o bwys mawr yn yr ymgynghoriad ar egwyddorion y Bil. Roedd mwyafrif helaeth y sylwadau ar y

[21] Llywodraeth Cymru, *Gwerthuso canlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig*, 2016, t.31

mater hwn yn mynegi cefnogaeth gref i gasglu data gwell ar bobl ag ASA, er nad oedd consensws ar y dull gorau o gyflawni hyn. Yn yr un modd, nid oedd unrhyw gonsensws yn yr ymgynghoriad ar y Bil drafft ynghylch ai ar wyneb y Bil ynteu mewn canllawiau y dylid pennu'r categorïau o ddata. O ran tryloywder ac eglurder, mae'r prif gategorïau o ddata wedi'u pennu ar wyneb y Bil, a gwneir darpariaeth i gategorïau pellach gael eu rhagnodi gan Weinidogion Cymru.

227. Byddai'r Bil yn gosod gofyniad clir ar gyrff y GIG i gasglu categorïau penodol o ddata (fel y nodir yn adran 6(6) o'r Bil), i sefydlu nifer ac anghenion plant ac oedolion ag ASA, ac am y broses a'r dulliau o wneud asesiad diagnostig. Bydd hyn yn galluogi gwell cynllunio gwasanaethau, monitro tueddiadau mewn diagnosis a gwerthuso, a gwella prosesau diagnostig yn lleol ac ar draws Cymru gyfan. Gellir mynd i'r afael â materion eraill sy'n ymwneud â chasglu data yn y canllawiau sydd i'w cyhoeddi o dan y Bil, yn ôl disgresiwn Gweinidogion Cymru.

228. Mae'r Bil yn pennu'r prif gategorïau o ddata sydd i'w casglu. Mae'r rhestr wedi'i llunio gyda chyngor gan arbenigwyr mewn casglu data, ac ymarfer clinigol mewn gwasanaethau ASA. Bernir mai'r categorïau yn y Bil yw'r lleiafswm sy'n ofynnol i fodloni swyddogaethau diagnosis, cynllunio a datblygu gwasanaethau. Mae angen y data hyn o bob rhan o Gymru; bydd cysondeb wrth gasglu data yn hwyluso dull strategol o gynllunio gwasanaethau.

229. Mae'r Bil hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ofyn am ddata dienw gan gyrff perthnasol, darpariaeth a gafodd ei chefnogi'n gref gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft. Mae data o'r fath yn debygol o fod yn amhrisiadwy at ddibenion ymchwil, yn ogystal â chynorthwyo i wella gwasanaethau.

230. Mae'r Bil yn adeiladu ar y trefniadau presennol ar gyfer casglu data, sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan ddefnyddio cronfa ddata Iechyd Plant Cymunedol 2000 / CypRIS, ac nid yw'n eu disodli.

231. Gellir nodi y bydd y gronfa ddata yn adeiladu data gwerthfawr at ddibenion ymchwil, ac y bydd potensial i'r wybodaeth hon gael ei defnyddio ar gyfer ymchwil ar effaith polisïau yn ogystal â gwasanaethau, olrhain ASA ar draws ardaloedd, gan dynnu sylw at anghysondebau posibl rhwng diagnosis mewn gwahanol ardaloedd.

5. 17. Canllawiau ar weithredu a chyflenwi'r strategaeth awtistiaeth

232. Mae adran 4 o'r Bil yn cynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i gyrff perthnasol ynghylch gweithredu a chyflenwi'r strategaeth awtistiaeth. Bydd hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y strategaeth yn cael ei chyflenwi'n effeithiol. Mae felly'n sail i nod craidd y Bil, sef sicrhau y caiff anghenion pobl ag ASA eu diwallu.

233. Mae adran 4 yn cynnwys nifer o faterion penodol y mae'n ofynnol eu cynnwys yn y canllawiau ar weithredu a chyflenwi'r strategaeth. Ystyrir bod y rhain yn ddigon pwysig i warantu canllawiau, ac felly mae'n rhaid eu cynnwys. Caiff y canllawiau gyfeirio at agweddau eraill ar y strategaeth awtistiaeth yn ôl disgresiwn Gweinidogion Cymru.

234. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod canllawiau sydd i'w dyroddi gan Weinidogion Cymru yn cynnwys y canlynol:

- nodi personau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth;
- personau sydd i'w pennu fel gofalwyr at ddibenion y Ddeddf hon;
- darparu gwasanaethau asesu diagnostig a gwasanaethau asesu anghenion.

Dyma garreg sylfaen y gwasanaethau ASA ac yn faes sy'n peri pryder mawr i bobl ag ASA, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Bydd canllawiau ar ddiagnosis ac asesu anghenion i gefnogi strategaeth ASA yn helpu i sicrhau gwell ansawdd a chysondeb yn y gwasanaethau hyn.

- Cynnwys gweithwyr proffesiynol allweddol mewn timau asesu diagnostig amlddisgyblaethol.

Mae adran 4(6) o'r Bil yn cynnwys rhestr enghreifftiol o weithwyr proffesiynol allweddol i'w cynnwys mewn timau asesu diagnostig amlddisgyblaethol. Mae'r rhestr yn cynnwys: seicolegydd clinigol, seiciatrydd, therapydd lleferydd ac iaith, therapydd galwedigaethol, therapydd ymddygiadol a gweithiwr cymdeithasol.

- Hyfforddi staff sy'n darparu gwasanaethau.

Mae'r angen mawr am wella hyfforddiant staff i gydnabod ASA a sgiliau i gefnogi pobl ag ASA yn gwneud hyn yn elfen hanfodol o'r strategaeth. Mae angen

canllawiau ar gyfer cyrff perthnasol er mwyn gwneud gwelliannau sylweddol a chynhwysfawr i hyfforddiant staff ac er mwyn sicrhau bod hyfforddiant o'r fath yn arwain at ganlyniadau cyson ledled Cymru.

- Arweinyddiaeth leol

Nod y Bil yw gwella gwasanaethau ASA ar draws pob rhan o Gymru; er mwyn hwyluso hyn, mae angen cyfeiriad ac arweinyddiaeth glir ar ardaloedd. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol fod canllawiau'n cael eu paratoi ar sut y gellir rhoi hyn ar waith ym mhob ardal, er mwyn sicrhau atebolrwydd ar gyfer gweithredu a chyflenwi'r strategaeth ASA.

235. Mae adran 4 yn ei gwneud yn ofynnol fod canllawiau'n cael eu cyhoeddi o fewn tri mis ar ôl cyhoeddi'r strategaeth awtistiaeth.

236. Rhaid i'r canllawiau ac unrhyw fersiynau diwygiedig dilynol fod yn destun ymgynghori â chyrff perthnasol a phersonau eraill a ystyrir yn briodol, gan gynnwys pobl ag ASA a sefydliadau sy'n cynrychioli eu buddiannau neu sy'n darparu gwasanaethau iddynt.

237. Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r canllawiau yn gyson. Wrth adolygu'r canllawiau, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried pa mor effeithiol y buont wrth weithredu'r strategaeth.

238. Hefyd, caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r canllawiau, ac os digwydd hynny, rhaid iddynt gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol. Rhaid iddynt ystyried a oes angen diwygio'r canllawiau ar ôl gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r strategaeth awtistiaeth.

239. Mae adran 4 o'r Bil hefyd yn darparu bod gwaith a wneir gan Weinidogion Cymru cyn i'r ddarpariaeth hon ddod i rym (er enghraifft, wrth ddatblygu canllawiau ar strategaeth awtistiaeth fel eu bod yn bodloni’r meini prawf yn y Bil) yn cael ei ddehongli fel gwaith sy’n bodloni gofynion y Bil. Bydd hyn yn helpu i osgoi dyblygu gwaith.

6. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

240. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae Tabl 1 yn dangos hynny mewn perthynas â'r canlynol:

(i) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;

(ii) y ffurf y mae'r pŵer i'w arfer;

(iii) priodoldeb y pŵer dirprwyedig;

(iv) y weithdrefn sydd i'w defnyddio; hynny yw, ai "cadarnhaol", "negyddol", neu "dim gweithdrefn" ydyw, ynghyd â'r rhesymau pam ei bod yn cael ei hystyried yn briodol.

241. Gellir disgwyl i Lywodraeth Cymru (fel sy'n arferol ganddi) ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth lle bernir bod hynny'n briodol. Bydd union natur yr ymgynghoriad (os o gwbl) yn cael ei phenderfynu pan fydd y cynigion wedi'u ffurfioli.

Tabl 1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Awtistiaeth (Cymru):

Adran	Y sawl sy'n cael y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm am y weithdrefn
6(6)(j)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pwerau yn yr adran hon i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, sy'n rhagnodi categorïau ychwanegol o ddata i'w casglu gan gyrff y GIG.	Cadarnhaol	Mae'r weithdrefn gadarnhaol yn briodol o ystyried y gall unrhyw gategorïau ychwanegol o ddata a ragnodir gynnwys data personol.
9(1) – i'w gael o dan y diffiniad o "anhwylder sbectrwm awtistiaeth"	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pwerau yn yr adran hon i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, at ddibenion y Bil hwn yn unig, sy'n ychwanegu anhwylderau niwroddatblygiadol eraill at ddiffiniad y Dosbarthiad Rhyngwladol o Glefydau Sefydliad Iechyd y Byd o 'anhwylder sbectrwm awtistiaeth'.	Cadarnhaol	Mae'r weithdrefn gadarnhaol yn briodol o ystyried y gall y rheoliadau hyn ymestyn cwmpas yr anhwylderau y bydd y Bil yn gymwys iddynt.
9(1) – i'w gael o dan y diffiniad o "corff perthnasol"	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pwerau yn yr adran hon i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ehangu'r diffiniad o 'gorff perthnasol' at ddibenion y Bil y tu hwnt i awdurdodau lleol a chyrff y GIG sydd eisoes wedi'u cynnwys fel cyrff perthnasol.	Cadarnhaol	Mae'r weithdrefn gadarnhaol yn briodol o ystyried y bydd y rheoliadau hyn yn ehangu'r ystod o gyrff y bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio â'r strategaeth awtistiaeth a'r canllawiau cysylltiedig.

Rhan 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael o ran y prif ddarpariaethau yn y Bil, ac yn dadansoddi i ba raddau y byddai pob un o'r rhain yn bodloni'r amcanion polisi a ddymunir gan Paul Davies AC. Wrth wneud hynny, mae'n ystyried y risgiau, y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn.

242. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn archwilio'r potensial am ganlyniadau anfwriadol ac mae'n cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb. Paratowyd y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn trwy ddefnyddio'r wybodaeth orau a oedd ar gael ar y pryd.

243. Paratowyd y wybodaeth hon trwy drafod â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys: Llywodraeth Cymru, gweithwyr proffesiynol yn y maes, a chyrff y trydydd sector. Yn ogystal, cynhaliwyd dau ymgynghoriad i ganiatáu i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ymgorffori barn awdurdodau lleol a byrddau iechyd.

244. Aseswyd y costau a'r mateision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn dros gyfnod o bum mlynedd oherwydd ni ellir amcangyfrif y costau y tu hwnt i hyn. Mae costau rheolaidd y disgwylir iddynt barhau y tu hwnt i'r cyfnod hwn yn cael eu nodi yn y testun.

245. Defnyddiwyd cyfradd ddisgownt ganolog Trysorlys EM o 3.5 y cant[22] drwy gydol y dadansoddiad hwn i gyfrifo gwerth presennol yr opsiwn a ffefrir.

246. Dalier sylw fod y costau wedi'u talgrynnu ac fe all na fydd is-gyfanswm, felly, yn gwneud cyfanswm.

[22] https://www.gov.uk/government/publications/the-green-book-appraisal-and-evaluation-in-central-governent

7. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Bil Awtistiaeth (Cymru)		
Costau presennol: £1.1 biliwn y flwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn darparu cyfarwyddyd o ran strategaeth awtistiaeth, cod ymarfer, canllawiau, hyfforddiant a datblygu cronfeydd data. Nid yw costau darpariaeth o'r fath yn hysbys ac nid oes unrhyw ofyniad deddfwriaethol i fwrw ymlaen â'r rhain, felly amcangyfrifwyd fod y costau hyn yn sero. Darparwyd cyllid er mwyn cyrraedd y targed o ddim mwy na 26 wythnos o amser aros ar gyfer plant; tybir bod yr arian hwn yn dal ar gael. Nid yw'r swm o arian a ddarparwyd yn hysbys, gan y rhagdybir y bydd y cyllid hwn yn parhau, ac er mwyn osgoi dryswch nid yw'r costau yn hysbys, felly rhoddir sero ar eu cyfer. Mae costau cydymffurfedd a gorfodi yn fach iawn ac yn rhan o waith monitro presennol y GIG, a rhoddir sero ar eu cyfer. Amcangyfrifir bod costau cynyddrannol uniongyrchol ASA yn £3.5 biliwn dros 5 mlynedd a bod y costau anuniongyrchol, sy'n gysylltiedig â cholledion yn sgil y gostyngiad mewn cynhyrchiant, yn £2.1 biliwn dros 5 mlynedd. Er yr amcangyfrifir bod costau budd-daliadau'r DU yn £270 miliwn, nid yw'r costau hyn yn disgyn ar Lywodraeth Cymru nac ar gyrff datganoledig. Yr opsiwn a ffefrir: cyflwyno Bil Awtistiaeth (Cymru) a'i basio.		
Cyfnod:	Cyfnod arfarnu: 5 mlynedd	Blwyddyn sylfaen prisiau: 2017
Cyfanswm Cyfanswm:£7,387,366 Gwerth Presennol: £6,863,575	Cyfanswm y manteision Cyfanswm: Nid yw'n bosibl eu mesur. Gwerth Presennol: anhysbys	Gwerth Presennol Net: £6,863,575

Costau gweinyddol

Cyfanswm: £7,387,366
Costau uniongyrchol:
Costau pontio:
Llywodraeth Cymru: £144,888
Byrddau iechyd: £4,488,413 (dros 3 blynedd)
Costau parhaus:

Llywodraeth Cymru: £214,868 (heb ei daenu'n gyfartal dros y blynyddoedd) Byrddau iechyd: £20,490 (yn ychwanegol at gronfa ddata Opsiwn 1, costau llunio adroddiadau a monitro) **Costau anuniongyrchol: Hyfforddiant (amser)** **Costau pontio:** Staff y GIG: £956,752 Llywodraeth leol: Staff gofal cymdeithasol £241,740 Llywodraeth leol: Staff addysg £815,271 **Costau parhaus:** Staff y GIG: £230,238 (dros 3 blynedd) Llywodraeth leol: Staff gofal cymdeithasol £172,775 (dros 3 blynedd) Llywodraeth leol: Staff addysg £101,933 (dros 3 blynedd)			
Costau pontio: £6,647,063	Rheolaidd: £740,303	Cyfanswm: £7,387,366	Gwerth presennol: £6,863,575
Arbedion costau: £anhysbys Arbedion parhaus: £anhysbys Arbedion untro: £anhysbys			
Pontio: £ anhysbys	Rheolaidd: £ anhysbys	Cyfanswm: £ anhysbys	Gwerth presennol: £ anhysbys
Cost weinyddol net:£7,387,366			

Costau cydymffurfio

Nid oes amcangyfrif o gostau gorfodi ychwanegol ar gyfer y Bil hwn.			
Pontio: £0	Rheolaidd: £0	Cyfanswm: £0	Gwerth presennol: £0

Costau eraill

Costau cyffredin i Opsiwn 1: Amcangyfrifir bod costau cynyddrannol uniongyrchol ASA yn £3.5 biliwn dros 5 mlynedd a bod y costau anuniongyrchol, sy'n gysylltiedig â cholledion yn

sgil y gostyngiad mewn cynhyrchiant, yn £2.1 biliwn dros 5 mlynedd.			
Pontio: £0	Rheolaidd: £5,657,516,576	Cyfanswm: £5,657,516,576	Gwerth presennol: £5,107,745,065

Costau heb eu meintoli ac anfanteision

Mae nifer o fanteision, anfanteision a risgiau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r Bil, nad oedd modd eu mesur a lle nad yw'r effaith a'r costau dilynol posibl yn hysbys. Cyfeirir at y rhain yn ôl darpariaeth a sefydliad drwy'r Memorandwm Esboniadol a'r asesiad effaith rheoleiddiol.

Manteision

Oherwydd bod ansicrwydd am niferoedd y bobl a gafodd ddiagnosis, ar restrau aros a heb gael diagnosis, a phrinder gwybodaeth am y gwasanaethau a gaiff y rhai sydd â diagnosis ASA neu heb ddiagnosis, nid oes digon o wybodaeth i allu mesur manteision y Bil hwn.

Manteision heb eu mesur

Bydd y gostyngiad buan yn nifer y bobl sy'n aros am gyfarfod asesu cyntaf a gwybodaeth well am bobl sydd wedi cael diagnosis o ASA yn arwain at wneud mwy gydag adnoddau prin, llai o debygolrwydd y darperir gwasanaethau i bobl ag ASA heb ddiagnosis neu heb ei nodi a all wneud mwy o niwed na lles, a gwell gwybodaeth ar gyfer ymchwil. Bydd gwell hyfforddiant yn gwella gofal, gwasanaethau a diagnosis.

Tystiolaeth allweddol, rhagdybiaethau ac ansicrwydd

Cyfeirir at y dystiolaeth allweddol, y rhagdybiaethau a'r ansicrwydd yn y rhagarweiniad. Ceir rhagor o fanylion yn y drafodaeth ar gostau a manteision y ddau opsiwn.

7. 1. Yr opsiynau a ystyriwyd

247. Y ddau brif opsiwn a ystyriwyd oedd:

- parhau â dull presennol Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael ag anghenion plant ac oedolion ag ASA yng Nghymru, a

- chyflwyno deddfwriaeth i sicrhau y caiff anghenion plant ac oedolion ag ASA yng Nghymru eu nodi a'u diwallu.

248. Fel y soniwyd eisoes, mae llawer o waith wedi'i wneud yn y blynyddoedd diwethaf i wella gwasanaethau i bobl ag ASA, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Roedd Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, Llywodraeth Cymru, yn cydnabod yr angen am wasanaethau diagnostig gwell i blant ac oedolion sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth.

249. Serch hynny, mae pobl mewn rhai ardaloedd yn dal i gael anhawster i gael mynediad at asesiadau diagnostig.

250. Mae llawer o bobl sydd ag ASA, a'u teuluoedd, yn dal heb gael y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, a fyddai'n eu galluogi i ymdopi â'r heriau a ddaw yn sgil awtistiaeth ac i gyflawni eu potensial. Er bod arfer da a gwasanaethau ymatebol i'w cael mewn rhai ardaloedd, mae darpariaeth yn parhau'n anghyson ledled Cymru gan fod y strategaeth yn canolbwyntio ar y sefyllfa leol.

251. Yr ail brif opsiwn a ystyriwyd oedd cyflwyno'r Bil Awtistiaeth (Cymru), sydd â'r nod o ychwanegu at gamau gweithredu presennol Llywodraeth Cymru, yn hytrach na'u disodli. Dyma'r dewis a ffefrir.

252. Un o swyddogaethau allweddol y Bil, felly, yw sicrhau darpariaeth gyson a pharhaus o'r holl wasanaethau ASA ledled Cymru er mwyn cyflawni'r diben craidd o sicrhau bod anghenion pobl ag ASA yn cael eu diwallu, a bod eu hawliau'n cael eu diogelu a'u hyrwyddo. Y tu hwnt i gyfnod y diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig ar gyfer 2016-20, nid oes sicrwydd y bydd gwasanaethau awtistiaeth yn parhau i gael eu blaenoriaethu. Drwy greu gofyniad cyfreithiol i gyhoeddi strategaeth awtistiaeth, byddai Bil Awtistiaeth (Cymru) yn helpu i sicrhau rhywfaint o sefydlogrwydd a chynaliadwyedd mewn gwasanaethau gofal a chymorth i bobl ag ASA.

8. Opsiwn 1: Parhau â chynlluniau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol

Tabl 2: Crynodeb o'r costau ar gyfer opsiwn 1

Costau	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Llywodraeth Cymru						
Datblygu strategaeth awtistiaeth	Yn cael ei ddarparu eisoes, ond nid oes gofyniad i ddiweddaru'r strategaeth - £0					0
Datblygu canllawiau i weithredu'r strategaeth	Yn cael ei ddarparu eisoes, ond nid oes gofyniad i ddiweddaru'r canllawiau - £0					0
Darparu'r data yn gyhoeddus	Dim ymrwymiad penodol i wneud data yn gyhoeddus - £0					0
Adolygiad annibynnol o'r strategaeth awtistiaeth	Yn cael ei ddarparu eisoes, ond nid oes gofyniad i ddiweddaru'r strategaeth - £0					0
Datblygu hyfforddiant / gwella ymwybyddiaeth	Darperir cyllid ond mae'n anhysbys.					0
Cyfanswm y costau i Lywodraeth Cymru	0	0	0	0	0	0
Byrddau Iechyd Lleol						
Costau gweithredu'r gronfa ddata bresennol	73,579	73,579	73,579	73,579	73,579	**367,895**

Costau	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Costau datblygu cronfeydd data plant ac oedolion	Darperir cyllid ond mae'n anhysbys.					0
Cyrraedd y targed amser aros 26 wythnos	Darperir cyllid i gwrdd â'r targed o 26 wythnos i blant.					0
Costau cydymffurfedd / gorfodi	Rhan o waith llunio adroddiadau a monitro perfformiad y GIG - £0					0
Cyfanswm costau i'r Byrddau Iechyd Lleol	**73,579**	**73,579**	**73,579**	**73,579**	**73,579**	**367,895**
Cyfanswm costau uniongyrchol ychwanegol y Bil	**73,579**	**73,579**	**73,579**	**73,579**	**73,579**	**367,895**
Sefydliadau sector cyhoeddus						
Costau uniongyrchol: llety	475,581,162	476,996,673	478,410,820	479,855,417	481,313,648	2,392,157,720
Costau uniongyrchol: addysg	143,432,339	143,859,248	144,285,746	144,721,427	145,161,220	721,459,980
Costau uniongyrchol: iechyd a gofal cymdeithasol	118,936,651	119,290,652	119,644,312	120,005,587	120,370,271	598,247,473
Costau uniongyrchol: Cyfanswm	737,950,152	740,146,573	742,340,878	744,582,431	746,845,139	3,711,865,173

Costau	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Costau uniongyrchol: Cyfanswm cynyddrannol	**700,057,908**	**702,141,547**	**704,223,179**	**706,349,633**	**708,496,156**	**3,521,268,423**
Cyfanswm y costau uniongyrchol	**700,131,487**	**702,215,126**	**704,296,758**	**706,423,212**	**708,569,735**	**3,521,636,318**
Costau anuniongyrchol colledion yn sgil y gostyngiad mewn cynhyrchiant - unigolion	524,450,068	526,011,031	527,570,491	529,163,529	530,771,602	2,637,966,721
Costau anuniongyrchol colledion yn sgil y gostyngiad mewn cynhyrchiant -rhieni	54,165,978	54,327,197	54,488,260	54,652,791	54,818,875	272,453,101
Cyfanswm y costau anuniongyrchol	578,616,046	580,338,228	582,058,751	583,816,320	585,590,477	2,910,419,822
Cyfanswm y costau anuniongyrchol, wedi'u haddasu ar gyfer cyflogaeth	**424,704,178**	**425,968,260**	**427,231,124**	**428,521,180**	**429,823,411**	**2,136,248,153**
Costau cyfle anuniongyrchol ar gyfer staff sy'n ymgymryd â hyfforddiant	Darperir hyfforddiant a chyllid eisoes ond nid oes gofyniad i barhau.					0
Cyfanswm y costau	**1,124,835,665**	**1,128,183,386**	**1,131,527,882**	**1,134,944,392**	**1,138,393,146**	**5,657,884,471**

Costau	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Cyfanswm y costau gweinyddol	1,124,909,244	1,128,256,965	1,131,601,461	1,135,017,971	1,138,466,725	5,658,252,366
Cyfanswm yr arbedion	Gwybodaeth annigonol i lunio amcangyfrifon cadarn o'r arbedion					
Noder: Budd-daliadau'r DU (heb eu cynnwys yn y cyfansymiau)	53,740,037	53,899,988	54,059,785	54,223,022	54,387,800	270,310,632

253. Mae costau presennol y gwasanaethau ASA wedi eu cynnwys o dan y pennawd "Sefydliadau'r sector cyhoeddus". Rhannwyd y rhain rhwng meysydd gwasanaeth yn hytrach na sefydliadau. Mae hyn yn dangos sut y mae pobl yn derbyn gwasanaethau, yn hytrach na'r cyrff sy'n ariannu neu'n darparu'r gwasanaethau hyn. Gellir darparu gwasanaethau ym mhob un o'r meysydd hyn gan awdurdod lleol, sefydliad iechyd, sefydliad gwirfoddol neu sefydliad arall. Mae Tabl 5, sy'n dangos sut mae'r costau hyn yn cael eu hamcangyfrif, yn rhoi syniad o'r ystod o wasanaethau a gynhwysir ym mhob pennawd.

8. 1. Sylw cyffredinol ar amcangyfrif costau

254. Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael yn y parth cyhoeddus i amcangyfrif cost y ddarpariaeth bresennol a'r cynlluniau at y dyfodol o ran y costau gweinyddol o gefnogi polisïau ASA Llywodraeth Cymru a'r costau ehangach o ddarparu gwasanaethau i bobl ag ASA, a'u gofalwyr. Lle mae buddsoddiad yn cael ei wneud, nid yw'r buddsoddiadau hyn yn cynnwys digon o fanylder i hysbysu'r asesiad effaith hwn. Nid oedd Llywodraeth Cymru yn gallu darparu gwybodaeth benodol ynglŷn â chost y sefyllfa bresennol. Lle bo modd, defnyddiwyd yr amcangyfrif o'r costau sy'n gysylltiedig â chyflenwi camau tebyg yn y Memoranda Esboniadol a osodwyd ochr yn ochr â Biliau Llywodraeth Cymru yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

8. 2. Diweddaru ac asesu'r strategaeth awtistiaeth bresennol

255. Yn 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig.[23] Yn sgil gwerthusiad annibynnol o'r cynllun, cyhoeddwyd adroddiad interim ym mis Mawrth 2018,[24] a disgwylir adroddiad terfynol erbyn mis Ionawr 2019. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig.

256. Ar hyn o bryd nid oes rhwymedigaeth statudol ar Lywodraeth Cymru i ddarparu strategaeth awtistiaeth nac i ddiweddaru ei strategaeth. Cyhoeddwyd y cynllun gweithredu gwreiddiol yn 2008 ac fe'i diweddarwyd yn 2016.

---

[23] Llywodraeth Cymru, **Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig.**

[24] Llywodraeth Cymru, **Gwerthuso canlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig.**

257. Ni wyddys ar hyn o bryd beth yw'r gost a'r amserlen o lunio Cynllun Gweithredu Strategol ASA diwygiedig. Pe bai Llywodraeth Cymru yn diweddaru neu'n diwygio ei Gynllun Gweithredu Strategol ASA, rhagwelir y byddai hyn yn unol â'r costau a amcangyfrifir yn adran 9 (*Opsiwn 2: Llunio Bil*) o'r Memorandwm Esboniadol hwn. Felly, amcangyfrifir y byddai cynllun gweithredu diwygiedig yn costio tua £30,000. Mae hyn yn cynnwys mis o amser staff Llywodraeth Cymru ar Fand Gweithredol 2 (EB2), a chwe mis o amser aelod o staff Band Rheoli 2 (MB2). Mae hyn wedi'i seilio ar fod yr aelod o staff MB2 yn gweithio ar y strategaeth yn llawn amser, gyda goruchwyliaeth a chadarnhad gan yr aelod o staff EB2. Mae'r costau hyn hefyd yn cynnwys costau dylunio, cysodi, cyfieithu a phrawfddarllen dogfen sydd oddeutu 8,500 o eiriau.

258. Er nad oes amcangyfrifon o gostau presennol y buddsoddiad mewn gwasanaethau ASA yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cyhoeddiadau sy'n ymwneud â mentrau cyllido penodol yn ddiweddar. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bod yn bwriadu darparu £13 miliwn o gyllid ar gyfer y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol dros y cyfnod 2016-17 i 2020-21. Cyhoeddwyd £6 miliwn o gyllid, yn y lle cyntaf, ym mis Mawrth 2016[25] gan y cyn Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol dros gyfnod o dair blynedd. Ychwanegwyd £7 miliwn at hyn dros y cyfnod 2017-18 i 2020-21 a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017[26] gan y cyn Weinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae dull gwahanol o weithredu yn adran 8.5; mae'n defnyddio'r ymchwil academaidd ddiweddaraf i amcangyfrif costau ASA yn eu cyfanrwydd yng Nghymru.

259. Yn 2016, lansiwyd y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol ac roedd yn elfen allweddol o'r fersiwn ddiweddaraf o Gynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer ASA. Diben y cyllid oedd cefnogi'r gwaith o gyflenwi'r Cynllun Gweithredu ac roedd yn cynnwys ymrwymiadau i ddatblygu gwell adnoddau ar gyfer awtistiaeth.

260. Ar ôl cyhoeddiad y Gweinidog, ym mis Mawrth 2016, mae'r cyllid wedi'i ddarparu drwy'r Gronfa Gofal Integredig. Roedd cyllid y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer 2016-17 a chyllid i hybu datblygiad dibenion y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (a ddyrannwyd i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Llywodraeth Cymru) yn cynnwys:

---

[25] Llywodraeth Cymru, 'Gwasanaeth awtistiaeth newydd i Gymru' (Mawrth 2016)

[26] Llywodraeth Cymru, '£7 miliwn ychwanegol ar gyfer gwasanaeth awtistiaeth arloesol i Gymru gyfan' (Mawrth 2017)

- £188,000 i Bowys,
- £204,000 i Gaerdydd a'r Fro,
- £204,000 i Gwm Taf; a
- £249,000 i Went.

261. Cyfanswm y cyllid ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn 2017-18 oedd £2,674,400, gyda £80,000 arall ar gyfer Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a £245,600 yn cael ei gadw gan Lywodraeth Cymru.[27] Ar gyfer 2018-19 mae cyfanswm yr arian sydd ar gael o fewn y Gronfa Gofal Integredig yn £3,000,000 gyda £2,977,000 ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.[28]

8. 3. Llunio Cod Ymarfer

262. Wrth baratoi'r Bil hwn, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu cyhoeddi Cod Ymarfer[29] ar gyflenwi gwasanaethau ASA o dan adrannau 145 ac 169 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac adrannau 1 a 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

263. Nid oes gwybodaeth i allu amcangyfrif y gost o gynhyrchu'r Cod Ymarfer hwn. Mae'n bosibl y bydd y Cod Ymarfer wedi'i gwblhau i ryw raddau neu hyd yn oed ar waith pan gaiff y Bil hwn ei wneud yn ddeddf. Felly, mae'r costau hyn yn anhysbys ac nid ydynt wedi'u cynnwys fel rhan o'r amcangyfrifon hyn o'r costau.

264. Yn yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol soniwyd y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu yn unol â gofynion y canllawiau wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Bydd yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol roi sylw i'r canllawiau.

265. Soniodd yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet hefyd y bydd y Cod Ymarfer drafft yn ymdrin â nifer o feysydd, er nad oedd yr amlinelliad a luniwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi'n glir i ba raddau y bydd hyn yn diwallu gofynion y Bil.

---

[27] Llywodraeth Cymru, 'Canllawiau ar y Gronfa Gofal' (Mewn grym ers 1 Ebrill 2017)

[28] Llywodraeth Cymru, 'Canllawiau ar y Gronfa Gofal' (Mewn grym ers 1 Ebrill 2017)

[29] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Paul Davies AC, 29 Mawrth 2018.

266. Yn yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet soniwyd hefyd y bydd y Cod Ymarfer drafft yn rhoi canllawiau ar y trefniadau a ganlyn:[30]

- cael asesiad gofal cymdeithasol a chael mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol;
- sut y dylai cyrff perthnasol ddiwallu anghenion personau ag ASA;
- cynnal asesiad o anghenion hyfforddiant ASA ar gyfer staff sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol;
- sicrhau bod gan staff fynediad i hyfforddiant i gwrdd â'r anghenion hyfforddi a bennwyd;
- datblygu a chyhoeddi llwybrau asesu a diagnostig ar gyfer plant ac oedolion, gan gymryd i ystyriaeth ganllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal;
- adolygu a chynnal llwybrau diagnostig i blant ac oedolion;
- asesiadau diagnostig a chyfarfodydd ôl-ddiagnostig;
- rôl arweiniol ranbarthol ar gyfer awtistiaeth;
- cynnwys rhanddeiliaid lleol wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau ASA;
- hyrwyddo arloesedd a gwelliant wrth gomisiynu gwasanaethau ASA;
- cynnal asesiad o anghenion poblogaeth ar gyfer pobl ag ASA a chyhoeddi cynlluniau ardal;
- monitro'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau ASA;
- y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a ddarperir i blant ac oedolion sy'n cael eu cadw mewn sefydliadau diogel;
- darparu gwasanaethau iechyd meddwl i blant ac oedolion ag ASA; a
- gwasanaethau i blant ac oedolion ag ASA sydd â chyflyrau eraill.

[30] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Paul Davies AC, 29 Mawrth 2018.

8. 4. Costau presennol yr hyfforddiant

267. Mae amryw adnoddau hyfforddi ar gael ar y wefan www.ASDInfoWales.co.uk ar gyfer gweithwyr proffesiynol addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys e-ddysgu, pecynnau cymorth, cynlluniau ardystio, a fideos hyfforddi.[31]

268. Yn ogystal, mae sawl sefydliad yn darparu hyfforddiant ar ASA i'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

269. Yn ystod 2017-18, cyflwynodd tîm ASD Info Wales nifer o gyrsiau hyfforddi amrywiol i gefnogi ei waith. Roedd y cyrsiau hyn:

- yn gwella ymwybyddiaeth o ASA ac anghenion penodol pobl ag ASA; ac
- yn cefnogi ac yn cynorthwyo sefydliadau o ran:
  - defnyddio'r adnoddau a ddatblygwyd gan y tîm; a
  - threfnu i gomisiynu a chyflwyno hyfforddiant gan gyrff allanol i sicrhau y gellir darparu gwell gwasanaethau, gan gynnwys gan y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig.

270. Gan ddefnyddio'r adnoddau 'Dysgu gydag Awtistiaeth', a sesiynau gwella ymwybyddiaeth i dynnu sylw at y rhaglen a'i hadnoddau (ee cyflwyniadau i gydlynwyr ADY a seicolegwyr addysg) cyflwynwyd yr hyfforddiant a ganlyn gan y tîm Datblygu Awtistiaeth Cenedlaethol:

- Dysgu gydag Awtistiaeth:
  - Y Blynyddoedd Cynnar: Cynhaliwyd cyfanswm o 25 sesiwn hyfforddi ar draws lleoliadau'r Blynyddoedd Cynnar ledled Cymru
  - Ysgolion Cynradd – 4 sesiwn hyfforddi, gan gynnwys 3 ysgol ardal ledled Cymru
  - Ysgolion Uwchradd – Cynhaliwyd 9 sesiwn hyfforddi eleni.
- Cynhaliwyd hyd at 10 sesiwn ar draws Cymru ar gyfer rheolwyr Dechrau'n Deg a oedd yn canolbwyntio ar becyn hyfforddi Iechyd a Gofal Cymdeithasol i blant. Hefyd cawsant hyfforddiant y Blynyddoedd

[31] ASD Info Wales, **Pobl Broffesiynol**

Cynnar ac maent wedi ymrwymo i barhau i gefnogi'r hyfforddiant wrth iddo gael ei gyflwyno mewn lleoliadau lleol.

- 6 sesiwn hyfforddi ar gyfer Ymwelwyr Iechyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg fel rhan o Ddiwrnod Sgiliau Ymwelwyr Iechyd (cyfres o sesiynau) gan ganolbwyntio ar becyn hyfforddi Iechyd a Gofal Cymdeithasol i blant.
- Darparwyd hyfforddiant adnoddau dynol yn ystod mis Ebrill 2017 i staff yn swyddfa Llywodraeth Cymru ym Merthyr Tudful, a sesiwn arall ar gyfer staff yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol yng Nghasnewydd.
- Hwyluswyd 10 sesiwn hyfforddi hamdden yn y De-ddwyrain, gan gynnwys sesiwn hyfforddi'r hyfforddwr i staff yn Chwaraeon Anabledd Cymru, fel y crybwyllwyd uchod.
- Cafwyd sawl sesiwn gwella ymwybyddiaeth gyffredinol o ASA hefyd ar gyfer rhwydweithiau busnes, digwyddiadau lleol a chynadleddau.
- Gweithio gyda hyfforddiant Awtistiaeth a ddarparwyd i Workways Cymru yng Nghastell-nedd Port Talbot a Sir Benfro.

271. Yn ystod datblygiad y Bil, dywedodd y Tîm Datblygu Awtistiaeth Cenedlaethol fod yr hyfforddiant hwn wedi'i cael ei dderbyn yn dda ar draws pob maes a bod ceisiadau'n dod i law yn rheolaidd.

272. Mae'r wefan **www.ASDinfoWales.co.uk** yn cael ei rheoli gan y Tîm Datblygu Awtistiaeth Cenedlaethol. Mae dros 24,200 o bobl wedi ymgymryd â'r cynllun cyffredinol Ymwybyddiaeth o ASA. Yn ystod datblygiad y Bil hwn, amlinellodd y Tîm Datblygu Awtistiaeth Cenedlaethol eu bod yn parhau i ddatblygu a gwella gwefan www.ASDinfoWales.co.uk. Soniwyd fod yr adnoddau ychwanegol a ganlyn wedi'u hychwanegu:

- Ap Cynllunydd ASA – wedi cael ei ailddatblygu, ond roedd y Tîm yn gweithio i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â rheoliadau GDPR cyn ei lansio.

- **Ffilm Parti Pen-blwydd**[32] a lansiwyd ym mis Mehefin 2017**.** Mae'r ffilm yn brosiect partneriaeth rhwng CLlLC, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Aston a phartneriaid seicoleg glinigol, ac fe'i ariannwyd gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru. Nod y ffilm yw gwella dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol rheng flaen ac ymwybyddiaeth o ASA ymysg plant.

- Cafodd y **Cynllun Hamdden** ei lansio ar ddechrau 2017. Gan ddefnyddio dull 'hyfforddi'r hyfforddwr', mae swyddogion Chwaraeon Anabledd Cymru wedi cael eu hyfforddi i ddarparu hyfforddiant parhaus. Nod y Cynllun Hamdden yw cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o anghenion unigolion ag ASA o fewn y diwydiant hamdden.[33]

- **Cynhaliwyd wyth digwyddiad rhanbarthol** ar draws Cymru rhwng mis Ebrill a mis Mai 2017. Roedd dwy sesiwn y dydd, un ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac un arall i rieni. Nod y digwyddiadau hyn oedd gwella ymwybyddiaeth am waith y tîm, yr adnoddau sydd ar gael ac i ddarparu rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, a hefyd i gynghori cyfranogwyr am gynlluniau newydd, fel y cynllun "Weli Di Fi".

- Mae **ffilm i hyfforddi'r gwasanaethau brys** wedi'i gwblhau. Deilliodd hyn o'r llu o geisiadau a gafwyd i ddarparu hyfforddiant i'r gwasanaethau brys o amrywiol ffynonellau ac mewn ymateb i ymarfer cwmpasu yn nodi'r angen a'r awydd i ddatblygu rhaglen ar gyfer y gwasanaethau brys. Mae pecyn hyfforddi i gyd-fynd â'r ffilm yn cael ei ddatblygu yn 2018-19.

- Mae **pecyn hyfforddiant iechyd meddwl a gofal cymdeithasol** wedi'i gwblhau ac mae'r tîm wedi comisiynu Aspects - Adult Autism Psychology Ltd i gyflwyno'r hyfforddiant i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yng Nghymru. Nod y cwrs undydd yw gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ASA ymhlith ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol arbenigol a darparu gwybodaeth ar sut i addasu arfer.

---

[32] Gellir cael rhagor o wybodaeth yn https://www.asdinfowales.co.uk/home.php?page_id=8302&setLanguage=4&show_news_item=279

[33] Gellir cael rhagor o wybodaeth yn https://www.asdinfowales.co.uk/home.php?page_id=8926&setLanguage=4

- **Geirfa Idiomau** - Mewn ymateb i'r broblem sydd gan lawer o unigolion awtistig i ddeall rhai o'r idiomau mwyaf cyffredin a ddefnyddir bob dydd, mae'r tîm wedi datblygu geiriadur idiomau ar-lein[34] yn Gymraeg ac yn Saesneg.

- Cafodd **Cynllun Tai**[35] ei ddatblygu ac mae ar gael ar wefan www.ASDinfoWales.co.uk. Datblygwyd a threialwyd y cynllun gyda Chymdeithas Tai Merthyr Tudful a bydd yn rhan o'r broses o ddatblygu'r canllawiau diweddaraf yn rhaglen waith 2018-19.

273. Dywedodd y Tîm Datblygu Awtistiaeth Cenedlaethol fel a ganlyn hefyd ar ddiwedd 2017-18:

- Roedd dros 24,200 o bobl wedi ymgymryd â'r cynllun cyffredinol Ymwybyddiaeth o ASA.

- Roedd 1,194 o bobl wedi cwblhau 'Rwy'n gwybod am awtistiaeth';

- Roedd 1,010 o bobl wedi cwblhau 'Gweithio gyda Awtistiaeth';

- Roedd 7,512 o athrawon wedi cwblhau Dysgu gydag Awtistiaeth; ac

- Roedd 882 o staff iechyd a gofal cymdeithasol wedi bod yn rhan o gynlluniau eraill.

274. Nid oedd y ffigurau hyn yn cynnwys y fideos a ddarparwyd gan y tîm ac a gafodd eu gwylio.

275. Felly, mae buddsoddiad parhaus yn y gwaith o gynhyrchu a darparu hyfforddiant mewn perthynas ag ASA. Nid oes digon o wybodaeth i allu amcangyfrif y gost o gynhyrchu a darparu'r hyfforddiant hwn, a hefyd nid oes ymrwymiad statudol ar Lywodraeth Cymru i wneud hynny. Felly, ni cheisiwyd costio'r gwaith o lunio a darparu hyfforddiant. Fodd bynnag, mae'r niferoedd a nodir uchod wedi cyfrannu at gyfrifo'r gofynion hyfforddi staff yn Opsiwn 2.

[34] Gellir cael rhagor o wybodaeth yn https://www.asdinfowales.co.uk/home.php?page_id=9081&setLanguage=4

[35] Gellir cael rhagor o wybodaeth yn https://www.asdinfowales.co.uk/home.php?page_id=9052&setLanguage=4

8. 5. Costau'r gwaith presennol o gasglu data ar Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth

276. Mae nifer o brosiectau ledled Cymru sy'n casglu data ar ASA, sydd ar gael yn bennaf am blant a gafodd ddiagnosis yn hytrach nag oedolion a gafodd ddiagnosis.

277. Gwneir bron pob diagnosis o fewn y gwasanaethau iechyd felly byddai'n briodol defnyddio'r modiwl ASA o fewn y gronfa ddata Iechyd Cymunedol Plant 2000/CYPRIS at ddibenion casglu data ar gyfer diagnosis plant.[36]

278. Defnyddir y modiwl ASA ar hyn o bryd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr[37] ac mae wedi casglu data ar draws Gogledd Cymru ers 2012. Mae'r datblygiad hwn yn gydnaws â pheilot a gynhelir ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gan ddefnyddio cronfa ddata CYPRIS.

279. Yn ogystal, mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn treialu datblygiad traws-asiantaethol o System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) i gasglu data ar anhwylderau ASA ac anhwylderau niwroddatblygiadol.

280. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cynghori bod y modiwl ASA Monitro eu Plant yn gofyn am:

- 1 diwrnod yr wythnos o amser staff cyfwerth ag amser llawn ar Fand 8D GIG Cymru;
- 2.5 diwrnod yr wythnos o amser staff cyfwerth ag amser llawn ar Fand 5 GIG Cymru;
- 2 ddiwrnod yr wythnos o ymchwilydd Gradd 7 a gyflogir gan brifysgol; a
- 2.5 diwrnod yr wythnos o swyddog cymorth ymchwil Gradd 6 a gyflogir gan brifysgol.

281. Yn 2017-18, y cyflog blynyddol ar gyfer aelod o staff llawn amser GIG Cymru ar ganol graddfa gyflog Band 8D oedd £76,329.[38] Gan ddefnyddio'r amcangyfrif bod

[36] Ymateb y Dr Dawn Wimpory i'r ymgynghoriad ar y Bil Awtistiaeth (Cymru) AWB72

[37] Ymateb y Dr Dawn Wimpory i'r ymgynghoriad ar y Bil Awtistiaeth (Cymru) AWB72

[38] Llywodraeth Cymru, **Cylchlythyr Tâl: Staff Agenda ar gyfer Newid 2017-18**

yr ar-gostau yn 25 y cant o'r cyflog a ddefnyddir gan y GIG,[39] byddai hyn yn rhoi cost llawn amser cyfatebol blynyddol o £95,411. Os yw'r aelod o staff yn gweithio ar y gronfa ddata am gyfartaledd o 1 diwrnod yr wythnos, byddai hyn yn rhoi cost flynyddol o £19,082.

282. Yn 2017-18, y cyflog blynyddol ar gyfer aelod o staff GIG Cymru ar ganol graddfa gyflog Band 5 oedd £25,551.[40] Gan ddefnyddio'r amcangyfrif bod yr ar-gostau yn 25 y cant o'r cyflog, byddai hyn yn rhoi cost llawn amser cyfatebol blynyddol o £31,939. Os yw'r aelod o staff yn gweithio yn y maes hwn am gyfartaledd o 2.5 diwrnod yr wythnos, byddai hyn yn rhoi cost flynyddol o £15,969.[41]

283. Ar gyfer swyddog ymchwil gradd 7 mewn prifysgol, canolbwynt y cyflog blynyddol yw £38,833.[42] Mae costau staff prifysgolion yn yr adran hon wedi'u cyfrifo gan gymryd i ystyriaeth Gynllun Pensiwn presennol y Prifysgolion. Os yw'r aelod o staff yn aelod o Gynllun Pensiwn y Prifysgolion, byddai hyn yn rhoi cost blynyddol cyfwerth ag amser llawn o £50,056 ar ôl ar-gostau.[43] Os yw'r aelod o staff yn gweithio ar y gronfa ddata am gyfartaledd o 2 ddiwrnod yr wythnos, byddai hyn yn rhoi cost flynyddol cyfwerth ag amser llawn o £20,022.

284. Ar gyfer swyddog cymorth ymchwil gradd 6, canolbwynt y cyflog blynyddol yw £28,936.[44] Os yw'r aelod o staff yn aelod o Gynllun Pensiwn y Prifysgolion, byddai hyn yn rhoi cost blynyddol cyfwerth ag amser llawn o £37,012 ar ôl ar-gostau.[45] Os yw'r aelod o staff yn gweithio yn y maes hwn am gyfartaledd o 2.5 diwrnod yr wythnos, byddai hyn yn rhoi cost flynyddol o £18,506.

285. Felly, ystyrir mai'r costau sy'n gysylltiedig â'r dull hwn fydd y costau o fwrw ymlaen â dull Llywodraeth Cymru o weithredu. Bydd costau blynyddol parhaus y tu hwnt i'r pum mlynedd a bennir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Nid oes costau ychwanegol ar gyfer caledwedd, cynnal a chadw meddalwedd a datblygiad a gynhwysir yng nghostau Opsiwn 1 a 2; bydd y ffigurau hyn yn gyffredin i'r ddau ddewis. Mae Tabl 3 yn dangos amcangyfrif cyfredol o'r costau i

[39] GIG Lloegr, **Workforce Mix Cost Calculator**

[40] Llywodraeth Cymru, **Cylchlythyr Tâl: Staff Agenda ar gyfer Newid 2017-18**

[41] Unwaith eto, yn seiliedig ar amcangyfrif o gostau GIG Lloegr.

[42] Prifysgol Bangor, **Graddfeydd a Thaliadau**

[43] ibid.

[44] ibid.

[45] ibid.

gynnal y gronfa ddata bresennol, gan dybio na fydd unrhyw ddatblygiad pellach cyn y caiff y Bil ei ddeddfu.

Tabl 3: Costau staff presennol ar gyfer casglu data ar ASA

Aelod o staff	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
BILl yn cynnal y gronfa ddata						
Ymgynghorydd Band 8D GIG Cymru ar 0.2 CALl	19,082	19,082	19,082	19,082	19,082	**95,410**
Seicolegydd cynorthwyol Band 5 GIG Cymru ar 0.5 CALl	15,969	15,969	15,969	15,969	15,969	**79,845**
Swyddog Ymchwil prifysgol Gradd 7 ar 0.4 CALl	20,022	20,022	20,022	20,022	20,022	**100,110**
Cynorthwyydd prosiect ymchwil prifysgol Gradd 6 0.5 CALl	18,506	18,506	18,506	18,506	18,506	**92,530**
Cyfanswm y costau	**73,579**	**73,579**	**73,579**	**73,579**	**73,579**	**367,895**

8. 6. Costau cyffredinol mewn perthynas ag awtistiaeth

286. Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael am y gost o ddarparu gwasanaethau uniongyrchol nac am effeithiau economaidd anuniongyrchol ASA yng Nghymru. Felly, y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer yr asesiad effaith hwn yw defnyddio'r data a'r ymchwil diweddaraf ar effeithiau economaidd ASA ledled y DU.

287. Yn gyffredinol, nid yw effaith economaidd ASA ar unigolion a'u teuluoedd, ac ar gymdeithas yn gyffredinol, wedi ei llwyr ddeall. Mae nifer o gostau economaidd a chymdeithasol uniongyrchol, ac anuniongyrchol dros gyfnod o oes, megis costau yn sgil y gostyngiad mewn cynhyrchiant unigolion a rhieini, sy'n gysylltiedig ag ASA.

288. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf a mwyaf cadarn ynglŷn â pha mor gyffredin yw awtistiaeth, ynghyd â'r costau economaidd, yn yr adroddiad '*Microsegmentu'r Sbectrwm Awtistiaeth: Y goblygiadau economaidd ac ymchwil i'r Alban'* (Rhagfyr 2017. Saesneg yn unig).[46] Mae'r astudiaeth fanwl hon yn adeiladu ar arolwg cenedlaethol a'r astudiaethau diweddaraf yn y DU ac yn rhyngwladol yn y maes hwn i amcangyfrif cost ASA yn yr Alban a pha mor gyffredin ydyw.

289. Nid oes tystiolaeth i awgrymu y byddai'r ffigurau ar gyfer Cymru yn sylweddol wahanol, ac nid oes tystiolaeth gadarn ddiweddar ar gyfer Cymru'n benodol. Felly, at ddibenion yr asesiad effaith hwn, defnyddiwyd allbynnau o'r astudiaeth ddiweddar hon yn sail ar gyfer amcangyfrifon o'r costau a pha mor gyffredin yw ASA yng Nghymru.

290. Amlygodd y gwaith cychwynnol fel rhan o'r astudiaeth ar ficrosegmentu y materion a ganlyn:

- er bod ASA yn gysylltiedig â llawer o'r cyflyrau a'r nodweddion eraill sydd gan unigolion, a fydd hefyd yn cael effaith arnynt, y ffactor bwysicaf o ran canlyniadau a sut y mae'r rhain yn trosi yn oblygiadau economaidd yw presenoldeb neu absenoldeb Anabledd Deallusol (*Intellectual Disability* - ID); a
- roedd llawer o fylchau yn y sylfaen dystiolaeth, ac nid oedd digon o dystiolaeth ar ymyrraeth a chanlyniadau i seilio'r gwerthusiad economaidd arni.[47]

291. Mae'r amcangyfrifon pa mor gyffredin yw ASA yn seiliedig ar argymhelliad yr adroddiad ar ficrosegmentu y dylid defnyddio 103.5 fesul 10,000 o bobl fel yr amcangyfrif mwyaf cywir sydd ar gael o amlder yr achosion. Amcangyfrifodd yr adolygiad hwn hefyd mai'r amcangyfrif mwyaf cywir o nifer y bobl ag ASA, o fewn

[46] http://www.gov.scot/Publications/2018/03/3640

[47] http://nationalautismproject.org.uk/wp-content/uploads/2017/01/autism-dividend-report.pdf

y boblogaeth hon, sydd ag Anabledd Deallusol (ID) yw 32.7%. Mae'r cyfraddau hyn o amlder yr achosion wedi'u cymhwyso i amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2016 ar gyfer Cymru (Swyddfa Ystadegau Gwladol, Mehefin 2017[48]) yn nhabl 4 isod.

Tabl 4: Amlder yr achosion o awtistiaeth yng Nghymru yn ôl oedran ac ID

Cymru	Poblogaeth ASA			Cyfanswm poblogaeth
	ag ID	heb ID	Cyfanswm	
Plant (0-1)	227	468	695	67,188
Plant cyn ysgol (2-4)	359	739	1,098	106,073
Plant cynradd (5-11)	853	1,755	2,608	251,977
Plant uwchradd (12-15)	446	919	1,365	131,841
Oedolion (16-67)	6,887	14,174	21,061	2,034,839

Ffynhonnell: Cyfrifiadau o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol 2017 yn seiliedig ar yr adroddiad Microsegmentu'r Sbectrwm Awtistiaeth 2017.

292. Cynhaliodd yr adroddiad ar ficrosegmentu arolwg manwl o ASA yn yr Alban hefyd i gael data mwy cywir yn ymwneud â chostau economaidd ASA ac er mwyn segmentu'r sbectrwm yn ystyrlon. Roedd y sampl yn cynnwys personau o'u plentyndod cynnar i 86 mlwydd oed, a chafodd ei bwysoli i sicrhau bod y canlyniadau yn gynrychiadol. Y canlyniad oedd bod model o segmentu yn cael ei gynnig lle roedd gallu deallusol a difrifoldeb y symptom gwreiddiol yn gymedrolwyr sefydlog o'r canlyniadau, a bod cyflyrau eraill a oedd gan unigolyn yn "ffactorau risg atodol".

293. Edrychodd yr adroddiad yn fanwl ar gostau ASA. Cyflawnwyd hyn trwy ystyried y defnydd o wasanaethau a chostau cysylltiedig. Y nod oedd cyfrifo cost gynyddrannol ASA: er enghraifft, neilltuwyd cost o £0 i'r ddarpariaeth addysgol safonol.

294. Cyfeirir at y costau ar lefelau 2013-14 (gyda ffynonellau yn cael eu dangos mewn cromfachau).

[48] https://cmd.onsdigital.co.uk/datasets/mid-year-pop-est/editions/time-series/versions/2

- Addysg. Dwysedd y defnydd o wasanaethau addysgol, ac felly cafodd y costau uned ar gyfer gwasanaethau addysgol (ASA) mewn ysgolion prif ffrwd, colegau addysg bellach ac ysgolion dydd arbennig eu hamcangyfrif gan ddefnyddio ffigurau cost o gyfrol PSSRU (Curtis, 2014) ac amcangyfrifon dwyster (oriau/wythnos) o astudiaethau blaenorol (Clifford a Thobald, 2012). Roedd hyn yn cynnwys dwysedd amcangyfrifedig ar gyfer seicolegwyr addysg, seicotherapyddion, therapyddion lleferydd ac iaith, therapyddion galwedigaethol, a ffisiotherapydd. Mae'r amcangyfrif ar gyfer cynorthwywyr ystafell ddosbarth neu gynorthwywyr arbenigol yn hanner cost cynorthwy-ydd dosbarth mewn ysgolion dydd arbennig (Clifford, 2011). Ni chafodd gwaharddiadau o'r ysgol eu costio.

- Iechyd a gofal cymdeithasol. Seiliwyd yr amcangyfrifon ar: Cyfrol PSSRU (Curtis, 2013, 2014), costau atgyfeirio GIG (Yr Adran Iechyd, 2014), ac ymchwil flaenorol (Cognizant Research, 2012; Knapp et al., 2013).

- Cafwyd cost cyflogaeth gofalwyr o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (2014) ac roeddynt yn golygu cyfanswm enillion wythnosol, gan ddefnyddio'r dull cyfalaf dynol i amcangyfrif colled i gynhyrchiant oherwydd tarfu ar gyflogaeth.

295. Ceir manylion ychwanegol am gostau uned yr uchod yn nhabl 5, isod.

Tabl 5, Dyfyniad o’r adroddiad Microsegmentu’r Sbectrwm Awtistiaeth, 2017, Costau uned (£, 2013/14) (Tabl 8.1 yn yr adroddiad gwreiddiol)

Tabl 8.1 Costau uned (£, 2013/14)

	Cost uned	Ffynhonnell
Llety		
Cartref preifat	£0	
Gofal maeth ffurfiol	£100/dydd	Curtis, 2014
Llety byw â chymorth	£924/wythnos	Curtis, 2014
Ysgol breswyl	Gweler isod	-
Gofal preswyl	Gweler isod	-
Uned ddiogel (oedolion)	£537/dydd	Curtis, 2014

	Cost uned	Ffynhonnell
Addysg		
Ysgol brif ffrwd	£0	-
Coleg addysg bellach	£0	-
Prifysgol	£0	-
Uned/adnodd arbennig mewn ysgol brif ffrwd	£140/wythnos	Barron et al., 2013
Ysgol ddydd arbennig	£527/wythnos	Clifford & Thobald, 2012
Ysgol breswyl arbennig (38 wythnos)	£2,087/wythnos	Clifford & Thobald, 2012
Ysgol breswyl arbennig (52 wythnos)	£3,308/wythnos	Clifford & Thobald, 2012
Addysg gartref	£0	-
Gweithiwr / addysg teulu ysgol gweithiwr cymorth	£0[a]	-
Seicolegydd addysg	£138/wythnos[b]	Curtis, 2014
Cynorthwyydd dosbarth	£129/wythnos[c]	Clifford, 2011
Athro arbenigol	£129/wythnos[c]	Clifford, 2011
Cynghorydd gwasanaeth anabledd	£0a	-
Nyrs ysgol	£0a	-
Meddyg ysgol	£0a	-
Clwb ar ôl ysgol	£0a	-
Hyfforddiant gartref	£26/awr	Tanner et al., 2009
Hyfforddiant unigol	£26/awr	Tanner et al., 2009
Hyfforddiant mewn grwpiau bach	£10/awr	Education Endowment Foundation, 2015
Gwahardd	£0[d]	
Iechyd a gofal cymdeithasol (yn yr ysgol)		

	Cost uned	Ffynhonnell
Cwnsela/therapi unigol	£50/wythnos[b]	Curtis, 2014
Therapydd galwedigaethol	£70/wythnos[b]	Curtis, 2014
Therapydd iaith a lleferydd	£70/wythnos[b]	Curtis, 2014
Ffisiotherapydd	£26/wythnos[b]	Curtis, 2014
Iechyd a gofal cymdeithasol		
Gofal seibiant preswyl		
Cartref gofal preswyl (plant)	£428/dydd	Curtis, 2014
Cartref gofal preswyl (oedolion)	£205/dydd	Curtis, 2014
Gofal maeth (plant)	£100/dydd	Curtis, 2014
Gwasanaethau cleifion mewnol		
Ysbyty seiciatrig (plant)	£614/dydd	Curtis, 2014
Ysbyty seiciatrig (oedolion)	£351/dydd	Curtis, 2014
Ward seiciatrig mewn ysbyty cyffredinol (plant)	Gweler ysbyty seiciatrig	-
Ward seiciatrig mewn ysbyty cyffredinol (oedolion)	Gweler ysbyty seiciatrig	-
Ward feddygol gyffredinol - arhosiad byr (ee = 1 diwrnod) (plant)	£ 837/y cyfnod	Adran Iechyd, 2014
Ward feddygol gyffredinol - arhosiad hir (ee > 1 diwrnod) (plant)	£ 2,901/y cyfnod	Adran Iechyd, 2014
Ward feddygol gyffredinol - arhosiad byr (oedolion)	£ 601/y cyfnod	Curtis, 2014

	Cost uned	Ffynhonnell
Ward feddygol gyffredinol - arhosiad hir (oedolion)	£ 2,593/y cyfnod	Curtis, 2014
Gofal ysbyty mewn carchar / uned ddiogel / uned lled-ddiogel (plant)	£968/dydd	Adran Iechyd, 2014
Gwasanaethau cleifion allanol		
Ymweliad fel cleifion allanol seiciatrig (plant)	£271/y cyswllt	Curtis, 2014
Ymweliad fel cleifion allanol seiciatrig (oedolion)	£100/y cyswllt	Curtis, 2013
Damweiniau ac Achosion Brys	£135/y cyswllt	Adran Iechyd, 2014
Ymweliadau eraill ag ysbytai fel cleifion allanol	Wedi'i bennu ar gyfer pob gwasanaeth	Adran Iechyd, 2014
Gwasanaethau gofal cymunedol		
Seiciatrydd	£262/awr	Curtis, 2013
Seicolegydd	£138/awr	Curtis, 2014
Cwnsela/therapi unigol	£50/awr	Curtis, 2014
	Cost uned	Ffynhonnell
Cwnsela/therapi grŵp	£50/awr	Curtis, 2014
Ymarferydd meddygol	£175/awr	Curtis, 2014
Nyrs anabledd dysgu cymunedol (plant)	£95/awr	Curtis, 2014
Nyrs anabledd dysgu cymunedol (oedolion)	£80/awr	Curtis, 2014

	Cost uned	Ffynhonnell
Nyrs gymunedol (gwasanaethau eraill) (plant)	£95/awr	Curtis, 2014
Nyrs gymunedol (gwasanaethau eraill) (oedolion)	£57/awr	Curtis, 2014
Aelod arall o dîm anabledd dysgu cymunedol	£37/awr	Curtis, 2014
Aelod o dîm ymddygiad heriol cymunedol	£37/awr	Curtis, 2014
Canolfan datblygu plant/pediatregyddion cymunedol	£310/y cyswllt	Curtis, 2014
Therapydd galwedigaethol	£32/awr	Curtis, 2014
Therapydd lleferydd	£32/awr	Curtis, 2014
Ffisiotherapydd	£32/awr	Curtis, 2014
Gweithiwr cymdeithasol	£55/awr	Curtis, 2014
Cymorth cartref/gweithiwr cymorth cartref	£24/awr	Curtis, 2014
Gweithiwr allgymorth/cymorth teulu	£22/awr	Curtis, 2014
Cyfeilliwr	£7/awr	Curtis, 2014
Canolfan gofal dydd (plant)	£17/awr	Curtis, 2014
Canolfan gofal dydd (oedolion)	£16/awr	Curtis, 2014
Clwb cymdeithasol (<=4 awr)	£7.5/hanner diwrnod	Curtis, 2014
Clwb cymdeithasol (>4 awr)	£15/diwrnod	Curtis, 2014
Cynlluniau chwarae (<=4 awr)	£7.5/hanner diwrnod	Curtis, 2014
Cynlluniau chwarae (>4 awr)	£15/diwrnod	Curtis, 2014

	Cost uned	Ffynhonnell
Gweithdy cysgodol	£54/wythnos	Knapp et al, 2013
Lleoliad a chymorth unigol	£72/diwrnod	Curtis, 2014
Cynlluniau gwyliau (<=4 awr)	£7.5/hanner diwrnod	Chwiliadau rhyngrwyd
Cynlluniau gwyliau (>4 a <24 awr)	£15/diwrnod	Chwiliadau rhyngrwyd
Cynlluniau gwyliau (>=24 awr)	£305/diwrnod	Curtis, 2014
Gwarchodwr plant	£19/awr	Curtis, 2014
Gwasanaethau gofal cymunedol eraill	Wedi'i bennu ar gyfer pob gwasanaeth	Curtis, 2014; Cognisant Research, 2012; chwiliadau rhyngrwyd
Gofalwyr		
Iechyd a gofal cymdeithasol.		
Seiciatrydd	£262/awr	Curtis, 2013
Seicolegydd	£138/awr	Curtis, 2014
Cwnsela/therapi unigol	£50/awr	Curtis, 2014
Cwnsela/therapi grŵp	£50/awr	Curtis, 2014
Ymarferydd meddygol	£175/awr	Curtis, 2014
	Cost uned	Ffynhonnell
Ffisiotherapydd	£32/awr	Curtis, 2014
Gweithiwr cymdeithasol	£55/awr	Curtis, 2014
Gweithiwr allgymorth/cymorth teulu	£22/awr	Curtis, 2014
Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol	Wedi'i bennu ar gyfer pob gwasanaeth	Curtis, 2014
Cyflogaeth		
Cyflogaeth (â thâl a heb dâl)[e]	£15.17/awr	ONS, 2014

Nodiadau:

a. Cynhwyswyd yn y costau ysgol.

b. Ysgolion prif ffrwd, uned/adnodd arbennig mewn ysgolion prif ffrwd, colegau addysg bellach, ac ysgolion dydd arbennig (oriau/wythnos): seicolegydd addysg (1), seicotherapydd (1), therapydd iaith a lleferydd (2.2), therapydd galwedigaethol (2.2), a ffisiotherapydd (0.8). Mae'r addasiad yn y costau yn seiliedig ar ddwysedd y therapi yn Clifford a Thobald (2012) ar gyfer yr holl wasanaethau heblaw'r seicotherapydd. Cafodd gwasanaeth seicotherapydd ei amcangyfrif yn geidwadol ar yr un dwysedd â seicolegydd addysg.

c. Ar gyfer ysgolion prif ffrwd a cholegau addysg bellach yn unig: cynorthwyydd dosbarth/cynorthwyydd arbenigol. Cafodd y gost ei hamcangyfrif yn geidwadol ar hanner cost cynorthwyydd dosbarth mewn ysgolion dydd arbenigol (Clifford, 2011).

d. Rhagdybir nad oes darpariaeth amgen ar gyfer plentyn ag ASA a gaiff ei wahardd, a bod disgwyl i rieni naill ai gofalu am eu plentyn gartref neu drefnu gofal amgen.

e. Y cymedr cenedlaethol o gyfanswm yr oriau wythnosol â thâl ar gyfer yr holl weithwyr yw 33.1 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2014).

296. Yn unol â'r adroddiad ar ficrosegmentu, tybir bod yr oedran diagnosis yn 3 oed ar gyfer plant ag ASA gydag ID a 7 oed ar gyfer y rhai heb ID. Tybir bod pob plentyn yn cael diagnosis ar yr oedrannau hyn, tra tybir bod dim ond 10 y cant o blant ag ASA gydag ID neu heb ID wedi cael diagnosis cyn 3 oed a 7 oed yn y drefn honno.

Tabl 6: amcangyfrif o'r costau oes

	Pobl ag ASA ag ID						Pobl ag ASA heb ID					
	0-1	2-4	5-11	12-15	16-67	Oes	0-1	2-4	5-11	12-15	16-67	Oes
Nifer y blynyddoedd	2	3	7	4	52		2	3	7	4	52	
Llety	-	213	258	303	11,333	592,990	-	-	-	-	4,728	245,848
Addysg	-	9,898	18,520	18,115	1,954	333,430	-	10,023	9,226	6,130	806	161,101
Iechyd a gofal cymdeithasol	293	5,218	6,972	5,954	1,847	184,627	293	5,275	4,085	1,684	1,161	111,819
Colledion yn sgil y gostyngiad mewn cynhyrchiant												
- unigolion	-	-	-	-	8,249	428,953	-	-	-	-	7,291	379,156
- rhieni	-	4,283	3,693	2,834	239	62,501	-	4,337	2,911	2,738	690	108,236
Manteision	-	4,040	3,629	2,999	2,001	153,573	-	510	431	356	-	5,969
Cyfanswm y costau	293	23,651	33,071	30,203	25,626	1,756,074	293	20,146	16,653	10,909	14,676	984,134
Cyfanswm y costau - cynyddrannol	293	22,011	29,317	26,693	25,181	1,687,757	293	18,496	14,862	9,388	14,329	942,470

Cyfrifiadau yn seiliedig ar yr adroddiad ‘Microsegmentu’r Sbectrwm Awtistiaeth 2017’

297. Ymchwiliwyd i'r ystadegau defnyddio gwasanaeth a'r costau i ddefnyddwyr, a lluniwyd adroddiad arnynt bob blwyddyn fesul categori. Lluniwyd adroddiad ar wahân hefyd ar gyfer plant dan 16 oed ac oedolion. O fewn pob grŵp cyflwynwyd y canlyniadau ar wahân ar gyfer y tri grŵp diagnostig: 'Awtistiaeth Gweithredu Lefel Uchel,' 'ASA' ac 'awtistiaeth.'[49] Yn yr un modd, amcangyfrifir y costau ar gyfer gofalwyr, gan gynnwys rhieni, gofalwyr teulu, neu rywun arall - heb fod yn weithiwr proffesiynol - sy'n gofalu am berson ag ASA. Wrth amcangyfrif costau blynyddol cyfartalog dros oes, tybir bod y disgwyliad oes yn 67 mlynedd, yn unol ag ymchwil Shavell a Strauss, 1998.

298. Mae nifer y bobl ag ASA sy'n byw mewn lleoliadau preswyl ar gyfer bandiau oed gwahanol yn seiliedig ar ragdybiaethau a ddefnyddir mewn astudiaethau blaenorol:

- plant ag ASA heb ID (100% cartrefi preifat);
- plant ag ASA ac ID (98.75% cartrefi preifat, 1.25% gofal preswyl neu ofal maeth, 0% ysbytai),
- oedolion ag ASA heb ID (79% cartrefi preifat, 5% llety byw â chymorth, 16% gofal preswyl, 0% ysbytai), ac
- oedolion ag ASA ac ID (48% cartrefi preifat, 27% llety byw â chymorth, 24% gofal preswyl, 1% ysbytai).

299. Yna cafodd cyfanswm y costau canlyniadol eu gostwng yn ôl i'r gwerth presennol gan ddefnyddio'r gyfradd ostyngiad o 3.5%.

300. Amcangyfrifwyd cost gynyddrannol ASA drwy ddidynnu cost y ddarpariaeth "arferol" (hynny yw cost ysgolion prif ffrwd, a chost gwasanaethau gofal iechyd yn y boblogaeth gyffredinol.) Am ragor o fanylion, gweler Tabl 8.2 'The Microsegmentation of the Autism Strategy', 2017, tudalen 173. O ystyried nad oes tystiolaeth o ymchwil flaenorol am gost gwasanaethau gofal cymdeithasol fesul pen o'r boblogaeth yn gyffredinol, a'r defnydd isel disgwyliedig o wasanaethau

[49] O fewn y dadansoddiad hwn ar gyfer yr adroddiad Microsegmentu'r Sbectrwm Awtistiaeth, defnyddiwyd y derminoleg a ganlyn: **awtistiaeth**, gan gynnwys 'Awtistiaeth Plentyndod' neu 'Anhwylder Awtistig'; **Asperger neu Awtistiaeth Gweithredu Lefel Uchel**, gan gynnwys 'Anhwylder Asperger'; **ASA arall**, gan gynnwys diagnosis cyffredinol/amhenodol o ASA, 'Awtistiaeth Nodweddiadol' neu 'PDD-NOS' ('anhwylder datblygiadol nas pennir fel arall'). Defnyddir y derminoleg hon yn y Memorandwm Esboniadol hwn mewn perthynas â chyfeiriadau at yr adroddiad Microsegmentu'r Sbectrwm Awtistiaeth yn unig.

gofal cymdeithasol yn y boblogaeth yn gyffredinol, tybiodd awduron yr adroddiad fod y gwasanaethau gofal cymdeithasol a ddefnyddiwyd, a'u cost, yn y boblogaeth ASA yn gynyddrannol.

301. Amcangyfrifodd yr adroddiad am ficrosegmentu hefyd y *gost genedlaethol* i bobl ag ASA a'u gofalwyr trwy gasglu data ar y gost ar gyfer grwpiau oedran gwahanol

302. Mae ymchwil yn yr adroddiad am ficrosegmentu yn dangos, ar draws y grwpiau diagnosig, fod dros ddwy ran o dair o ofalwyr plant ag ASA mewn cyflogaeth, ac yn gweithio, ar gyfartaledd, 26 awr yr wythnos pan oedd ganddynt waith. Dywedodd chwech y cant o ofalwyr plant ag Awtistiaeth Gweithredu Lefel Uwch eu bod yn ymweld â meddyg teulu bob deufis ar gyfartaledd. Roedd rhai ohonynt wedi ymweld â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill fwy nag unwaith y mis (therapydd unigol neu grŵp, gweithiwr allgymorth). Yn yr un modd, roedd tua dwy ran o dair o ofalwyr oedolion ag ASA mewn cyflogaeth, ac yn gweithio cyfartaledd o 30 awr yr wythnos pan oedd ganddynt waith. Roedd pump y cant o ofalwyr oedolion ag Awtistiaeth Gweithredu Lefel Uwch wedi ymweld â therapydd, a hynny ar gyfartaledd fwy na unwaith y mis. Roedd rhai gofalwyr yn ymweld â'u meddyg teulu unwaith bob deufis ar gyfartaledd. Roedd llai na 5 y cant o ofalwyr oedolion ag "awtistiaeth"[50] yn defnyddio therapi, ac roedd rhai wedi ymweld â meddyg teulu, y naill a'r llall rhyw unwaith y mis.

303. Amcangyfrifwyd bod y gost gyffredinol ar gyfer gofalwyr plant ag ASA yn amrywio rhwng £3,813 i ofalwyr plant ag ASA eraill i £4,479 i ofalwyr plant ag awtistiaeth. Ar gyfer gofalwyr oedolion roedd y costau'n amrywio o £1,612 i ofalwyr oedolion ag awtistiaeth i £2,499 i ofalwyr oedolion ag Awtistiaeth Gweithredu Lefel Uwch. Roedd bron yr holl gostau yn gysylltiedig â cholledion yn sgil y gostyngiad mewn cynhyrchiant, a briodolwyd i'r angen i weithio'n rhan-amser oherwydd cyfrifoldebau gofalu. Y costau iechyd a gofal cymdeithasol mwyaf ar gyfer gofalwyr plant ac oedolion ag ASA yw cost seicolegwyr a therapyddion unigol neu grŵp.

304. Amcangyfrifodd yr adroddiad fod y costau oes yn £925,503 (£886,000 o gost gynyddrannol) ar gyfer unigolion ag ASA heb anableddau deallusol, neu £1,651,453 (£1.6 miliwn o gost gynyddrannol) ar gyfer unigolion ag ASA gydag anableddau deallusol (ID), ar brisiau 2013-14. O'r costau hyn, ar gyfer ASA heb anableddau deallusol, roedd 40 y cant yn gysylltiedig â cholledion yn sgil y gostyngiad mewn

[50] Fel y'i diffinnir yn nhroednodyn 45.

cynhyrchiant a 26 y cant yn gysylltiedig â llety. Ar gyfer pobl ag ASA ag anableddau deallusol, roedd 35 y cant yn ymwneud â llety a 25 y cant yn ymwneud â cholledion yn sgil y gostyngiad mewn cynhyrchiant. Roedd colledion yn sgil y gostyngiad mewn cynhyrchiant rhieni a gofalwyr unigolion ag ASA a oedd ag ID bron ddwywaith gymaint â'r rhai heb ID.

305. Mae cymhwyso'r dadansoddiad hwn i boblogaeth Cymru - gyda chyfradd achosion o 1.035 y cant a bod gan 32.7 y cant o'r bobl hyn anabledd deallusol - yn darparu'r costau blynyddol a ganlyn. Mae'r rhain yn cael eu rhannu rhwng costau uniongyrchol, gyda chyfanswm yn dangos costau cynyddrannol, nad ydynt yn cynnwys costau i bobl heb ASA. Dangosir costau anuniongyrchol hefyd ar wahân, mae'r rhain yn gostau colledion yn sgil y gostyngiad mewn cynhyrchiant. Yn ogystal, dangosir budd-daliadau'r DU, nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cyfanswm costau, oherwydd, er eu bod yn bwysig, nid yw'r rhain yn gostau sydd wedi'u datganoli.

306. Roedd yr adroddiad gwreiddiol yn seiliedig ar gyflogaeth lawn, a addaswyd yn rhannol trwy ddefnyddio enillion cyfartalog a nifer yr oriau a weithiwyd. Er mwyn sicrhau nad yw costau anuniongyrchol a manteision y colledion yn sgil y gostyngiad mewn cynhyrchiant yn cael eu goramcangyfrif, mae'r ffigurau diweddaraf wedi'u cymhwyso, ar adeg drafftio'r asesiad hwn, ar gyfer y gyfran o bobl rhwng 16 a 65 oed sy'n economaidd weithredol, (**mis Ionawr i fis Mawrth 2018).**

307. Amcangyfrifir bod y costau dros £1.1 biliwn y flwyddyn. Mae tua £700 miliwn, neu 62 y cant, o'r rhain yn gostau uniongyrchol (mae dwy ran o dair o'r costau uniongyrchol hyn yn ymwneud â llety) ac mae £400 miliwn, 38 y cant, yn gostau anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â cholledion yn sgil y gostyngiad mewn cynhyrchiant. Mae hyn yn cymryd yn ganiataol bod diagnosis wedi cael ei wneud a bod y cyfraddau amcangyfrifedig presennol o ddarpariaeth ar gael. Noder bod y ffigurau hyn wedi'u cynnwys yn y tablau crynodeb o'r costau cyffredinol ar gyfer opsiynau 1 a 2. Caiff newidiadau rhwng blynyddoedd eu cyfrifo gan ddefnyddio amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol am flynyddoedd 2019 i 2024. Felly, mae costau Blwyddyn 2 yn cael eu haddasu yn ôl y newid yn yr amcangyfrif poblogaeth gyffredinol o 2019 i 2020.

Tabl 7: Costau blynyddol cenedlaethol ar gyfer unigolion ag ASA a'u gofalwyr, Cymru, yn ôl lefel yr ID, wedi'u dadgyfuno fesul sector (£, 2017/18)

Costau blynyddol	Pobl ag ASA ag ID					
	0-1	2-4	5-11	12-15	16-67	Cyfanswm
Nifer y bobl	*23*	*251*	*853*	*446*	*6,887*	*8,460*
Costau uniongyrchol						
Llety	-	58,985	289,167	214,972	255,590,344	256,153,468
Addysg	-	2,753,470	20,754,343	12,845,246	44,076,800	80,429,859
Iechyd a gofal cymdeithasol	6,854	1,451,533	7,813,480	4,221,390	41,659,463	55,152,720
Cyfanswm y costau uniongyrchol	6,854	4,263,988	28,856,990	17,281,608	341,326,607	391,736,047
Cyfanswm y costau cynyddrannol	6,854	3,807,670	24,649,141	14,792,482	331,326,683	374,582,830
Costau anuniongyrchol						
Colledion yn sgil y gostyngiad mewn cynhyrchiant						
- unigolion	-	-	-	-	186,031,644	186,031,644

Costau blynyddol	Pobl ag ASA ag ID					
	0-1	2-4	5-11	12-15	16-67	Cyfanswm
- rhieni	-	1,191,748	4,137,903	2,037,774	5,406,295	12,773,720
Cyfanswm y costau anuniongyrchol	-	1,191,748	4,137,903	2,037,774	191,437,939	198,805,364
- Addaswyd ar gyfer 73.4% cyflogedig	**-**	**874,743**	**3,037,221**	**1,495,726**	**140,515,447**	**145,923,137**
Cyfanswm y costau - cynyddrannol	**6,854**	**4,682,413**	**27,686,362**	**16,288,208**	**471,842,130**	**520,505,967**
Budd-daliadau (rhai'r DU heb eu cynnwys)	-	*1,123,978*	*4,066,251*	*2,126,082*	*45,123,624*	*52,439,935*

Costau blynyddol	Pobl ag ASA heb ID						Cyfun
	0-1	2-4	5-11	12-15	16-67	Cyfanswm	
Nifer y bobl	*47*	*74*	*1,304*	*919*	*14,174*	*16,518*	
Costau uniongyrchol							
Llety	-	-	-	-	219,427,694	219,427,694	475,581,162

Costau blynyddol	Pobl ag ASA heb ID						Cyfun
	0-1	2-4	5-11	12-15	16-67	Cyfanswm	
Addysg	-	822,066	15,804,480	8,956,574	37,419,360	63,002,480	143,432,339
Iechyd a gofal cymdeithasol	14,006	432,678	6,999,872	2,462,001	53,875,374	63,783,931	118,936,651
Cyfanswm y costau uniongyrchol	14,006	1,254,744	22,804,352	11,418,575	310,722,428	346,214,105	737,950,152
Cyfanswm y costau cynyddrannol	14,006	1,119,324	20,567,992	9,195,514	294,578,242	325,475,078	**700,057,908**
Costau anuniongyrchol							
Colledion yn sgil y gostyngiad mewn cynhyrchiant							
- unigolion	-	-	-	-	338,418,424	338,418,424	524,450,068
- rhieni	-	355,718	4,987,800	4,001,326	32,047,414	41,392,258	54,165,978
Cyfanswm y costau anuniongyrchol	-	355,718	4,987,800	4,001,326	370,465,838	379,810,682	578,616,046
- Addaswyd ar gyfer 73.4% cyflogedig	**-**	**261,097**	**3,661,045**	**2,936,973**	**271,921,925**	**278,781,041**	**424,704,178**

Costau blynyddol	Pobl ag ASA heb ID						Cyfun
	0-1	2-4	5-11	12-15	16-67	Cyfanswm	
Cyfanswm y costau - cynyddrannol	**14,006**	**1,380,421**	**24,229,037**	**12,132,487**	**566,500,167**	**604,256,119**	**1,124,762,086**
Budd-daliadau (rhai'r DU heb eu cynnwys)	*-*	*41,884*	*738,064*	*520,154*	*-*	*1,300,102*	*53,740,037*

Ffynhonnell: Cyfrifiadau yn seiliedig ar yr adroddiad 'Microsegmentu'r Sbectrwm Awtistiaeth 2018'

308. Mae costau cyflyrau iechyd corfforol a meddyliol sy'n cyd-ddigwydd ag ASA wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrifon uchod, gan nad yw'n bosibl i'r rhain gael eu dadgyfuno.

309. Dangosir y costau ar gyfer llety, addysg a gofal iechyd a chymdeithasol, yn hytrach na'u priodoli i awdurdod lleol, y GIG, y sector gwirfoddol ac eraill. Y rheswm am hyn yw cydberthynas gwasanaethau a chostau iechyd a gofal cymdeithasol, yn benodol, sy'n golygu ei bod yn anodd rhannu costau'r GIG a chostau eraill, yn enwedig mewn perthynas â chostau iechyd a gofal cymdeithasol.

310. Er bod ffocws yr adran hon wedi amlygu effeithiau economaidd, mae ansawdd bywyd hefyd yn bwysig i'w ystyried ochr yn ochr â'r costau hyn. Mae anhwylderau meddyliol, ac yn fwy cyffredinol, yr ystod eang o faterion sy'n gysylltiedig â hwyliau isel ac ymdeimlad cyffredinol o les meddyliol gwael, yn achosi effeithiau economaidd mawr. Amcangyfrifir bod y rhain yn costio £70 - £100 biliwn y flwyddyn i'r DU (OECD 2014). Cydnabyddir y berthynas rhwng iechyd meddwl ac amgylchiadau economaidd gan Sefydliad Iechyd y Byd (2001) yn ei ddiffiniad o iechyd meddwl, sef:

> "a state of well-being in which every individual realises his or her own potential, can cope with the normal stresses of life, can work productively and fruitfully, and is able to make a contribution to her or his community."

9. Opsiwn 2: Cyflwyno Bil

Tabl 8 Crynodeb o'r costau ar gyfer opsiwn 2

Costau	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Llywodraeth Cymru						
Datblygu strategaeth awtistiaeth	30,037	0	0	0	0	30,037
Datblygu canllawiau i weithredu'r strategaeth	14,851	0	0	3,544	0	18,394
Darparu'r data yn gyhoeddus	265	265	265	265	265	1,325
Adolygiad annibynnol o'r strategaeth awtistiaeth	0	0	25,000	25,000	0	50,000
Datblygu hyfforddiant / gwella ymwybyddiaeth	100,000	20,000	20,000	100,000	20,000	260,000
Cyfanswm y costau i Lywodraeth Cymru	145,153	20,265	45,265	128,809	20,265	359,756

Costau	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Byrddau Iechyd Lleol						
Costau ychwanegol staff ar gyfer gweithredu cronfeydd data	129,948	4,098	4,098	4,098	4,098	146,340
Cyrraedd y targed amser aros 13 wythnos	1,454,188	1,454,188	1,454,188	0	0	4,362,563
Costau cydymffurfedd / gorfodi ychwanegol	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm y costau i'r Byrddau Iechyd Lleol	1,584,136	1,458,286	1,458,286	4,098	4,098	4,508,903
Cyfanswm costau uniongyrchol ychwanegol y Bil	1,729,288	1,478,550	1,503,550	132,907	24,363	4,868,658
Sefydliadau sector cyhoeddus						

Costau	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Costau cyfle anuniongyrchol ar gyfer staff sy'n ymgymryd â hyfforddiant	0	2,013,763	168,315	168,315	168,315	**2,518,708**
Cyfanswm costau anuniongyrchol y Bil	0	2,013,763	168,315	168,315	168,315	**2,518,708**
Cyfanswm y costau gweinyddol	**1,729,288**	**3,492,313**	**1,671,865**	**301,222**	**192,678**	**7,387,366**
Costau cyffredinol ASA: Sefydliadau'r sector cyhoeddus						
Costau uniongyrchol: llety	475,581,162	476,996,673	478,410,820	479,855,417	481,313,648	**2,392,157,720**
Costau uniongyrchol: addysg	143,432,339	143,859,248	144,285,746	144,721,427	145,161,220	**721,459,980**
Costau uniongyrchol: iechyd a gofal cymdeithasol	118,936,651	119,290,652	119,644,312	120,005,587	120,370,271	**598,247,473**

Costau	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Costau uniongyrchol: Cyfanswm	737,950,152	740,146,573	742,340,878	744,582,431	746,845,139	**3,711,865,173**
Costau uniongyrchol: Cyfanswm cynyddrannol	**700,057,908**	**702,141,547**	**704,223,179**	**706,349,633**	**708,496,156**	**3,521,268,423**
Cyfanswm y costau uniongyrchol	**700,131,487**	**702,215,126**	**704,296,758**	**706,423,212**	**708,569,735**	**3,521,636,318**
Costau anuniongyrchol colledion yn sgil y gostyngiad mewn cynhyrchiant - unigolion	524,450,068	526,011,031	527,570,491	529,163,529	530,771,602	**2,637,966,721**
Costau anuniongyrchol colledion yn sgil y gostyngiad mewn cynhyrchiant - rhieni	54,165,978	54,327,197	54,488,260	54,652,791	54,818,875	**272,453,101**
Cyfanswm y costau anuniongyrchol	578,616,046	580,338,228	582,058,751	583,816,320	585,590,477	**2,910,419,822**

Costau	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Cyfanswm y costau anuniongyrchol, wedi'u haddasu ar gyfer cyflogaeth	424,704,178	425,968,260	427,231,124	428,521,180	429,823,411	2,136,248,153
Cyfanswm yr arbedion	Gwybodaeth annigonol i lunio amcangyfrifon cadarn o'r arbedion					

311. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

312. Mae amryw gostau uniongyrchol ac anuniongyrchol a fyddai'n deillio o'r Bil. Mae crynodeb o'r rhain isod, ac mae manylion y ffynonellau data, y tybiaethau a'r cyfrifiadau a wnaed i lunio'r costau hyn yn yr adrannau a ganlyn o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Tabl 9: Crynodeb o gostau ychwanegol yr opsiwn a ffefrir: i gyflwyno'r Bil Awtistiaeth (Cymru)

Costau	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Llywodraeth Cymru						
Datblygu strategaeth awtistiaeth	30,037	0	0	0	0	30,037
Datblygu canllawiau i weithredu'r strategaeth	14,851	0	0	3,544	0	18,394

Costau	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Darparu'r data yn gyhoeddus	265	265	265	265	265	1,325
Adolygiad annibynnol o'r strategaeth awtistiaeth	0	0	25,000	25,000	0	50,000
Datblygu hyfforddiant / gwella ymwybyddiaeth	100,000	20,000	20,000	100,000	20,000	260,000
Cyfanswm y costau i Lywodraeth Cymru	145,153	20,265	45,265	128,809	20,265	359,756
Byrddau Iechyd Lleol						
Costau ychwanegol staff ar gyfer gweithredu cronfeydd data	129,948	4,098	4,098	4,098	4,098	146,340
Cyrraedd y targed amser aros 13 wythnos	1,454,188	1,454,188	1,454,188	0	0	4,362,563

Costau	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Costau cydymffurfedd / gorfodi ychwanegol	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm y costau i'r Byrddau Iechyd Lleol	1,584,136	1,458,286	1,458,286	4,098	4,098	4,508,903
Cyfanswm costau uniongyrchol ychwanegol y Bil	1,729,288	1,478,550	1,503,550	132,907	24,363	4,868,658
Sefydliadau sector cyhoeddus						
Costau cyfle anuniongyrchol ar gyfer staff sy'n ymgymryd â hyfforddiant	0	2,013,763	168,315	168,315	168,315	2,518,708
Cyfanswm costau anuniongyrchol y Bil	0	2,013,763	168,315	168,315	168,315	2,518,708
Cyfanswm y costau gweinyddol	1,729,288	3,492,313	1,671,865	301,222	192,678	7,387,366

9. 1. Llunio strategaeth awtistiaeth

313. O dan ddarpariaethau Bil, byddai angen i Lywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth awtistiaeth a'i gosod gerbron y Cynulliad o fewn chwe mis i'r Bil ddod i rym.

314. Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig.[51] Mae'r Cynllun tua 8,500 o eiriau, a rhagwelir y bydd y strategaeth ddiweddaraf tua'r un maint. Ni fyddai'r diweddariadau i'r strategaeth sy'n ofynnol gan y Bil o reidrwydd yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn dechrau o'r dechrau.

315. Bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid wrth wneud hyn. Rhagwelir y bydd yn gwneud hyn fel rhan o'r un broses wrth ymgynghori ar y canllawiau y bydd yn ofynnol iddynt eu diweddaru ar ôl i'r Bil ddod i rym.

316. Mae'r cyflogau a'r costau cysylltiedig yn seiliedig ar ganolbwynt yr ystod cyflog perthnasol. Mae costau staff yn cynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr (13.8 y cant[52]) a chyfraniadau i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS); a Chronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg. Cyfradd cyfraniad y cyflogwr ar gyfer cyflog pensiynadwy aelod PCSPS am gyflogau sy'n amrywio o £22,001 a £74,500 yw rhwng 20.9 y cant a 22.1 y cant.[53]

317. Mae canran gyffredinol unigol ar gyfer Yswiriant Gwladol Cyflogwr a chyfraniadau pensiwn o 35 y cant wedi'u cynnwys wrth gyfrifo costau amcangyfrifedig i staff nad ydynt yn staff y GIG.

318. Amcangyfrifir y bydd y gwaith hwn yn cymryd mis o amser staff Llywodraeth Cymru ar Fand Gweithredol 2, a chwe mis o amser aelod o staff Band Rheoli 2. Mae hyn wedi'i seilio ar y dybiaeth y bydd yr aelod o staff MB2 yn gweithio ar y strategaeth yn llawn amser, gyda goruchwyliaeth a chadarnhad gan yr aelod o staff EB2.

---

[51] Llywodraeth Cymru, **Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig.**

[52] Cyllid a Thollau EM, Cyfraddau a lwfansau: Cyfraniadau Yswiriant Gwladol, Tabl 2.1. Ar gael yn: **https://www.gov.uk/government/publications/rates-and-allowances-national-insurance-contributions/rates-and-allowances-national-insurance-contributions** [fel ym mis Mehefin 2017]

[53] Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil, EPN389 - Cyfraddau Cyfraniad Cyflogwyr o fis Ebrill 2015. Ar gael yn: http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/employers/employer-pension-notices/epn389/ [fel ym mis Mehefin 2017]

319. Canolbwynt cyflog gwas sifil ar MB2 yw £32,425, sef £43,774 gan gynnwys argostau. Felly, y costau i Lywodraeth Cymru am chwe mis o amser gwas sifil ar MB2 yw £21,887.

320. Canolbwynt cyflog gwas sifil ar EB2 yw £53,418, sef £72,114 gan gynnwys argostau. Felly, y costau i Lywodraeth Cymru am fis o amser gwas sifil ar EB2 yw £6,010.

321. Mae hyn yn rhoi cyfanswm costau staffio o £27,896 ar gyfer diweddaru'r strategaeth yn y flwyddyn gyntaf ar ôl i'r Bil ddod i rym.

322. Bydd costau hefyd o ran dylunio, cysodi, cyfieithu a phrawfddarllen a fydd yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru.

323. Mae'r costau ar gyfer dylunio a chysodi yn seiliedig ar gostau tebyg i'r rheini mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru)[54] a Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru).[55] Yn seiliedig ar y costau hyn, amcangyfrifir y byddai'r gwaith hwn yn cymryd pythefnos o amser aelod o staff ar Fand Rheoli 3. Canolbwynt yr ystod gyflog MB3 yw £25,513,[56] sef £34,443 gan gynnwys argostau. Felly, y gost i Lywodraeth Cymru fydd £1,325.

324. Mae'r costau ar gyfer cyfieithu a phrawfddarllen yn seiliedig ar y rhai yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru), o £75 am bob 1,000 o eiriau i'w cyfieithu a £21 am bob 1,000 o eiriau i'w prawfddarllen.[57] Os yw'r strategaeth tua 8,500 o eiriau, byddai hyn yn golygu y byddai costau o £816 (£638 ar gyfer cyfieithu a £179 ar gyfer prawfddarllen).

325. Byddai'r strategaeth yn cael ei rhannu (er enghraifft gydag awdurdodau lleol a chyrff y GIG) yn electronig, gan osgoi'r angen am gostau argraffu a dosbarthu.

Tabl 10: Costau datblygu'r strategaeth awtistiaeth arfaethedig (£)

---

[54] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017: Memorandwm Esboniadol Diwygiedig**

[55] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru): Memorandwm Esboniadol**

[56] Llywodraeth Cymru, **Telerau a buddion gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru**

[57] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru): Memorandwm Esboniadol**, t.108

Costau	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Gwas sifil EB2	6,010	0	0	0	0	6,010
Gwas sifil MB2	21,887	0	0	0	0	21,887
Cyfanswm y costau staff	27,896	0	0	0	0	27,896
Dylunio a chysodi	1,325	0	0	0	0	1,325
Cyfieithu	638	0	0	0	0	638
Prawfddarllen	179	0	0	0	0	179
Cyfanswm y costau	30,037	0	0	0	0	30,037

9. 2. Llunio canllawiau diwygiedig ar weithredu a chyflenwi'r strategaeth awtistiaeth

326. Wrth baratoi'r Bil hwn, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu cyhoeddi Cod Ymarfer ar gyflenwi gwasanaethau ASA.

327. Credir bod y Bil Awtistiaeth (Cymru) yn gyfrwng mwy effeithiol ar gyfer cyflenwi'r amcanion polisi arfaethedig. Er enghraifft, bydd yn sicrhau bod cyrff y GIG ac awdurdodau lleol yn deall anghenion penodol plant ac oedolion ag ASA ac yn darparu ystod holistig o wasanaethau i'w diwallu.

328. Serch hynny, rhagwelir y bydd gorgyffwrdd rhwng datblygu'r Cod Ymarfer, a llawer o'r meysydd y byddai angen canllawiau ar eu cyfer yn sgil y Bil.

329. O'r herwydd, mae'n debygol y bydd y canllawiau a gyhoeddir - yn ymarferol - yn adeiladu'n bennaf ar ddeunyddiau sydd eisoes wedi'u paratoi ar gyfer y Cod Ymarfer hwn, yn hytrach na bod angen eu hysgrifennu'n llwyr o'r newydd. Fel y cyfryw, bydd un gwas sifil MB2 yn gallu ei wneud, o fewn tri mis.

330. Fel y nodwyd uchod, mae'r costau sy'n gysylltiedig ag ymgynghori wedi'u cynnwys yn y rhai ar gyfer datblygu strategaeth awtistiaeth uchod, gan y rhagwelir y cynhelir ymgynghoriad cydgysylltiedig ar y strategaeth a'r canllawiau fel rhan o'r un broses.

331. Yn seiliedig ar Godau Ymarfer eraill a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, rhagwelir mai 20,000 o eiriau fydd y gwaith diweddaru sydd ei angen i gynhyrchu'r canllawiau sy'n ofynnol gan y Bil hwn.

332. Canolbwynt cyflog gwas sifil ar MB2 yw £32,425, sef £43,774 gan gynnwys argostau. Felly, y costau i Lywodraeth Cymru am dri mis o amser gwas sifil ar MB2 yw £10,943

333. Bydd costau hefyd o ran dylunio, cysodi, cyfieithu a phrawfddarllen a fydd yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru.

334. Mae'r costau ar gyfer dylunio a chysodi yn seiliedig ar gostau tebyg i'r rheini mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru)[58] a Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru).[59] Yn seiliedig ar y costau hyn, amcangyfrifir y byddai'r gwaith hwn yn cymryd tair wythnos o amser aelod o staff ar Fand Rheoli 3. Canolbwynt yr ystod gyflog MB3 yw £25,513,[60] sef £34,443 gan gynnwys argostau. Felly, y gost i Lywodraeth Cymru fydd £1,987.

335. Mae'r costau ar gyfer cyfieithu a phrawfddarllen yn seiliedig ar y rhai yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru), o £75 am bob 1,000 o eiriau i'w cyfieithu a £21 am bob 1,000 o eiriau i'w prawfddarllen.[61] Os mai 20,000 o eiriau yw'r gwaith diweddaru sydd angen ei wneud i lunio'r strategaeth, byddai hyn yn golygu y byddai costau o £1,920 (£1,500 ar gyfer cyfieithu a £420 ar gyfer prawfddarllen).

336. Byddai hyn yn golygu mai cyfanswm y costau i Lywodraeth Cymru ddatblygu canllawiau wedi'u diweddaru sy'n adeiladu ar y Cod Ymarfer presennol yw £14,851. Byddai'r costau hyn yn codi yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl i'r Bil ddod i rym.

337. Hefyd, byddai angen gwneud rhagor o newidiadau i'r canllawiau hyn o dro i dro. Byddai hyn yn digwydd ar ôl yr adolygiadau annibynnol o gynnydd yn erbyn y strategaeth a gaiff eu cyhoeddi bob tair blynedd ar ôl i'r Bil ddod i rym.

---

[58] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017: Memorandwm Esboniadol Diwygiedig**

[59] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru): Memorandwm Esboniadol**

[60] Llywodraeth Cymru, **Telerau a buddion gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru**

[61] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru): Memorandwm Esboniadol**, t.108

338. Rhagwelir y byddai'r newidiadau hyn yn fwy mân na'r newidiadau cychwynnol a wneir yn y flwyddyn gyntaf ar ôl i'r Bil ddod i rym. Felly, amcangyfrifir y byddai angen pythefnos o amser gwas sifil MB2 ar gyfer hyn, ar gost o £1,684. Byddai hefyd costau dylunio a chyfieithu o hanner y costau gwreiddiol, sef £1,860. Cyfanswm cost pob adolygiad fyddai £3,544, bob tair blynedd.

Tabl 11: Y costau o lunio a diweddaru canllawiau ar weithredu a chyflenwi'r strategaeth awtistiaeth (£):

Costau	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Costau staff gwas sifil MB2	10,943	0	0	1,684	0	12,627
Dylunio a chysodi	1,987	0	0	900	0	2,887
Cyfieithu	1,500	0	0	750	0	2,250
Prawfddarllen	420	0	0	210	0	630
Cyfanswm y costau	14,851	0	0	3,544	0	18,394

9. 3. Adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd y strategaeth awtistiaeth

339. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol o'i chynnydd wrth gyflawni nodau'r strategaeth awtistiaeth o fewn tair blynedd i gyhoeddi'r strategaeth, a chyhoeddi'r adolygiad hwnnw. Hefyd, bydd rhaid cyhoeddi rhagor o adolygiadau annibynnol ar gyfnodau o ddim mwy na thair blynedd ar ôl hyn.

340. Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016[62] amcangyfrifwyd y byddai adolygiad annibynnol o'r darn hwnnw o ddeddfwriaeth yn costio £50,000. Gellid dadlau bod y rhain yn Filiau gwahanol, ac y byddai adolygiad annibynnol o gynnydd Llywodraeth Cymru wrth gyflawni nodau'r strategaeth awtistiaeth yn fwy cymhleth. Fodd bynnag, gellid dadlau hefyd nad hwn fyddai'r asesiad cyntaf o strategaethau awtistiaeth Llywodraeth

[62] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016: Memorandwm Esboniadol Diwygiedig**, paragraff 242, t. 65

Cymru ac y byddai'r ffaith bod y Bil Awtistiaeth (Cymru) yn galluogi setiau data i gael eu casglu'n gyson yn hwyluso gwerthusiad annibynnol. Gan nad oes rhagolygon eraill, amcangyfrifwyd y byddai adolygiadau annibynnol sy'n deillio o'r Bil hwn yn costio £50,000.

341. Byddai'r costau hyn yn cael eu rhannu rhwng blynyddoedd, gyda chostau o £25,000 ym mlwyddyn 3 a £25,000 ym mlwyddyn 4. Byddai'r costau hyn hefyd yn digwydd ar gyfnodau o dair blynedd ar ôl hyn, pan fyddai adolygiadau annibynnol pellach yn cael eu cynnal. Byddai'r costau hyn yn disgyn ar Lywodraeth Cymru ac yn gyfle i wneud adolygiad ar ôl deddfu.

9. 4. Dylunio pecynnau hyfforddi ac ymgyrch gwella ymwybyddiaeth am Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth

342. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi amrywiaeth o ddeunyddiau i wella ymwybyddiaeth ac mae'n cynnal yr ymgyrch 'Weli di Fi?'[63] Mae hyn yn cynnwys fideo hyrwyddo, posteri, pecynnau gwybodaeth a ffrydiau ar y cyfryngau cymdeithasol. Bydd yr ymgyrch i wella ymwybyddiaeth am y Bil hwn yn adeiladu ar yr adnoddau presennol hyn.

343. Mae ymgyrchoedd blaenorol i wella ymwybyddiaeth a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn sgil Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016[64] wedi awgrymu mai £100,000 fyddai'r costau cychwynnol yn y flwyddyn gyntaf ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym, ac y byddai costau o £20,000 yn y blynyddoedd eraill. Mae cymhlethdod y farchnad tai ar rent, a gwaith diweddar Llywodraeth Cymru o ran gwella ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth a hyfforddiant mewn perthynas ag ASA, yn golygu bod yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth ar gyfer y Ddeddf Rhentu Cartrefi yn fwy cymhleth ac anodd na'r Bil hwn. Oherwydd hyn, tybir bod y costau tua hanner y rhai a amcangyfrifwyd ar gyfer y Ddeddf Rhentu Cartrefi, gyda mwy o fuddsoddiad ym mlwyddyn 4 ar ôl yr adolygiad annibynnol.

344. Ar hyn o bryd mae'r tîm Datblygu Awtistiaeth Cenedlaethol yn dylunio ac yn darparu hyfforddiant cyffredinol a phwrpasol mewn perthynas ag ASA. Bydd costau dylunio a chyflenwi yn ychwanegol i'r costau presennol yn sgil y Bil hwn. Tybir y bydd yn costio £10,000 i ddylunio, darparu a chyflenwi pob pecyn hyfforddi. Tybir bod costau o £50,000 ym mlwyddyn 1 a 4 (i adlewyrchu

[63] ASD Info Wales, **Weli Di Fi?**

[64] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016: Memorandwm Esboniadol Diwygiedig**, paragraff 240, tudalen 65

newidiadau posibl yn dilyn yr adroddiad annibynnol ar weithredu a chynnydd y strategaeth awtistiaeth) a £10,000 mewn blynyddoedd eraill.

345. Yn seiliedig ar yr amcangyfrifon hyn, amcangyfrifir mai £100,000 fydd y costau cyfun o wella ymwybyddiaeth a dylunio deunyddiau hyfforddi (yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes yn cael eu cynllunio) ym mlwyddyn 1 a blwyddyn 4 (gan adlewyrchu y gall fod angen diweddaru'r pecynnau gwella ymwybyddiaeth a hyfforddi ar ôl adolygiad annibynnol). Ym mlynyddoedd 2, 3 a 5 y costau fyddai £20,000.

346. Byddai amrywiaeth o ddulliau'n cael eu defnyddio i wella ymwybyddiaeth, gyda chamau wedi'u teilwra i'r ffordd orau o gyrraedd y cynulleidfaoedd targed, sef y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a busnesau. Rhagwelir y byddai hyn yn cynnwys y cyfryngau ar-lein, y cyfryngau cymdeithasol a'r sianelau cyfathrebu mwy traddodiadol.

9. 5. Hyfforddiant ar Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth i weithwyr proffesiynol

347. Fel y soniwyd eisoes, mae amryw adnoddau hyfforddi ar gael ar y wefan www.ASDInfoWales.co.uk[65] ar gyfer gweithwyr proffesiynol addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys e-ddysgu, pecynnau cymorth, cynlluniau ardystio, a fideos hyfforddi. Yn ogystal, mae sawl sefydliad yn darparu hyfforddiant ar ASA i'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

348. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i ganfod gweithwyr proffesiynol allweddol a hyfforddiant priodol i'w galluogi i gefnogi pobl ag ASA. Nid yw bod yn bresennol mewn hyfforddiant o'r fath yn ofyniad statudol i unigolion, ond disgwylir (ac mae'r costau wedi'u cyfrifo ar y sail honno) y bydd gweithwyr proffesiynol allweddol yn ymgymryd â hyfforddiant ar ASA yn rheolaidd, ac y gellid gwneud llawer o hynny drwy e-ddysgu. Disgwylir hefyd y bydd unigolion sydd angen hyfforddiant mwy dwys na hyn yn parhau i fynd ar gyrsiau hyfforddi.

349. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn bwriadu ymchwilio ymhellach i anghenion hyfforddi proffesiynol wrth ddatblygu ei Chod Ymarfer. Mae o'r farn bod angen rhagor o wybodaeth i bennu gweithwyr proffesiynol

[65] www.ASDInfoWales.co.uk/**Pobl Broffesiynol**

allweddol y gallai fod angen hyfforddiant ychwanegol arnynt, ynghyd â lefel yr hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen.[66]

350. Er nad yw'r Bil yn datgan yn benodol pa alwedigaethau ddylai gael eu targedu ar gyfer hyfforddiant, rhagwelir y bydd y rhain yn cynnwys (ymhlith eraill) y proffesiynau addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i'r strategaeth awtistiaeth wneud darpariaeth ar gyfer nodi gweithwyr proffesiynol allweddol a darparu hyfforddiant priodol iddynt. Byddai hyfforddiant yn cael ei wneud fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus, ond ni fyddai'n orfodol o ran achrediad penodol neu gymwysterau proffesiynol.

351. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn bwriadu cynnwys llwybrau sy'n ymwneud ag ASA mewn cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol ar lefelau 2, 3 a 5. Yn ogystal, bydd cymhwyster ymarferydd arbenigol lefel 4 yn cael ei greu.[67]

352. Mae hefyd wedi dweud y gwneir gwaith pellach gyda chyrff proffesiynol megis Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu i ddeall pa hyfforddiant sydd ar gael ar hyn o bryd yn y cwricwlwm. Byddai angen i hyn gynnwys deall sut y mae pob sefydliad yn blaenoriaethu'r llu o ofynion cystadleuol am feysydd penodol i'w cynnwys mewn rhaglenni hyfforddi.

353. Er mwyn darparu sail ar gyfer amcangyfrif effaith y gofynion hyfforddi yn y Bil hwn, rydym wedi gwneud nifer o dybiaethau wrth fodelu. Mae niferoedd y bobl yn seiliedig ar 109,720 o staff y GIG a meddygon teulu, staff gofal cymdeithasol a staff addysgu – er nad oes angen hyfforddiant ar bob un o'r staff hyn, bydd staff eraill y mae angen hyfforddiant arnynt, felly dyma'r ffigur gorau i'w ddefnyddio. Bydd anghenion hyfforddi unigolion yn wahanol, ond amcangyfrifir y byddai cyfartaledd o awr ar draws y grŵp hwn yn ofyniad cyfartalog teg. Mae'r amcangyfrif hwn yn adlewyrchu er y bydd angen llawer mwy o hyfforddiant ar rai aelodau o staff, gallai mwyafrif y staff gwblhau pecynnau dysgu safonol.

354. Tybir, mewn sawl achos, y gellid defnyddio'r ddarpariaeth e-ddysgu i ddarparu hyfforddiant. Byddai hyn yn golygu y gallai pobl ymgymryd ag e-ddysgu trwy wefan www.ASDInfoWales.co.uk, trwy gwblhau un o'r modiwlau dysgu 'Ymwybyddiaeth am Awtistiaeth', 'Gweithio gydag Awtistiaeth', 'Hyfforddiant staff addysgu', a 'Hyfforddiant staff cymorth dysgu'. Mae eisoes yn ofynnol i bobl sy'n

[66] Llywodraeth Cymru, Bil Awtistiaeth (Cymru), Cerrig Milltir

[67] ibid.

cwblhau'r modiwlau gofrestru eu manylion personol fel y gall y tîm Datblygu Awtistiaeth Cenedlaethol fonitro'r defnydd a wneir o'r hyfforddiant.

355. Fel arwydd o gwmpas posibl y hyfforddiant hwn, mae costau wedi'u paratoi i ddangos y costau cyfle anuniongyrchol sy'n gysylltiedig ag ymrwymiad amser yr hyfforddiant hwn. Nid yw'r costau hyn yn rhai ariannol, ac felly ystyriwyd eu bod yn gostau anuniongyrchol.

356. Gan ddefnyddio'r data diweddaraf ar gyfer Cymru o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion[68], defnyddiwyd y cyflog canolrifol fesul awr ar gyfer y galwedigaethau canlynol (gan gynnwys 25 y cant ar gyfer staff y GIG ar gostau a 35 y cant ar gyfer galwedigaethau eraill):

- Meddygon a staff meddygol: £40.48;[69]
- Nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd: £20.90;[70]
- Gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol cysylltiedig: £23.38;[71]
- Staff gofal cartref, gofal preswyl a gwasanaethau dydd: £12.29;[72]
- Uwch-staff addysgu: £48.02;[73]
- Athrawon: £30.78;[74] a
- Chynorthwywyr addysgu a staff cymorth anghenion arbennig: £12.26.[75]

357. O dan y modelu hwn, tybir y bydd staff yn ymgymryd â hyfforddiant ym mlwyddyn 2 ar ôl i'r Bil ddod i rym.

---

[68] Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2017, Canlyniadau Dros Dro a Chanlyniadau Diwygiedig 2016 – Tabl 15.5a**

[69] Defnyddiwyd y cyflog canolrifol fesul awr ar gyfer ymarferwyr meddygol.

[70] Defnyddiwyd y cyflog canolrifol fesul awr ar gyfer gweithwyr proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth.

[71] Defnyddiwyd y cyflog canolrifol fesul awr ar gyfer gweithwyr cymdeithasol.

[72] Defnyddiwyd y cyflog canolrifol fesul awr ar gyfer gwasanaethau gofal personol.

[73] Defnyddiwyd y cyflog canolrifol fesul awr ar gyfer uwch weithwyr proffesiynol sefydliadau addysg.

[74] Defnyddiwyd y cyflog canolrifol fesul awr ar gyfer athrawon a gweithwyr proffesiynol addysg.

[75] Cyflog canolrifol fesul awr ar gyfer cynorthwywyr addysgu.

358. Bydd trosiant staff hefyd ar gyfer y galwedigaethau hyn. Felly, bydd cost cyfle hefyd ym mlynyddoedd 3-5 wrth i ddechreuwyr newydd ymgymryd â hyfforddiant. Er bod costau wedi'u cynnwys ar gyfer trosiant staff, disgwylir y bydd y costau hyn yn is oherwydd dylai hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o ASA fod yn rhan o'r hyfforddiant arferol ar gyfer gweithwyr proffesiynol allweddol, gan gynnwys athrawon, staff y GIG a staff perthnasol awdurdodau lleol.

359. Canran y staff presennol a adawodd yn ystod y flwyddyn (y gyfradd trosiant) ar gyfer staff meddygol a deintyddol yn GIG Cymru oedd 7.28 y cant ym mis Mawrth 2017[76], a'r gyfradd trosiant ar gyfer staff nyrsio a bydwreigiaeth oedd 6.91 y cant yn ystod yr un cyfnod.[77] Y gyfradd trosiant ar gyfer meddygon teulu a deintyddion ym mis Mawrth 2017 oedd 6.2 y cant.[78]

360. Y gyfradd trosiant ar gyfer gweithwyr cymdeithasol oedd 7.9 y cant yn 2017[79], a'r gyfradd ar gyfer gweithwyr gofal cartref oedd 32 y cant yn 2016[80]. Gan nad oes data ar gyfer y sectorau gofal preswyl a gofal dydd, rhagdybiwyd ffigur o 32 y cant o drosiant staff ar gyfer y rhain hefyd.

361. Yn 2015, y gyfradd trosiant ar gyfer athrawon a gyflogir yng Nghymru oedd 2.8 y cant ar gyfer athrawon ysgol gynradd a 3.2 y cant ar gyfer athrawon ysgol uwchradd.[81] Felly, amcangyfrifir mai'r gyfradd trosiant ar gyfer yr holl athrawon yw 3 y cant. Gan nad oes data ar gael ar gyfer galwedigaethau eraill yn yr ysgol, defnyddiwyd y ffigur hwn ar gyfer pob un o'r rhain.

362. Mae tri thabl wedi'u llunio. Un yn dangos costau'r holl staff, un yn dangos costau'r holl staff gan gyfrif y nifer sydd wedi mynd ar gyrsiau'r tîm Datblygu Awtistiaeth Cenedlaethol yn ddiweddar ac un yn dangos y canolbwynt rhwng y ffigurau hyn. Mae'r tabl sy'n dangos y canolbwynt wedi'i ddefnyddio yn y tabl crynodeb.

---

[76] Llywodraeth Cymru, **Tystiolaeth i Gorff Adolygu Tâl y GIG 2018-19**, t.9

[77] ibid.

[78] Llywodraeth Cymru, **Corff Adolygu Tâl Meddygon a Deintyddion 2018-19**, t.10

[79] Gofal Cymdeithasol Cymru, **Gweithwyr Cymdeithasol ar y Gofrestr yng Nghymru 2017**, t.22

[80] Gofal Cymdeithasol Cymru, **Datblygu cynllun strategol ar gyfer gofal a chymorth yn y cartref: Adolygiad o lenyddiaeth**, t.2

[81] NFER, **Retaining teachers in Wales – what do we know?**

Tabl 12: Costau cyfle anuniongyrchol pe byddai'r holl staff yn ymgymryd â hyfforddiant ar ASA

Galwedigaeth	Nifer y staff (niferoedd)	Cyflog yr awr (£)	Cyfradd trosiant staff	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Staff meddygol	6,779	40.48	7.3%	0	274,380	19,975	19,975	19,975	334,305
Nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd	34,238	20.90	6.9%	0	715,574	49,446	49,446	49,446	863,913
Meddygon teulu	2,919	40.48	6.2%	0	118,147	7,325	7,325	7,325	140,122
Cyfanswm y costau anuniongyrchol ar gyfer staff y GIG	**43,936**			**0**	**1,108,101**	**76,746**	**76,746**	**76,746**	**1,338,339**

Galwedigaeth	Nifer y staff (niferoedd)	Cyflog yr awr (£)	Cyfradd trosiant staff	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol cysylltiedig	6,461	23.38	7.9%	0	151,071	11,935	11,935	11,935	186,875
Gweithwyr gofal cartref	4,530	12.29	32.0%	0	55,651	17,808	17,808	17,808	109,076
Staff gofal preswyl	4,229	12.29	32.0%	0	51,953	16,625	16,625	16,625	101,828
Staff gwasanaethau dydd	2,855	12.29	32.0%	0	35,074	11,224	11,224	11,224	68,744
Cyfanswm y costau anuniongyrchol am ofal cymdeithasol	**18,075**			**0**	**293,749**	**57,592**	**57,592**	**57,592**	**466,524**

Galwedigaeth	Nifer y staff (niferoedd)	Cyflog yr awr (£)	Cyfradd trosiant staff	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Uwch-staff addysgu	3,641	48.02	3.0%	0	174,839	5,245	5,245	5,245	190,575
Athrawon	22,531	30.78	3.0%	0	693,504	20,805	20,805	20,805	755,920
Cynorthwywyr Addysgu	15,864	12.26	3.0%	0	194,461	5,834	5,834	5,834	211,962
Staff cymorth anghenion arbennig	5,693	12.26	3.0%	0	69,785	2,094	2,094	2,094	76,065
Cyfanswm y costau anuniongyrchol ar gyfer addysg	47,729			0	1,132,589	33,978	33,978	33,978	1,234,522
Cyfanswm y costau anuniongyrchol	109,740			0	2,534,439	168,315	168,315	168,315	3,039,385

Tabl 13: Costau cyfle anuniongyrchol pe byddai'r holl staff yn ymgymryd â hyfforddiant ar ASA, gan hepgor yr amcangyfrif ar gyfer y rhai sydd eisoes wedi cwblhau hyfforddiant y Tîm Datblygu Awtistiaeth Cenedlaethol.

Galwedigaeth	Nifer y staff (niferoedd)	Cyflog yr awr (£)	Cyfradd trosiant staff	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Staff meddygol	4,937	40.48	7.3%	0	199,825	19,975	19,975	19,975	**259,750**
Nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd	24,883	20.90	6.9%	0	520,055	49,446	49,446	49,446	**668,393**
Meddygon teulu	2,113	40.48	6.2%	0	85,524	7,325	7,325	7,325	**107,499**
Cyfanswm y costau anuniongyrchol ar gyfer staff y GIG	**31,933**			**0**	**805,403**	**76,746**	**76,746**	**76,746**	**1,035,642**
Gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol cysylltiedig	3,112	23.38	7.9%	0	72,765	11,935	11,935	11,935	**108,569**

Galwedigaeth	Nifer y staff (niferoedd)	Cyflog yr awr (£)	Cyfradd trosiant staff	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Gweithwyr gofal cartref	3,713	12.29	32.0%	0	45,614	17,808	17,808	17,808	**99,039**
Staff gofal preswyl	3,467	12.29	32.0%	0	42,592	16,625	16,625	16,625	**92,467**
Staff gwasanaethau dydd	2,341	12.29	32.0%	0	28,759	11,224	11,224	11,224	**62,430**
Cyfanswm y costau anuniongyrchol am ofal cymdeithasol	**12,633**			**0**	**189,730**	**57,592**	**57,592**	**57,592**	**362,505**
Uwch-staff addysgu	2,584	48.02	3.0%	0	124,082	5,245	5,245	5,245	**139,818**
Athrawon	8,771	30.78	3.0%	0	269,971	20,805	20,805	20,805	**332,387**
Cynorthwywyr Addysgu	4,434	12.26	3.0%	0	54,352	5,834	5,834	5,834	**71,853**

Galwedigaeth	Nifer y staff (niferoedd)	Cyflog yr awr (£)	Cyfradd trosiant staff	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Staff cymorth anghenion arbennig	4,042	12.26	3.0%	0	49,547	2,094	2,094	2,094	55,827
Cyfanswm y costau anuniongyrchol ar gyfer addysg	19,831			0	497,953	33,978	33,978	33,978	599,886
Cyfanswm y costau anuniongyrchol	64,397			0	1,493,086	168,315	168,315	168,315	1,998,032

Tabl 14: Costau cyfle anuniongyrchol pe byddai'r holl staff yn ymgymryd â hyfforddiant ar ASA, yn dangos y canolbwynt rhwng y ddau dabl (mae'r costau hyn yn bwydo i'r tabl crynodeb o'r costau cyffredinol).

Galwedigaeth	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm

Galwedigaeth	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Cyfanswm y costau anuniongyrchol ar gyfer staff y GIG	0	956,752	76,746	76,746	76,746	**1,186,990**
Cyfanswm y costau anuniongyrchol am ofal cymdeithasol	0	241,740	57,592	57,592	57,592	**414,514**
Cyfanswm y costau anuniongyrchol ar gyfer addysg	0	815,271	33,978	33,978	33,978	**917,204**
Cyfanswm y costau anuniongyrchol	0	2,013,763	168,315	168,315	168,315	**2,518,709**

9. 6. Y costau o gasglu a chyhoeddi data ar anhwylder sbectrwm awtistiaeth

Casglu data

363. O dan yr opsiwn hwn, byddai'n ofynnol i gyrff y GIG gasglu data cyson ar y pynciau a bennwyd ar wyneb y Bil i gynorthwyo wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau ASA. Bydd data o'r fath hefyd yn cyfrannu at y data dienw sydd i'w darparu i Weinidogion Cymru i gefnogi eu rhwymedigaethau i gael, cynhyrchu, cyhoeddi a chadw data dibynadwy a diweddar am ASA.

364. Rhagwelir y bydd cyrff y GIG yn gallu defnyddio'r systemau presennol i gasglu data ar gyfer plant. Bydd data mewn perthynas ag oedolion sydd wedi cael diagnosis o ASA pan oeddynt yn blant hefyd yn cael eu cadw wedi iddynt ddod yn oedolion.[82]

365. Mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at y ffaith bod y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig newydd yn cynnwys datblygu dull o gasglu data a fydd yn nodi'r unigolion sy'n cael mynediad at y gwasanaeth a'r cymorth y maent yn ei gael. Bydd y dull hwn o weithredu yn gydnaws â System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.[83]

366. Amcangyfrif yr ONS o'r babanod yng Nghymru sydd rhwng 0 ac 1 oed yw 33,345. Wrth gymhwyso cyfradd amlder o 1.035 y cant i'r ffigur hwn gellir amcangyfrif bod 343 o bobl ag ASA yn cael eu geni bob blwyddyn. Rhagwelir y bydd cyllid a ffocws Llywodraeth Cymru ar leihau amseroedd aros yn cael rhywfaint o effaith erbyn i'r Bil hwn gael ei weithredu, felly ni ddylai nifer y rhai a gaiff ddiagnosis bob blwyddyn fod yn sylweddol uwch na'r cyfrifiad uchod. Fel sail ar gyfer yr amcangyfrifon o gostau yn yr asesiad effaith hwn, rhagdybiwyd y bydd tua 400 o bobl yn cael diagnosis o ASA am y tro cyntaf bob blwyddyn ledled Cymru.

Costau staff sy'n gysylltiedig â chasglu data

367. Yn seiliedig ar ddull gweithredu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Phrifysgol Bangor o ran y modiwl ASA ar gyfer plant, byddai angen y canlynol ar y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n cynnal y cronfeydd data:

---

[82] Ymateb y Dr Dawn Wimpory i'r ymgynghoriad ar y **Bil Awtistiaeth (Cymru)** AWB72

[83] Llywodraeth Cymru, Bil Awtistiaeth (Cymru), Cerrig Milltir

- Ymgynghorydd Band 8D GIG Cymru ar 0.2 cyfwerth ag amser llawn (CALl);
- Seicolegydd Cynorthwyol Band 5 GIG Cymru ar 0.5 CALl;
- Swyddog Ymchwil Prifysgol Gradd 7 ar 0.4 CALl; a
- Swyddog Cynorthwyol Prosiect Ymchwil prifysgol Gradd 6 ar 0.5 CALl.

368. Mae gan aelod o staff GIG Cymru ar Fand 8D rôl strategol wrth bennu llwyth gwaith, cyfathrebu ag uwch-reolwyr i sicrhau bod data trefniadol yn cael ei ddarparu a bod sefydliadau eraill yn rhan o'r broses, a chyflwyno gwybodaeth am waith y tîm a'i ganfyddiadau yn allanol.

369. Mae aelod o staff GIG Cymru ar Fand 5 yn cysylltu â chlinigwyr i sicrhau bod cofnodion data unigol yn cael eu darparu, ac yn paratoi dogfennau ar gyfer rhannu gwybodaeth am ddata dienw.

370. Mae'r swyddog ymchwil Band 7 yn gweithio ar y gronfa ddata, yn gyfrifol am yr ystadegau y mae'r tîm yn eu cynhyrchu, ac yn dadansoddi data dienw.

371. Rôl y swyddog prosiect ymchwil Band 6 yw gweinyddu'r gronfa ddata, ac mae'n cyfrannu at gyflwyno data dienw.

372. Yn ogystal, yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl i'r Bil ddod i rym, amcangyfrifir y byddai angen i'r 6 Bwrdd Iechyd Lleol arall gael gweinyddwr ar 0.5 CALl Band 5 y GIG, a Swyddog Ymchwil ar 0.5 CALl Gradd 7 Prifysgol. Byddai angen cymaint â hyn o adnoddau staff dros dro er mwyn sefydlu'r gronfa ddata. Gan gynnwys costau dysgu a hyfforddi sy'n gysylltiedig â dangos i eraill sut i ddefnyddio'r gronfa ddata ar gyfer mewnbynnu ac echdynnu data, poblogi'r gronfa ddata plant, cofnodi a dadansoddi gwybodaeth ym mhob bwrdd iechyd. Yn y blynyddoedd dilynol byddai llai o ymrwymiad staffio a chostau parhaus cysylltiedig. Nid oes rheswm dros gredu y bydd y costau cynnal a chadw meddalwedd a chymorth yn uwch na'r rhai hynny sydd ar waith ar hyn o bryd neu sy'n cael eu datblygu o dan Opsiwn 1.

Costau parhaus i'r Bwrdd Iechyd Lleol sy'n cynnal y cronfeydd data

373. Mae'r gost ar gyfer y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n cynnal y cronfeydd data gyfwerth â'r costau casglu data presennol a amlinellir yn Nhabl 2: Crynodeb o'r costau ar gyfer Opsiwn 1. Mae'n bosibl y gallai'r gost fod tua £73,579 bob blwyddyn ac mae'n seiliedig ar yr un elfennau ag Opsiwn 1.

374. Yn 2017-18, y cyflog blynyddol ar gyfer aelod o staff GIG Cymru ar ganolbwynt graddfa gyflog Band 8D oedd £76,329.[84] Gan ddefnyddio'r amcangyfrif mai 25 y cant o'r cyflog a ddefnyddir gan y GIG yw'r argostau,[85] byddai hyn yn rhoi cost flynyddol cyfwerth ag amser llawn o £95,411. Os yw'r aelod o staff yn gweithio ar y gronfa ddata am gyfartaledd o 1 diwrnod yr wythnos, byddai hyn yn rhoi cost flynyddol o £19,082.

375. Yn 2017-18, y cyflog blynyddol ar gyfer aelod o staff GIG Cymru ar ganolbwynt graddfa gyflog Band 5 oedd £25,551.[86] Gan ddefnyddio'r amcangyfrif mai 25 y cant o'r cyflog yw'r argostau, byddai hyn yn rhoi cost flynyddol cyfwerth ag amser llawn o £31,939. Os yw'r aelod o staff yn gweithio yn y maes hwn am gyfartaledd o 2.5 diwrnod yr wythnos, byddai hyn yn rhoi cost flynyddol o £15,969.

376. Ar gyfer swyddog ymchwil gradd 7 mewn prifysgol, canolbwynt y cyflog blynyddol yw £38,833.[87] Os yw'r aeFlod o staff yn aelod o Gynllun Pensiwn y Prifysgolion, byddai hyn yn rhoi argostau blynyddol o £50,056.[88] Os yw'r aelod o staff yn gweithio ar y gronfa ddata am gyfartaledd o 2 ddiwrnod yr wythnos, byddai hyn yn rhoi cost flynyddol cyfwerth ag amser llawn o £20,022.

377. Ar gyfer swyddog cymorth ymchwil gradd 6, canolbwynt y cyflog blynyddol yw £28,936.[89] Os yw'r aelod o staff yn aelod o Gynllun Pensiwn y Prifysgolion, byddai hyn yn rhoi argostau blynyddol cyfwerth ag amser llawn o £37,012.[90] Os yw'r aelod o staff yn gweithio yn y maes hwn am 2.5 diwrnod yr wythnos, byddai hyn yn rhoi cost flynyddol o £18,506.

Y costau trosiannol ar gyfer y Byrddau Iechyd Lleol eraill

378. Ar gyfer swyddog ymchwil gradd 7 mewn prifysgol, canolbwynt y cyflog blynyddol yw £38,833.[91] Os yw'r aelod o staff yn aelod o Gynllun Pensiwn y Prifysgolion, byddai hyn yn rhoi argostau blynyddol o £50,056.[92] Os yw'r aelod o

[84] Llywodraeth Cymru, **Cylchlythyr Tâl: Staff Agenda ar gyfer Newid 2017-18**
[85] GIG Lloegr, **Workforce Mix Cost Calculator**
[86] Llywodraeth Cymru, **Cylchlythyr Tâl: Staff Agenda ar gyfer Newid 2017-18**
[87] Prifysgol Bangor, **Graddfeydd a Thaliadau**
[88] ibid.
[89] ibid.
[90] ibid.
[91] Prifysgol Bangor, **Graddfeydd a Thaliadau**
[92] ibid.

staff yn gweithio ar y gronfa ddata am gyfartaledd o 0.5 diwrnod yr wythnos, byddai hyn yn rhoi cost flynyddol cyfwerth ag amser llawn o £5,006 ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol. Ar gyfer 6 Bwrdd Iechyd Lleol byddai hyn yn costio £30,034 am y flwyddyn gyntaf ar ôl i'r Bil ddod i rym.

379. Yn 2017-18, canolbwynt y cyflog blynyddol ar gyfer aelod o staff GIG Cymru Band 5 oedd £25,551.[93] Gan ddefnyddio'r amcangyfrif mai 25 y cant o'r cyflog yw'r argostau, byddai hyn yn rhoi cost llawn amser cyfatebol blynyddol o £31,939. Os yw'r aelod o staff yn gweithio yn y maes hwn am 2.5 diwrnod yr wythnos, byddai hyn yn rhoi cost flynyddol o £15,969. Ar gyfer 6 Bwrdd Iechyd Lleol byddai hyn yn costio £95,816 y flwyddyn.

Costau parhaus i Fyrddau Iechyd Lleol ar gyfer staff meddygol sy'n mewnbynnu data

380. Yn seiliedig ar yr ymrwymiad amser i fewnbynnu data ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, amcangyfrifir y byddai mewnbynnu pob cofnod newydd yn cymryd 15 munud o amser clinigydd yn y GIG. Mae'r data diweddaraf o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn datgan mai cyflog fesul awr ymarferydd yn y GIG yng Nghymru yw £32.38.[94] O ychwanegu 25 y cant ar gyfer argostau, byddai hyn yn cyfateb i £40.48 yr awr. Fel y nodwyd, amcangyfrifir y byddai oddeutu 400 o bobl y flwyddyn yn cael diagnosis o ASA. Felly, ar gyfer hyn, byddai angen ymrwymiad o 100 awr y flwyddyn, fel cost barhaus. Mae yn golygu, felly, y byddai'r Byrddau Iechyd Lleol yn mynd i £4,048 o gostau'r flwyddyn, a chyfanswm o £20,240 dros bum mlynedd o 2019-20 ymlaen.

Tabl 15: Costau staff sy'n gysylltiedig â chasglu data yn sgil gofynion y Bil (£)

Aelod o staff	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
BILl yn cynnal y gronfa ddata						

[93] Llywodraeth Cymru, **Cylchlythyr Tâl: Staff Agenda ar gyfer Newid 2017-18**

[94] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2017, Canlyniadau Dros Dro a Chanlyniadau Diwygiedig 2016 – Tabl 15.5a Cyflog Gros yr Awr**

Aelod o staff	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Ymgynghorydd Band 8D GIG Cymru ar *0.2 CALl*	19,082	19,082	19,082	19,082	19,082	95,410
Seicolegydd cynorthwyol Band 5 GIG Cymru ar *0.5 CALl*	15,969	15,969	15,969	15,969	15,969	79,845
Swyddog Ymchwil prifysgol Gradd 7 ar *0.4 CALl*	20,022	20,022	20,022	20,022	20,022	100,110
Cynorthwy-ydd prosiect ymchwil prifysgol Gradd 6 ar *0.5 CALl*	18,506	18,506	18,506	18,506	18,506	92,530
Cyfanswm y costau	**73,579**	**73,579**	**73,579**	**73,579**	**73,579**	**367,895**
Byrddau Iechyd Lleol eraill						
Gweinyddwr Band 5 GIG Cymru - *0.5 CALl* 6	95,816	0	0	0	0	95,816
Ymchwilydd prifysgol Gradd 7 - *0.1 CALl*6	30,034	0	0	0	0	30,034

Aelod o staff	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Mewnbynnu Cofnodion (Clinigwr GIG) - *100 awr y flwyddyn*	4,098	4,098	4,098	4,098	4,098	20,490
Cyfanswm y costau	**129,948**	**4,098**	**4,098**	**4,098**	**4,098**	**146,340**
Cyfanswm costau casglu data	**203,527**	**77,677**	**77,677**	**77,677**	**77,677**	**514,235**
Costau presennol casglu data	73,579	73,579	73,579	73,579	73,579	367,895
Costau ychwanegol casglu data	129,948	4,098	4,098	4,098	4,098	146,340

Cyhoeddi data

381. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi a diweddaru data dibynadwy ar ASA. Mae'r costau i gyrff perthnasol o gasglu'r data hwn yn cael eu hadlewyrchu yn y costau a amlinellir uchod. Fodd bynnag, byddai costau hefyd i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â chyhoeddi'r data. Oherwydd y nifer cymharol fach o achosion dan sylw y flwyddyn, gallai gymryd nifer o flynyddoedd i gael data dibynadwy i'w dadansoddi'n gadarn ar lefel y Byrddau Iechyd Lleol.

382. Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol bod Byrddau Iechyd Lleol yn darparu gwybodaeth am yr amser rhwng atgyfeiriad a thriniaeth yn achos ASA, a fydd yn cael ei chyhoeddi. Ni fyddai llawer o gostau ychwanegol pe bai Llywodraeth Cymru yn penderfynu cyhoeddi data yn ei hadroddiadau blynyddol ar Gynllun Gweithredu Strategol ASA. Byddai'n arfer da i'r wybodaeth hon gael ei chyhoeddi ar wefannau'r GIG, Iechyd yng Nghymru neu StatsWales, ond nid yw'n angenrheidiol ar gyfer y Bil hwn. Felly, nid yw'r gofynion yn sylweddol

wahanol i'r ymrwymiadau presennol i ddarparu data i warantu cost ychwanegol. Cynhwyswyd ychwanegiad hael o fewnbwn un diwrnod o amser aelod o staff Band Rheoli 3 i gyhoeddi'r data cyfyngedig hwn bob blwyddyn. Felly, y gost i Lywodraeth Cymru fydd £265 y flwyddyn.

Tabl 16: Costau Llywodraeth Cymru: cyhoeddi data

Costau	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Gwas sifil EB3	265	265	265	265	265	1,325
Cyfanswm y costau	**265**	**265**	**265**	**265**	**265**	**1,325**

383. Mae cyfarfodydd misol ar hyn o bryd, lle mae gofyn i Fyrddau Iechyd wneud cyflwyniadau i Lywodraeth Cymru. Gellid cynnwys cydymffurfedd â gofynion y Bil a'r cynnydd o ran y targedau amseroedd aros fel rhan o gyflwyniadau o'r fath heb unrhyw gost ychwanegol.

384. Nid yw'r Bil yn cynnwys unrhyw addasiadau nac yn cyflwyno tramgwyddau, sancsiynau na chosbau. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder sy'n cyd-fynd â'r Bil hwn yn nodi mai bach iawn yw'r tebygolrwydd y bydd unigolion neu fusnesau yn gweithredu yn erbyn y sector cyhoeddus am beidio â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon. Ni ddisgwylir y bydd y cynnig hwn yn effeithio ar lysoedd na thribiwnlysoedd nac ar wasanaethau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, heblaw risg fechan o Adolygiad Barnwrol pe bai Gweinidogion Cymru neu gyrff perthnasol yn methu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Felly, nid oes amcangyfrif o gostau gorfodi ychwanegol ar gyfer y Bil hwn.

Amseroedd aros

385. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod y strategaeth awtistiaeth yn darparu bod asesiadau diagnostig yn cael eu cychwyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol yn dilyn atgyfeiriad ac o leiaf o fewn unrhyw derfynau amser a nodir yn y Safon Ansawdd berthnasol a ddyroddir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal.

386. Ar hyn o bryd, y Safon Ansawdd ar gyfer yr amser rhwng atgyfeiriad a'r asesiad cyntaf yw 3 mis (13 wythnos) ar gyfer oedolion a phlant fel ei gilydd. Mae hyn yn wahanol i ganllawiau presennol Llywodraeth Cymru, sy'n gosod targed o 6 mis (26 wythnos).

387. Mae'r fersiwn ddiweddaraf o 'Gynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig', Llywodraeth Cymru,[95] a'r Cynllun Cyflawni cysylltiedig,[96] yn amlinellu gweithgaredd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael mynediad prydlon at asesiad drwy gyflwyno targed o ddim mwy na 26 wythnos rhwng yr atgyfeiriad a dyddiad yr asesiad cyntaf. Nid yw'r Cynllun Cyflawni yn cymhwyso'r targed hwn i oedolion.

388. Nodi, diagnosis ac asesu yw'r llwybrau pwysicaf i gymorth a thriniaeth briodol ar gyfer plant ac oedolion ag ASA. Gall peidio â rhoi cydnabyddiaeth ddigonol i anghenion, a methu â gwneud diagnosis, arwain at anawsterau sylweddol, hirdymor i unigolion a'u teuluoedd. Bydd peidio â rhoi cydnabyddiaeth ddigonol a gwneud asesiad annigonol yn aml yn arwain at gostau uchel a diangen ar gyfer y coffrau cyhoeddus ac ar gyfer teuluoedd.

389. Bach iawn o astudiaethau a wnaed yn y DU sy'n ymwneud â nodi, diagnosis neu asesu. Mae rhai astudiaethau diweddar wedi bod yn archwilio ffyrdd o wella'r cyfraddau a'r prosesau nodi a diagnosis, a chafwyd peth llwyddiant. Mae annog y defnydd o offer sgrinio safonol yn amlwg yn ddoeth – i helpu ymarferwyr i ddysgu a chyfrannu at ymchwil, i gefnogi cysondeb mewn ymatebion i'r gwasanaeth ac i hwyluso'r broses o rannu data rhwng gwasanaethau a systemau.

390. Mewn astudiaeth o'r Unol Daleithiau o newidiadau sefydliadol mewn practisau gofal sylfaenol preifat cyfrifwyd bod cost sgrinio yn cael ei gwrthbwyso gan y refeniw a gynhyrchir gan achosion a nodwyd.[97] Er nad oedd hwn yn werthusiad economaidd cynhwysfawr, awgrymodd yr astudiaeth o leiaf gymhelliad ariannol i ymarferwyr preifat fod yn fwy effro i ASA.

391. Yr unig dystiolaeth economaidd arall oedd ar gael oedd modelu efelychiad a wnaed gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO), gan edrych ar ganlyniadau cyflwyno timau amlddisgyblaethol arbenigol i helpu i nodi ac asesu oedolion ag ASA sy'n gweithredu ar lefel uchel, ac yna darparu cefnogaeth ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, tai a chyflogaeth. Gan ddefnyddio ddata o'r modelau lleol gorau a ddarganfuwyd gan NAO, awgrymodd eu dadansoddiadau y gellid

[95] Llywodraeth Cymru, Diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig

[96] Llywodraeth Cymru, Diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, Cynllun Cyflawni2016-2020

[97] Gura, G. F., Champagne, M. T., a Blood-Siegfried, J. E. (2011). Autism spectrum disorder screening in primary care. Journal of Developmental & Behavioral Pediatrics, 32, 48-51.

sicrhau arbedion sylweddol i'r coffrau cyhoeddus hyd yn oed pe byddai cynnydd cymedrol yn y cyfraddau nodi. Yn fwy cyffredinol, dadleuodd yr NAO y gallai cymorth amlddisgyblaethol arbenigol a chydweithio ar draws pob maes – clinigol, cymdeithasol a chyflogaeth – wella'r broses bontio o wasanaethau i blant i wasanaethau i oedolion, a chynorthwyo oedolion sy'n gweithredu ar lefel uchel i sicrhau gwell ansawdd bywyd mewn ffordd sy'n cynnig gwerth am arian. [98]

392. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i feithrin capasiti timau amlddisgyblaethol i gyrraedd y terfyn amser o 26 wythnos. Felly, rydym wedi amcangyfrif y bydd y Bil yn effeithio ar leihau'r amser aros ar gyfer y rhai sy'n aros rhwng 13 wythnos a llai na 26 wythnos, a byddai darparu arian i gael gwared â'r elfen hon o'r rhestr aros yn rhyddhau'r adnoddau presennol i symud tuag at darged 13 wythnos y Bil ymhen amser. Er nad oes data ar gael yn y parth cyhoeddus, mae'r ymatebion i geisiadau uniongyrchol am wybodaeth yn awgrymu bod tua 1,903 o bobl yn aros rhwng 13 wythnos a llai na 26 wythnos (ac amcangyfrifir bod tua 598 o oedolion yn aros dros 13 wythnos).

393. I gael amcangyfrif syml a hael o'r costau i gyflawni targed 13 wythnos y Bil, rydym wedi cymhwyso cost nodweddiadol o hyd at £2,500 i wneud **diagnosis preifat** o blant a £1,500 i wneud diagnosis preifat o oedolion i'r nifer hon o bobl. Yn y modelu syml hwn, tybir y bydd y byrddau iechyd lleol yn talu'r holl gostau. Yn sgil hyn ceir amcangyfrif o £3,148,500 o ystyried senario sy'n cynnwys plant sy'n aros 13-26 wythnos, £5,576,625 o ystyried senario lle cynhwysir pob plentyn sy'n aros dros 13 wythnos, ac o gyfrif y canolbwynt rhwng y ddwy senario hyn, ceir £4,362,563 . Defnyddiwyd y canolbwynt, oherwydd, erbyn i'r Bil ddod i rym, disgwylir y byddai llai o bobl ar y rhestrau aros oherwydd y buddsoddiad ychwanegol presennol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i dimau amlddisgyblaethol i ostwng yr amseroedd aros.

394. Mae'r costau trosiannol hyn wedi'u lledaenu dros 3 blynedd. Bydd y goramcangyfrif hwn yn cael ei gydbwyso yn erbyn yr angen am wasanaethau, a ariennir ar hyn o bryd i ddarparu'r cyfarfod asesu cyntaf o fewn 26 wythnos, er mwyn symud tuag at 13 wythnos. Yn dilyn y cyfnod pontio hwn, rhagdybir y byddai buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn timau amlddisgyblaethol yn cynnal perfformiad y rhestrau aros, gyda Llywodraeth Cymru yn parhau â'r cyllid angenrheidiol ar ôl mynd i'r afael â'r ôl-groniad hwn. Gellid dadlau, oherwydd y byddai'r asesiadau hyn yn digwydd o dan y system bresennol, nad oes, o

[98] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Supporting people with autism through adulthood

reidrwydd, yn rhaid eu hamcangyfrif fel rhan o'r Asesiad Effaith hwn. Fodd bynnag, heb y Bil mae'n annhebygol y bydd y cynnydd hwn mewn perfformiad yn digwydd, a byddai'r un nifer o bobl yn dal ar y rhestr aros ar ddiwedd cyfnod adolygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r costau hyn wedi'u cynnwys i adlewyrchu'r ffaith y bydd y costau hyn, o dan y Bil, yn gostwng tua 3 mis yn gynharach.

395. Gwnaed amcangyfrif o nifer y plant sy'n aros am eu hapwyntiad asesu cyntaf gan ddefnyddio'r wybodaeth a gafwyd gan y byrddau iechyd lleol. Lle bo'n bosibl, mae'r wybodaeth am amseroedd aros am atgyfeiriadau awtistiaeth wedi dod yn uniongyrchol oddi wrth y byrddau iechyd lleol. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r byrddau iechyd lleol wedi gallu darparu gwybodaeth am amseroedd aros. Lle nad yw bwrdd iechyd lleol wedi darparu gwybodaeth am amser aros, mae cyfartaledd wedi'i gyfrifo ledled Cymru, yn seiliedig ar y boblogaeth o oedran perthnasol (o dan 18 oed ar gyfer plant, 18 oed a hŷn ar gyfer oedolion[99]). Defnyddiwyd hyn wedyn i amcangyfrif nifer y plant a'r oedolion ar y rhestr aros.

396. Darparwyd gwybodaeth a gafwyd gan fyrddau iechyd lleol naill ai ar sail y rhai a oedd yn aros ar ddiwedd mis Mawrth 2018 neu ar sail y rhai a fu'n aros trwy gydol 2017-18. Bydd hyn yn darparu goramcangyfrif hael o'r unigolion hynny sy'n aros. Mae rhai byrddau iechyd lleol wedi cynnwys gwybodaeth am blant hyd at 18 oed (ee 17 neu 17.5 oed), yn hytrach nag 18. Gan nad yw'n bosibl dadansoddi amcangyfrifon poblogaeth canol y flwyddyn fesul hanner blwyddyn, ac nad yw'n hysbys faint o unigolion sydd ym mhob grŵp oedran, mae cyfrifiadau'n ystyried plant hyd at 18 oed. Gan fod y gost fesul diagnosis o blentyn yn uwch nag oedolyn, bydd hyn yn rhoi goramcangyfrif.

397. O'r byrddau iechyd lleol hynny sydd wedi darparu data, mae'r mwyafrif wedi darparu gwybodaeth am atgyfeiriadau ac amserau aros yn seiliedig ar y gwasanaethau niwroddatblygiadol. Mae'r data hyn felly yn cynnwys cleifion sy'n aros am gyflyrau heblaw ASA (megis ADHD), a gwnaed rhagdybiaeth fod gan 75 y cant o'r plant hynny ar y rhestr aros atgyfeiriad sy'n seiliedig ar ASA. Ni wnaed rhagdybiaeth debyg ar gyfer oedolion gan nad oes llawer o wybodaeth am y maes hwn.

[99] Amcangyfrifon poblogaeth canol y flwyddyn (2017), fesul bwrdd iechyd lleol ac oedran: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Health-Boards/populationestimates-by-lhb-age

398. Mae'r paragraffau a ganlyn yn cynnwys gwybodaeth am yr amcangyfrif o gostau'r amseroedd aros, gan gynnwys iselbwynt a gyfrifir yn seiliedig ar y rhai sy'n aros rhwng 13 a 25 wythnos ac uwchbwynt a gyfrifir yn seiliedig ar bawb sy'n aros dros 13 wythnos. Yna, cymerir canolbwynt rhwng y ddau ddewis hwnnw fel yr amcangyfrif gorau. Nid yw senarios yn gwneud addasiad ar gyfer nifer yr oedolion sy'n aros dros 26 wythnos gan mai ar gyfer plant yn unig y mae targed Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd; felly ym mhob senario mae pob oedolyn sy'n aros dros 13 wythnos wedi cael ei gynnwys.

399. Mae gwasanaeth oedolion Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn cael ei reoli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Felly ni chynhwysir unrhyw wybodaeth na chyfrifiad.

400. Ceir dadansoddiad o’r gostyngiad yn yr amseroedd aros fesul bwrdd iechyd lleol ac mae'n cynnwys amcangyfrif o nifer y plant ac oedolion. Mae tabl 17 yn cynnwys gwybodaeth am y gost o ostwng amseroedd aros, sy'n dangos y sefyllfa ym mlynyddoedd un i dri, yn seiliedig ar y rhai sy'n aros rhwng 13 a 25 wythnos. Y cyfanswm sy'n aros yn y senario hon yw 1,417 (gan gynnwys 598 o oedolion). Cost gyffredinol y senario hon yw £3,148,500 ac mae hyn yn cynnwys cost flynyddol dros y tair blynedd gyntaf o £1,049,500.

Tabl 17: Y gost o ostwng yr amseroedd aros (13-25 wythnos)

	Amcangyfrif o nifer y plant ar restr aros ac yn aros 13-25 wythnos	Amcangyfrif o nifer yr oedolion ar restr aros ac yn aros 13+ wythnos	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	137	164	£196,375	£196,375	£196,375	£0	£0	**£589,125**
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	10	62	£39,125	£39,125	£39,125	£0	£0	**£117,375**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	42	179	£124,500	£124,500	£124,500	£0	£0	**£373,500**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	68	*	£56,250	£56,250	£56,250	£0	£0	**£168,750**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	270	77	£263,500	£263,500	£263,500	£0	£0	**£790,500**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	161	137	£202,250	£202,250	£202,250	£0	£0	**£606,750**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	132	115	£167,500	£167,500	£167,500	£0	£0	**£502,500**
Cyfanswm	**819**	**598**	**£1,049,500**	**£1,049,500**	**£1,049,500**	**£0**	**£0**	**£3,148,500**

401. Os bydd yr holl blant sydd ar y rhestr aros sydd ag atgyfeiriad ASA ac sy'n aros dros 13 wythnos, yn cael eu cynnwys yn y ffigurau, cyfanswm y nifer sy'n aros yw 2,388 (gan gynnwys 598 o oedolion). Y gost gyffredinol i fodloni'r targed amser aros yn y senario hon yw £5,576,625 neu £1,858,875 y flwyddyn am y tair blynedd gyntaf.

Tabl 18: Y gost o ostwng yr amseroedd aros (dros 13 wythnos)

	Amcangyfrif o nifer y plant ar restr aros ac yn aros 13+ wythnos	Amcangyfrif o nifer yr oedolion ar restr aros ac yn aros 13+ wythnos	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	626	164	£603,875	£603,875	£603,875	£0	£0	**£1,811,625**
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	39	62	£63,500	£63,500	£63,500	£0	£0	**£190,500**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	114	179	£184,500	£184,500	£184,500	£0	£0	**£553,500**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	72	*	£60,000	£60,000	£60,000	£0	£0	**£180,000**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	299	77	£287,875	£287,875	£287,875	£0	£0	**£863,625**

	Amcangyfrif o nifer y plant ar restr aros ac yn aros 13+ wythnos	Amcangyfrif o nifer yr oedolion ar restr aros ac yn aros 13+ wythnos	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	351	137	£361,000	£361,000	£361,000	£0	£0	**£6,863,575**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	289	115	£298,125	£298,125	£298,125	£0	£0	**£894,375**
Cyfanswm	**1790**	**598**	**£1,858,875**	**£1,858,875**	**£1,858,875**	**£0**	**£0**	**£5,576,625**

402. Er mwyn cael yr amcangyfrif gorau o'r gost o ostwng yr amseroedd aros, defnyddiwyd canolbwynt rhwng y ddwy senario. Mae hyn yn darparu amcangyfrif rhesymol o'r nifer debygol o bobl sy'n aros am asesiadau ar yr adeg y byddai'r Bil hwn yn cael ei weithredu, yn dilyn effaith polisi Llywodraeth Cymru i ostwng nifer y plant sy'n aros dros 26 wythnos am asesiad cyntaf. Gwerth y canolbwynt yw £4,362,563, neu £1,454,188 am y tair blynedd gyntaf. Mae hyn yn cyfrif am 1,903 o unigolion (gan gynnwys 598 o oedolion sy'n aros dros 13 wythnos).

Tabl 19: Y gost o ostwng yr amseroedd aros (canolbwynt)

	Amcangyfrif o nifer y plant ar restr aros ar y canolbwynt	Amcangyfrif o nifer yr oedolion ar restr aros ac yn aros 13+ wythnos	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	382	164	£400,125	£400,125	£400,125	£0	£0	**£1,200,375**
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	24	62	£51,313	£51,313	£51,313	£0	£0	**£153,938**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	78	179	£154,500	£154,500	£154,500	£0	£0	**£463,500**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	70	*	£58,125	£58,125	£58,125	£0	£0	**£174,375**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	285	77	£275,688	£275,688	£275,688	£0	£0	**£827,063**

	Amcangyfrifo nifer y plant ar restr aros ar y canolbwynt	Amcangyfrifo nifer yr oedolion ar restr aros ac yn aros 13+ wythnos	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Cyfanswm
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	256	137	£281,625	£281,625	£281,625	£0	£0	£844,875
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	210	115	£232,813	£232,813	£232,813	£0	£0	£698,438
Cyfanswm	1305	598	£1,454,188	£1,454,188	£1,454,188	£0	£0	£4,362,563

Y cynnydd yn y galw am wasanaethau

403. Mae gwybodaeth am gost y gwasanaethau a ddarperir i bobl ag ASA, nad oes ganddynt ddiagnosis hyn yn hyn, yn ddiffygiol. Er y bydd y diagnosis yn galluogi mynediad haws at wasanaethau mwy priodol (sydd â chost), efallai y bydd y person dan sylw - a'u teuluoedd a'u gofalwyr - eisoes yn mynd i gostau sylweddol uniongyrchol ac anuniongyrchol ynghyd â chostau llesiant.

404. Bwriad gweithredu'r canllawiau fel rhan o'r Bil hwn yw gwella ansawdd y diagnosis a lleihau amrywiaeth ar draws Cymru.

405. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae yna wahaniaethau ledled Cymru yn argaeledd gwasanaethau nad ydynt o reidrwydd yn seiliedig ar asesiad o angen. Nod y Bil hwn yw darparu gwybodaeth a chreu amgylchedd lle gellir nodi a mynd i'r afael â bylchau presennol yn y gwasanaethau i bobl ag ASA. Er y bydd hyn o reidrwydd yn arwain yn anochel at gostau cynyddol wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn, bydd hefyd yn cynorthwyo i osgoi costau ac effeithiau economaidd eraill.

406. Mae costau uchel ac eang ASA yn gymysgedd o'r hyn y gellir eu galw'n gostau “da” a “drwg”. Mae costau “da” yn cynnwys y ffyrdd priodol y mae iechyd, addysg a systemau eraill yn nodi, yn asesu ac yn ymateb i anghenion unigolion ag ASA, a'u gofalwyr a'u teuluoedd.

407. Mae costau “drwg” yn deillio o argyfyngau y gellir eu hosgoi, neu o ymyriadau sy'n cael eu darparu sy'n amhriodol i anghenion person ag ASA. Mae lleihau'r costau “drwg” wrth gynyddu'r costau “da” yn ffordd well a thecach o ddefnyddio adnoddau dynol, cyfalaf ac adnoddau eraill prin. Mae'n amlwg y byddai gostwng y costau cyffredinol yn y pen draw - trwy atal anghenion diangen rhag dod i'r amlwg, neu fynd i'r afael â'r rheini sydd wedi dod i'r amlwg yn ddigon cynnar i osgoi anawsterau gofidus yn nes ymlaen - yn fwy effeithlon.

408. Rhaid i ymyriadau sy'n cael eu hariannu gan adnoddau cyhoeddus fod yn effeithiol yn yr ystyr eu bod yn diwallu anghenion, ac yn gwella iechyd, gallu person i weithredu neu ansawdd bywyd. Os yw ymyriadau i wneud synnwyr economaidd hefyd, mae angen iddynt fod yn ymarferol drwy beidio â defnyddio mwy o adnoddau na'r rhai sydd eisoes ar gael. Mae angen iddynt hefyd fod yn fforddiadwy o fewn cyfyngiadau'r gyllideb bresennol. Mae angen iddynt fod yn gosteffeithiol, sy'n golygu bod eu canlyniadau’n ddigonol i gyfiawnhau'r adnoddau y mae'n rhaid eu defnyddio i'w cynhyrchu. Nid yw hyn yn golygu bod angen i

ymyriad arbed costau, ond yn hytrach, os yw'r ymyriad yn costio mwy na'r dewis amgen gorau (neu fwy na'r hyn a ddarperir ar hyn o bryd), yna mae'r costau uwch yn cael eu hystyried gan wneuthurwyr penderfyniadau i fod yn "werth" mynd iddynt oherwydd graddfa a natur yr enillion.

409. O ganlyniad, nod y Bil hwn yw sicrhau bod ffocws yr adnoddau ar nodi a gwneud diagnosis yn gynharach fel bod mwy o'r buddsoddiad yn ataliol, yn hytrach nag yn adweithiol.

410. Yr hyn y mae'r astudiaethau diweddaraf yn ei awgrymu yw y gellid defnyddio adnoddau cyhoeddus a phreifat yn well nag y gwneir ar hyn o bryd, pe bai mwy o arian yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno ymyriadau y profwyd eu bod yn effeithiol ac yn gosteffeithiol. Roedd astudiaeth y Prosiect Awtistiaeth Cenedlaethol - *the Autism Dividend, 2017* - yn archwilio'n fanylach yr achos busnes dros ymyriadau ar gyfer pobl ag awtistiaeth.

411. Mae *Factors Affecting Age at ASD Diagnosis in UK: No Evidence that Diagnosis Age has Decreased Between 2004 and 2014,*[100] yn dod i'r casgliad bod yna gorff cynyddol o dystiolaeth i awgrymu y gall rhaglenni ymyrraeth gynnar wella'r gallu cyffredinol i weithredu, cyfathrebu cymdeithasol, iaith, gwybyddiaeth ac ymddygiad ymaddasol mewn plant ag ASA. Wrth i blant fynd yn hŷn, gall y triniaethau fod yn llai effeithiol (Harris a Handleman 2000), ac mae hynny'n dangos mor bwysig yw cael diagnosis cynnar o ASA er mwyn gallu ymyrryd mewn da bryd. Er y gellir gwneud diagnosis dibynadwy o ASA mor gynnar â 24 mis (Steiner et al. 2012; Johnson et al. 2007), mae astudiaethau poblogaeth wedi canfod bod yr oedran diagnosis yn tueddu i fod tua oedran derbyn i'r ysgol (Shattuck et al. 2009). Mae hyn yn awgrymu ymhellach y bydd yr achosion o ddiagnosis cynharach ar ôl gweithredu'r Bil hwn yn arwain at ddarpariaeth gynharach a allai fod yn fwy effeithiol.

412. Mae'r effaith o ran y galw am wasanaethau yn gymhleth iawn ac yn anodd ei amcangyfrif gan nad oes llawer o wybodaeth am niferoedd oedolion a phlant sydd â diagnosis o ASA na gwybodaeth am y gwasanaethau y maent hwy, neu bobl ag ASA ond heb gael diagnosis, yn eu cael. Yn hyn o beth, ni fydd y Bil hwn yn arwain at gostau newydd, ond efallai y bydd nifer y bobl sydd ag anghenion sydd i'w diwallu gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn

[100] *Factors Affecting Age at ASD Diagnosis in UK: No Evidence that Diagnosis Age has Decreased Between 2004 and 2014*, (2016), Denise Brett, Frances Warnell, Helen McConachie, Jeremy R. Parr.

cynyddu, neu'n cael eu nodi'n gynharach. Mae angen i'r costau sy'n gysylltiedig â chyllido'r gwasanaethau hyn ar gyfer llywodraeth leol, iechyd a sectorau eraill gael eu hariannu'n ddigonol.

413. Y gost ychwanegol uchaf fyddai'r gost lawn o ddarparu gwasanaethau i bobl ag ASA sy'n cael diagnosis cynnar am 13 wythnos. Gwnaed rhagdybiaeth y bydd y diagnosis yn cael ei gwblhau ar gyfartaledd 13 wythnos yn gynharach nag sy'n digwydd ar hyn o bryd. Y niferoedd a gynhwysir yw'r amcangyfrif o'r rhai sy'n aros dros 13 wythnos ar hyn o bryd, a 400 diagnosis ychwanegol bob blwyddyn. Amcangyfrifir mai'r gost o ddarparu gwasanaethau i bobl ag ASA na fyddai fel arall wedi cael diagnosis fydd £9.5 miliwn mewn costau uniongyrchol, ynghyd â £3.9 miliwn o golledion yn sgil y gostyngiad mewn cynhyrchiant. Sylwer, rhagdybiwyd bod cyfraddau'r amlder achosion o ID yn gyson â'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer plant, ond mai 5 y cant yw amlder yr achosion o ID ymhlith oedolion, gan y tybiwyd bod oedolion yn llai tebygol o gael eu nodi ar gam mor hwyr. Yn absenoldeb diagnosis mae llawer o gostau eisoes yn cael eu hachosi gan fod plant (gydag ID neu heb ID), o bosibl, yn cael lefelau o gymorth ychwanegol (hyd yn oed os nad yw hyn yn briodol i'w hanghenion). Yn yr un modd, bydd gofalwyr eisoes yn dioddef lefelau tebyg o golledion yn sgil y gostyngiad mewn cynhyrchiant (a allai fod hyd yn oed yn uwch, os nad oes cymorth sy'n benodol i ddiagnosis). Heb ddiagnosis cywir, mae gwasanaethau yn llai tebygol o fod wedi'u teilwra ac mor effeithiol ag y gallent fod a bydd llawer o gostau adweithiol (neu "ddrwg") yn cael eu hachosi. Mae'r costau hyn eisoes wedi'u hamcangyfrif fel rhan o'r status quo, yn yr adran sy'n cyfeirio at y costau mewn perthynas ag awtistiaeth, gan fod cyfrifiad wedi'i wneud o nifer y bobl ag ASA yng Nghymru a chost lefel gyfartalog y ddarpariaeth gwasanaeth.

Tabl 20: Costau blynyddol pobl ag ASA, gydag ID a heb ID, a nodir yn gynharach oherwydd y Bil hwn

Costau blynyddol	Pobl ag ASA ag ID					
	0-1	2-4	5-11	12-15	16-67	Cyfanswm
Nifer y bobl	*8*	*84*	*284*	*149*	*30*	*555*
Costau uniongyrchol						
Llety	-	4,935	24,069	17,955	278,340	325,299
Addysg	-	230,370	1,727,501	1,072,837	48,000	3,078,708
Iechyd a gofal cymdeithasol	596	121,443	650,360	352,571	45,368	1,170,338
Cyfanswm y costau uniongyrchol	596	356,748	2,401,930	1,443,363	371,708	4,574,345
Cyfanswm y costau cynyddrannol	**596**	**318,570**	**2,051,687**	**1,235,471**	**360,818**	**3,967,142**
Costau anuniongyrchol						
Colledion yn sgil y gostyngiad mewn cynhyrchiant						
- unigolion	-	-	-	-	202,590	202,590
- rhieni	-	99,708	344,421	170,195	5,888	620,212

Costau blynyddol	Pobl ag ASA ag ID					
	0-1	2-4	5-11	12-15	16-67	Cyfanswm
Cyfanswm y costau anuniongyrchol	-	99,708	344,421	170,195	208,478	822,802
- Addaswyd ar gyfer 73.4% cyflogedig	-	73,186	252,805	124,923	153,023	603,937
Cyfanswm y costau - cynyddrannol	596	391,756	2,304,492	1,360,394	513,841	4,571,079
Budd-daliadau (rhai'r DU heb eu cynnwys)	-	94,038	338,457	177,571	49,140	659,206

Costau blynyddol	Pobl ag ASA heb ID						Cyfun
	0-1	2-4	5-11	12-15	16-67	Cyfanswm	
Nifer y bobl	*16*	*25*	*434*	*305*	*568*	*1,348*	1,903
Costau uniongyrchol							
Llety	-	-	-	-	2,198,302	2,198,302	2,523,601
Addysg	-	69,431	1,315,020	741,914	374,880	2,501,245	5,579,953

Costau blynyddol	Pobl ag ASA heb ID						Cyfun
	0-1	2-4	5-11	12-15	16-67	Cyfanswm	
Iechyd a gofal cymdeithasol	1,192	36,544	582,428	203,939	539,742	1,363,845	2,534,183
Cyfanswm y costau uniongyrchol	1,192	105,975	1,897,448	945,853	3,112,924	6,063,392	10,637,737
Cyfanswm y costau cynyddrannol	**1,192**	**94,538**	**1,711,371**	**761,707**	**2,951,186**	**5,519,994**	**9,487,136**
Costau anuniongyrchol							
Colledion yn sgil y gostyngiad mewn cynhyrchiant							
- unigolion	-	-	-	-	3,390,392	3,390,392	3,592,982
- rhieni	-	30,044	415,013	331,448	321,062	1,097,567	1,717,779
Cyfanswm y costau anuniongyrchol	-	30,044	415,013	331,448	3,711,454	4,487,959	5,310,761
- Addaswyd ar gyfer 73.4% cyflogedig	**-**	**22,052**	**304,620**	**243,283**	**2,724,207**	**3,294,162**	**3,898,099**
Cyfanswm y costau - cynyddrannol	**1,192**	**116,590**	**2,015,991**	**1,004,990**	**5,675,393**	**8,814,156**	**13,385,235**

Costau blynyddol	Pobl ag ASA heb ID						Cyfun
	0-1	2-4	5-11	12-15	16-67	Cyfanswm	
Budd-daliadau (rhai'r DU heb eu cynnwys)	-	3,538	61,411	43,087	-	108,036	767,242

414. Dylai diagnosis cynharach arwain at well cydbwysedd o ran costau "da" yn hytrach na "drwg" oherwydd gellir targedu gwasanaethau fwyfwy a bod camau brys yn llai tebygol.

9. 7. Manteision

415. Manteision uniongyrchol y Bil hwn fydd gwella diagnosis o ASA a hefyd gwybodaeth i gynllunio a chyflenwi gwasanaethau. Bydd manteision clir o ran cael diagnosis mwy cywir ac amserol, ar gyfer unigolion, gofalwyr a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau. Y rhesymau pennaf dros hyn fydd gwella ffocws y gwasanaethau a'r fantais ychwanegol o gael gwasanaethau wedi'u targedu'n well ac yn gynharach.

416. Mae'r asesiad effaith hwn yn ystyried costau "da" a "drwg" ASA. Mae costau y gellid eu hystyried yn "dda" yn ymwneud â materion sydd o natur benodedig neu sefydlog na ellir eu haddasu gan unrhyw fframwaith ymyrraeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Er enghraifft, gellid ystyried bod amlder achosion, anabledd deallusol a chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd yn "ffactorau sefydlog" o ran cynllunio cyllidebau a gwasanaethau. Fodd bynnag, y costau a ystyrir yn rhai "drwg" yw'r rheini y gall ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth leihau costau o'r fath.

417. Fel y cyfryw, gellir ystyried unrhyw wariant i gefnogi a mynd i'r afael ag anghenion pobl ag ASA o dan y Bil hwn fel buddsoddiad ataliol. Gan edrych ar yr amcangyfrif o gostau blynyddol cyfredol ASA yn **nhabl 7, byddai pob gostyngiad o 1 y cant yng nghostau blynyddol cyfredol uniongyrchol ac anuniongyrchol ASA, yn cynrychioli arbediad o tua £1 miliwn.**

418. Mae costau cyflyrau iechyd corfforol a meddyliol sy'n cyd-ddigwydd ag ASA wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrifon uchod, gan nad yw'n bosibl i'r rhain gael eu dadgyfuno.

419. Roedd yr adroddiad ar ficrosegmentu yn yr Alban yn cydnabod sbectrwm ASA ond hefyd yn ceisio grwpio'r boblogaeth ASA mewn gwahanol segmentau i helpu i gynllunio ymchwil, gwasanaethau neu ymyriadau. Drwy hyn, aethpwyd ati i adeiladu matrics microsegmentu, sy'n cynnwys pedwar segment sy'n adlewyrchu'r graddfeydd o allu deallusol uwch a lefel is o ddifrifoldeb symptomau, a gynrychiolir yn gyffredin ar hyn o bryd yn y proffil Asperger / Awtistiaeth Gweithredu Lefel Uwch, i'r rhai hynny, sydd â diagnosis o awtistiaeth neu ASA arall ar hyn o bryd, gydag anabledd deallusol cymedrol neu ddifrifol a lefel uwch o randifrifoldeb symptomau. Mae'r pedwar segment hyn yn adlewyrchu'r safonwyr sefydlog o statws deallusol a difrifoldeb symptomau, ac yna caiff pob un ei isrannu i adlewyrchu'r ffactorau risg amrywiol sy'n gysylltiedig â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd. Felly, mae'r matrics yn cynnwys wyth segment.

420. Mae Ffigur 1.1 yn dangos y matrics microsegmentu o ran yr wyth segment hyn, ynghyd ag arwyddion o raddiad y canlyniadau o fwy o allu i lai o allu i deithio'n annibynnol, cael cyflogaeth, byw'n annibynnol a pherthnasoedd hirdymor, a chostau economaidd sy'n amrywio o isel i uchel. Fel y nodwyd yn y matrics, mae costau amrywiol o fewn pob segment yn ôl effaith risgiau'r ychwanegion. Felly, byddai unigolyn yn segment 1, lle byddai'r canlyniadau yn gyffredinol yn fwy ffafriol a'r costau economaidd yn is, mewn gwirionedd â lefel anghymesur o uchel o angen a chost yn dibynnu ar faint o effaith a gaiff y ffactorau risg ychwanegion.

Figure 1.1 The autism spectrum: microsegmentation matrix

Outcomes	Segment			Additive risks	Economic cost
Symptom severity low					
MORE	Asperger profile No ID	1	1A	Without additive risks	LOW
			1B	With additive risks	
	Autism/other ASD profile No ID	2	2A	Without additive risks	
Independent travel, employment, independent living, long-term relationships			2B	With additive risks	Variable costs in each segment according to weight of additive risks
	Autism/other ASD profile Mild ID (scores 50-70)	3	3A	Without additive risks	
			3B	With additive risks	
	Autism/other ASD profile Moderate/severe ID (scores <50)	4	4A	Without additive risks	
LESS			4B	With additive risks	HIGH
Symptom severity high					

421. Fel y soniwyd eisoes, cynhaliodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn Lloegr (2009) waith modelu efelychiad i archwilio manteision economaidd posibl timau amlddisgyblaethol o ran nodi ac asesu oedolion ag ASA. Daeth i'r casgliad y gellid sicrhau enillion economaidd sylweddol hyd yn oed gyda chynnydd cymedrol yn y gyfradd nodi (Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2009).

422. Dyma rai enghreifftiau o fanteision gwneud asesiad diagnostig amserol o blant ac oedolion:

- Gall cynlluniau cyflogaeth â chymorth ddarparu hyfforddiant pwrpasol a chymorth yn y gweithle trwy hyfforddwyr swyddi, ac yn aml byddant yn cynnwys ystod o randdeiliaid ac yn ystyried cryfderau a dewisiadau

unigolion. Mae ymchwil y DU yn dangos y gall cyflogaeth â chymorth fod yn effeithiol ac (yn gryf) yn gosteffeithiol o safbwynt cymdeithasol, ac mae iddi fanteision economaidd pwysig i bobl ag ASA.

- Ymyrraeth gynnar – mae yna lawer o ddulliau o ymyrryd yn gynnar, ond ychydig iawn sydd wedi'u gwerthuso o safbwynt economaidd. Mae ymyriadau cynnar yn enghraifft wych o fuddsoddiad ataliol a gallant fod o fudd i blant ag ASA, boed ganddynt ID ai peidio,

- Canfuwyd bod therapi gwybyddol ymddygiadol i drin problemau pryder a ddioddefir gan oedolion ag ASA yn effeithiol, a'i fod hefyd yn gosteffeithiol pan gaiff ei ddarparu mewn grwpiau. Daeth y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal i'r casgliad fod therapi gwybyddol ymddygiadol mewn grwpiau ar gyfer plant ag ASA heb ID yn gosteffeithiol o safbwynt iechyd a gofal cymdeithasol a hefyd o safbwynt cymdeithasol. Rhaglenni hyfforddi a chymorth i rieni: mae tystiolaeth yn awgrymu y gall ymyriadau grŵp rhad ar gyfer rhieni plant ag ASA (megis Cygnet, ASCEND a Riding the Rapids) fod yn effeithiol, o leiaf yn y cyfnodau byr y cawsant eu gwerthuso, ac yn ôl pob tebyg maent hefyd yn gosteffeithiol.

423. I grynhoi, ceir tystiolaeth y bydd y Bil yn arwain at fanteision sylweddol, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, ond nid yw'n bosibl mesur y rhain, ac felly maent yn anhysbys. Fel y soniwyd eisoes, byddai pob gostyngiad o 1 y cant yng nghostau blynyddol cyfredol uniongyrchol ac anuniongyrchol ASA, yn cynrychioli arbediad o tua £1 miliwn.

9. 8. Canlyniadau anfwriadol

424. Yn sgil yr ymgyngoriadau a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Bil drafft hwn cafwyd safbwyntiau amrywiol am ganlyniadau anfwriadol posibl. Lle cyfeiriwyd at risgiau a chanlyniadau posibl, ni chafodd yr effaith a ganfuwyd ei mesur na'i chyfrifo'n ariannol. O ganlyniad, mae costau (neu fanteision) tebygol neu gyfun y canlyniadau posibl hyn yn anhysbys.

425. Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr (cyrff statudol a phroffesiynol yn bennaf) yn erbyn cyflwyno deddfwriaeth ac yn gwrthwynebu'r egwyddor o ganolbwyntio ar un cyflwr (oherwydd gallai hynny, yn eu barn hwy, fod ar draul pobl â chyflyrau eraill).

426. Roedd y problemau y credai'r ymgyngoreion a allai godi yn cynnwys:

- creu galw ychwanegol am ddiagnosis o ASA fel porth at wasanaethau, hyd yn oed lle nad yw'n briodol;
- goblygiadau'r uchod ar gyfer adnoddau, gan gynnwys dargyfeirio adnoddau i ddiagnosis ac i ffwrdd o ddarparu gwasanaethau;
- cynnydd mewn apeliadau gan bobl nad ydynt wedi cael diagnosis;
- creu diwylliant o 'hawl' gyda heriau cyfreithiol;
- tanseilio'r dull o ddarparu gofal a chymorth ar sail anghenion, yn hytrach na diagnosis, a hyrwyddir mewn deddfwriaeth ddiweddar arall (ee Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru));
- risg o greu anghydraddoldeb a drwgdeimlad gan grwpiau eraill ac y bydd yn sbarduno darnau eraill o ddeddfwriaeth ar gyfer cyflyrau penodol;
- bod y dyletswyddau yn canolbwyntio ar wasanaethau statudol a allai atal arloesi ac ymyleiddio gwasanaethau'r trydydd sector;
- cynnydd mewn costau, o ran gweithredu ac ar gyfer gwasanaethau ychwanegol y bydd eu hangen.

427. Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod risg y gallai'r Bil achosi anfantais i bobl nad yw eu cyflwr yn dod o fewn ei gwmpas, a chyfeiriodd rhai at y prinder cyfeiriadau yn y Bil at bobl o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig, ac at ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg.

428. I'r gwrthwyneb, dywedodd eraill y byddai'r Bil yn cael effaith gadarnhaol o ran tegwch ac y byddai'n helpu i wella'r ymwybyddiaeth o ASA, ac yn helpu i newid agweddau tuag ato.

429. Mae'r Bil terfynol wedi'i ddrafftio gyda'r bwriad o liniaru'r pryderon hyn, cyn belled ag y bo modd. Er enghraifft, mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r strategaeth awtistiaeth roi pwyslais ar sicrhau arloesedd a gwelliant wrth gomisiynu a chyflenwi gwasanaethau anhwylder sbectrwm awtistiaeth. Yn yr un modd, mae'n cynnwys diogelwch yn erbyn lleihau ffocws cyrff perthnasol yn anfwriadol ar fynd i'r afael ag anghenion pobl ag anhwylderau niwroddatblygiadol eraill. Mae'n cynnwys y caiff y diffiniad o 'Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth' gynnwys unrhyw anhwylder niwroddatblygiadol arall a ragnodir mewn rheoliadau gan

Weinidogion Cymru. Mae hyn yn golygu pe bai Gweinidogion Cymru yn y dyfodol yn credu y dylai darpariaethau'r Bil hwn gael eu cymhwyso i bobl ag anhwylderau niwroddatblygiadol eraill, y byddai ganddynt bŵer i wneud hynny (os bydd y Cynulliad yn pasio rheoliadau o'r fath yn y dyfodol). Cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru fyddai cyfiawnhau, wrth gyflwyno rheoliadau o'r fath, a fyddai darpariaethau'r Bil yn briodol mewn perthynas ag anghenion pobl ag anhwylderau niwroddatblygiadol eraill.

10. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

10. 1. Rhagarweiniad

Enw'r ddeddfwriaeth

430. Bil Awtistiaeth (Cymru)

Dyddiad yr Asesiad o'r Effaith

431. Cafodd ei ddechrau ym mis Ionawr 2018 a pharhawyd â'r gwaith hyd nes i'r Bil gael ei gyflwyno ym mis Gorffennaf 2018.

Diben y Ddeddfwriaeth

432. Gwneud darpariaeth ar gyfer diwallu anghenion plant ac oedolion ag ASA yng Nghymru.

Pwy sydd wedi cymryd rhan / â phwy yr ymgynghorwyd fel rhan o'r broses o ddatblygu'r asesiad hwn o'r effaith?

433. Mae'r ymatebion allanol a gafwyd gan ystod o randdeiliaid mewn dau ymgynghoriad (ar gysyniad Bil, ac ar destun Bil drafft) i'w cael yn **http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/bus-legislation/proposed_members_bills/Pages/paul-davies.aspx**

10. 2. Yr effeithiau ar gydraddoldeb a hawliau dynol

434. Fel sylw cyffredinol, mae'r Bil yn anelu at adlewyrchu'n llawn y rhwymedigaethau cydraddoldeb a hawliau dynol priodol. Roedd amrywiaeth o ymatebion gwybodus i'r ymgyngoriadau[101] yn gofyn am roi cyfeiriad penodol at Egwyddorion a Chonfensiynau allweddol y Cenhedloedd Unedig ar wyneb y Bil, ac mae'r rhai sy'n ymwneud â phlant, pobl hŷn ac anabledd wedi'u cynnwys yn adran 8. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol fod y strategaeth awtistiaeth yn rhoi pwyslais ar arloesi a gwelliant wrth gomisiynu a chyflenwi gwasanaethau ASA, ac i wneud darpariaeth ar gyfer comisiynu ymchwil i ASA. Rhagwelir y bydd y gwasanaethau felly'n ymateb i well gwybodaeth ac arfer arloesol, o ran darparu gwasanaethau mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig.

[101] Gweler yr ymatebion gan: y Comisiynydd Plant yn ymgynghoriad 1 (57); Barnardo's 2 (29), a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2 (47)

Oedran

435. Nod y Bil yw mynd i'r afael yn gadarnhaol ag anghenion plant ac oedolion ag ASA yng Nghymru.

436. Mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth yn adrannau 8(4) ac 8(5)(a) a (b) fel a ganlyn:

> (4) Rhaid i unrhyw gorff perthnasol sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn perthynas â phlentyn roi sylw dyledus i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a fabwysiadwyd ac a agorwyd i'w lofnodi, ei gadarnhau a'i dderbyn gan benderfyniad 44/25 y Cynulliad Cyffredinol ar 20 Tachwedd 1989 ("y Confensiwn").
>
> (5) At ddibenion is-adran (4), mae Rhan 1 o'r Confensiwn i'w thrin fel pe bai'n cael effaith—
>
> > (a) fel y'i nodir am y tro yn Rhan 1 o'r Atodlen i Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, ond
> >
> > (b) yn ddarostyngedig i unrhyw ddatganiad neu neilltuad fel y'u nodir am y tro yn Rhan 3 o'r Atodlen honno.

437. Mewn perthynas â phobl hŷn, mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth yn adran 8(1) fel a ganlyn:

> "Rhaid i Weinidogion Cymru ac unrhyw gorff perthnasol sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn perthynas ag oedolyn roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a fabwysiadwyd gan benderfyniad 46/91 y Cynulliad Cyffredinol ar 16 Rhagfyr 1991 ("yr Egwyddorion")."

438. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol (yn adran 2(1)(j)) bod Strategaeth Awtistiaeth yn gwneud darpariaeth i ddiwallu anghenion pobl ag ASA i hwyluso'r cyfnod pontio rhwng plentyndod a dod yn oedolyn, a gwneud darpariaeth i sicrhau gwasanaeth di-dor i ategu'r cyfnod pontio hwnnw.

439. O'r herwydd, nid ystyrir bod y Bil yn cael effaith wahaniaethol sy'n gysylltiedig ag oedran, ond yn hytrach bydd yn gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau awtistiaeth i bob grŵp oedran.

Anabledd

440. Diben y Bil yw mynd i'r afael yn gadarnhaol ag anghenion pobl ag ASA yng Nghymru, a thrwy hynny wneud cyfraniad cadarnhaol sylweddol mewn perthynas â phobl ag anabledd.

441. Yn sgil yr ymgyngoriadau ar ddatblygiad y Bil hwn daeth i'r amlwg bod llawer o bobl ag ASA - a'u teuluoedd a'u gofalwyr - yn dal heb gael y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu potensial. Wrth ddatblygu'r Bil, disgrifiodd yr ymgyngoreion dro ar ôl tro yr anawsterau a wynebwyd ganddynt wrth gael diagnosis.

442. Felly, mae'r Bil yn mynd i'r afael â'r mater hwn drwy ei gwneud yn ofynnol bod y strategaeth awtistiaeth yn diffinio'r model neu'r modelau arfer gorau ar gyfer nodi ASA a chynnal asesiad diagnostig ohono; cynnal asesiad o anghenion gofal a chymorth personau ag ASA; a chynllunio ar gyfer anghenion gofal a chymorth personau ag ASA a diwallu'r anghenion hynny.

443. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaeth yn adran 8(2) fel a ganlyn:

> "Rhaid i Weinidogion Cymru ac unrhyw gorff perthnasol sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn perthynas â phlentyn neu oedolyn anabl roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau."[102]

444. Wrth ddatblygu'r Bil, mynegwyd pryder er bod arfer da a gwasanaethau ymatebol i'w cael mewn rhai ardaloedd, roedd y ddarpariaeth yn parhau'n anghyson ledled Cymru gan fod Cynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar y sefyllfa leol. I fynd i'r afael â hyn, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r strategaeth awtistiaeth wneud darpariaeth:

- fel bod ystod briodol o wasanaethau i gyflenwi'r strategaeth awtistiaeth ar gael yn gyson ledled Cymru; ac
- i sefydlu'r seilwaith a'r arweinyddiaeth angenrheidiol i fonitro a hyrwyddo'r modd y caiff y strategaeth awtistiaeth ei gweithredu.

445. Ymddengys fod cydnabyddiaeth eang bod Cynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwelliannau i wasanaethau awtistiaeth yng

[102] Bil Awtistiaeth (Cymru), adran 8(2)

Nghymru, a'i fod yn parhau i wneud hynny. Serch hynny, mae angen gwelliant parhaus, a thu hwnt i gyfnod y diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol (2016-20), nid oes sicrwydd y bydd gwasanaethau awtistiaeth yn parhau i gael eu blaenoriaethu. Mae'r Bil yn mynd i'r afael â hyn hwn drwy:

- ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth awtistiaeth;
- ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu strategaeth o'r fath yn gyson; a
- galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r strategaeth.

446. Codwyd pryderon yn ystod y broses o ddatblygu'r Bil, y gallai cyrff perthnasol, yn anfwriadol, roi llai o sylw ar fynd i'r afael ag anghenion pobl ag anhwylderau niwroddatblygiadol eraill oherwydd eu bod yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghenion pobl ag ASA. Er enghraifft, mynegodd un ymgynghorai y pryderon a ganlyn:

> "By giving a particular condition special legal status there is a risk that other conditions are somehow demeaned. This could create inequality, imbalance in provision and clamour for specialist services over inclusion."[103]

447. Wrth ystyried y posibilrwydd hwn, nodwyd bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Awtistiaeth, ac na chafwyd tystiolaeth fod hyn wedi arwain at roi llai o sylw ar fynd i'r afael ag anghenion pobl ag anhwylderau niwroddatblygiadol eraill.

448. Nodwyd hefyd fod Senedd y DU eisoes wedi pasio **Deddf Awtistiaeth 2009** (er mai i Loegr yn unig y mae'n gymwys), a bod Cynulliad Gogledd Iwerddon eisoes wedi pasio Deddf Awtistiaeth (Gogledd Iwerddon) 2011. Yn yr un modd, ni chyflwynwyd tystiolaeth sylweddol bod deddfwriaeth o'r fath wedi cael effaith andwyol ar y ddarpariaeth ar gyfer pobl ag anhwylderau niwroddatblygiadol eraill.

[103] Ymgynghoriad ar y Bil Awtistiaeth (Cymru) arfaethedig: Ymateb Grŵp Rhanddeiliaid Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth Torfaen

449. Nodwyd hefyd fod amrywiaeth o ddeddfwriaeth cydraddoldeb wedi cael ei phasio yn y DU yn y gorffennol, sydd yn mynd i'r afael, yn unigol, â hawliau grwpiau gwahanol.

450. At hynny, mae'r Bil yn cynnwys dull o ddiogelu sy'n sicrhau nad yw cyrff perthnasol, yn anfwriadol, yn rhoi llai o sylw ar fynd i'r afael ag anghenion pobl ag anhwylderau niwroddatblygiadol eraill. Mae'n cynnwys y caiff y diffiniad o 'Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth' gynnwys unrhyw anhwylder niwroddatblygiadol arall a ragnodir mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru. Mae hyn yn golygu pe bai Gweinidogion Cymru yn y dyfodol yn credu y dylai darpariaethau'r Bil hwn gael eu cymhwyso i bobl ag anhwylderau niwroddatblygiadol eraill, y byddai ganddynt bŵer i wneud hynny (os bydd y Cynulliad yn pasio rheoliadau o'r fath yn y dyfodol). Cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru fyddai cyfiawnhau, wrth gyflwyno rheoliadau o'r fath, a fyddai darpariaethau'r Bil yn briodol mewn perthynas ag anghenion pobl ag anhwylderau niwroddatblygiadol eraill.

451. O'r herwydd, nid ystyrir bod y Bil yn cael effaith wahaniaethol o ran anabledd, ond y bydd, yn hytrach, yn gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau awtistiaeth.

Ailbennu rhywedd / hunaniaeth o ran rhywedd

452. Nid oes llawer o ymchwil ar gael ar amlder yr achosion o ASA mewn perthynas ag amrywiant rhywedd, ac yn wir a yw hunaniaeth o ran rhywedd yn datblygu'n wahanol mewn pobl ag ASA. Mewn erthygl yn 2016 ar Spectrum, gwefan sy'n ymwneud ag ymchwil ASA, dywedir fel a ganlyn:

> "A handful of studies over the past five years — and a series of case reports going back to 1996 — show a linkage between autism and gender variance."[104]

453. Yn un o'r astudiaethau hyn, archwiliodd ymchwilwyr 231 o blant a phobl ifanc a oedd yn nodi eu bod yn rhywedd-dysfforig a chanfuwyd bod amlder yr achosion o ASA yn 7.8 y cant.[105]

454. Mae darpariaethau'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gael, cynhyrchu, cyhoeddi a chadw data dibynadwy diweddar er mwyn cyflawni eu

[104] Living between Genders, Deborah Rudacille, 13 Ebrill 2016, Spectrum.

[105] Autism spectrum disorders in gender dysphoric children and adolescents, de Vries AL, Noens IL, Cohen-Kettenis PT, van Berckelaer-Onnes IA, Doreleijers TA, Awst 2010.

swyddogaethau o dan y Ddeddf hon. Drwy ddadansoddi data o'r fath gallai astudiaethau'r dyfodol bennu'n fwy pendant amlder yr achosion o ASA ymhlith pobl sy'n drawsryweddol, a sicrhau bod gwasanaethau'n rhoi sylw priodol i anghenion personau o'r fath.

455.O'r herwydd, yn y tymor byr, nid ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael effaith wahaniaethol ar bobl drawsryweddol. Yn yr hirdymor, gall y Bil gael effaith fuddiol drwy alluogi rhagor o ymchwil a dealltwriaeth.

Priodasau a phartneriaethau sifil

456. Yn sgil y ddau ymarfer ymgynghori ac ymchwil, nid ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael effaith wahaniaethol o ran priodasau na phartneriaethau sifil.

Beichiogrwydd, absenoldeb mamolaeth ac absenoldeb rhiant

457. Yn sgil y ddau ymarfer ymgynghori ac ymchwil, nid ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael effaith wahaniaethol ar fenywod beichiog nac ar gyfnodau o absenoldeb mamolaeth ac absenoldeb rhiant.

Hil

458. Mae nifer o astudiaethau wedi archwilio anghysondebau hiliol ac ethnig yn amlder yr achosion o ASA.

459. Er enghraifft, ym mis Tachwedd 2017, yn yr astudiaeth hon: *ASD Among US Children (2002-2010): Socioeconomic, Racial, and Ethnic Disparities*, canfuwyd fod amlder yr achosion o ASA rhwng 2002 a 2010, wedi cynyddu:

- o 6.7 ym mhob 1,000 o blant i 13.2 ymhlith plant gwyn;
- o 5.9 i 11.1 ymhlith plant duon; ac
- o 3.9 i 8 ymhlith plant Sbaenaidd.[106]

460. Mae'r astudiaethau i amlder yr achosion o ASA mewn gwahanol rannau o'r byd hefyd wedi canfod cyfraddau gwahanol. Canfu astudiaeth ym Mrasil fod yno

[106] Autism Spectrum Disorder Among US Children (2002-2010): Socioeconomic, Racial, and Ethnic Disparities, Tachwedd 2017, Durkin MS, Maenner MJ, Baio J, Christensen D, Daniels J, Fitzgerald R, Imm P, Lee LC, Schieve LA, Van Naarden Braun K, Wingate MS, Yeargin-Allsopp M.

27.2 o achosion o awtistiaeth ym mhob 10,000 o bobl,[107] ac roedd astudiaeth yn Siapan wedi canfod 181 o achosion ym mhob 10,000 o bobl.[108]

461. Yn gyffredinol, credir bod ffactorau methodolegol a diwylliannol yn esbonio mwyafrif y gwahaniaethau yn amlder yr achosion o ASA ledled y byd. Fodd bynnag, ni ddiystyrwyd yn llwyr y posibilrwydd fod gwahaniaethau genetig ymhlith poblogaethau hefyd yn dylanwadu ar amlder yr achosion.

462. Wrth ddatblygu'r Bil, ni wnaed rhagdybiaeth am yr hyn sydd wrth wraidd gwahaniaethau hiliol ac ethnig yn amlder yr achosion o ASA. Fodd bynnag, os mai'r rheswm am wahaniaethau o'r fath yw tan-ddiagnosis o ASA ymysg grwpiau hiliol, ethnig a diwylliannol penodol, rhagwelir y byddai gwella'r ddealltwriaeth am ASA yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Fel y soniwyd eisoes, mae'r Bil yn hwyluso dealltwriaeth o'r fath drwy hyfforddiant i weithwyr proffesiynol allweddol, a thrwy ymgyrch ehangach i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion personau ag ASA.

463. At hynny, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gael, cynhyrchu, cyhoeddi a chadw data dibynadwy diweddar er mwyn cyflawni eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon. Gall dadansoddi data o'r fath fod o gymorth i astudiaethau yn y dyfodol ganfod yr hyn sydd wrth wraidd gwahaniaethau hiliol ac ethnig yn amlder yr achosion o ASA.

464. I grynhoi, nid ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael effaith negyddol mewn perthynas â hil, a gallant gael effaith gadarnhaol os yw'r gwahaniaethau yn amlder yr achosion yn deillio o dan-ddiagnosis (yn hytrach na gwahaniaethau mewn amlder achosion).

Crefydd a chred neu ddi-gred

465. Yn sgil y ddau ymarfer ymgynghori ac ymchwil, nid ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael effaith wahaniaethol ar grefydd a chred neu ddi-gred.

---

[107] Adroddiad cryno: prevalence of pervasive developmental disorder in Brazil: a pilot study, Rhagfyr 2011, Paula CS, Ribeiro SH, Fombonne E, Mercadante MT.

[108] Kamamura Y, Takahashi O, Ishii T, Re-evaluating the incidence of developmental disorders: impact of elevated rates of detection through implementation of an integrated autism system of screening in Toyota, Japan. Psychiat Clin Neuros 2008; 62:152-9.

Rhyw

466. Mae amryw astudiaethau eisoes wedi canfod bod mwy o ddynion yn cael diagnosis o ASA na menywod, ond ni wyddys i ba raddau y mae hyn:

- yn dangos gwir wahaniaeth yn amlder yr achosion; neu
- yn cynrychioli tan-ddiagnosis o ferched ifanc a menywod ag ASA.

467. Mae Baron-Cohen ac eraill wedi dadlau bod amlder yr achosion o ASA yn uwch mewn dynion o safbwynt niwroseicolegol.[109]

468. Mae eraill wedi awgrymu bod mwy o allu gan fenywod i ymdopi â gwendidau ASA,[110] eu bod yn fwy tebygol o fod yn dawel ac ufudd yn yr ysgol,[111] neu eu bod yn fwy abl i efelychu'r ymddygiad cymdeithasol priodol.[112] Gall ymddygiad o'r fath ei gwneud hi'n anoddach i fenywod ag ASA gael diagnosis, oherwydd gall y symptomau fod ynghudd, gall fod yn anodd eu nodi neu efallai eu bod yn cael eu camddeall. Yn yr un modd, roedd nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft yn awgrymu y gall ASA amlygu ei hun yn wahanol mewn menywod, a'i bod yn bosibl, felly, na chaiff y nodweddion eu nodi/eu cydnabod.

469. Wrth ddatblygu'r Bil, ni ragdybiwyd a yw'r nifer uwch o ddynion na menywod sy'n cael diagnosis o ASA yn dangos gwir wahaniaeth yn amlder yr achosion; neu a yw'n deillio o dan-ddiagnosis o ferched ifanc a menywod ag ASA.

---

[109] Baron-Cohen, S. (2002). The extreme male brain theory of autism. Trends in Cognitive Sciences, 6(6), 248–254.

Baron-Cohen, S. (2009). Autism: The empathizing-systemizing (E-S) theory. The Year in Cognitive Neuroscience, 1156, 68–80. Baron-Cohen, S., Scott, F. J., Allison, C., Williams, J., & Bolton, P. (2009). Prevalence of autism-spectrum conditions: UK school-based population study. The British Journal of Psychiatry, 194(6), 500-509.

[110] Kreiser N, White S (2014). ASD in females: are we overstating the gender difference in diagnosis?; Dworzynski K, Ronald A, Bolton P, Happé F (2012), How different are girls and boys above and below the diagnostic threshold for autism spectrum disorders?

[111] Lai, M.C., Lombardo, M.V., Pasco, G., Ruigrok, A.N., Wheelwright, S.J., Sadek, S.A., & Baron-Cohen, S. (2011). A behavioral comparison of male and female adults with high functioning autism spectrum conditions. Plos One, 6(6), 1–10.

[112] Gould J, Ashton-Smith J (2011) Missed diagnosis or misdiagnosis? Girls and women on the autism spectrum.

470. Fodd bynnag, mae'r Bil yn datgan bod yn rhaid i'r strategaeth awtistiaeth wneud darpariaeth ar gyfer nodi gweithwyr proffesiynol allweddol a darparu hyfforddiant priodol iddynt mewn perthynas â chefnogi personau ag ASA, a bod y canllawiau yn cwmpasu hyfforddiant staff sy'n darparu gwasanaethau. Rhagwelir y bydd hyfforddiant o'r fath yn hybu gwell dealltwriaeth o'r modd y gall ASA effeithio ar ddynion a menywod.

471. Bydd y Bil hefyd yn helpu i wella dealltwriaeth o ASA oherwydd ei fod yn ei gwneud yn ofynnol, ar ôl cyhoeddi'r strategaeth awtistiaeth, fod yn rhaid i Weinidogion Cymru gychwyn a chynnal ymgyrch i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion personau ag ASA. Unwaith eto, rhagwelir y bydd ymgyrch o'r fath yn hybu gwell dealltwriaeth o'r modd y gall ASA effeithio ar ddynion a menywod fel ei gilydd.

472. Os oes tan-ddiagnosis o ferched ifanc a menywod ag ASA, credir y gall mwy o ddealltwriaeth o ASA fynd i'r afael â'r mater hwn. At hynny, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gael, cynhyrchu, cyhoeddi a chadw data dibynadwy diweddar er mwyn cyflawni eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon. Gall dadansoddi data o'r fath fod o gymorth i astudiaethau yn y dyfodol ganfod a yw'r nifer uwch o ddynion sy'n cael diagnosis:

- yn dangos gwir wahaniaeth yn amlder yr achosion; neu
- yn cynrychioli tan-ddiagnosis.

473. I grynhoi, nid ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael effaith negyddol mewn perthynas â rhyw, a gallent gael effaith gadarnhaol os yw'r nifer is o fenywod sy'n cael diagnosis yn adlewyrchu tan-ddiagnosis (yn hytrach na gwahaniaethau mewn amlder achosion).

Cyfeiriadedd rhywiol

474. Yn sgil y ddau ymarfer ymgynghori ac ymchwil helaeth, nid ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael effaith wahaniaethol ar gyfeiriadedd rhywiol.

Monitro

475. Byddai'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, heb fod yn hwy na 3 blynedd ar ôl cyhoeddi'r strategaeth awtistiaeth, ac ar gyfnodau o ddim hwy na 3 blynedd wedi hynny, gomisiynu adroddiad annibynnol ar ei chynnydd a'i gweithrediad parhaus.

Pobl sydd â chyfrifoldebau gofalu a phobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol.

476. Er nad yw'n cael ei gynnwys o dan nodweddion gwarchodedig, ystyriwyd a allai Bil gael effaith ar bobl â chyfrifoldebau gofalu neu bobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol.

477. Un o'r pryderon a godwyd wrth ddatblygu'r Bil yw y gall fod yn anodd i bobl sy'n gofalu am rywun sydd ag ASA ar hyn o bryd ddod o hyd i wybodaeth am ASA, neu ganfod sut y mae diagnosis yn cael ei wneud ar y pryd. Er enghraifft, dywedodd un person fel a ganlyn:

> "to fight for everything... [but its] so exhausting, when you have to spend all day looking after child who spends all day pinching, head-butting and biting you."[113]

478. I fynd i'r afael â hyn, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Strategaeth Awtistiaeth:

- sefydlu model neu fodelau arfer gorau ar gyfer:
  - nodi anhwylder sbectrwm awtistiaeth a chynnal asesiad diagnostig ohono;
  - cynnal asesiad o anghenion gofal a chymorth personau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth; a
  - chynllunio ar gyfer anghenion gofal a chymorth personau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth a diwallu'r anghenion hynny;
- gwneud darpariaeth ar gyfer datblygu llwybr, a gyrchir trwy bwyntiau atgyfeirio clir, ac sy'n dangos yn glir y gwasanaethau sydd ar gael ac sy'n ofynnol i bobl ag ASA;
- rhoi pwyslais ar sut y gellir cefnogi teuluoedd a gofalwyr personau ag ASA wrth ddiwallu anghenion y person hwnnw; a
- gwneud darpariaeth fel bod dymuniadau'r person ag ASA, a theulu a gofalwyr y person hwnnw, yn cael eu hystyried cyn belled ag y bo modd mewn perthynas â'r gwasanaethau sydd i'w darparu i'r person hwnnw.

[113] Nodyn o gyfarfod anffurfiol rhwng Paul Davies AC ac aelodau o'r cyhoedd yng Nghangen Merthyr Tudful o'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol.

479. O'r herwydd, ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael effaith fanteisiol ar ofalwyr. Nid ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn cael effaith andwyol ar bobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol.

Hawliau dynol

480. Rhaid i Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru fod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Rhyddid Sylfaenol (y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol).[114]

481. Mae'r Bil yn ymwneud â hyrwyddo a diogelu hawliau pobl ag ASA. Nid yw darpariaethau'r Bil yn ymyrryd â hawliau'r Confensiwn. Nid yw adran 6 o'r Bil yn ymyrryd ag Erthygl 8: yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol, i'r graddau y mae'n ymwneud â gwybodaeth bersonol am unigolion, am y rhesymau a ganlyn.

482. Roedd adborth yr ymgynghoriad ar gasglu data (manylir ar hyn ym mharagraffau 221 ac yn dilyn yn y Memorandwm Esboniadol hwn), yn dangos yn glir fod yr arferion casglu data am ASA yn anghyson ac yn annigonol ledled Cymru. Adleisiwyd yr asesiad hwn gan gyrff fel Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru ac arbenigwr ar ddata meddygol, y Dr Dawn Wimpory.[115] Mae data cynhwysfawr a dibynadwy yn hanfodol i allu cynllunio gwasanaethau ASA yn briodol ac mae'r un mor bwysig i wella diagnosis a thriniaeth. Canfuwyd amrywiad sylweddol yn yr amseroedd aros a'r canlyniadau ledled Cymru ac, unwaith eto, mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cadarnhau hyn.

483. Er enghraifft, cafwyd ymateb manwl gan Ganolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru (WARC)[116] i'r ymgynghoriad cyntaf ar y Bil, a oedd yn cyfeirio at y manteision hirdymor o gasglu data priodol:

> "Other countries have shown significant success from recording autism at a population level. For example, the National Patient Register in Sweden has been used to document rates of and reasons for mortality

[114] Deddf Llywodraeth Cymru 2006, is-adran 108A(2)(e).

[115] Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol – Arweinydd ASA (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) a Darlithydd (Prifysgol Bangor)

[116] Mae Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru (WARC) yn ganolfan ymchwil yn Ysgol Seicoleg Prifysgol Caerdydd o fewn y Ganolfan Gwyddorau Datblygiad Dynol. Fe'i sefydlwyd yn 2010 i greu gallu ymchwilio mewn ymateb i Gynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig 2008 ac a gefnogir gan gydweithrediad rhwng y ddwy elusen Awtistiaeth Cymru ac Autistica gyda Phrifysgol Caerdydd a Llywodraeth Cymru.

> in autism (Hirvikoski et al., 2016) as well as stability of rates of diagnosis over time (Lundström et al., 2015). The Danish Psychiatric Central Register was used to demonstrate that there is no evidence linking the measles, mumps and rubella (MMR) vaccine to autism (Madsen et al., 2002)."[117]

484. Mae cyrff y GIG eisoes yn casglu, yn prosesu ac yn rhannu llawer o ddata iechyd. Cronfa ddata bresennol Iechyd Plant Cymunedol 2000 ('CCH2000') yw'r storfa ganolog ar gyfer imiwneiddio plant a data eraill ar iechyd plant yng Nghymru. Mae CCH2000 ar fin trosglwyddo i gronfa ddata System Integredig Plant a Phobl Ifanc ('CYPrIS'), sy'n cael ei threialu ar hyn o bryd ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan.[118] Yn 2012, sefydlwyd modiwl cronfa ddata ASA o fewn cronfa ddata CCH2000. Er bod y feddalwedd eisoes ar waith yn GIG Cymru, trwy CCH2000 / CypRIS, mae'r cynllun treialu wedi'i gyfyngu i'r 6 sir a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a fu'n casglu data am ASA ers 2012. Ar hyn o bryd dim ond diagnosis plant sydd wedi'u cofnodi, ond mae'r data am y plant hynny yn cael eu cadw yn y gronfa ddata ASA hon ar ôl iddynt dyfu'n oedolion. Mae'r categorïau data yn adran 6(6) o'r Bil yn adlewyrchu'r rhai sy'n cael eu casglu ar hyn o bryd gan gronfa ddata ASA. Gellir rhannu rhagor o ddata trwy system draws-asiantaethol i hyrwyddo gwasanaethau integredig, gan gynnwys gwasanaethau ASA, trwy System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.[119]

485. Mae'r Bil yn hybu budd plant ac oedolion ag ASA. Roedd WARC, y corff sy'n arwain ar ddatblygu cronfa ddata ASA, wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil am gronfa ddata ASA ar gyfer oedolion fel a ganlyn:

> "A comparable system could be drawn up for those receiving a diagnosis in adulthood and thereby benefit from the WG-funded pilot of the ASD module database in BCUHB which was established and has served appropriately as a pilot in anticipation of its extension as an all-Wales ASD database, for which the software is already in place. This

[117] Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru, Bil Awtistiaeth (Cymru) - Datblygu'r Bil, Ymateb i'r Ymgynghoriad, rhif 66.

[118] http://www.wales.nhs.uk/nwis/page/52630

[119] http://www.wales.nhs.uk/nwis/page/66175

> ASD module, within the CCH2000/CYPRIS database, enables recording of co-morbidities, including PKU status."[120]

486. Mae casglu data ASA yn briodol ac yn angenrheidiol er mwyn hybu budd pobl ag ASA, a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Nid yn unig y bydd y manteision yn cronni mewn perthynas â chynllunio a chyflenwi gwasanaethau, ond hefyd trwy welliannau i ansawdd y gwasanaethau diagnosis, triniaeth a chymorth. Cefnogir y casgliad hwn gan yr adborth a gafwyd i'r ymgynghoriad gan Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, ymhlith eraill, a ddywedodd fel a ganlyn:

> "A key challenge for public services when trying to plan and commission services that autistic children and adults might need is that there is a lack of data on numbers of autistic people and their needs. We believe that data collection is vital to help the NHS, local authorities and other public services in the planning and provision of support and services. As a result of this Bill, this is an issue that we believe should be urgently addressed."[121]

487. Ymatebodd WARC i'r ymgynghoriad ar y Bil mewn modd tebyg (ymateb rhif 66):

> "We strongly support the need for systematic data collection that captures the number and needs of autistic people in Wales. Not only does this enable local areas to plan services but it gives scope for capturing the effectiveness of initiatives (e.g. take up, outcomes) and changes to individuals over time. Analysis of data can be fed back to improve services and to better understand the profile of the autistic community in Wales. Such a database could be a valuable resource for policymakers, health professionals and researchers and bring these" professional groups together."[122]

488. Er bod ffigurau amlder achosion ASA ymhell o fod yn gyflawn, caiff cyflyrau iechyd eraill eu gwasanaethu'n well gan brosesau da o gasglu data, yn enwedig o ran amlder achosion. Er enghraifft, dywedodd yr archwiliad diabetes

---

[120] Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru, Bil Awtistiaeth (Cymru) drafft - Ymgynghoriad, Ymateb i'r Ymgynghoriad, rhif 28.

[121] Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, Bil Awtistiaeth (Cymru) drafft - Ymgynghoriad, Ymateb i'r Ymgynghoriad rhif. 26

[122] Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru, Bil Awtistiaeth (Cymru) - Datblygu'r Bil, Ymateb i'r Ymgynghoriad, rhif 66.

cenedlaethol, sy'n rhan o'r rhaglen archwilio glinigol ar gyfer y GIG yng Nghymru, fod tua 178,000 o bobl wedi'u cofrestru â diabetes math 2 yng Nghymru ym mlwyddyn yr adroddiad, sef 2016-17. Argymhellodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal yn 2017 fod pob practis Meddyg Teulu yn creu cofrestrau awtistiaeth lleol i fynd i'r afael â'r arferion gwael o gasglu data am ASA.

489. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar gyrff y GIG (adran (6(6)) i gasglu categorïau penodol o ddata ASA. Ystyriwyd a ddylid gosod y ddyletswydd hon ar gyrff eraill fel Awdurdodau Lleol, ond er mwyn cadw i'r lleiafswm unrhyw brosesu data personol ac ymyrryd â phreifatrwydd, barnwyd ei bod yn briodol cyfyngu'r gweithgareddau casglu data hyn i'r GIG, lle mae'r data'n cael eu casglu'n uniongyrchol ac eisoes wedi'u prosesu o fewn y cronfeydd data perthnasol. Unwaith eto mae WARC yn cefnogi'r dull hwn o weithredu:

> "Our view is that data can most effectively be gathered through the NHS. Given the evidence on data collection to date, the Bangor team's experience shows that whilst LEA data can contribute to such database records, there is greater diagnostic accuracy about which cases should be included, where diagnoses are logged by the agency primarily responsible for those diagnoses, in this case, the NHS."[123]

490. Er gwaethaf y ffaith bod llawer iawn o ddata iechyd eisoes yn cael ei gasglu, ei brosesu a'i rannu o fewn y GIG yng Nghymru, mae angen parhau i ystyried materion diogelu data a Hawliau Dynol a all ddeillio o'r darpariaethau ar gyfer casglu a rhannu data yn adran 6 o'r Bil.

491. Mae diogelu data personol yn cael ei reoli gan y gyfundrefn a sefydlwyd o dan Ddeddf Diogelu Data 2018, sy'n gweithredu ar y cyd â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

492. Ar hyn o bryd, mae prosesu data personol o fewn cronfa ddata CCH200, ymhlith eraill, yn seiliedig ar gydsyniad y claf neu ei riant/gwarcheidwad. Lle bo hynny'n briodol, a lle ceir cydsyniad gwybodus gan bersonau ag ASA neu bersonau sydd ar fin cael diagnosis, bydd hyn yn ddigonol i rannu eu data o fewn y GIG yn unol â'r cydsyniad. Os nad oes cydsyniad ar gael neu os nad yw'n ddigonol, yn enwedig mewn perthynas â data sydd eisoes wedi'i gasglu, mae

[123] Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru, Bil Awtistiaeth (Cymru) - Datblygu'r Bil, Ymateb i'r Ymgynghoriad, rhif 66.

Deddf Diogelu Data 2018 a'r GDPR yn caniatáu i ddata iechyd gael ei brosesu mewn nifer o ganolfannau:

- Yn is-baragraff 5(2) o Atodlen 2 i Ddeddf Diogelu Data 2018 dywedir fel a ganlyn: "The listed GDPR provisions do not apply to personal data where disclosure of the data is required by an enactment, a rule of law or an order of a court or tribunal, to the extent that the application of those provisions would prevent the controller from making the disclosure." Mae adran 6 o'r Bil yn gyfystyr â deddfiad o'r fath, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i 'ddatgelu' data o fewn cyrff y GIG trwy gasglu a rhannu data gan staff y GIG at ddibenion cynllunio, darparu gwasanaethau ac ymchwil.

- Mae Erthygl 9(2)(h) o'r GDPR yn darparu fel a ganlyn bod prosesu yn gyfreithlon os yw hynny'n angenrheidiol "for the purposes of preventative or occupational medicine…medical diagnosis, the provision of health or social care or treatment or the management of health or social care systems and services on the basis of Union or Member State law or pursuant to contract with a health professional and subject to the conditions and safeguards referred to in paragraph 3." Mae paragraff 3 o Erthygl 9 yn creu rhwymedigaeth, lle bo data yn cael eu prosesu yn unol â'r sail gyfreithlon hon, bod yn rhaid iddynt fod "by or under the responsibility of a professional subject to the obligation of professional secrecy…or rules established by national competent bodies or by another person also subject to the obligation of secrecy…". Bodlonir y gofyniad hwn oherwydd bydd y data yn cael eu prosesu gan staff o fewn y GIG. Ategir at y sail gyfreithlon yn Erthygl 9(2)(h) gan baragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018, sy'n nodi bod yr amod dibenion iechyd neu ofal cymdeithasol yn cael ei diwallu os yw'r prosesu yn angenrheidiol at ddibenion iechyd neu ofal cymdeithasol. Gall dibenion iechyd neu ofal cymdeithasol olygu, ymhlith pethau eraill, ddiagnosis meddygol, darparu gofal iechyd neu driniaeth, darparu gofal cymdeithasol, neu reoli systemau neu wasanaethau gofal iechyd neu systemau neu wasanaethau gofal cymdeithasol. Gall pob un o'r rhain ddod o dan ddibenion y Bil.

- Mae Erthygl 9(2)(g) yn darparu bod prosesu yn gyfreithlon os yw'n angenrheidiol "for reasons of substantial public interest, on the basis of Union or Member State law which shall be proportionate to the aim pursued, respect the essence of the right to data protection and provide

for suitable and specific measures to safeguard the fundamental rights and the interests of the data subject." Mae Erthygl 9(2)(g) i'w darllen ar y cyd â Rhan 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018, sy'n ymhelaethu ar "budd cyhoeddus sylweddol". Mae paragraff 6 o Atodlen 1, sy'n ymwneud â dibenion statudol a llywodraethol, yn datgan bod yr amod "budd cyhoeddus sylweddol" yn cael ei bodloni os yw'r prosesu, ymhlith pethau eraill, yn angenrheidiol at y diben o arfer swyddogaeth a roddwyd ar berson drwy ddeddfiad. Mae adran 6 o'r Bil yn gosod swyddogaeth o'r fath ar gyrff y GIG i gasglu data penodol.

- Yn ôl paragraff 27 o Atodlen 2 i Ddeddf Diogelu Data 2018: "The listed GDPR provisions do not apply to personal data processed for (a) scientific or historical research purposes, or (b) statistical purposes, to the extent that the application of those provisions would prevent or seriously impair the achievement of the purposes in question." Bydd y mesurau diogelu a'r cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (3) o baragraff 27, ac Erthygl 89 o'r GDPR (mewn perthynas â mesurau diogelu technegol a lliniaru, a gwneud penderfyniadau meddygol ac osgoi niwed / gofid sylweddol) yn cael eu diwallu gan y gyfundrefn a ddisgrifir yn y Bil trwy gyfyngu'r gwaith o gasglu data i gyrff y GIG yn unig a chaniatáu i ddata dienw yn unig gael ei ddarparu i Weinidogion Cymru.

493. Mae mesurau diogelu ar gael yn y GIG ar gyfer prosesu data personol. Mae'r broses o rannu data yn y GIG a chyda cyrff allanol yn cael ei rheoli yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR, ac yn dibynnu ar gael y cydsyniad priodol neu seiliau perthnasol ar gyfer prosesu'r data. Caiff y gwaith proses ei asesu fesul achos er mwyn sicrhau bod y prosesu yn gyfreithlon ac yn gymesur, a bod pwnc y data yn cael gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys, lle bo angen, rhoi gwybod bod y gwaith prosesu hwnnw wedi digwydd heb gydsyniad.

494. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) yn darparu atebion digidol i'r GIG yng Nghymru, gan gynnwys casglu a phrosesu ffeithiau a ffigurau sy'n helpu GIG Cymru i weithredu'n effeithiol. Caiff y data a gesglir eu storio yn warws data GIG Cymru, yn unol â safonau cenedlaethol a pholisïau Llywodraethu Gwybodaeth. Caiff data a gasglwyd ei ddadansoddi a'i drawsnewid yn wybodaeth ddefnyddiol sy'n helpu staff ar draws GIG Cymru a Llywodraeth Cymru yn eu

gwaith.[124] Mae cynigion ar gyfer dadansoddi data yn y GIG yn destun archwiliadau llym cyn eu cymeradwyo, gan gynnwys asesiad moesegol. Os caiff ei gymeradwyo, caiff prosiect ei asesu ar sail ystyriaethau diogelu data a chyfrinachedd yn gyffredinol, ac ar gyfer pob cam o rannu data yn y GIG neu gyda chyrff allanol.

495. O'r herwydd, mae rhannu data'r GIG yn cael ei reoleiddio'n briodol. Er enghraifft, lle mae cynnig ymchwil yn gofyn am rannu data personol rhwng un adran GIG ac un arall, rhaid darparu cyfiawnhad dilys yn esbonio pam na ellir rhannu'r data hwnnw ar ffurf ddienw neu o dan ffugenw. Gyda'i gilydd, mae'r mesurau diogelu hyn yn mynd i'r afael â phryderon o ran cymesuredd a chyfreithlondeb. Disgwylir y bydd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn gwneud y gwaith o wneud data yn ddienw er mwyn eu darparu yn ddienw i Weinidogion Cymru.

496. Er bod Deddf Diogelu Data 2018 a'r GDPR yn caniatáu'r gwaith o brosesu'r data sy'n ofynnol o dan y Bil, ystyriwyd hefyd a yw gofynion casglu data'r Bil yn ymyrryd â hawliau unigolion fel y'u nodir yn Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae Erthygl 8 yn darparu ar gyfer yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth. Mae'n hawl gymwysedig na all awdurdodau'r wladwriaeth ymyrryd â hi oni ellir cyfiawnhau hynny ar sail y fframwaith cyffredinol o egwyddorion y cyfeirir ato yn Erthygl 8(2). Mae'r fframwaith yn mynnu bod yn rhaid i unrhyw ymyrraeth, er mwyn bod yn gyfreithlon:

- gydymffurfio â'r gyfraith;
- cyflawni un o'r nodau cyfreithlon a restrir yn Erthygl 8(2): diogelwch cenedlaethol, diogelwch y cyhoedd, lles economaidd, atal anhrefn neu droseddu, amddiffyn iechyd neu foesegau, neu amddiffyn hawliau a rhyddid pobl eraill; a
- bod yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd.

497. Mae prosesu data personol o fewn cyrff y GIG at ddibenion y Bil yn unol â'r gyfraith sydd i'w sefydlu gan y Bil ac yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn gyfreithiol gyffredinol a sefydlwyd gan Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r GDPR. Un elfen angenrheidiol o'r gofyniad hwn yn Erthygl 8 hwn yw bod y gyfraith yn ddigon hygyrch ac yn rhagweladwy. Mae adran 6 o'r Bil yn pennu categorïau o ddata a

[124] http://www.wales.nhs.uk/nwis/page/52709

ddiffinnir yn glir sydd i'w casglu gan gyrff y GIG ac mae'r sail ar gyfer casglu'r data hyn wedi'i nodi yn Neddf Diogelu Data 2018 a'r GDPR ac yn cael ei hystyried ym mharagraff 491 uchod ac yn dilyn hynny. Mae rhyngweithiad y gyfraith diogelu data â gofynion adran 6 yn hygyrch ac yn rhagweladwy oherwydd natur ddiffiniedig a chyfyngedig y gwaith o gasglu data, a'r ffaith bod cyfundrefn Deddf Diogelu Data 2018 yn un gyffredinol sy'n gymwys i bob math o brosesu data pa un a yw'n gysylltiedig â'r Bil hwn ai peidio. Darperir mesurau diogelu ychwanegol yn adran 6 o'r Bil:

- Mae'r categorïau o ddata wedi'u cyfyngu i'r rhai y dywedwyd wrthym yw'r isafswm sy'n angenrheidiol i sicrhau set ddilys o ddata. Nid yw'r rhan fwyaf ohonynt yn ddata personol. Mae'r rhesymau dros ddewis y categorïau hyn o ddata, a manteision y categorïau hynny, ym mharagraff 503 isod.

- Dim ond ar sail cydsyniad, neu ar sail un o'r rhesymau eraill a bennir uchod ym mharagraff 492 y bydd data yn cael eu prosesu o fewn y GIG.

- Dim ond data dienw y caniateir eu darparu gan y GIG a chyrff perthnasol eraill i Weinidogion Cymru.

- Mae adran 6(6) yn pennu categorïau penodol o ddata i'w casglu, a dim ond drwy reoliad o dan baragraff 6(6)(j) y caniateir ychwanegu categorïau o ddata.

498. Y diben yn y Bil yn gyffredinol, ac yn adran 6 yn benodol, yw sicrhau llesiant plant ac oedolion ag ASA. Nid dim ond y bobl hynny a'u teuluoedd y mae diagnosis a chymorth o fudd iddynt, ond hefyd i'r wladwriaeth o ran darparu triniaeth a chymorth priodol ac effeithiol, gan alluogi'r bobl hynny i gyrraedd eu potensial ac arwain bywyd mor gynhyrchiol ag y gallant. Nodir pa mor bwysig yw'r categorïau data, a'r manteision a ddaw yn sgil casglu data o'r fath, ym mharagraff 503 isod. Mae'r astudiaeth beilot ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sy'n defnyddio'r un set ddata, wedi arwain at nifer o fanteision hyd yma (ee canfod tan-ddiagnosis [a gor-ddiagnosis] o ASA mewn rhai ardaloedd).

499. Mae'r dystiolaeth a geir ym mharagraffau blaenorol yr adran hon yn dangos yr angen am wella'r arferion o gasglu data ASA, sef angen cymdeithasol brys a nodwyd i wella gwasanaethau ASA a llesiant y bobl hynny sydd wedi cael diagnosis. Bydd y gwelliant arfaethedig yn arwain at fanteision gwirioneddol i lesiant pobl ag ASA, am y rhesymau a nodir uchod a hefyd yng nghyd-destun ehangach nodau'r Bil. Bydd manteision hefyd i'r Wladwriaeth trwy wasanaethau

sydd wedi'u targedu'n well, llai o alw ar adnoddau, a bod pobl ag ASA yn cyflawni eu potensial i'r eithaf.[125] Bydd data dilys a dibynadwy hefyd yn helpu neu'n hysbysu datblygiad a gweithrediad parhaus y strategaeth awtistiaeth a'r holl fanteision y mae'n eu ceisio eu cyflenwi.

500. Am y rhesymau a nodir, mae amcan dilys i adran 6 o'r Bil. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw ymyrraeth â hawliau Erthygl 8 gan nodau adran 6 fod yn gymesur. Mae'n angenrheidiol ystyried cymesuredd mewn perthynas â'r canlynol:

1. a yw'r amcan yn ddigon pwysig i gyfiawnhau cyfyngu ar hawl a warchodir,
2. a oes gan y mesur gysylltiad rhesymegol â'r amcan,
3. a ellid bod wedi defnyddio mesur llai ymwthiol heb gyfaddawdu'n annerbyniol ar y gallu i gyflawni'r amcan, ac
4. a yw effaith y cyfyngu ar hawliau yn anghymesur o gymharu â'r budd tebygol a ddaw yn sgil y mesur arfaethedig.

501. Mae nod dilys wrth wraidd y mesurau yn adran 6, sef hybu a diogelu llesiant plant ac oedolion ag ASA, ac maent wedi'u cysylltu yn glir ac yn rhesymegol â'r nod hwnnw am y rhesymau a nodir uchod. Mae adran 6 hefyd yn fesur rhesymol i'w osod er mwyn cyflawni'r nodau dilys hyn. Y rheswm am hyn yw y sefydlwyd yn y Memorandwm Esboniadol hwn fod yr arferion presennol o gasglu data yn annigonol. At hynny, mae'r cynllun treialu presennol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi dangos bod manteision gwirioneddol o ddefnyddio'r set ddata a gynhwysir yn adran 6(6) o'r Bil. Y mesurau yn adran 6(6), ar sail cyngor arbenigol, yw'r lleiafswm sy'n angenrheidiol i gyflawni'r nod ac maent - gan ganiatáu ar gyfer lefel briodol o arbrisiad – yn achosi cyn lleied â phosibl o darfu er mwyn cyflawni'r nod hwnnw. Mae'r gyfundrefn diogelu data gyffredinol o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r GDPR hefyd yn darparu mesurau diogelu gan ei bod yn ei gwneud yn ofynnol bod y rhesymau dros brosesu data personol yn angenrheidiol ac yn gymesur. Gan gydbwyso'r budd i bobl ag ASA a fydd yn deillio o'r gallu i gasglu data gwell yn erbyn unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau Erthygl 8 y bobl hynny, ac chan gymryd i ystyriaeth y mesurau diogelu a fydd yn cael eu gweithredu gan y Bil (fel y nodir ym mharagraff 497 uchod) a'r gyfundrefn diogelu

[125] Mae paragraff 415 (ac yn dilyn hynny) yn nodi amcanestyniadau o'r manteision a'r arbedion a allai gronni i'r Wladwriaeth.

data gyffredinol, mae'r mesurau yn adran 6 yn gymesur â'r nod y maent yn anelu at ei gyflawni.

502. Da o beth fyddai cyfeirio at achos y Sefydliad Cristnogol.[126] Ni chanfu'r achos hwn na ellid ymgymryd â'r gwaith o rannu'r data dan sylw o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 nac Erthygl 8, ond canfu yn hytrach nad oedd y gyfundrefn yn ddigon clir i'r dinesydd a bod y canllawiau a gynhyrchwyd yn annigonol. Mae'r sefyllfa y mae adran 6 o'r Bil yn ymwneud â hi yn wahanol iawn i'r achos hwnnw ac mae llawer mwy o fesurau diogelu wedi'u cynnwys. Nid oes disgresiwn o dan adran 6 sy'n caniatáu i'r sawl sy'n dal gwybodaeth wneud dyfarniad ynghylch pa ddata i'w rhannu, pryd i'w rhannu, neu a ddylai eu rhannu ai peidio. Roedd angen ystyried cymesuredd yn achos y penderfyniadau yr ymdriniwyd â hwy o dan gyfundrefn yr Alban. At hynny, mae adran 6 yn ei gwneud yn glir ar wyneb y Bil pa gategorïau o ddata a gesglir, ond yn yr achos, gellid casglu a rhannu amrywiaeth eang o ddata â grŵp eang o gyrff. Mae Adran 6 yn cyfyngu'n bwrpasol ar rannu data o fewn y GIG trwy ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw ddata a ddarperir i Weinidogion Cymru yn ddienw. Oherwydd bod y categorïau o ddata i'w casglu wedi'u nodi'n glir, ac am na roddir disgresiwn i'r sawl sy'n cadw'r data, mae'r gyfraith sy'n berthnasol i'r rhannu yn weddol bendant, gan osgoi'r "pos rhesymegol" y bu'n rhaid ei wynebu yn yr achos.[127]

503. Rhesymeg a manteision y categorïau unigol o ddata yn is-adran 6(6) yw:

(a) niferoedd y personau sydd wedi cael diagnosis o anhwylder sbectrwm awtistiaeth ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol:

Mae'r data hyn yn allweddol i ganfod anghysondebau yn y patrymau o amlder yr achosion o ASA yng Nghymru. Drwy gasglu'r data hyn yn genedlaethol, gellir eu cymharu â data ymchwil presennol am amlder achosion i ganfod, er enghraifft, faint o dan-ddiagnosis neu or-ddiagnosis o ASA sy'n digwydd (yng Nghymru yn gyffredinol, ac mewn ardaloedd penodol yng Nghymru). Os canfyddir anghysondebau, gellir ymchwilio i'r rhain i fynd i'r afael â'r achos. Golyga tan-ddiagnosis nad yw rhai pobl ag ASA yn cael y gwasanaethau a'r driniaeth sydd eu hangen arnynt, ac y mae ganddynt hawl iddynt, i'w galluogi i gyrraedd eu llawn botensial ac i fyw bywydau bodlon. Yn yr un modd, os caiff pobl

[126] Y Sefydliad Cristnogol ac eraill (Apelyddion) v Yr Arglwydd Adfocat (Ymatebydd) (Yr Alban) 2016] UKSC 51

[127] Gweler paragraff 83 o'r dyfarniad

ddiagnosis anghywir o ASA, yna efallai y byddant yn cael triniaeth a gwasanaethau amhriodol, ac efallai na eir i'r afael â'r gwir gyflwr, gan arwain at ganlyniadau gwael, o bosibl, i'r bobl hynny a'u teuluoedd. Felly mae'r data hyn yn helpu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n gywir.

(b) rhifau GIG y personau hynny:

Mae data cynhwysfawr a chywir yn hanfodol er mwyn gallu gwneud dadansoddiad ystadegol dilys, a gall cyfrif dwbl danseilio hynny. Mae gwasanaethau, triniaeth a chofnodion meddygol unigolyn yn cael eu rheoli yn y GIG drwy gyfrwng rhif GIG. Bydd defnyddio'r rhif GIG yn galluogi'r rhai hynny sy'n dadansoddi data am ASA i gael gwared ar gyfrif dwbl neu gyfyngu arno. Hefyd, mae'n bosibl o fewn systemau gwybodaeth y GIG (ee NWIS) adeiladu setiau data dienw. Mae casglu rhifau'r GIG yn hanfodol er mwyn gallu trin pobl ag ASA yn briodol a datblygu data dibynadwy er mwyn cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau awtistiaeth. Mae rhif GIG yn cael ei roi i bob claf fel mater o drefn wrth iddynt ddod yn rhan o system y GIG (ar gyfer ASA neu fel arall) ac mae'r un rhif yn parhau gyda hwy wedi hynny. O'r herwydd, mae'r data hyn eisoes yn cael ei gasglu. Ond nid ydynt yn cael eu cysylltu'n awtomatig â data ASA cyfatebol, neu yn wir, ddata meddygol arall, yn dibynnu ar ba gronfa ddata a ddefnyddir. Dyna pam ei bod yn bwysig ei chasglu'n benodol gyda'r data eraill am ASA. Yn ogystal ag osgoi cyfrif dwbl wrth gynhyrchu data ASA, mae'r rhif GIG hefyd yn hanfodol er mwyn gallu edrych ar achosion unigol i ganfod tueddiadau penodol, gan gynnwys diagnosis anghywir. Er enghraifft, os nad yw'n bosibl canfod pa blant sydd wedi cael diagnosis ac ym mha fodd, nid yw'n bosibl dangos bod dull diagnostig penodol a gaiff ei ddefnyddio mewn ardal benodol yn cynhyrchu niferoedd anghymesur o uchel neu isel o ddiagnosis, neu, ar lefel ficro, a yw'r diagnosis yn gywir mewn achos penodol. Efallai bod y data'n dangos bod ardal benodol yn rhoi diagnosis i nifer fawr o bobl â symptomau difrifol o ASA, ond yn methu â chanfod eraill sydd ag IQ cymharol uchel a sgiliau ymdopi eraill, sy'n gofyn am dechnegau diagnostig mwy cynnil. Yn yr un modd, mae pryder nad yw pobl ag ASA sydd hefyd ag anawsterau dysgu difrifol yn cael diagnosis cywir mewn perthynas ag ASA, gan arwain at fethu â chael mynediad at wasanaethau priodol a allai alluogi'r bobl hynny i gyrraedd eu potensial. Byddai cael mynediad at y rhif GIG yn gyfle i

wneud dadansoddiad priodol o'r data i fynd i'r afael ag anghysondebau o'r fath.

(c) yr oedran y cafodd y personau hynny ddiagnosis mewn blynyddoedd a misoedd:

Mae tystiolaeth ymchwil yn cadarnhau bod gwneud diagnosis o ASA yn fuan yn rhoi'r cyfle gorau posibl i gynorthwyo'r personau a gafodd ddiagnosis i gyrraedd eu llawn botensial.[128] Gall ychydig fisoedd o wahaniaeth yn yr oedran gael effaith ar y canlyniadau mewn plant ifanc iawn. Drwy ddadansoddi data am oedran diagnosis, gellir canfod anghysondebau rhanbarthol. Er enghraifft, fel canlyniad anfwriadol o drefnu gwasanaethau, gellid nodi, drwy gymharu â data am amlder yr achosion o ASA yn rhyngwladol ac yng Nghymru, fod rhanbarth yn gwneud diagnosis o nifer anghymesur o blant hŷn (ee gweithredu ar lefel uwch) o gymharu â phlant iau plant sydd, o bosibl, â symptomau mwy difrifol. Drwy nodi anghysondeb o'r fath, gellid ymyrryd i fynd i'r afael â'r mater, gan wella'r oedran y caiff person ddiagnosis o ASA, a'r gallu i nodi pobl sydd â'r sbectrwm llawn o ASA. Gall fod manteision ehangach hefyd i'r Wladwriaeth yn sgil diagnosis buan.[129]

(d) rhyw y personau hynny:

Bydd y data hyn yn cynorthwyo i wneud dadansoddiad o nifer y dynion sy'n cael diagnosis o ASA yng Nghymru, o gymharu â nifer y menywod yn yr un sefyllfa. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod rhaniad cydnabyddedig o ran rhywedd, gyda 3.3 o ddynion i bob menyw. Un pryder penodol yw'r posibilrwydd y gwneir tan-ddiagnosis o fenywod, a bod arwyddion bod hyn yn amrywio'n sylweddol, ac mewn meysydd eraill o ymarfer diagnostig, ar draws gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Drwy ddadansoddi'r data bydd modd canfod a yw gwahanol ardaloedd yn gwneud gor-ddiagnosis neu dan-ddiagnosis o bob rhywedd, yn seiliedig ar y ffigurau presennol mewn gwaith ymchwil am amlder yr achosion o ASA.

---

[128] Er enghraifft, paragraff 5.1 *Gwerthuso Canlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig: Adroddiad Terfynol*, Llywodraeth Cymru Rhif:09/2016 - https://gov.wales/statistics-and-research/outcome-evaluation-autism-spectrum-disorder-strategic-action-plan/?lang=cy

[129] Gweler, er enghraifft baragraff 415 ac yn dilyn hynny.

(e) y dulliau diagnostig a ddefnyddir i gynnal asesiadau diagnostig, os defnyddir dulliau felly, ac unrhyw sgoriau a gynhyrchir drwy ddefnyddio'r dulliau hynny:

> Mae sawl dull cydnabyddedig ar gyfer gwneud diagnosis o ASA, ond mae rhai yn fwy dilys yn glinigol ac yn seiliedig ar ymchwil nag eraill, ac nid yw pob clinigydd yn defnyddiodull diagnostig. Trwy ddadansoddi data am y dull diagnostig a ddefnyddir, byddai'n bosibl nodi, er enghraifft, a yw un dull yn gysylltiedig â nifer anghymesur o uchel neu isel o ddiagnosis. Byddai data o'r fath yn gymorth i fireinio cywirdeb clinigol trwy ddefnyddio dull diagnostig mwy priodol, gan wella ansawdd yr ymarfer diagnostig ledled Cymru. Byddai sgoriau o'r dulliau hyn yn rhoi syniad o faint o bobl ag ASA sy'n cael diagnosis; mae ASA yn gontinwwm sy'n amrywio o nam cymdeithasol difrifol i nam cymdeithasol llai. (Mae ASA hefyd yn rhychwantu continwwm deallusol y mae'n rhaid ei ystyried hefyd wrth wneud diagnosis cywir - gweler (g) isod.)

(f) yr amser a gymerir rhwng yr atgyfeirio ar gyfer asesiad diagnostig a chyflwyno'r diagnosis o anhwylder sbectrwm awtistiaeth:

> Mater allweddol i bobl ag ASA a'u teuluoedd yw amseroedd aros rhy hir i gael diagnosis o ASA. Bydd casglu'r data hyn yn darparu darlun cywir o'r amseroedd aros ledled Cymru a hefyd yn cynorthwyo i nodi a lwyddir i gyrraedd y targedau diagnostig cenedlaethol. Bydd hefyd yn dangos amrywiadau rhanbarthol, a fydd yn gymorth i dargedu adnoddau'n well. Mae diagnosis buan yn allweddol i gael y canlyniadau gorau posibl ar gyfer pobl ag ASA, a bydd y data hyn yn cynorthwyo yn hyn o beth.

(g) amcangyfrif neu ddiagnosis y diagnostegydd o ran a oes gan y personau sydd wedi cael diagnosis o anhwylder sbectrwm awtistiaeth anabledd dysgu ychwanegol neu oedi datblygiadol:

> Mae ystod galluoedd pobl ag ASA yn amrywio'n ddramatig o weithredu lefel uchel (gyda deallusrwydd sy'n amrywio o normal i uchel) i weithredu lefel isel (gyda deallusrwydd cyfyngedig a llai o allu i weithredu). Byddai'r data hyn yn cynorthwyo i asesu ansawdd diagnosis cyffredinol ar sail data ymchwil sy'n bodoli eisoes i nodi a yw'r diagnosis cywir yn cael ei wneud, ac a yw'r gwahanol ardaloedd yng Nghymru yn nodi'n gywir - yn ychwanegol at y diagnosis o ASA - anableddau dysgu

ychwanegol neu oedi datblygiadol. Bydd dadansoddiad hefyd yn nodi a yw'r bobl hynny sydd â chyflyrau ychwanegol yn cael y driniaeth a'r gwasanaethau cywir, ar gyfer eu ASA yn ogystal â'r cyflyrau ychwanegol.

(h) pa un a yw'r personau hynny ar adeg y diagnosis yn eiriol ai peidio, ac i'r rheini sy'n eiriol, pa un a oes ganddynt oedi o ran iaith ai peidio:

Bydd y data hyn yn nodi a yw plant, yn benodol, yn y categori hwn yn cael tan-ddiagnosis o gymharu â'r data ymchwil presennol. Bydd hefyd yn gymorth i gynllunio gwasanaethau'n well ar gyfer plant ac oedolion o'r fath.

(i) pa grwpiau proffesiynol sy'n rhan o'r asesiad diagnostig (er enghraifft paediatregydd, seiciatrydd, seicolegydd clinigol, ac ati).

Mae canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, er enghraifft, yn dweud y dylid cymryd agwedd amlddisgyblaethol i ddiagnosis o ASA. Bydd y data hyn yn helpu i nodi problemau posibl gyda chyfansoddiad timau amlddisgyblaethol o'r fath lle mae'r lefelau diagnostig yn rhy isel neu'n rhy uchel o gymharu â lefelau'r amlder achosion safonol a gyhoeddwyd. Bydd hefyd yn helpu i ddyrannu adnoddau priodol i fireinio cyfansoddiad grwpiau o'r fath yn well dros amser.[130]

Crynodeb – Asesiad Hawliau Dynol ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

504. Bwriad y polisi sy'n sail i'r Bil yw cael effaith gadarnhaol ar bobl ag ASA. Ei nod yw galluogi'r bobl hynny i wireddu eu llawn botensial yn well a'u rhoi ar sail fwy cyfartal â'u cyd-ddinasyddion yng Nghymru.

505. Ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ac na fydd unrhyw effaith andwyol ar hawliau dynol am y rhesymau a roddwyd. Yn hytrach, bydd y Bil yn gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau awtistiaeth i bawb sydd ag ASA yng Nghymru.

[130] Gweler, er enghraifft baragraff 415 ac yn dilyn hynny.

10. 3. A yw'r ddeddfwriaeth hon yn gyfle i hybu cyfle cyfartal a meithrin cydberthnasau da rhwng grwpiau gwahanol o bobl?

506. Ydy. Mae'r Bil, yn adran 8, yn cymhwyso'n benodol Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Hawliau Person ag Anableddau, a'r Egwyddorion ar gyfer Pobl Hŷn.

507. Drwy fynd i'r afael ag anghenion plant ac oedolion ag ASA yng Nghymru yn gadarnhaol, mae'r Bil yn hybu potensial cyfle cyfartal rhwng pobl ag ASA a heb ASA. Er enghraifft, mae adran 2(1)(g) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i'r strategaeth awtistiaeth amlinellu sut y dylai cyrff perthnasol ddiwallu anghenion pobl ag ASA mewn cysylltiad â'r canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- mynediad at wasanaethau gofal iechyd;
- mynediad at addysg;
- mynediad at gyflogaeth;
- mynediad at dai;
- mynediad at wasanaethau Cymraeg;
- mynediad at wasanaethau mewn ieithoedd eraill;
- mynediad at wasanaethau cyhoeddus eraill;
- cynhwysiant cymdeithasol; a
- mynediad at wasanaethau eirioli.

10. 4. Casgliad

508. Yn dilyn yr asesiad effaith, roedd y bwriad yn parhau i gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon yn ei ffurf bresennol.

11. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

11. 1. Rhagarweiniad

509. Mae'r asesiad hwn o'r effaith ar hawliau plant yn ystyried effaith y Bil Awtistiaeth (Cymru) ar blant yng Nghymru a'u hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

510. Wrth lunio'r Bil, rhoddwyd ystyriaeth i'r effaith bosibl ar blant a grwpiau penodol o blant. Roedd hyn yn sail i'r dadansoddiad o'r modd y mae'r Bil yn effeithio ar Erthyglau'r Confensiwn.

511. Mae dau ymgynghoriad wedi'u cynnal ar y ddeddfwriaeth arfaethedig. Ni chodwyd unrhyw bryderon penodol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, er y codwyd rhai pryderon ehangach a allai gael effaith bosibl ar hawliau plant. Trafodir y rhain yn yr adran '*Canlyniadau anfwriadol a risgiau*'.

11. 2. Pwrpas y Bil a'i effaith ar blant

512. Nod y Bil yw mynd i'r afael yn gadarnhaol ag anghenion plant ac oedolion ag ASA yng Nghymru.

513. Trafodir yr angen am y Bil yn fanwl mewn man arall yn y Memorandwm Esboniadol, ac ni chaiff pob un o'r dadleuon a gyflwynwyd eu hailadrodd o fewn yr asesiad hwn o'r effaith ar hawliau plant.

514. Fodd bynnag, un o'r prif grwpiau o bobl y mae'r Bil yn ceisio dod â budd iddynt yw plant a phobl ifanc eu hunain. Mae baratoi'r Bil wedi'i seilio ar yr angen i fynd i'r afael â'r risg nad oes gan blant a phobl ifanc ag ASA lwybr clir i gael diagnosis. Mae cael diagnosis o ASA yn rhoi i lawer o unigolion a'u teuluoedd rywfaint o sicrwydd a mwy o wybodaeth am yr anawsterau a brofir ganddynt. Dyma'r allwedd i gael mynediad at wasanaethau priodol hefyd.

11. 3. Dadansoddi effaith y Bil ar blant a'u hawliau o dan y CCUHP

515. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth yn adrannau 8(4) ac 8(5)(a) a (b) fel a ganlyn:

> (4) Rhaid i unrhyw gorff perthnasol sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn perthynas â phlentyn roi sylw dyledus i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a fabwysiadwyd ac a agorwyd i'w lofnodi, ei gadarnhau a'i dderbyn gan

benderfyniad 44/25 y Cynulliad Cyffredinol ar 20 Tachwedd 1989 ("y Confensiwn").

(5) At ddibenion is-adran (4), mae Rhan 1 o'r Confensiwn i'w thrin fel pe bai'n cael effaith—

(a) fel y'i nodir am y tro yn Rhan 1 o'r Atodlen i Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, ond

(b) yn ddarostyngedig i unrhyw ddatganiad neu neilltuad fel y'u nodir am y tro yn Rhan 3 o'r Atodlen honno.

516. Mae'r Bil hefyd yn gymwys i nifer o erthyglau penodol yn y CCUHP.

517. Mae **Erthyglau 1-5** yn cynnwys egwyddorion cyffredinol y Confensiwn o ran pwy sy'n cael ei warchod, cadarnhad y dylai pob sefydliad perthnasol weithio tuag at les gorau plant a rhyddid rhieni.

518. Mae **Erthygl 3(2)** yn arbennig o berthnasol: "States Parties undertake to ensure the child such protection and care as is necessary for his or her wellbeing, taking into account the rights and duties of his or her parents, legal guardians, or other individuals legally responsible for him or her, and, to this end, shall take all appropriate legislative and administrative measures." Mae hyn yn adlewyrchu un o nodau dilys y Bil mewn perthynas ag unrhyw effaith ar yr hawl i breifatrwydd yn Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Mae Erthyglau 1-5 yn cael eu parchu gan y Bil.

519. Mae **Erthygl 6** yn datgan bod yn rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant "yn datblygu i'w llawn botensial". Mae'r Bil yn darparu bod yn rhaid i'r Strategaeth Awtistiaeth ddiffinio'r model neu'r modelau arfer gorau ar gyfer nodi ASA a chynnal asesiad diagnostig ohono ac unrhyw anghenion gofal a chymorth cysylltiedig. Mae'r Bil hefyd yn darparu bod yn rhaid i ddiagnosis ddigwydd o fewn yr amserlenni a nodir yn y canllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal.

520. Bwriad hyn yw mynd i'r afael â phryderon a godwyd yn yr ymgynghoriad ar y Bil y gall diagnosis weithiau gymryd llawer yn rhy hir (gydag amrywiant daearyddol o ran amseroedd aros), sy'n golygu nad yw plant a phobl ifanc yn cael y gofal a'r cymorth angenrheidiol, gan amharu ar eu cyfle i gyrraedd eu llawn botensial.

Mae Erthygl 6 yn cael effaith yn y Bil.

521. Mae **Erthygl 12** yn datgan bod gan bob plentyn yr hawl i fynegi ei farn, a bod ei farn i gael ei ystyried o ddifrif.

522. Er mwyn llywio datblygiad y Bil, cynhyrchwyd y ddau ymgynghoriad (ar gysyniad cyffredinol y Bil, a thestun y Bil drafft) mewn fersiynau Hawdd eu Darllen er mwyn annog ystod eang o bobl (gan gynnwys plant a phobl ifanc) i fynegi barn am y Bil arfaethedig.

523. Mae'r Bil ei hun yn darparu bod yn rhaid i'r Strategaeth Awtistiaeth wneud darpariaeth fel bod dymuniadau'r person ag ASA yn cael eu hystyried cyn belled ag y bo modd mewn perthynas â'r gwasanaethau sydd i'w darparu i'r person hwnnw.

Mae Erthygl 12 yn cael effaith yn y Bil.

524. Mae **Erthygl 16** yn datgan bod gan bob plentyn yr hawl i breifatrwydd.

525. Mae'r Bil yn darparu y byddai Llywodraeth Cymru yn casglu data i gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf, gan gynnwys:

- datblygu, cyflenwi ac adolygu Strategaeth Awtistiaeth, a
- diffiniad model arfer gorau (drwy'r Strategaeth Awtistiaeth) er mwyn gallu cynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion gofal a chymorth personau ag ASA.

526. Mae unrhyw fath ar gasglu data yn creu potensial i dorri preifatrwydd. Fodd bynnag, mae nifer o ddulliau diogelu wedi'u cynnwys yn y Bil i amddiffyn yn erbyn unrhyw ymyrraeth anghyfiawn â'r hawl hon.

527. Mae pŵer Llywodraeth Cymru i ofyn am ddata gan gyrff perthnasol yn gyfyngedig i ofyn am ddata dienw. Ni fydd 'dienw' yn y cyd-destun hwn yn golygu enw person yn unig, ond hefyd nodweddion gwahaniaethol eraill y gellid eu defnyddio i adnabod person. Bydd unrhyw ddata a gesglir ac a brosesir gan gyrff y GIG o dan adran 6 o'r Bil yn ddarostyngedig i gyfyngiadau clir, ac ystyrir y materion preifatrwydd perthnasol yn fanwl ym mharagraff 480 (ac yn dilyn) uchod.

528. Mae'r Bil hefyd yn darparu y bydd Llywodraeth Cymru yn nodi mewn canllawiau pa ddata y dylid eu casglu a sut y dylid eu cyhoeddi. Bwriad hyn yw

sicrhau dull cyson o weithredu a darparu mesurau diogelu clir er mwyn osgoi amharu ar gyfrinachedd personol unigolion.

Mae Erthygl 16 yn cael ei pharchu o dan y Bil.

529. Mae **Erthygl 23** yn darparu bod gan blentyn ag anabledd yr hawl i fyw bywyd llawn a gweddus gydag urddas a, chyn belled ag y bo modd, annibyniaeth, ac i chwarae rhan weithgar yn y gymuned.

530. Diben y Bil yw mynd i'r afael yn gadarnhaol ag anghenion pobl o bob oed ag ASA yng Nghymru. Fel y cyfryw, bydd yn gwneud cyfraniad sylweddol cadarnhaol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag anabledd penodol.

531. Mae ystyriaeth fanwl o effaith y Bil ar bobl ag anableddau (gan gynnwys plant a phobl ifanc) ym mharagraff 440 ac yn dilyn yr Asesiad o Effaith y Bil ar Gydraddoldeb.

532. I grynhoi, nid ystyrir bod y Bil yn cael effaith andwyol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag anableddau yn gyffredinol, a bydd yn cael effaith fuddiol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag anabledd penodol (hynny yw ASA).

Mae Erthygl 23 yn cael ei pharchu o dan y Bil.

533. Mae **Erthygl 24** yn datgan bod gan bob plentyn yr hawl i'r iechyd gorau posibl.

534. Bydd y Bil yn sefydlu'r angen am lwybr clir at ddiagnosis, fel y gall unrhyw berson, ni waeth ymhle y mae'n byw na pha oed ydyw, gael gafael ar asesiad diagnostig mewn modd amserol.

535. Byddai hyn hefyd yn galluogi byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i fod yn atebol yn ôl y gyfraith am ddarparu llwybr clir at ddiagnosis.

536. Mae'r Bil hefyd yn darparu y dylid cwblhau asesiad o anghenion person ag ASA o ran gofal a chymorth cyn gynted ag y bo modd ac o leiaf o fewn 42 diwrnod gwaith i gael diagnosis o ASA neu unrhyw gyfarfod ôl-ddiagnostig (pa un bynnag yw'r hwyraf).

Mae Erthygl 24 yn cael effaith yn y Bil.

537. Mae **Erthygl 27** yn datgan bod gan bob plentyn yr hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu ei anghenion corfforol a chymdeithasol, ac i gynnal ei ddatblygiad. Nid yw'r Bil yn ymwneud yn uniongyrchol â safonau byw; ei effaith gyffredinol yw hwyluso mynediad at wasanaethau i bobl ag ASA a gwella'r gwasanaethau hynny. Yn eu tro, bydd gwasanaethau o'r fath yn hwyluso personau ag ASA i wireddu eu potensial yn well a thrwy hynny sicrhau safon byw sy'n cyfateb yn well i'r rhai heb ASA.

538. Er enghraifft, mae adran 2(1)(g) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i'r Strategaeth Awtistiaeth amlinellu sut y dylai cyrff perthnasol ddiwallu anghenion pobl ag ASA mewn cysylltiad â'r canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- mynediad at wasanaethau gofal iechyd;
- mynediad at addysg;
- mynediad at gyflogaeth;
- mynediad at dai;
- mynediad at wasanaethau Cymraeg;
- mynediad at wasanaethau mewn ieithoedd eraill;
- mynediad at wasanaethau cyhoeddus eraill;
- cynhwysiant cymdeithasol; a
- mynediad at wasanaethau eirioli.

Mae Erthygl 27, felly, yn cael effaith yn y Bil.

539. Mae **Erthygl 28** yn datgan bod gan bob plentyn yr hawl i addysg, tra bod **Erthygl 29** yn pennu nodau addysg o'r fath.

540. Bydd y Bil yn effeithio ar addysg plant a phobl ifanc trwy hyfforddi athrawon a staff eraill mewn lleoliadau addysg i gefnogi plant a phobl ifanc ag ASA. Yn benodol, mae'r Bil yn datgan bod yn rhaid i'r Strategaeth Awtistiaeth wneud darpariaeth ar gyfer nodi gweithwyr proffesiynol allweddol a darparu hyfforddiant priodol iddynt mewn perthynas â chefnogi personau ag ASA, a bod y canllawiau yn cwmpasu hyfforddiant staff sy'n darparu gwasanaethau. Mae hyn yn

adlewyrchu'r pryderon a gododd yn yr ymgynghoriad bod “angen hyfforddiant awtistiaeth ar ragor o athrawon".[131]

541. Mae ASA yn gyflwr cyffredin sy'n effeithio ar un o bob cant o bobl. Mae hyn yn golygu bod pob athro yn debygol o addysgu llawer o ddisgyblion ag ASA yn ystod eu gyrfa. Mae deall y rhesymau pam mae plant yn ymateb mewn ffyrdd penodol i sefyllfaoedd penodol, a gwybod beth i'w wneud i helpu, yn arwain at ganlyniadau gwell i'r plant hynny.

542. Yn ogystal â hyfforddiant athrawon, bydd y Bil yn helpu i wella dealltwriaeth o ASA oherwydd ei fod yn ei gwneud yn ofynnol, ar ôl cyhoeddi'r strategaeth awtistiaeth, fod yn rhaid i Weinidogion Cymru gychwyn a chynnal ymgyrch i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion personau ag ASA.

Mae Erthyglau 28-29 yn cael effaith yn y Bil.

543. Dywed Erthygl 31 fod gan bob plentyn yr hawl i ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol a chelfyddydol. Fodd bynnag, gall lefel dealltwriaeth pobl eraill o ASA amharu ar allu pobl ifanc ag ASA i ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol/celfyddydol.

544. Mae'r Bil yn mynd i'r afael â hyn drwy ddatgan bod yn rhaid i'r Strategaeth Awtistiaeth wneud darpariaeth ar gyfer nodi gweithwyr proffesiynol allweddol a darparu hyfforddiant priodol iddynt mewn perthynas â chefnogi personau ag ASA. Mae'r Bil hefyd yn datgan bod yn rhaid i ganllawiau gwmpasu hyfforddiant staff sy'n darparu gwasanaethau.

545. Hefyd, mae'n darparu bod gofyn i Lywodraeth Cymru gychwyn a chynnal ymgyrch i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion personau ag ASA.

11. 4. Crynodeb o effaith y Bil ar hawliau plant

546. I grynhoi, ystyrir bod y Bil yn ategu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Rhoddwyd sylw dyledus i hawliau plant wrth lunio’r Bil.

547. Cynhyrchwyd fersiynau Hawdd eu Darllen o'r ddau ymgynghoriad (gan gynnwys fersiwn hawdd ei darllen o'r Bil drafft), er mwyn galluogi ystod ehangach

[131] Cyfeirnod 39

o bobl â diddordeb posibl yn y Bil (gan gynnwys plant a phobl ifanc) i fod yn rhan o'r ymgyngoriadau.

548. Ystyriwyd yr effaith ar grwpiau penodol a, lle bo angen, mae'r cynigion wedi'u haddasu er mwyn sicrhau bod y Bil yn cael effaith mor gadarnhaol ag y bo modd heb achosi niwed i unrhyw grwpiau penodol. Ystyriwyd y risgiau posibl ac unrhyw ganlyniadau anfwriadol, ac mae hynny wedi dylanwadu ar gynnwys y Bil.

12. Yr Effaith ar y Gymraeg

549. Codwyd pryderon wrth ddatblygu'r Bil ynghylch yr angen am ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer pobl ag ASA, yn enwedig mewn prosesau asesu.

550. Er enghraifft, cyfeiriodd Comisiynydd y Gymraeg at enghreifftiau o rwystrau i ddiagnosis yn Gymraeg. Hefyd, pwysleisiodd Comisiynydd y Gymraeg y pwysigrwydd o gyfeirio at y Gymraeg ar wyneb y Bil fel y gallai'r canllawiau a'r is-ddeddfwriaeth ymhelaethu ar hynny. Dywedodd fod angen i wasanaethau ASA wneud "cynnig rhagweithiol" o wasanaethau Cymraeg.

551. I fynd i'r afael â'r pryder hwn, mae adran 2(1)(g) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol fod y Strategaeth Awtistiaeth yn amlinellu sut y dylai cyrff perthnasol ddiwallu anghenion personau ag ASA o ran gwasanaethau Cymraeg. Rhagwelir y bydd canllawiau ynghylch gweithredu'r strategaeth a gyhoeddir o dan y Bil yn cael eu defnyddio i ategu'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

552. O'r herwydd, credir na fydd darpariaethau'r Bil yn cael effaith gadarnhaol mewn perthynas â siaradwyr Cymraeg, yn enwedig o ran hwyluso gwasanaethau a diagnosis a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg.

13. Datblygu cynaliadwy

553. Mae datblygu cynaliadwy yn golygu gwella'r ffordd y gallwn gyflawni ein llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'r diffiniad a ganlyn:

> "ystyr "datblygu cynaliadwy" yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant."[132]

554. Un o'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw "Cymru sy'n fwy cyfartal". Disgwylir i'r Bil gael effaith gadarnhaol ar gyfle cyfartal rhwng pobl ag ASA a heb ASA.

[132] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Rhan 2 'gwella llesiant' adran 2 'datblygu cynaliadwy'

555. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys dwy ddarpariaeth sydd wedi'u hanelu at wella comisiynu a chynaliadwyedd gwasanaethau. Mae adran 2(1)(m) yn dweud bod yn rhaid i'r strategaeth awtistiaeth roi "pwyslais ar sicrhau arloesedd a gwelliant wrth gomisiynu a chyflenwi gwasanaethau anhwylder sbectrwm awtistiaeth". Yn yr un modd, mae adran 4(6)(f) yn dweud bod yn rhaid rhoi canllawiau i gyrff perthnasol ynghylch "trefniadau lleol ar gyfer arweinyddiaeth mewn perthynas â darparu gwasanaethau".

556. O'r herwydd, credir na fydd darpariaethau'r Bil yn cael effaith negyddol ar ddatblygu cynaliadwy.

14. Iechyd a llesiant

14. 1. Effeithiau uniongyrchol ar iechyd, iechyd meddwl a llesiant

557. Byddai'r Bil yn arwain at ystod o effeithiau cadarnhaol ar gyfer iechyd, iechyd meddwl a llesiant. Yn arbennig, byddai:

- yn diffinio'r model neu'r modelau arfer gorau ar gyfer nodi ASA a chynnal asesiad diagnostig ohono;
- yn ei gwneud yn ofynnol i'r strategaeth awtistiaeth amlinellu sut y dylai cyrff perthnasol ddiwallu anghenion pobl ag ASA o ran mynediad at wasanaethau gofal iechyd; ac
- yn ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi canllawiau ynghylch cyfansoddiad timau asesu diagnostig amlddisgyblaethol.

14. 2. Effeithiau ar amodau byw cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a allai effeithio'n anuniongyrchol ar iechyd

558. Byddai'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Strategaeth Awtistiaeth amlinellu sut y dylai cyrff perthnasol ddiwallu anghenion pobl ag ASA o ran:

- mynediad at addysg;
- mynediad at gyflogaeth;
- mynediad at dai;
- cynhwysiant cymdeithasol; a

- mynediad at wasanaethau eirioli.

14. 3. Yr effaith ar allu unigolyn i wella ei iechyd a'i lesiant ei hun

559. Ni fyddai'r Bil yn effeithio'n andwyol ar allu unigolion i fod yn egnïol yn gorfforol, i ddewis bwyd iach, a lleihau yfed ac ysmygu.

560. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymgyrch i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion personau ag ASA. Gallai hyn gynorthwyo unigolion yn anuniongyrchol i wella eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, oherwydd weithiau mae diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth pobl eraill yn creu rhwystrau i wella iechyd a llesiant.

561. Er enghraifft, wrth ddatblygu'r Bil, disgrifiodd un rhiant sut yr oedd ei blentyn wedi'i wahardd o weithgareddau chwaraeon, oherwydd bod yr athro addysg gorfforol o'r farn bod y plentyn yn tarfu ar y gweithgareddau'n fwriadol, yn hytrach na deall bod hyn yn ymddygiad sy'n nodweddiadol o berson ag ASA.[133]

562. Yn yr un modd, mae campfeydd a chanolfannau hamdden fel arfer yn defnyddio cerddoriaeth ar lefel uchel, a all fod yn heriol i rai pobl ag ASA. Gallai gwella dealltwriaeth achosi i ganolfannau o'r fath ddewis lleihau'r lefelau sŵn ar adegau penodol o'r dydd, gan ddenu sector newydd o gwsmeriaid, a gwneud y profiad yn well i blant ac oedolion ag ASA. O ganlyniad, gallai hyn wella iechyd a llesiant personau o'r fath.

563. Yn yr un modd, pe byddai gan staff sy'n ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus well dealltwriaeth o ASA, gallai hyn ei gwneud hi'n haws i bobl ag ASA ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Yn ei dro, byddai hyn yn hwyluso pobl i symud yn hwylus o gwmpas y gymuned, a thrwy hynny helpu i leihau unigedd cymdeithasol a gwella iechyd a llesiant.

14. 4. Y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol neu fynediad atynt

564. Fel y soniwyd eisoes, wrth ymateb i ymgyngoriadau ar ddatblygiad y Bil hwn, disgrifiodd rhai o'r ymgyngoreion anawsterau o ran cael diagnosis (megis

[133] Nodyn o gyfarfod anffurfiol rhwng Paul Davies AC ac aelodau o'r cyhoedd yng Nghangen Merthyr Tudful o'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol.

amseroedd aros hir) tra bod eraill yn dweud iddynt gael profiadau cadarnhaol. At ei gilydd, darlun o anghysondeb ledled Cymru sydd i'w weld yn yr ymatebion.

565. Mae'r Bil yn adeiladu ar ddyheadau Cynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, a oedd yn sefydlu seilwaith ar gyfer awtistiaeth ym mhob ardal awdurdod lleol, gyda chydlynwyr a strategaethau lleol, a chydlynydd cenedlaethol ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, mae natur wirfoddol y seilwaith awtistiaeth leol yn golygu bod y strategaeth yn fwy effeithiol mewn rhai ardaloedd nag eraill.

566. Nod y Bil yw sicrhau bod y ddarpariaeth yn fwy cyson ledled Cymru. O'r herwydd, gallai, o bosibl, gynyddu'r galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, neu fynediad atynt, mewn rhai rhannau o Gymru, wrth sicrhau cysondeb o'r fath. Yn benodol, byddai'n ofynnol i'r strategaeth wneud darpariaeth ar gyfer datblygu llwybr, a gyrchir trwy bwyntiau atgyfeirio clir, ac sy'n dangos yn glir y gwasanaethau sydd ar gael i bobl ag ASA. Byddai'r strategaeth hefyd yn diffinio model (neu fodelau) arfer gorau er mwyn gallu cynllunioar gyfer anghenion gofal a chymorth personau ag ASA.

14. 5. Yr effaith ar iechyd byd-eang

567. Ni ddisgwylir i ddarpariaethau'r Bil gael effaith niweidiol ar iechyd byd-eang.

15. Yr effaith ar gymunedau gwledig

568. Ni ddisgwylir i ddarpariaethau'r Bil gael effaith niweidiol ar gymunedau gwledig.

16. Yr effaith ar fusnesau bach a'r trydydd sector

569. Rhagwelir, er y bydd y Bil yn effeithio ar fusnesau preifat a sefydliadau yn y trydydd sector, y bydd effeithiau o'r fath yn gadarnhaol yn hytrach nag yn negyddol.

570. Er enghraiffit, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol bod y Strategaeth Awtistiaeth yn gwneud darpariaeth fel bod ystod briodol o wasanaethau i gyflenwi'r strategaeth awtistiaeth ar gael yn gyson ledled Cymru.

571. Yn ymarferol, mae hyn yn debygol o gynyddu cyfleoedd masnachol i fusnesau bach a sefydliadau'r trydydd sector. Bydd y rhain yn cynnwys cysylltiadau contractiol rhwng Awdurdodau Lleol a Chyrff y GIG, a'r rhai y maent yn contractio â hwy i ddarparu gwasanaethau perthnasol.[134]

572. Mae'r Bil yn cydnabod hyn drwy ei gwneud yn ofynnol bod y Strategaeth Awtistiaeth yn rhoi pwyslais ar sicrhau arloesedd a gwelliant wrth gomisiynu a chyflenwi gwasanaethau ASA. O'r herwydd, efallai y bydd y Bil yn cael effaith anuniongyrchol ar y sector preifat a chyrff y trydydd sector trwy'r telerau ac amodau a bennir gan Awdurdodau Lleol a chyrff y GIG, wrth gomisiynu gwasanaethau ASA. Fodd bynnag, ni chredir y bydd effeithiau o'r fath yn negyddol.

573. Hefyd, byddai'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â chyrff perthnasol ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru (gan gynnwys personau ag ASA a sefydliadau sy'n cynrychioli eu buddiannau neu sy'n darparu gwasanaethau iddynt) wrth baratoi a diwygio'r strategaeth awtistiaeth a'r canllawiau. Yn ymarferol, cyrff y trydydd sector fydd mwyafrif y sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau pobl ag ASA.

574. Felly, er y bydd y Bil yn effeithio'n anuniongyrchol ar fusnesau preifat a sefydliadau yn y trydydd sector, credir y bydd effeithiau o'r fath yn gadarnhaol yn hytrach nag yn negyddol.

17. Yr effaith ar breifatrwydd

575. Mae'r Asesiad o Effaith Cydraddoldeb y Bil hwn yn datgan nad yw adran 6 o'r Bil yn ymyrryd ag Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol, i'r graddau y mae'n ymwneud â gwybodaeth bersonol am unigolion), am y rhesymau a nodir ym mharagraff 480 a pharagraffau dilynol.

[134] Yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol ar y cysyniad o Fil Awtistiaeth (Cymru), mynegodd un ymgynghorai bryder y gallai ffocws posibl y dyletswyddau ar wasanaethau statudol atal arloesedd ac ymyleiddio gwasanaethau'r Trydydd Sector. Datblygwyd y Bil i gydnabod gwerth arloesedd a gwasanaethau y gellid eu comisiynu, yn ychwanegol at y rhai a ddarperir yn uniongyrchol gan gyrff perthnasol.

18. Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol na ellir eu mesur yn ariannol.

576. Ni nodwyd unrhyw fanteision nac anfanteision amgylcheddol mewn perthynas â'r Bil.[135] Mae amryw fanteision cymdeithasol na ellir eu mesur yn ariannol; mae'r rhain wedi'u nodi yn Rhan 1, pennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.[136]

[135] Mae dadansoddiad o effaith y Bil ar gynaliadwyedd wedi'i nodi ym Mhennod 12: Datblygu Cynaliadwy.

[136] Gweler hefyd Pennod 8.13: Manteision.

19. Asesiad o'r Effaith ar y System Gyfiawnder: Bil Awtistiaeth (Cymru)

19. 1. Diben y Bil

577. Mae Paul Davies AC yn cyflwyno Bil yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer diwallu anghenion plant ac oedolion ag ASA yng Nghymru a diogelu a hyrwyddo eu hawliau.

578. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi dogfen sy'n cynnwys strategaeth ar gyfer diwallu, trwy gydol eu bywydau, anghenion personau yng Nghymru ag ASA, a hynny trwy wella'r ddarpariaeth o wasanaethau i'r cyfryw bersonau.

579. At hynny, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gael, cynhyrchu, cyhoeddi a chadw data dibynadwy diweddar er mwyn cyflawni eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon,

19. 2. Sut rydych chi'n disgwyl i ddarpariaethau perthnasol y ddeddfwriaeth (newydd) hon gael eu deddfu?

580. Daw'r Ddeddf hon i rym ar ddiwedd y cyfnod o 3 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'n cael y Cydsyniad Brenhinol.

581. Ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol, bydd y rheoliadau a wneir o dan y Bil yn cael eu gwneud drwy gyfrwng y weithdrefn gadarnhaol.

Nodwch erbyn pa ddyddiad y byddwch yn disgwyl a) i'r newidiadau deddfwriaethol ddod i rym, b) y dyddiad y bydd yr effaith gyntaf a ragwelir ar y system gyfiawnder yn digwydd.

582. Disgwylir i'r newidiadau deddfwriaethol ddod i rym yn ystod 2019 neu 2020.

583. Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau sylweddol ar y system gyfiawnder.

Os ydych yn diwygio neu'n cyflwyno trosedd, sancsiwn neu gosb, ar ba rai o'r grwpiau canlynol fydd y cynnig yn effeithio, ac ym mha amgylchiadau y bydd hynny'n digwydd?

584. Nid yw'r Bil yn cynnwys unrhyw addasiadau nac yn cyflwyno tramgwyddau, sancsiynau na chosbau.

A yw eich deddfwriaeth yn effeithio ar Gymru yn unig neu ydych chi'n cydweithio â gweinyddiaethau eraill?

585. Credir mai ar Gymru'n unig y caiff y ddeddfwriaeth effaith uniongyrchol.

Os gallai eich deddfwriaeth effeithio'n uniongyrchol ar y rheini sy'n ymweld â Chymru neu eraill nad ydynt fel arfer yn byw yng Nghymru, neu os yw eich deddfwriaeth yn wahanol iawn i'r ddeddfwriaeth sydd yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon:-

a) pa drefniadau ydych chi wedi'u gwneud i sicrhau eich bod yn gwella ymwybyddiaeth yn barhaus o'r ddeddfwriaeth wahanol mewn cysylltiad â'r mater hwn yng Nghymru?

b) beth fydd goblygiadau gweithredu yn erbyn unigolion nad ydynt fel arfer yn byw yng Nghymru ar yr asiantaethau gorfodi?

586. Oherwydd natur y ddeddfwriaeth a'i dibenion, ni fydd y ddeddfwriaeth yn effeithio'n uniongyrchol ar ymwelwyr â Chymru na phobl eraill nad ydynt fel arfer yn preswylio yng Nghymru. Am y rheswm hwn, nid ystyrir bod angen mynd ati i wella ymwybyddiaeth, heblaw'r hyn sy'n deillio o basio'r ddeddfwriaeth a'r darpariaethau yn y Bil i wella ymwybyddiaeth. Dylid nodi hefyd fod gan Loegr a Gogledd Iwerddon ddeddfwriaeth gyffelyb ar waith eisoes.

Beth yw'r opsiynau sy'n cael eu hystyried a sut y mae hyn yn newid y sefyllfa bresennol?

587. Fel y nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i'r Bil, y ddau opsiwn a ystyriwyd oedd parhau â chynlluniau Llywodraeth Cymru at y dyfodol a chyflwyno Bil.

Os ydych yn creu cosb neu sancsiwn sifil newydd, pa lys neu dribiwnlys ddylai ddelio â hyn yn eich barn chi?

588. Amherthnasol; nid yw'r Bil yn creu sancsiynau na chosbau sifil newydd.

Pa un o'r canlynol ydych chi'n creu / diwygio: Sancsiynau Sifil; Cosbau Penodedig; Gorchmynion Sifil; Sancsiynau Troseddol; Troseddau; Eraill.

589. Dim un o'r uchod.

Os ydych yn creu trosedd, pa un o'r rhain ydyw: trosedd ddiannod yn unig (yr achos yn cael ei glywed gerbron mainc o ynadon lleyg / barnwr yn unig); trosedd neillffordd; trosedd dditiadwy yn unig (yr achos yn cael ei glywed gerbron barnwr a rheithgor)?

590. Amherthnasol; nid oes trosedd yn cael ei chreu.

Pwy fydd yn gyfrifol am orfodi eich cynnig deddfwriaethol a sut y bydd yn mynd ati i fwrw ymlaen â'r rôl hon? A fydd llai o angen am gamau gorfodi?

591. Amherthnasol; ni ddarperir ar gyfer darpariaethau gorfodi penodol yn y Bil ac nid oes eu hangen yn gyffredinol i weithredu ei ddarpariaethau.

Sawl achos ydych chi'n rhagweld bob blwyddyn? Rhowch fanylion unrhyw dystiolaeth am y tybiaethau y mae'r amcangyfrifon yn seiliedig arnynt.

592. Ni ragwelir unrhyw achosion mewn unrhyw flwyddyn.

Pa gyfran o droseddwyr a ddaw gerbron Llys y Goron a pha gyfran fydd yn cael eu rhoi ar brawf yn y Llys Ynadon?

593. Dim.

Nodwch uchafswm y ddirwy a/neu gosbau o garchar perthnasol. Pan fo troseddau yn cynnwys cosbau o ddirwy neu gyfnod yn y carchar, nodwch ac eglurwch yr amgylchiadau a fyddai'n arwain at ddedfryd o garchar wedi'r euogfarn a chyfran y cosbau o garchar a fydd ar y lefel uchaf bosibl.

594. Amherthnasol.

Rhowch fanylion unrhyw brocsi neu droseddau a / neu gosbau presennol y mae'r cosbau arfaethedig yn seiliedig arnynt.

595. Amherthnasol.

Rhowch fanylion y ddeddfwriaeth berthnasol (lle bo hynny'n briodol) a chadarnhewch a gytunwyd ar greu neu ddiwygio troseddau a chosbau yn unol â'r canllawiau sydd ar gael yma https://www.gov.uk/government/publications/making-new-criminal-offences.

596. Nid oes cosbau troseddol yn cael eu creu na'u diwygio.

Beth fydd y goblygiadau tymor byr, tymor canolig a gydol oes i unigolyn a gaiff ei ganfod yn euog o'r drosedd hon, a sut y mae hyn yn gymesur â'r drosedd a grëwyd?

597. Amherthnasol.

A yw'r ddeddfwriaeth hon yn gosod unrhyw ddyletswydd ar y sector cyhoeddus? Os ydyw, darparwch eich asesiad o ba mor debygol ydyw i unigolion neu fusnesau weithredu yn erbyn y sector cyhoeddus am beidio â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon.

598. Ydy. Yn ogystal â rhoi dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, dywed y Bil y dylai cyrff perthnasol (Awdurdodau Lleol, cyrff y GIG a chyrff eraill a ragnodir gan Weinidogion Cymru):

- wrth arfer eu swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio a chyflenwi gwasanaethau i bersonau ag ASA, gydymffurfio â'r strategaeth awtistiaeth a gyhoeddir o dan adran 1 a chanllawiau a ddyroddir o dan adran 4 o'r Bil.
- ddarparu unrhyw ddata dienw i Weinidogion Cymru y gofynnir amdanynt o dan adran 6 o'r Bil.

599. Rhagwelir y bydd cyrff y sector cyhoeddus yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon, ac felly mae'r tebygolrwydd y bydd unigolion neu fusnesau yn cymryd camau yn erbyn y sector cyhoeddus am beidio â chydymffurfio yn isel iawn. Fodd bynnag, pe baent yn credu bod Gweinidogion Cymru neu gorff perthnasol wedi gweithredu neu wedi gwneud penderfyniad a olygai fethiant i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, byddai ganddynt hawl i wneud cais am Adolygiad Barnwrol.

A ydych chi'n disgwyl unrhyw newid i broses y Llysoedd neu'r Tribiwnlysoedd, neu gynnydd / gostyngiad yn nifer y ceisiadau / achosion i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a / neu Dribiwnlysoedd Cymru wrth greu neu ddiwygio'r gyfraith hon? Darparwch amcangyfrif o'r newid i nifer yr achosion fydd yn mynd drwy system y llysoedd yn gyffredinol, eglurwch unrhyw newidiadau i'r broses ac amlinellwch y dystiolaeth a'r ffynonellau sy'n cefnogi'r amcangyfrif hwn.

600. Ni ragwelir unrhyw newid, ar y sail y disgwylir i'r achosion o beidio â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth fod yn isel iawn, ac o'r herwydd, ystyrir bod y tebygolrwydd o Adolygiad Barnwrol yn fach iawn.

Cadarnhewch a fyddai'r llysoedd / tribiwnlysoedd o dan ddyletswydd i roi gwybod i awdurdodau rheoleiddio am unrhyw euogfarnau o dan y drosedd hon.

601. Amherthnasol.

A yw eich cynnig yn creu hawl newydd i apelio neu'n ymestyn awdurdodaeth bresennol yn y System Tribiwnlysoedd Unedig neu'r llwybr tuag at adolygiad barnwrol? Os ydyw, pwy fydd yn mynd i'r afael â'r rhain (hy a fyddant yn cael eu gweinyddu gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi neu gan Dribiwnlysoedd Cymru)?

602. Amherthnasol.

A ydych yn disgwyl sefydlu awdurdodaeth tribiwnlysoedd newydd? Os felly, a yw hyn wedi'i drafod ag Uned Tribiwnlysoedd Cymru / y Weinyddiaeth Gyfiawnder?

603. Amherthnasol.

I ba raddau y byddai'n briodol defnyddio dull amgen o ddatrys anghydfod (gan gynnwys cyfryngu)? Sut y bydd modd mesur llwyddiant y dull amgen hwn?

604. Amherthnasol.

Os ydych yn cynnig creu trosedd newydd, a fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn erlyn diffynyddion? Os na, nodwch pwy fydd yn erlyn.

605. Amherthnasol.

A oes angen systemau gorfodi ar gyfer dyledion sifil, sancsiynau sifil neu gosbau troseddol ar gyfer y cynnig? Os oes, pwy ydych yn disgwyl y bydd yn eu gorfodi?

606. Amherthnasol.

Ydych chi'n rhagweld y bydd rhaid diwygio rheolau gweithdrefnol y Llysoedd a/neu'r Tribiwnlysoedd? Os ydych, beth yw'r dyddiad tebygol ar gyfer y newidiadau hyn?

607. Na.

A fydd angen diwygio'r canllawiau dedfrydu a / neu gosbau ar gyfer y cynigion?

608. Na.

Pa dystiolaeth sydd ar gael y bydd modd i'r unigolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt fforddio cynrychiolaeth a chyngor cyfreithiol er mwyn i'w hachos gael gwrandawiad teg; a ffioedd llys cysylltiedig? Pa gostau cyfreithiol a allai fod yn daladwy gan bob parti mewn achos cyffredin, a pha ddarpariaethau sy'n bodoli i barti sy'n cael ei ganfod yn ddieuog adennill yr holl gostau cyfreithiol neu ran o'r costau hynny? Nid yw apelau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn dod o fewn cwmpas cymorth cyfreithiol sifil ar hyn o bryd a dim ond drwy Gyllid Achos Eithriadol y gellid eu hariannu.

609. Amherthnasol.

Pan fydd eich cynnig ar waith, a yw'n debygol y bydd angen i unigolion geisio cyngor cyfreithiol a gwneud cais am gymorth cyfreithiol? Darparwch dystiolaeth ategol ym mhob achos.

610. Na.

Os bydd unrhyw effaith ar gymorth cyfreithiol, a fyddai costau'r cymorth hwn yn cynyddu neu'n gostwng (ac o faint)?

611. Amherthnasol.

A fydd y cynigion yn newid nifer y troseddwyr sy'n cael eu cadw yn y carchar (gan gynnwys ar remánd) neu ar gyfnod prawf (gan gynnwys dedfrydau cymunedol)? Os felly, rhowch amcangyfrif ynghyd â'r rhesymau dros yr amcangyfrif hwn, amcan o'r amserlen ar gyfer cyrraedd y nifer hon o ddedfrydau, y dystiolaeth sy'n sail i hyn a ffynhonnell eich gwybodaeth.

612. Na.

A yw'r cynnig yn creu, yn dileu neu'n newid trosedd bresennol â dedfryd o garchar neu gyfnod prawf, neu'n newid hynt y troseddwyr drwy'r gwasanaeth carchardai / prawf? Os ydyw, rhowch fanylion, gan gynnwys yr effaith ddisgwyliedig ar y gwasanaethau prawf.

613. Na.

Niferoedd a Chostau neu Arbedion ar gyfer y llysoedd neu'r tribiwnlysoedd neu wasanaethau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt.

614. Amherthnasol – ni ddisgwylir y bydd y cynnig hwn yn effeithio ar lysoedd na thribiwnlysoedd nac ar wasanaethau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, heblaw risg fechan o Adolygiad Barnwrol pe bai Gweinidogion Cymru neu gyrff perthnasol yn methu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at y Bil Awtistiaeth (Cymru) a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 13 Gorffennaf 2018.

Rhan 3: NODIADAU ESBONIADOL

RHAGARWEINIAD

1. Nodiadau Esboniadol ar gyfer Deddf Awtistiaeth (Cymru) yw'r rhain. Rhoddwyd caniatâd i Paul Davies AC gyflwyno Bil ar 14 Mehefin 2017, fe'i cyflwynwyd ar 13 Gorffennaf 2018 a chafodd y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol ar [XXXX]. Paratowyd hwy gan Paul Davies AC i gynorthwyo'r rhai sy'n darllen y Ddeddf.

2. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf, ond nid ydynt yn rhan ohoni. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf.

TROSOLWG O'R DDEDDF

3. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer diwallu anghenion plant ac oedolion ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth yng Nghymru a hyrwyddo eu hawliau, ac at ddibenion cysylltiedig. Mae'r Ddeddf yn gwneud hyn trwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi strategaeth awtistiaeth ar gyfer Cymru, ynghyd â chanllawiau cysylltiedig. Rhaid i gyrff perthnasol, wrth arfer eu swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio a chyflenwi gwasanaethau i bersonau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth, gydymffurfio â'r strategaeth a'r canllawiau. Hefyd, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gasglu a chyhoeddi data perthnasol ar ASA a chynnal ymgyrch gwella ymwybyddiaeth. Mae'n ofynnol iddynt hwy a chyrff perthnasol gydymffurfio â chonfensiynau ac egwyddorion penodol y Cenhedloedd Unedig wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon.

CEFNDIR Y POLISI

4. Mae llawer o waith wedi ei wneud yn y blynyddoedd diwethaf i wella gwasanaethau i bobl sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Roedd Cynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, a gyhoeddwyd yn 2008, yn sicrhau bod seilwaith ar gyfer awtistiaeth ym mhob ardal awdurdod lleol, gyda chydlynwyr a strategaethau lleol, a chydlynydd cenedlaethol ar gyfer Cymru. Roedd yn gwella'r capasiti ar gyfer gwaith ymchwil, gan godi proffil anhwylder sbectrwm awtistiaeth a sicrhau bod amrywiaeth o wybodaeth ac adnoddau o safon uchel ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol.

5. Roedd y Cynllun Gweithredu yn cydnabod yr angen am wasanaethau diagnostig gwell i blant ac oedolion sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth yn awgrymu fod llwyddiant y Cynllun Gweithredu o ran gwella ymwybyddiaeth am ASA wedi arwain at gynnydd yn y galw am ddiagnosis a hefyd at gynnydd yn yr amseroedd aros i gael asesiad. Roedd y Cynllun Gweithredu Strategol yn cydnabod hefyd fod angen gwaith i hyrwyddo'r arfer o gyflogi pobl sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth a darparu cymorth cyflogaeth i unigolion.

6. Mae gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu Strategol, a gwaith grwpiau gorchwyl a gorffen awtistiaeth wedi nodi bylchau sy'n parhau mewn gwasanaethau, yn enwedig o ran diagnosis, y cyfnod pontio rhwng plentyndod a dod yn oedolyn, cymorth cyflogaeth, a mynediad at wybodaeth am wasanaethau. Roedd llawer o bobl sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth, a'u teuluoedd, heb gael y gwasanaethau a'r cymorth yr oedd eu hangen arnynt, a fyddai'n eu galluogi i ymdopi â'r heriau a ddaw yn sgil anhwylder sbectrwm awtistiaeth ac i gyflawni eu potensial. Er bod arfer da a gwasanaethau ymatebol i'w cael mewn rhai ardaloedd, roedd y ddarpariaeth yn parhau'n anghyson ledled Cymru gan fod y Cynllun Gweithredu Strategol yn canolbwyntio ar y sefyllfa leol. Roedd natur wirfoddol y seilwaith awtistiaeth leol yn golygu bod y strategaeth yn fwy effeithiol mewn rhai ardaloedd nag eraill. Roedd angen sicrhau bod pobl sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth yn cael cymorth o safon uchel ble bynnag y maent yn byw. Mae diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer 2016-20 yn nodi rhagor o ddiwygiadau, gan gynnwys gwelliannau i wasanaethau diagnostig ac amseroedd aros, datblygu gwasanaeth awtistiaeth integredig cenedlaethol, a mesurau i wella addysg a chyflogaeth i bobl sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth.

7. Mae'r datblygiadau ym maes cymorth addysg yn cynnwys Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Deddf ADY) a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2018. Byddai'r Ddeddf Awtistiaeth (Cymru) yn cefnogi'r broses o weithredu'r Ddeddf ADY, er enghraifft, drwy sicrhau bod staff allweddol sy'n gweithio gyda phobl sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth, gan gynnwys athrawon, yn cael hyfforddiant priodol. Mae nifer sylweddol o staff sy'n gweithio gyda phobl sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth eisoes wedi cael hyfforddiant drwy fentrau a arweiniwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Ddeddf hon yn hyrwyddo cysondeb hyfforddiant ar draws pob rhanbarth, yn darparu dull clir lle gellir monitro gweithrediad a chynnal a chadw hyfforddiant, ac mae'n sicrhau bod hyfforddiant o'r fath yn cael ei ddarparu'n barhaus.

8. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn hyrwyddo asesiadau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar unigolion, ac mae'n cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi codau (a allai gynnwys cod mewn perthynas ag anghenion pobl ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth), sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Yn ystod y gwaith o baratoi'r Bil hwn, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu cyhoeddi Cod Ymarfer[137] ar gyflenwi gwasanaethau awtistiaeth o dan adrannau 145 ac 169 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac adrannau 1 a 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

9. Fodd bynnag, hyd yn hyn, nid oes cod o'r fath wedi'i gyhoeddi'n ffurfiol. At hynny, mae anghenion pobl ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth yn ymestyn y tu hwnt i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o'r fath. I'r gwrthwyneb, bydd Deddf Awtistiaeth (Cymru) yn sicrhau bod byrddau ac awdurdodau lleol yn deall anghenion penodol plant ac oedolion sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth ac yn darparu ystod holistaidd o wasanaethau i'w diwallu.

10. Swyddogaeth allweddol y Ddeddf, felly, yw sicrhau bod yr holl wasanaethau awtistiaeth ledled Cymru yn cael eu darparu mewn modd cyson a pharhaus. Y tu hwnt i gyfnod y diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer 2016-20, nid oes sicrwydd y bydd gwasanaethau awtistiaeth yn parhau i gael eu blaenoriaethu. Drwy greu gofyniad cyfreithiol i gyhoeddi strategaeth awtistiaeth, mae Deddf Awtistiaeth (Cymru) yn helpu i sicrhau rhywfaint o sefydlogrwydd a chynaliadwyedd mewn gwasanaethau gofal a chymorth i bobl sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth. Bydd hefyd yn sicrhau ffocws parhaus a phwrpasol ar anghenion pobl ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth, ni waeth beth fo'r hinsawdd ariannol neu wleidyddol.

CYMHWYSIAD A RHYCHWANT TIRIOGAETHOL

11. Mae'r darpariaethau yn y Ddeddf yn rhychwantu Cymru a Lloegr (fel un awdurdodaeth gyfreithiol). Mae'r Ddeddf yn gymwys i ddarparu gwasanaethau i bersonau yng Nghymru ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth.

[137] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Paul Davies AC, 29 Mawrth 2018, a Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistiaeth, Cofnod y Trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 19 Mehefin 2018.

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at y Bil Awtistiaeth (Cymru) a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 13 Gorffennaf 2018.

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

Adran 1 – Strategaeth awtistiaeth

12. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth ar gyfer diwallu anghenion personau yng Nghymru ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth. Mae'n cynnwys gofyniad i osod y strategaeth gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i chyhoeddi. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd adolygu'r strategaeth awtistiaeth yn gyson a chaniateir iddynt ei diwygio. Rhaid i strategaeth ddiwygiedig gael ei gosod a'i chyhoeddi hefyd.

13. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gomisiynu adolygiad annibynnol o weithrediad y Ddeddf, a'r cynnydd a wnaed, dair blynedd ar ôl cyhoeddi'r strategaeth awtistiaeth, ac ar ôl hynny heb fod yn hwy na bob tair blynedd. Mae is-adran (9) yn mynnu bod y strategaeth yn cael ei hadolygu ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwnnw ac mae is-adran (10) yn cynnwys gofyniad i ymgynghori. I osgoi dyblygu ymdrechion ac oedi, mae is-adran (11) yn galluogi camau sydd wedi'u cymryd cyn i'r adran ddod i rym i fodloni gofynion yr adran.

Adran 2 – Cynnwys y strategaeth awtistiaeth

14. Mae adran 2(1) yn cynnwys rhestr, nad yw'n gynhwysfawr, o faterion y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy yn y strategaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- sefydlu modelau arfer gorau;
- datblygu llwybr ar gyfer gwasanaethau;
- darparu ar gyfer asesiadau a chyfarfodydd diagnostig;
- darparu ar gyfer asesiadau o anghenion gofal a chymorth;
- sicrhau na wrthodir mynediad i bersonau at wasanaethau ar sail cyniferydd deallusrwydd (IQ) neu oherwydd eu bod yn cael gwasanaethau eraill;
- amlinellu sut y dylai cyrff perthnasol ddiwallu anghenion pobl ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth trwy gael mynediad at yr ystod o wasanaethau amrywiol;
- sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i bob person, ac yn gyson ledled Cymru;

- sicrhau gwasanaeth di-dor, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio rhwng plentyndod a dod yn oedolyn;
- rhoi pwyslais ar gefnogi teuluoedd a gofalwyr;
- ystyried dymuniadau unigolion a'u teuluoedd a'u gofalwyr;
- pwysleisio arloesedd a gwelliant wrth gomisiynu a chyflenwi gwasanaethau;
- comisiynu ymchwil a chasglu data, a'u cyhoeddi;
- gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth;
- nodi gweithwyr proffesiynol allweddol a darparu hyfforddiant priodol iddynt; a
- sefydlu'r seilwaith a'r arweinyddiaeth angenrheidiol i fonitro a hyrwyddo'r modd y caiff y strategaeth awtistiaeth ei gweithredu.

15. Mae adran 2(2) yn caniatáu i Weinidogion Cymru gynnwys yn y strategaeth unrhyw fater arall y maent yn ei ystyried yn briodol ac o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad pe bai wedi'i gynnwys mewn Deddf Cynulliad.

Adran 3 – Cyfuno asesiadau

16. Mae'r adran hon yn caniatáu i gyrff perthnasol gyfuno asesiadau unigolyn at ddibenion y Ddeddf hon gydag asesiadau eraill sy'n cael eu cynnal mewn perthynas â'r unigolyn hwnnw.

Adran 4 – Canllawiau gan Weinidogion Cymru

17. Mae adran 4 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i gyrff perthnasol ynghylch sut y dylent arfer eu swyddogaethau i weithredu'r strategaeth awtistiaeth. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r canllawiau gael eu cyhoeddi dim hwyrach na thri mis ar ôl cyhoeddi'r strategaeth. Hefyd, rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r canllawiau yn gyson a chaniateir iddynt eu diwygio. Mae is-adran (5) yn cynnwys yr ystyriaethau ar gyfer adolygiad o'r fath, tra bod is-adran (6) yn nodi materion sydd i'w cynnwys yn y canllawiau:

- sut mae personau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth yn cael eu nodi;

- sut mae gofalwyr i gael eu pennu at ddibenion y Ddeddf;
- darparu gwasanaethau asesu diagnostig a gwasanaethau asesu anghenion;
- y gweithwyr proffesiynol allweddol sydd i'w cynnwys mewn timau asesu diagnostig;
- hyfforddi staff; a
- threfniadau arweinyddiaeth leol.

18. Mae is-adran (7) yn cynnwys gofynion ymgynghori ac mae is-adran (8) yn galluogi camau sydd wedi'u cymryd cyn i'r adran ddod i rym i fodloni gofynion yr adran.

Adran 5 – Cyrff perthnasol: cydymffurfio â'r strategaeth a'r canllawiau awtistiaeth

19. Mae adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol (gweler adran 9) gydymffurfio â'r strategaeth awtistiaeth a'r canllawiau pan fyddant yn arfer eu swyddogaethau o ran cynllunio a darparu gwasanaethau i bersonau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth.

Adran 6 –Data ar anhwylder sbectrwm awtistiaeth

20. Mae adran 6 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gael, cynhyrchu a diweddaru'r data sydd eu hangen arnynt i arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, a chyhoeddi'r data hynny bob blwyddyn.

21. Caiff Gweinidogion Cymru ofyn am ddata o dan is-adran (2) ac mae is-adran (3) yn gosod dyletswydd ar gyrff perthnasol i ddarparu'r data hynny, ac yn ddienw. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi data dienw yn unig, ac mae is-adran (5) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddarparu unrhyw ddata dienw y gofynnir amdanynt at ddibenion yr adroddiad annibynnol sydd i'w baratoi o dan adran 1(7). Y rheswm dros ei gwneud yn ofynnol bod y data yn ddienw yw cyfyngu ar brosesu data personol a'r ymyrraeth â hawliau preifatrwydd.

22. Mae is-adran (6) yn nodi'r categorïau o ddata sydd i'w casglu gan gyrff y GIG (gweler adran 9) i'w cynorthwyo i wneud diagnosis a darparu gwasanaethau i bersonau ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth ac i alluogi cyrff y GIG i ddarparu data dibynadwy ar anhwylder sbectrwm awtistiaeth i Weinidogion Cymru o dan is-adran (2).

23. Mae is-adran (6) (j) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi categorïau ychwanegol o ddata drwy reoliadau.

Adran 7 – Ymgyrch ymwybyddiaeth

24. Mae is-adrannau (1) a (2) yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn cynnal ymgyrch barhaus i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion pobl ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth ymhlith y cyhoedd, cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau. Mae is-adran (3) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod gwybodaeth am gynnydd ac effeithiolrwydd yr ymgyrch yn cael ei chynnwys mewn unrhyw adroddiad a gaiff ei baratoi o dan adran 1(7).

Adran 8 – Dyletswydd i roi sylw i Egwyddorion a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

25. Mae adran 8(1) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac unrhyw gorff perthnasol sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn. Mae is-adrannau (2) a (3) yn cynnwys dyletswydd debyg mewn perthynas â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a'i brotocol dewisol.

26. Mae is-adrannau (4) a (5) yn gosod dyletswydd debyg ar gyrff perthnasol mewn perthynas â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae Gweinidogion Cymru eisoes o dan ddyletswydd o'r fath yn rhinwedd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

27. Mae is-adran (6) yn darparu ar gyfer dyroddi canllawiau o dan adran 4 sy'n nodi'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni'r dyletswyddau o dan is-adrannau (1) i (5), ac mae'r is-adrannau hyn i'w dehongli yn unol â hynny.

Adran 9 – Dehongli

28. Mae'r adran hon yn cynnwys nifer o dermau diffiniedig, rhai ohonynt trwy gyfeirio at ddarpariaethau eraill y Ddeddf.

29. Diffinnir 'anhwylder sbectrwm awtistiaeth' drwy gyfeirio at y Dosbarthiad Rhyngwladol o glefydau Sefydliadau Iechyd y Byd. Fodd bynnag, caiff Gweinidogion Cymru ymestyn y dosbarthiad hwnnw drwy reoliadau at ddibenion y Ddeddf i gynnwys anhwylderau niwroddatblygiadol eraill.

30. Ystyr 'corff perthnasol' yw awdurdod lleol, corff GIG ac unrhyw gyrff eraill a ragnodir gan Weinidogion Cymru yn y rheoliadau. Awdurdodau lleol yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru.

31. Cyrff y GIG yw Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig. Yr Ymddiriedolaethau GIG perthnasol yw Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Yr Awdurdodau Iechyd Arbennig perthnasol yw Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG, Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Adran 10 – Rheoliadau

32. Mae'r adran hon yn esbonio bod pwerau i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf yn arferadwy drwy offeryn statudol (sy'n golygu bod rhai gofynion gweithdrefnol a gofynion eraill a gynhwysir yn Neddf Offerynnau Statudol 1946 yn gymwys mewn perthynas â rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf) ac yn pennu y bydd y weithdrefn gadarnhaol yn gymwys bob tro y defnyddir y pwerau i wneud rheoliadau. Mae hyn yn golygu bod unrhyw reoliadau a wneir o dan y Ddeddf yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth benodol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

33. Y pwerau perthnasol i wneud rheoliadau yw:

- y pŵer i ragnodi categorïau ychwanegol o ddata i'w casglu gan gyrff y GIG (adran 6(6)(j));
- y pŵer i ragnodi anhwylderau niwroddatblygiadol ychwanegol fel 'anhwylderau sbectrwm awtistiaeth' at ddibenion y Ddeddf hon (adran 9(1)); a'r
- pŵer i ragnodi cyrff perthnasol ychwanegol (hefyd yn adran 9(1)).

Adran 11 – Dod i rym

34. Mae adran 11 yn pennu y bydd darpariaethau'r Ddeddf yn dod i rym dri mis ar ôl i'r Ddeddf gael y Cydsyniad Brenhinol.

Adran 12 – Enw byr

35. Mae'r adran hon yn datgan mai enw byr y Ddeddf fydd Deddf Awtistiaeth (Cymru) 2019

Atodiad: Mynegai o Ofynion y Rheolau Sefydlog

Mae Rheol Sefydlog 26.6 yn ei gwneud yn ofynnol i ddogfennau penodol gyd-fynd â Bil. Mae'r mynegai a ganlyn yn nodi ymhle y gellir dod o hyd i'r rhain yn y Memorandwm Esboniadol.

Tabl 21: Mynegai o Ofynion y Rheolau Sefydlog

Rheol Sefydlog		Adran	Tudalennau
26.6(i)	Datganiad y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.	Datganiad yr Aelod	Tudalen 1
26.6(ii)	Nodi amcanion polisi y Bil.	Pennod 5 – Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud a pham	Tudalen 33 ac yn dilyn hynny
26.6(iii)	Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu.	Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol	Tudalen 60 ac yn dilyn hynny
26.6(iv)	Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol: (a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu; (b) manylion y Bil, ac (c) Bil drafft, naill ai'n llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau)	Pennod 4 – Cefnogaeth i'r Bil a'r ymgynghoriad cyhoeddus	Tudalen 19 ac yn dilyn hynny

Rheol Sefydlog		Adran	Tudalennau
26.6(v)	Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio.	Pennod 4 – Ymgynghori	Tudalen 19 ac yn dilyn hynny (yn enwedig tudalennau 27 a 31-32)
26.6(vi)	Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.	Amherthnasol – er bod newidiadau i'r Bil wedi deillio o'r ymgynghoriad.	Amherthnasol.
26.6(vii)	Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil.	Rhan 3 – Nodiadau Esboniadol	Tudalen 196 ac yn dilyn hynny

Rheol Sefydlog		Adran	Tudalennau
26.6(viii)	Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol: (a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt; (b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt; (c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil; (d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r costau ac arbedion hynny godi; ac (e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio.	Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol (Pennod 9: Opsiwn 2)	Tudalen 98 ac yn dilyn hynny
26.6(ix)	Nodi unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol.	Pennod 18. Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol na ellir eu mesur yn ariannol.	Tudalen 188

Rheol Sefydlog		Adran	Tudalennau
26.6(x)	Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath: (a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer; (b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac (c) y weithdrefn Cynulliad (os oes un) y mae'r isddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall);	Pennod 6 - Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	Tudalen 58 ac yn dilyn hynny
26.6(xi)	Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio.	Nid yw gofynion Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn gymwys i'r Bil hwn.	Tudalen 102 (mae'n egluro na chodir gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.)
26.6(xii)	Nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.	Pennod 19 - Yr Effaith ar y System Gyfiawnder	Tudalen 189 ac yn dilyn hynny

Rheol Sefydlog		Adran	Tudalennau
26.6A	Rhaid i'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil ddatgan lle ynddo yn union y gellir dod o hyd i bob un o ofynion Rheol Sefydlog 26.6, drwy gyfrwng mynegai neu mewn rhyw ffordd arall.	Atodiad: Mynegai o Ofynion y Rheolau Sefydlog	Tudalen 204 ac yn dilyn hynny
26.6B	Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol.	Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6B ar gyfer Tabl Tarddiadau yn gymwys i'r Bil hwn gan fod y Bil yn ddarn annibynnol o ddeddfwriaeth nad yw'n deillio o deddfwriaeth sylfaenol bresennol at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi.	Amherthnasol.
26.6C	Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil.	Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6C ar gyfer Atodlen o Ddiwygiadau yn berthnasol i'r Bil hwn gan nad yw'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol.	Amherthnasol.